Cymwys ar gyfer y Dyfodol:

Y dewis cywir i Gymru

Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cynhyrchwyd ar gyfer Cymwysterau Cymru
gan Opinion Research Services
Gorffennaf 2021

Opinion Research Services

The Strand Abertawe SA1 1AF
01792 535300 | www.ors.org.uk | info@ors.org.uk

Yn yr un modd â'n holl astudiaethau, mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn destun Telerau ac Amodau Contract Safonol Opinion Research Services.

Mae unrhyw ddatganiad i'r wasg neu gyhoeddiad o ganfyddiadau'r adroddiad hwn yn gofyn cymeradwyaeth ORS ymlaen llaw. Dim ond ar sail anghywirdeb neu gamliwio y gwrthodir cymeradwyaeth o'r fath.

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon yn unol ag ISO 20252:2012 ac ISO 9001:2008.

Hawlfraint © Gorffennaf 2021

Cynnwys

1. Rhestr termau 1

2. Cyflwyniad 2
   - 2.1. Cefndir 2
   - 2.2. Methodoleg 3
   - 2.3. Y dadansoddiad 4
   - 2.4. Yr adroddiad 5

3. Y Celfyddydau Mynegiannol 7
   - 3.1. Cynnig 1 7
   - 3.2. Cynnig 2 12
   - 3.3. Cynnig 3 16
   - 3.4. Cynnig 4 21

4. Iechyd a Lles 25
   - 4.1. Cynnig 1 25
   - 4.2. Cynnig 2 33

5. Y Dyniaethau 41
   - 5.1. Cynnig 1 41
   - 5.2. Cynnig 2 51
   - 5.3. Cynnig 3 56

6. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu 62
   - 6.1. Cynnig 1 62
   - 6.2. Cynnig 2 68
   - 6.3. Cynnig 3 75
   - 6.4. Cynnig 4 80

6.5. Cynnig 5 83

6.6. Cynnig 6 89

7. Mathemateg a Rhifedd 92
7.1. Cynnig 1 92

7.2. Cynnig 2 96

7.3. Cynnig 3 101

8. Gwyddoniaeth a Thechnoleg 104
8.1. Cynnig 1 104

8.2. Cynnig 2 110

8.3. Cynnig 3 116

8.4. Cynnig 4 124

9. Sgiliau Cyfannol 130
9.1. Cynnig 1 130

10. Asesiad Effaith 134
10.1. Cwestiwn effaith 1 134

10.2. Cwestiwn effaith 2 139

10.3. Cwestiwn effaith 3 141

10.4. Cwestiwn effaith 4 143

10.5. Cwestiwn effaith 5 145

1. Rhestr termau

Acronym / Gair allweddol	Diffiniad
ABCh	Addysg Bersonol a Chymdeithasol
ABGIE	Addysg Bersonol, Gymdeithasol, Iechyd ac Economaidd
ADA	Asesiad Di-arholiad
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
AGG	Addysg Grefyddol a Gwerthoedd
Bagloriaeth Cymru	Bagloriaeth Cymru
BSL	Iaith Arwyddion Prydain
BTEC	Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg
CAD	Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur
CAM	Gweithgynhyrchu gyda Chymorth Cyfrifiadur
CEFR	Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd
CiG	Cwricwlwm i Gymru
CAA	Cyfleuster Addysgu Arbenigol
CBAC	Cyd-bwyllgor Addysg Cymru: WJEC CBAC Cyfyngedig (Corff dyfarnu)
Cymwysterau Cymru	Cymwysterau Cymru
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
E-BAC / EBacc	Bagloriaeth Lloegr
FfCD	Fframwaith Cymhwysedd Digidol
GNVQ	Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol
ISTD	Cymdeithas Imperial Athrawon Dawnsio
ITM	Ieithoedd Tramor Modern
Maes	Maes Dysgu a Phrofiad
MAT	Mwy Abl a Thalentog
NVQ	Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol
OECD	Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd
PISA	Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol
RhMD	Rhaglen Maes Dysgu
SHC	Sgiliau Hanfodol Cymru
SIY	Saesneg fel Iaith Ychwanegol
STEM	Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg
TAR	Tystysgrif Addysg i Raddedigion
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
UCD	Uned Cyfeirio Disgyblion

2. Cyflwyniad

2.1. Cefndir

Ar hyn o bryd, mae Cymwysterau Cymru yn adolygu'r prif gymwysterau a gymerir gan bobl ifanc 14 i 16 oed yng Nghymru. Hyd yma, mae'r adolygiad hwn wedi cynnwys dau ymgynghoriad cyhoeddus o'r enw Cymwys ar gyfer y dyfodol.

Cynhaliwyd y cyntaf o'r ymgynghoriadau hyn yn 2019-20 ac fe'i harweiniwyd gan Arad Research a'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA)[1]. Yn dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol, cytunodd Cymwysterau Cymru y dylai'r prif gymwysterau a gymerir gan bobl ifanc 14 i 16 oed gael eu galw'n TGAU o hyd, ond y dylai cynnwys ac asesiad cymwysterau TGAU newid i ddiwallu anghenion y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r dadansoddiad o ganfyddiadau'r ail ymgynghoriad yn y gyfres Cymwys ar gyfer y dyfodol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn gan Opinion Research Services (ORS) rhwng 27 Ionawr ac 16 Ebrill 2021. Mae dogfennau ymgynghori llawn ar gael yma ar wefan Cymwysterau Cymru.

Nod yr ymgynghoriad oedd casglu barn ar y pynciau TGAU a chymwysterau eraill a ddylai fod ar gael i ysgolion i'w helpu i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru newydd a diwallu anghenion dysgwyr. Pan fydd Cymwysterau Cymru wedi cytuno ar y prif gymwysterau gwneud-i-Gymru, byddant wedyn yn datblygu ac yn ymgynghori ar gynlluniau manwl ar gyfer pob un, gan gynnwys cynnwys a dulliau asesu. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn cymryd camau i sicrhau bod ystod o gymwysterau eraill ar gael, ochr yn ochr ag unrhyw gymwysterau gwneud-i-Gymru.

Datblygodd Cymwysterau Cymru gynigion penodol ar gyfer yr ymgynghoriad a oedd yn cwmpasu'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad ('Meysydd'), fel y'u disgrifir yng Nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ('Canllawiau'r Cwricwlwm'[2]). Y chwe Maes yw:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

[1] Cymwysterau Cymru / Y stori hyd yma
[2] Cwricwlwm i Gymru - Hwb (llyw.cymru)

2.2. Methodoleg

Bu Cymwysterau Cymru yn hyrwyddo ac yn cylchredeg yr ymgynghoriad drwy amrywiaeth o sianeli i hybu ymwybyddiaeth rhanddeiliaid. Fodd bynnag, am fod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn ystod cyfyngiadau COVID-19, ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb. Yn hytrach, cynhaliodd Cymwysterau Cymru gyfres o weminarau ar-lein[3] a oedd yn targedu grwpiau rhanddeiliaid penodol. Cynhaliodd Youth Cymru hefyd rai digwyddiadau ar-lein ar gyfer pobl ifanc ar ran Cymwysterau Cymru.

Casglwyd ymatebion i'r ymgynghoriad yn bennaf drwy arolwg ar-lein a gynhaliwyd gan ORS. Roedd fersiwn sy'n addas i bobl ifanc (cryno) o'r arolwg hefyd ar gael, i'w gwblhau ar-lein, ac fel PDF y gellir ei argraffu. Roedd fersiynau safonol a chyfeillgar i bobl ifanc (cryno) yr arolwg ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn ogystal â'r arolwg ar-lein, roedd modd e-bostio neu bostio ymatebion i'r ymgynghoriad.

Roedd pob fersiwn o'r ymgynghoriad yn cynnwys yr un cwestiynau craidd a chyfres o gwestiynau am effaith y cynigion. Ar gyfer pob cynnig, gwahoddwyd ymatebwyr i gwblhau cwestiwn caeedig, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddatgan i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno ag ef neu'r effaith yr oeddent yn disgwyl i'r cynnig ei chael, a chwestiwn penagored, a oedd yn caniatáu iddynt fynegi eu barn yn fanwl. Geiriwyd y fersiwn sy'n gyfeillgar i bobl ifanc (cryno) mewn ffordd briodol i bobl ifanc.

Yn gyffredinol, cafwyd 1,501 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys:

- 1,033 (84%) o ymatebion i'r prif ymgynghoriad;
- 203 (16%) o ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n gyfeillgar i bobl ifanc; a
- 12 o ymatebion a gafwyd drwy e-bost, a 253 o ymatebion bron yn union yr un fath gan aelodau Cymdeithas yr Iaith[4] a oedd yn mynd i'r afael â chwestiynau'r Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn yr ymgynghoriad.

Ni chafwyd ymatebion drwy'r post. Mae'r isadran ganlynol yn esbonio sut y cafodd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi a'u hadrodd.

Roedd yr arolygon wedi'u strwythuro yn unol â'r Meysydd, gan ganiatáu i ymatebwyr ganolbwyntio ar eu maes/meysydd diddordeb. Mae'r 1,236 o ymatebion i'r arolwg ar-lein yn cynnwys y rhai a atebodd nifer fach o gwestiynau yn unig, yn ogystal â'r rhai a atebodd y rhan fwyaf neu bob un ohonynt.

Yn y tabl isod ceir trosolwg eang o'r gwahanol fathau o ymatebwyr i'r arolwg ar-lein. Mae gweithwyr addysg proffesiynol yn gyfrifol am gyfran fawr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

---

[3] Mae rhagor o fanylion a recordiadau o'r gweminarau ar gael yma: Cymwysterau Cymru / Gweminarau Ymgynghori – Cymwys ar gyfer y dyfodol – y dewis cywir i Gymru

[4] Hafan | Cymdeithas yr Iaith

Bras gategori o ymatebydd	Nifer yr ymatebwyr
Dysgwr	113
Gweithiwr addysg proffesiynol	745
Rhiant / gofalwr / aelod o'r cyhoedd	106
Arall	67
Heb ei nodi	205
Cyfanswm yr ymatebwyr	1,236

2.3. Y dadansoddiad

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 23 o gwestiynau caeedig, sydd wedi'u dadansoddi ac a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ar ffurf siart, a 28 o gwestiynau penagored, a gafodd eu codio a'u dadansoddi'n thematig. Roedd ORS yn cynnwys yr holl ymatebion a gafwyd yn y dadansoddiad. Lle cafwyd ymatebion i'r ymgynghoriad ar wahân i'r arolwg strwythuredig, ystyriwyd yr holl adborth.

Cafodd y rhan fwyaf o'r ymatebion a gafwyd drwy e-bost eu mewnbynnu fel data gan dîm ORS a'u huno â set ddata'r arolwg gan ddefnyddio Excel. Rhoddodd rhai o'r ymatebion a gafwyd drwy e-bost farn fanwl ar gynigion penodol. Nid yw bob amser yn bosibl uno pob ymateb e-bost â data'r arolwg yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, lle'r oedd rhannau o'r adborth o fewn ymatebion e-bost yn ymwneud yn uniongyrchol ag un neu fwy o'r cynigion a gafodd sylw mewn cwestiynau yn yr ymgynghoriad, cafodd hyn ei fewnbynnu fel data gan dîm ORS, ei uno â data'r arolwg ar gyfer codio a dadansoddi, a'i adrodd yn adran berthnasol yr adroddiad hwn.

Mae'r ymatebion gan Gymdeithas yr Iaith yn rhoi adborth ar farn a phryderon y sefydliad am y cynigion a oedd yn ymwneud â chymwysterau iaith Gymraeg ac felly mae'n rhaid rhoi ystyriaeth briodol iddynt. Mae'r ymatebion gan Gymdeithas yr Iaith wedi'u cynnwys yn y set ddata fel un safbwynt, gan roi ystyriaeth briodol i nifer yr ymatebwyr y tu ôl i'r safbwynt hwn, fel y dangosir yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Nid oedd ambell ymateb arall a gafwyd drwy e-bost yn ymwneud â chwestiynau penodol yr ymgynghoriad ond roeddent yn adlewyrchu safbwyntiau ehangach mewn perthynas â'r ymgynghoriad. Ni chynhwyswyd yr ymatebion hyn yn y dadansoddiad ond fe'u rhannwyd gyda Cymwysterau Cymru er mwyn iddynt eu hystyried.

I ddechrau, tynnodd tîm codio ORS fân wallau sillafu o'r data. Yna, cafodd y data ei adolygu a'i drefnu'n fras themâu cyffredinol a oedd yn crynhoi'r prif deimladau a fynegwyd yn adborth yr ymatebwyr. Yna datblygodd y codwyr fframiau codio[5] ar gyfer pob cwestiwn penagored yn seiliedig ar y themâu cyffredinol. Datblygwyd pob ffrâm codio gan ddau godwr yn cydweithio i sicrhau bod yr holl godau'n cael eu creu'n gyson. Rhannwyd y fframiau codio gyda Cymwysterau Cymru i gael sylwadau arnynt cyn symud ymlaen i'r cam dadansoddi ac adrodd manwl.

[5] Mae ffrâm codio yn rhestru'r holl themâu sy'n bresennol o fewn set ddata ansoddol. Fe'i defnyddir i strwythuro a threfnu'r data o dan bob thema, gan drin pob cod gyda'r un lefel o fanylion a phwysigrwydd.

Yn dilyn adborth gan Cymwysterau Cymru, dadansoddodd ymchwilwyr ansoddol ORS y data wedi'i godio yn fanwl, gan fireinio'r themâu a thynnu allan y mân awgrymau o fewn y data. Er mwyn sicrhau cysondeb, trafododd yr ymchwilwyr y themâu ar y cyd i gytuno sut y dylid eu dehongli a'u cyflwyno yn yr adroddiad.

2.4. Yr adroddiad

Mae Adran 3 o'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad o dan y themâu allweddol a ddeilliodd ohonynt. Mae'r adran hon wedi'i strwythuro yn unol â'r cynigion a'r cwestiynau cyfatebol yn yr ymgynghoriad.

Mae pob is-adran yn cyflwyno pob cynnig, siart sy'n dangos i ba raddau y cytunwyd â'r cynnig, disgrifiad o'r data cwestiynau caeedig a gafwyd, ac yna trafodaeth ar y themâu a'r prif bwyntiau a wnaed o fewn yr adborth a gafwyd drwy'r cwestiynau penagored. Mae'r themâu'n cael eu trefnu yn ôl cryfder y teimlad o dan bob cynnig.

Cafodd pob cwestiwn caeedig a phenagored nifer wahanol o ymatebion. Efallai na fydd y canrannau a ddangosir ar gyfer y cwestiynau caeedig yn gywerth o hyd â 100% oherwydd eu bod wedi'u talgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

Mae'r pwyntiau a wnaed a'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad yn seiliedig yn gyfan gwbl ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Nid ydynt yn adlewyrchu barn ORS na Cymwysterau Cymru.

Nid yw'r adroddiad yn cyflwyno nifer yr ymatebwyr a gododd bob thema. Yn hytrach, mae'n defnyddio termau fel, "rhai", "ychydig", "y rhan fwyaf", a "llawer", i ddangos cryfder y teimlad yn fras.

Drwy gydol yr ymatebion i'r ymgynghoriad, cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at "Cyfnodau Allweddol" 2 i 5, "pynciau craidd", ac "leithoedd Tramor Modern" ("ITM") yn eu hadborth. Nid yw Cyfnodau Allweddol, pynciau craidd ac ITM yn bodoli yn y Cwricwlwm i Gymru newydd, er eu bod yn nodwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol presennol. Mae Cyfnod Allweddol 2 yn cyfateb i Flynyddoedd 3-6; Cyfnod Allweddol 3 i Flynyddoedd 7-9, Cyfnod Allweddol 4 i Flynyddoedd 10-11, a Chyfnod Allweddol 5 i Flynyddoedd 12-13. Pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol presennol yw Cymraeg a Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae ITM yn cynnwys Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Er mwyn adlewyrchu adborth ymatebwyr yn gywir, mae cyfeiriadau at y termau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad fel dyfyniadau, lle bo hynny'n berthnasol.

Roedd yr ymatebion i rai o'r cwestiynau penagored yn awgrymu bod rhai ymatebwyr wedi camddeall rhai cynigion penodol. Drwy gydol yr adroddiad, fe'i gwneir yn glir lle mae hyn yn digwydd. Beth bynnag fo unrhyw gamddealltwriaeth bosibl o'r cynigion, mae ORS wedi ystyried yr holl adborth yn gyfartal. Mae hyn yn sicrhau bod lleisiau'r holl ymatebwyr yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi i'r un graddau. Y cynigion y mae rhai ymatebwyr fel petaent wedi'u camddeall oedd:

- Cynnig 3 y Celfyddydau Mynegiannol: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i sicrhau bod dewis o gymwysterau sy'n asesu dawns yn parhau i fod ar gael i ddysgwyr ac ysgolion?

- Cynnig 4 y Celfyddydau Mynegiannol: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i barhau i roi dewis o gymwysterau yn y Celfyddydau Mynegiannol i ysgolion sy'n cynnig dull amlddisgyblaethol?
- Cynnig 3 y Dyniaethau: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu TGAU integredig newydd yn y Dyniaethau os yw'n ymarferol bosib?
- Cynnig 3 Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cyfres o gymwysterau bach sgiliau iaith Cymraeg y gellir eu cymryd yn ychwanegol at TGAU i gefnogi dilyniant ar hyd y continwwm Cymraeg?
- Cynnig 2 Mathemateg a Rhifedd: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster bach newydd y gellir ei gymryd yn ychwanegol at y TGAU i asesu hyfedredd rhifiadol dysgwr, gan ddefnyddio dull asesu ar y sgrîn?
- Cynnig 1 Gwyddoniaeth a Thechnoleg: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i adolygu a diwygio TGAU mewn Cyfrifiadureg, yr Amgylchedd Adeiledig, Dylunio a Thechnoleg, a Thechnoleg Ddigidol?

3. Y Celfyddydau Mynegiannol

3.1. Cynnig 1

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i adolygu a diwygio TGAU mewn Celf a Dylunio, Drama a Cherddoriaeth?

Ffigur 1: Lefel y cytundeb â phob pwnc yng nghynnig 1 ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol



Atebodd tua 250 o bobl gwestiynau ar bob un o'r pynciau yn y cynnig hwn, yn amrywio o 253 ar gyfer Celf a Dylunio i 248 ar gyfer Drama. Roedd tua saith o bob deg yn cytuno â'r cynnig i adolygu a diwygio'r tri chymhwyster TGAU a drafodwyd. Roedd ychydig dros un o bob deg yn anghytuno â'r cynnig i ddiwygio Celf a Dylunio (11%) a Drama (11%), er i hyn godi i 14% ar gyfer Cerddoriaeth. Rhoddodd 60% (150 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod. Er mai'r cynnig oedd adolygu a diwygio'r cymwysterau, a hynny'n cael cefnogaeth gref, manteisiodd yr ymatebwyr hefyd ar y cyfle i godi ystod o bwyntiau cysylltiedig.

3.1.1. Cadw cymwysterau TGAU ar wahân ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol

Pwysleisiwyd yr angen i gadw TGAU Celf a Dylunio, TGAU Drama a TGAU Cerddoriaeth gan lawer o ymatebwyr. Mynegodd bron pob un o'r dysgwyr a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn gefnogaeth i gadw cymwysterau TGAU ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol fel disgyblaethau ar wahân i ddarparu ar gyfer eu cryfderau a'u dewisiadau.

Roedd teimlad cryf bod pynciau'r celfyddydau mynegiannol yn aml yn cael eu diystyru ac y dylid annog dysgwyr i ymwneud yn fwy â nhw. Teimlwyd y byddai cadw cymwysterau ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol fel cymwysterau TGAU ar wahân yn helpu i'w hatal rhag cael eu gwthio i'r cyrion gan bynciau *"craidd"*.

Teimlai'r ymatebwyr y byddai cadw cymwysterau ar wahân ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol yn helpu'r pynciau i gadw eu gwerth a'u hunaniaeth. Dywedwyd y byddai mwy o ddefnydd o'r pynciau hefyd yn cyfoethogi addysg dysgwyr, gan gefnu ar ffocws rhy drwm ar bynciau mwy *"academaidd"*.

"Dywedir wrth ormod o ddysgwyr am astudio pynciau 'academaidd' fel y'u gelwir ac mae pynciau'r celfyddydau mynegiannol yn dal i gael eu hystyried yn eilradd i'r pynciau hyn. Mae angen i rieni a dysgwyr ddeall gwerth a phwysigrwydd creadigrwydd ym mywyd dysgwyr"
Gweithiwr addysg proffesiynol

I'r gwrthwyneb, teimlai rhai ymatebwyr y dylid datblygu TGAU Celfyddydau Mynegiannol amlddisgyblaethol gyfunol (gan gynnig y cyfle o bosibl i arbenigo drwy fodiwl pwnc-benodol) i ehangu'r dewis i ddysgwyr sy'n dymuno astudio mwy nag un TGAU ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol.

"Fy nghwestiwn yw hyn - sut mae'r TGAU hwn yn galluogi dysgwyr i wireddu'r pedwar diben? Sut mae'r cynnig hwn yn sicrhau tegwch i'n dysgwyr? Sut mae'r cynnig hwn yn sicrhau bod pob dysgwr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y celfyddydau mynegiannol wrth ddysgu ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill? Mae cyfle wedi'i golli i gynllunio TGAU hollol wahanol sy'n cwmpasu'r tair agwedd yn y broses greadigol"
Gweithiwr addysg proffesiynol

3.1.2. Dilyniant, arbenigedd a sgiliau dysgwyr

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai cadw cymwysterau TGAU ar wahân mewn celf a dylunio, drama a cherddoriaeth yn galluogi dysgwyr i ennill ystod eang o brofiad ac y byddai'n eu cefnogi i symud ymlaen yn eu meysydd dewisol. Dywedwyd bod y cymwysterau TGAU ar wahân yn cwmpasu ystod eang o gynnwys sy'n meithrin sgiliau gwerthfawr ac amrywiol a gwybodaeth bwnc ddofn. Dywedwyd bod hyn yn helpu dysgwyr i baratoi'n dda ar gyfer cymwysterau ôl-16 a'r byd gwaith yn eu meysydd pwnc arbenigol.

Tynnodd sawl ymatebydd sylw at bwysigrwydd y sgiliau y mae dysgwyr yn eu datblygu drwy astudio pynciau'r celfyddydau mynegiannol, a'r angen i gadw datblygiad sgiliau ym mlaen y pynciau hyn. Ymhlith y sgiliau penodol a amlygwyd oedd creadigrwydd, hyder, mynegiant, cyfathrebu, datrys problemau, a meddwl yn feirniadol.

Nododd eraill y gall cymwysterau ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol arwain at gyfleoedd mewn diwydiant pwysig sy'n tyfu'n gyflym, yng Nghymru a thramor. Dywedasant hefyd fod TGAU Drama yn rhoi sgiliau trosglwyddadwy a chyflogadwyedd gwerthfawr i ddysgwyr.

3.1.3. Cynnwys ac asesu'r cymwysterau

Gwnaeth llawer o'r ymatebwyr awgrymiadau ar sut y dylid asesu'r cymwysterau TGAU newydd ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol yn y dyfodol. Roedd rhywfaint yn teimlo y dylent gadw ffocws cryf ar waith ymarferol yn hytrach nag asesiad ysgrifenedig ac agweddau damcaniaethol. Awgrymwyd hefyd y dylid cael dull cyson o asesu ar draws pob TGAU celfyddydau mynegiannol newydd.

Nododd ymatebwyr a fynegodd y farn hon hefyd y gallai gormod o ffocws ar waith ysgrifenedig ar draul datblygu sgiliau ddigalonni dysgwyr llai abl ac nad yw'n adlewyrchu arfer yn gywir mewn addysg bellach nac addysg uwch, nac ym myd gwaith.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid cymedroli ar gyfer y TGAU Celf a Dylunio newydd wyneb yn wyneb yn hytrach nag ar-lein, er mwyn sicrhau y gellid gwerthfawrogi manylion gweledol gwaith dysgwyr yn llawn.

Yn ôl rhai ymatebwyr, mae angen diweddaru, moderneiddio ac ailwampio cymwysterau ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol i'w gwneud yn fwy perthnasol i ddysgwyr ac i adlewyrchu arfer cyfredol mewn sectorau celfyddydau mynegiannol. Gallai hyn, yn ei dro, helpu i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y pynciau hyn, dywedwyd.

Nododd rhai ymatebwyr fod y TGAU Cerddoriaeth bresennol yn canolbwyntio gormod ar gerddoriaeth draddodiadol neu glasurol. Er mwyn moderneiddio'r cymhwyster hwn, byddai'n elwa ar gynnwys modiwl technoleg cerddoriaeth, neu drwy sicrhau bod technoleg cerddoriaeth ar gael fel TGAU ar wahân, yn ôl rhai ymatebwyr eraill. Nodwyd hefyd y dylid diweddaru TGAU Drama i ymgorffori gwaith mwy cyfoes yn ogystal â chyfeiriadau traddodiadol.

Yn ogystal, teimlai rhai ymatebwyr y dylid cael mwy o barhad mewn addysgeg[6] a chwricwlwm o *"Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 4*[7]" i atgyfnerthu dysgu blaenorol a gwneud dysgu'n fwy deniadol.

"Yn rhai o'r disgyblaethau hyn, bu nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn gostwng. Y rheswm yw nad ydynt i gyd yn berthnasol i'n dysgwyr ifanc. Mae cerddoriaeth yn achos penodol. Er eu bod wedi ymdrechu i foderneiddio (ac nid wyf yn golygu troi cefn ar hanes) nid ydynt wedi symud ymlaen digon. Nid yw'r gwahaniaeth rhwng beth a sut mae disgyblion yn dysgu ar draws CA2 a 3 fel petai'n trosi'n dda iawn ar lefel arholiadau"
Gweithiwr addysg proffesiynol

[6] Dull ac arfer yr addysgu.
[7] Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn, cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at y "Cyfnodau Allweddol" yn eu hadborth. Nid yw Cyfnodau Allweddol yn nodwedd ar y Cwricwlwm i Gymru newydd, er eu bod yn nodwedd ar y Cwricwlwm Cenedlaethol.

3.1.4. Alinio â'r Cwricwlwm i Gymru newydd

Teimlai rhai ymatebwyr fod y cymwysterau presennol ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol yn gweithio'n dda a'u bod yn galluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos eu sgiliau, er bod ambell un yn cydnabod y dylid diweddaru eu haddysgu a'u dysgu er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn llawn â'r cwricwlwm newydd.

Fodd bynnag, teimlai rhai ymatebwyr nad yw'r cynnig yn cyd-fynd yn ddigonol â syniadau, cysyniadau nac athroniaeth y cwricwlwm newydd. Dywedasant fod angen adolygiad mwy radical o'r cymwysterau ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol i fodloni nodau'r cwricwlwm newydd ac anghenion pob dysgwr.

3.1.5. Technoleg, cyfleusterau a staffio

Mae yna angen cynyddol am ymgorffori technoleg a meddalwedd fodern wrth gyflwyno pynciau'r celfyddydau mynegiannol, yn ôl rhai ymatebwyr. Byddai hyn yn gwella sgiliau dysgwyr ac yn adlewyrchu'r defnydd eang o dechnoleg a meddalwedd drwy holl ddiwydiant y celfyddydau mynegiannol. Fodd bynnag, rhybuddiodd rhai na ddylai technoleg fod yn *"rhagofyniad"* ar gyfer addysgu a dysgu cymwysterau ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol. I sicrhau bod dysgwyr ym mhob ysgol yng Nghymru yn gallu cael gafael ar y dechnoleg ddiweddaraf i'w cefnogi i astudio cymwysterau ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol, awgrymodd un ymatebydd y gallai Hwb[8] ganiatáu mynediad i feddalwedd a ddefnyddir yn gyffredin gan ddiwydiannau creadigol.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yn fwy cyffredinol fod angen i bob ysgol gael yn gyfartal at gyllid, cymorth a/neu offer i fodloni'r gofynion technoleg ddigidol uwch sydd eu hangen i alluogi pob dysgwr i gael at gwricwlwm y Celfyddydau Mynegiannol. Pwysleisiwyd hefyd gael at staff a chyfleusterau arbenigol.

"Mae angen buddsoddi i sicrhau bod plant o bob oed yn gallu cael at gyfleusterau, a dylai hyn fod ar gael yn uniongyrchol i'r ysgolion, nid drwy asiantaethau eraill"
Gweithiwr addysg proffesiynol

3.1.6. Diwallu anghenion pob dysgwr

Yn ôl rhai ymatebwyr, mae angen newid TGAU Cerddoriaeth i'w gwneud yn addas i bob dysgwr. Nodwyd bod y TGAU bresennol yn fwy addas i ddysgwyr o gefndir *"dosbarth canol"*, ac y dylid ailystyried y cwricwlwm a'r dull asesu i gynnwys dysgwyr o bob cefndir.

[8] Hwb yw'r llwyfan digidol ar gyfer dysgu ac addysgu yng Nghymru. Mae Hwb yn cynnig i'w ddefnyddwyr ystod o offer ac adnoddau digidol, dwyieithog a ariennir yn ganolog. Hi yw sianel ddigidol strategol Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r cwricwlwm yng Nghymru.

"Ers dros 40 mlynedd, bu rhai academyddion yn cynnig bod y rheswm pam mae plant dosbarth gweithiol yn 'methu' yn yr ystafell ddosbarth yn gysylltiedig â'r amgylchedd cartref a grybwyllir yn aml, ond hefyd am eu bod yn cael eu gorfodi i ymgysylltu â chwricwlwm a gymerir yn bennaf o ddiwylliant dosbarth canol. Gyda hyn mewn golwg, hoffwn weld ystyriaeth o 'gynnwys' mathau penodol o gerddoriaeth yn y cwricwlwm (sydd eisoes yn digwydd i ryw raddau) - ond hefyd y ffyrdd yr ydym yn annog pobl ifanc i feddwl am gerddoriaeth. Sut y gall CBAC yn benodol sicrhau bod y ffyrdd y mae'n fframio ei asesiad yn cyd-fynd â phob math o gerddoriaeth?"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Teimlai un ymatebydd nad yw arholiad gwrando'r TGAU Cerddoriaeth bresennol yn addas ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Nododd un arall fod BTEC[9] Cerddoriaeth yn fwy addas ar gyfer dysgwyr llai galluog na TGAU Cerddoriaeth.

[9] Mae BTEC yn sefyll am y Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg. Cymwysterau arbenigol sy'n gysylltiedig â gwaith yw BTEC, sydd ar gael mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach a chanolfannau hyfforddi mewn ystod o sectorau.

3.2. Cynnig 2

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu TGAU newydd mewn Ffilm a'r Cyfryngau Digidol?

Ffigur 2: Lefel y cytundeb â chynnig 2 ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol



Ymatebodd cyfanswm o 243 o bobl i'r cwestiwn hwn a chytunodd y mwyafrif (77%) â'r cynnig. Roedd rhieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd, yn arbennig o gefnogol, a gweithwyr addysg proffesiynol oedd y lleiaf tebygol o gytuno'n gryf â chreu'r TGAU newydd hwn. Rhoddodd ychydig dros hanner (51%, 125 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

3.2.1. Dilyniant, arbenigedd a sgiliau dysgwyr

Y thema a fynegwyd amlaf gan y rhai a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn oedd y byddai TGAU mewn Ffilm a'r Cyfryngau Digidol yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau arbenigol gwerthfawr i gefnogi eu hastudiaethau yn y dyfodol a'u paratoi ar gyfer gyrfaoedd mewn diwydiannau ffilm a'r cyfryngau digidol. Pwysleisiodd ambell un fod yn rhaid ystyried llwybrau dilyniant i gymwysterau pellach os datblygir cymhwyster newydd.

"Bydd hyn yn diweddaru'r cymhwyster yn y maes hwn ac yn darparu llwybr mynediad ychwanegol i'r maes poblogaidd hwn yn ogystal â darparu sgiliau parod ar gyfer gwaith sy'n ofynnol gan gyflogwyr"

Gweithiwr addysg proffesiynol

Pwysleisiodd llawer fod gan nifer cynyddol o bobl ifanc ddiddordeb mewn gweithio yn niwydiannau'r celfyddydau mynegiannol, y nodwyd ganddynt eu bod yn tyfu ac yn bwysig. Nodwyd hefyd berthnasedd ehangach y TGAU arfaethedig i fywydau dysgwyr a chymdeithas gyfoes, yn enwedig o ystyried y ddibyniaeth gynyddol ar dechnoleg ddigidol a'r defnydd ohoni.

I'r gwrthwyneb, nid oedd rhai'n teimlo y byddai'r TGAU arfaethedig yn darparu sylfaen ddigon cryf i astudio'r cyfryngau neu ffilm ar lefel Safon Uwch, yn enwedig o'i chymharu â'r TGAU Astudiaethau Cyfryngau bresennol.

3.2.2. Alinio â'r Cwricwlwm i Gymru newydd

Nododd rhai ymatebwyr fod y cymhwyster arfaethedig yn cyd-fynd yn dda â'r Cwricwlwm i Gymru newydd, ac yn cyd-fynd yn dda â chynllun Maes y Celfyddydau Mynegiannol. Fodd bynnag, teimlai ychydig nad yw'r cynnig yn mynd yn ddigon pell.

"Mae'n ymddangos fel ychwanegiad yn hytrach na newid sylfaenol i'r ffordd rydym yn gweithio - sef hanfod y cwricwlwm newydd"

Gweithiwr addysg proffesiynol

3.2.3. Technoleg, cyfleusterau a staffio

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch sut y byddai ysgolion yn sicrhau y gall dysgwyr gael gafael ar y feddalwedd, y dechnoleg a'r offer sydd eu hangen i gyflwyno'r TGAU arfaethedig. Teimlai rhai y gallai goblygiadau cost hyn wneud y cymhwyster yn *"elitaidd"*.

"Mae lefel amddifadedd digidol yn golygu y bydd anfantais amlwg i'r myfyrwyr hynny na allant gael at ystod o offer o'r radd flaenaf, gan wneud y cymhwyster hwn yn elitaidd"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Tynnodd eraill sylw at ddiffyg staff arbenigol gyda'r sgiliau, yr hyder a'r profiad y byddai eu hangen i gyflwyno'r pwnc. Pwysleisiwyd y byddai'r cymhwyster yn golygu ailhyfforddi torfol neu hyd yn oed ddiswyddo staff presennol.

"Nid oes gan ysgolion ddigon o adnoddau, hyder nac arbenigedd hyd yma i gynnig y cymhwyster hwn ac mae angen mynd i'r afael ag ef"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Tynnodd ychydig sylw at y ffaith nad yw'r TAR bresennol[10] yn cwmpasu ffilm a'r cyfryngau digidol i'r graddau sydd eu hangen i gyflwyno'r cymhwyster newydd, ac y dylid mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso yn ymuno â'r proffesiwn gyda'r sgiliau gofynnol.

3.2.4. Defnydd a diddordeb

Roedd rhai ymatebwyr yn rhagweld y byddai TGAU mewn Ffilm a'r Cyfryngau Digidol o ddiddordeb mawr i ddysgwyr (er bod rhai yn anghytuno). Gwelwyd ei bod yn adlewyrchu diddordebau ac arbenigeddau llawer o ddysgwyr. Nododd rhai y byddai'r cymhwyster yn opsiwn da i ddysgwyr nad ydynt yn berfformwyr neu nad ydynt yn rhagori mewn pynciau fel y gwyddorau gymryd rhan mewn disgyblaeth celfyddydau mynegiannol. Teimlwyd y byddai hyn yn eu galluogi i ddewis cymwysterau mewn ystod ehangach o bynciau eraill. Teimlwyd hefyd y byddai'r cymhwyster yn apelio at ddysgwyr y byddai'n well ganddynt astudio sawl agwedd ar astudiaethau'r cyfryngau.

[10] Mae'r Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) yn gymhwyster academaidd mewn addysgu sy'n cyfuno lleoliadau ysgol ag astudio theori addysgu a dysgu.

"Rwy'n credu y byddai'n wych cael yr opsiwn hwn ac rwy'n gwybod y byddwn yn bendant yn dewis hwn fel pwnc pe bai i mi. Mae hyn yn awgrymu y byddai llawer o blant eraill mewn ysgolion hefyd yn hoffi gwneud hyn ac y bydd yn bwnc poblogaidd iawn, sy'n golygu y bydd pawb am ei wneud"
Dysgwr

3.2.5. Cydraddoldeb a gwerth

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr y dylid dylunio'r cymhwyster, os caiff ei fabwysiadu, i sicrhau ei fod yn cael yr un parch a'i fod o'r un gwerth â chymwysterau tebyg sydd ar gael mewn rhannau eraill o'r DU. Nododd eraill y byddai'n gosod astudiaethau ffilm a'r cyfryngau digidol yn gyfartal â phynciau eraill yn y Maes.

"Dylid ystyried yn ofalus sut y bydd y TGAU newydd gwneud-i-Gymru mewn Ffilm a'r Cyfryngau Digidol yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu'r lefel gywir o sgiliau a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â ffilm a'r sgrin o gymharu â'u cymheiriaid sy'n gwneud y cwrs TGAU Astudiaethau Ffilm a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr a gynigir yn Lloegr neu mewn rhai sefydliadau yng Nghymru. Ni ddylai pobl ifanc yng Nghymru gael eu dal yn ôl na'u hatal rhag symud ymlaen i'r maes hwn ymhellach oherwydd y bylchau yn eu darpariaeth cyrsiau"
Gweithiwr addysg proffesiynol

3.2.6. Dylunio cymwysterau

Oherwydd y gorgyffwrdd naturiol rhyngddynt, cytunodd ambell ymatebwr y byddai'n synhwyrol cyfuno pynciau ffilm a'r cyfryngau digidol i greu'r TGAU arfaethedig. Fodd bynnag, teimlai rhai fod potensial i orgyffwrdd neu ddyblygu â phynciau eraill. Er enghraifft, nodwyd bod agweddau cyffredin ar dechnoleg a'r cyfryngau digidol sydd wedi'u cynnwys eisoes efallai mewn cymwysterau TGAU eraill megis Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a Chelf a Dylunio. Roeddent felly'n rhybuddio, os caiff y TGAU newydd hwn ei datblygu, fod yn rhaid ei chynllunio'n ofalus gyda chymwysterau presennol a newydd mewn golwg i atal dyblygu a sicrhau cydlyniad â hwy.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod ffilm a'r cyfryngau digidol yn rhy wahanol fel pynciau ac na ddylid eu cyfuno. Teimlwyd y byddai ceisio eu cyfuno yn arwain at gymhwyster *"gwannach"* nad yw'n addas at y diben.

"Nid wyf yn siŵr pam mae ffilm a'r cyfryngau digidol wedi'u cyfuno yma; maent yn ddwy ddisgyblaeth wahanol iawn. Rwy'n pryderu'n fawr y bydd y cymhwyster arfaethedig yn y pen draw yn stwnsh o wahanol bynciau heb fawr o gydlyniant ac nad yw hynny'n rhoi sgiliau i bobl ifanc sydd eu hangen arnynt i weithredu ar eu mwyaf effeithiol mewn cymdeithas sy'n cael ei gyrru fwyfwy gan y cyfryngau, na'r sgiliau y byddai eu hangen arnynt i symud ymlaen i astudio ymhellach naill ai mewn ffilm neu gyfryngau"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Gwnaed nifer o bwyntiau gwahanol mewn perthynas â'r cymhwyster arfaethedig, fel a ganlyn:

- Byddai croeso i'r cymhwyster gan y byddai'n disodli cynnwys *"hen ffasiwn"* cymwysterau cyfredol mewn ffilm a'r cyfryngau digidol. I'r gwrthwyneb, drwy

ganolbwyntio ar gyfryngau digidol, roedd rhai'n pryderu y byddai mathau mwy traddodiadol o gyfryngau'n cael eu diystyru.

- Dylai'r cymhwyster fod ar gael ochr yn ochr â phynciau cyflenwol ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol megis drama, cerddoriaeth a chelf, efallai fel cymhwyster llai fel y rhai a gynigiwyd ar gyfer Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg.
- Dylai'r cymhwyster sicrhau y dysgir gwybodaeth berthnasol o ansawdd uchel yn eang a dwfn, a rhoi'r cyfle i ddatblygu sgiliau.
- Dylai'r cymhwyster gael ei ddatblygu gan arbenigwyr pwnc, cyflogwyr a chyrff diwydiant, a dylai fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

"Mae angen dybryd am gymhwyster fydd yn datblygu sgiliau a gwybodaeth ym maes ffilm a'r cyfryngau digidol yng Nghymru, gyda'r cymhwyster hwnnw yn benodol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg"[11]

Gweithiwr addysg proffesiynol

- Dylai'r cymhwyster fod yn fodiwlaidd i'w wneud yn hygyrch i ddysgwyr llai galluog oherwydd gallai amrywiaeth y pynciau a'r wybodaeth o fewn y cymhwyster ei gwneud yn heriol iddynt. Gallai cymhwyster modiwlaidd hefyd ganiatáu i ddysgwyr sy'n dymuno arbenigo mewn pynciau cysylltiedig ar lefel Safon Uwch ddewis pynciau sy'n cyd-fynd â'u diddordebau.
- Dylai'r cymhwyster ganolbwyntio ar elfennau mwy ymarferol yn hytrach na theori a dysgu seiliedig ar ymarferwyr, fel y gwelir yn y TGAU Astudiaethau Cyfryngau gyfredol: *"gwneud ffilmiau yn hytrach na'u dadansoddi" (Gweithiwr addysg proffesiynol)*.

Gwnaeth eraill yr awgrymiadau penodol canlynol ynghylch cynnwys y TGAU Ffilm a'r Cyfryngau Digidol arfaethedig.

- Dylid cynnwys astudio cerddoriaeth er mwyn osgoi mentro *"anfanteisio dysgwyr",* o ystyried ei arwyddocâd o fewn y diwydiant.
- Mae angen ystyried dulliau amrywiol o archwilio, cyfathrebu a chreu gwaith gan ddefnyddio cyfryngau digidol.
- Dylai'r TGAU gysylltu'n glir â'r Maes Celfyddydau Mynegiannol drwy ymgorffori gwahanol bynciau megis celf, y celfyddydau perfformio, a chyfansoddi neu gynhyrchu cerddoriaeth, ac effeithiau sain yn benodol ar gyfer ffilm.
- Dylid gwneud cysylltiadau hefyd â Meysydd eraill, er enghraifft gyda gwyddoniaeth a thechnoleg drwy gyfrifiadura, a chyda mathemateg a rhifedd ar gyfer cyflymderau caead a fframiau amser.
- Dylid cynnwys moeseg a newyddion ffug fel pynciau.

[11] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

3.3. Cynnig 3

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i sicrhau bod dewis o gymwysterau sy'n asesu dawns yn parhau i fod ar gael i ddysgwyr ac ysgolion?

Ffigur 3: Lefel y cytundeb â chynnig 3 ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol



Roedd cyfanswm o 232 o bobl yn rhoi gradd i'r cynnig hwn, ac roedd yr ymateb cyffredinol yn gadarnhaol gyda thros ddau o bob tri o bobl (69%) yn cytuno. Ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol, cododd y cytundeb i 72% ond syrthiodd i 59% ymhlith dysgwyr.

Rhoddodd ychydig dros hanner (52%, 121 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod. Gwnaeth llawer o'r rhai a gytunodd â'r cynnig hwn sylwadau arno yn seiliedig ar y camddealltwriaeth fod Cymwysterau Cymru wedi cynnig darparu TGAU mewn Dawns gwneud-i-Gymru. I'r gwrthwyneb, roedd y rhan fwyaf o'r lleill a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn yn myfyrio ynghylch bwriad Cymwysterau Cymru i roi'r gorau i TGAU Dawns. Ystyrir yr holl sylwadau'n gyfartal yn y drafodaeth hon.

3.3.1. Yr angen parhaus am TGAU Dawns

Y pryder mwyaf a fynegwyd gan y rhai a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn oedd y dylid parhau i gynnig TGAU Dawns i ddysgwyr yng Nghymru. Pwysleisiodd llawer y dylai TGAU Dawns gwneud-i-Gymru fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, a rhai'n dweud y dylid ei chynnig ochr yn ochr â chymwysterau priodol eraill i barhau i gynnig hyblygrwydd a dewis i ddysgwyr. Dewisodd llai o'r rhai a oedd yn cytuno'n fras â'r cynnig wneud sylwadau manwl.

Roedd teimlad cryf ymhlith ymatebwyr y byddai cael gwared ar TGAU Dawns yn gwneud y pwnc yn llai hygyrch i ddysgwyr nad yw eu teuluoedd yn gallu fforddio talu am wersi dawns y tu allan i'r ysgol.

"Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod cymwysterau'n asesu dawns gan ei bod yn rhoi mwy o gyfle i bobl ddysgu'r sgil, gan y gall dysgu dawns y tu allan i'r system addysg fod yn ddrud i deuluoedd. Drwy gynnwys cymhwyster dawns a gynigir i bob dysgwr ledled Cymru byddai'n golygu bod pawb yn cael cyfle teg i wella'r sgil."
Dysgwr

Os cynigir i ddysgwyr yng Nghymru y TGAU Dawns sydd ar gael ar hyn o bryd i ddysgwyr yn Lloegr, mynegodd rhai ymatebwyr bryder na fyddai'n adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru newydd.

Roedd rhywfaint o awgrym y dylai Cymwysterau Cymru a chyrff dyfarnu weithio gydag athrawon dawns a sefydliadau perthnasol yng Nghymru i ddatblygu cymwysterau dawns gwneud-i-Gymru priodol..

Codwyd y rhan fwyaf o'r themâu eraill a drafodwyd yn yr is-adran hon gan ymatebwyr yng nghyd-destun eu trafodaeth ar yr angen parhaus am TGAU Dawns.

3.3.2. Diddordeb, defnydd, a gwerth

Roedd llawer o'r rhai a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn yn trafod y nifer sy'n manteisio ar TGAU Dawns a'r diddordeb yn gyffredinol. Roedd rhai'n rhagweld y byddai'r galw am TGAU Dawns gwneud-i-Gymru yn cynyddu wrth gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru newydd, o ystyried y dull newydd o ymdrin â'r celfyddydau mynegiannol o fewn model cwricwlwm mwy hyblyg. Teimlai eraill y byddai diddordeb mewn TGAU Dawns yn cynyddu yn unol â'r pwyslais mwy ar addysgu dawns yn *"Cyfnod Allweddol 3"*. Teimlwyd hefyd y byddai gwella'r cysylltiadau rhwng cwricwla dawns *"Cyfnod Allweddol 3"* a *"Chyfnod Allweddol 4"* yn cynyddu diddordeb a defnydd.

Roedd rhywfaint o deimlad y byddai cynnig TGAU Dawns wedi'i chynllunio o'r newydd yn rhoi hwb i'r nifer sy'n manteisio arni. Dywedodd rhai o'r rhai a wnaeth y pwynt hwn y dylid monitro diddordeb dysgwyr mewn dawns yn ofalus dros y blynyddoedd nesaf wrth i'r cwricwlwm newydd fwrw ei wreiddiau, ac y dylid adolygu'r cynnig i beidio â chreu TGAU gwneud-i-Gymru yn unol â hyn.

Roedd eraill o'r farn bod y cynnig yn seiliedig ar y nifer sy'n manteisio ar y TGAU bresennol yn unig sydd, meddent, yn rhy syml a di-uchelgais. Roeddent hefyd yn pwysleisio bod gan lawer o ddysgwyr yng Nghymru ddiddordeb mawr mewn astudio dawns ar hyn o bryd, a oedd yn tynnu sylw at yr angen i gynnig TGAU Dawns gwneud-i-Gymru.Nododd rhai fod llawer o ysgolion yng Nghymru yn dewis yn syml peidio â chynnig TGAU Dawns, neu'n ei hymyleiddio o fewn eu cwricwlwm, sef yr esboniad y tu ôl i'r ffigurau manteisio cenedlaethol isel a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Awgrymwyd hefyd nad yw dawns yn cael ei chefnogi'n dda yng Nghymru yn ehangach, gan arwain at nifer isel o bobl sy'n manteisio ar y TGAU. Nododd rhai y gallai athrawon pynciau eraill neu rieni a gofalwyr fod yn darbwyllo dysgwyr rhag cymryd TGAU Dawns am nad ydynt yn credu ei fod yn werth cymaint â phynciau eraill. Roeddent felly'n teimlo bod angen gwneud iawn am hyn er mwyn atal dysgwyr rhag colli allan ar ddawns yn gyfan gwbl.

"Beth sy'n digwydd yng ngwersi dawns ein hysgolion fel bod cyn lleied yn dewis ei hastudio ar lefel arholiad? Yn sicr, nid y ffaith nad yw plant yn mwynhau dawns sy'n gyfrifol, fel y gall nifer y plant sy'n cael dawns mewn sawl ffurf y tu allan i'r ysgolion dystio. A ydynt yn cael eu darbwyllo i beidio â'i gwneud gan eu rhieni neu athrawon pwnc eraill? A yw dawns fel cymhwyster yn dal i gael ei 'bychanu' fel un diangen neu 'am hwyl yn unig', a'r oedolion o amgylch y plentyn hwnnw'n dweud am beidio â gwastraffu un o'i opsiynau (prin) arni? Yn fy marn i, dyna sydd angen ei ystyried yma. Mae gormod o blant yn cael eu darbwyllo rhag cymryd dawns fel TGAU gan yr oedolion yn eu bywydau"
Rhiant / gofalwr

Gan nodi bod llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn dawns y tu allan i'r ysgol, ac eto ychydig sy'n ei hastudio mewn TGAU, teimlai rhai ymatebwyr y dylid gwella addysgu a dysgu mewn TGAU Dawns i'w gwneud yn fwy deniadol.

"Mae diffyg cysylltiad amlwg yma rhwng cyffredinrwydd a phoblogrwydd grwpiau a chlybiau dawns ac fel adloniant mewn clybiau nos - beth mae ysgolion/cymwysterau yn ei wneud i'w gwneud mor ddiflas?"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Yng nghyd-destun yr angen i gadw TGAU Dawns, pwysleisiodd llawer werth ehangach dawns i ddysgwyr ac i gymdeithas. Dywedwyd bod dawns yn cyfrannu at les corfforol a meddyliol, yn annog mynegiant, ac yn datblygu sgiliau creadigol, hyder, creadigrwydd, hunaniaeth, gwaith tîm, cydlynu corfforol a meddyliol, ac ymdeimlad o hunan. Nododd ambell un hefyd gyfraniad y celfyddydau mynegiannol at yr economi.

Roedd peth pryder y byddai peidio â chynnig TGAU Dawns yn dibrisio'r astudiaeth o ddawns yn ehangach, a bod yn rhaid i ganfyddiadau nad yw dawns yn werth cymaint â phynciau eraill newid.

"Mae'n bwysig rhoi pwyslais ar y celfyddydau gan nad ydyn nhw'n aml yn cael eu cymryd yn ddigon difrifol neu maent yn cael eu hystyried yn ddiwydiant gwael i weithio ynddo. Mae angen i ni weithio i newid yr agweddau hyn a chael pobl ifanc i ddawnsio oherwydd gall fod yn gymaint mwy na hobi"
Heb ei nodi

Ar y llaw arall, roedd rhai o'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau yn teimlo bod y cynnig yn *"bragmatig"*, a hynny'n seiliedig i raddau helaeth ar y nifer isel sy'n manteisio ar TGAU Dawns. Dywedwyd y gallai parhau i gynnig cymwysterau mewn dawns heb greu TGAU gwneud-i-Gymru hefyd ryddhau lle i ddysgwyr ddewis cymwysterau eraill.

"Dull synhwyrol i ganiatáu i fyfyrwyr astudio dawns tra bod ffigurau mynediad isel i Gymru yn hanesyddol a'r heriau sy'n gysylltiedig â hyn o ran safoni a chymedroli"
Arall

Teimlai un ymatebydd hefyd na fyddai'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dewis dilyn TGAU Dawns, gan ei fod yn rhy benodol neu arbenigol o gymharu â chymwysterau eraill.

3.3.3. Diwallu anghenion pob dysgwr

Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid hyrwyddo TGAU Dawns yn rhan o gwricwlwm sy'n diwallu anghenion pob dysgwr. Roeddent yn teimlo bod dawns yn werthfawr i

ddysgwyr ag anableddau, ac y gall roi'r cyfle i ddysgwyr llai galluog a *"llai academaidd"* lwyddo. Gellid hefyd effeithio ar ddysgwyr a allai gael trafferth fel arall i ddod o hyd i gysylltiadau â phynciau celfyddydau mynegiannol os nad yw TGAU Dawns ar gael, yn ôl rhai ymatebwyr.

"Mae llawer gormod o bwyslais ar gymwysterau academaidd ar hyn o bryd ac mae disgyblion yn teimlo fel methiannau os nad ydyn nhw'n llwyddiannus yn y meysydd hyn. Mae cael amrywiaeth o gymwysterau dawns yn llwybr amgen gwych i ddisgyblion ffynnu mewn maes sy'n gweddu'n well iddynt"
Gweithiwr addysg proffesiynol

3.3.4. Dilyniant dysgwyr

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai peidio â chynnig TGAU Dawns yn cyfyngu ar ddysgwyr sydd am ddilyn astudiaethau pellach a gyrfaoedd mewn dawns. Cyfeiriodd rhai o'r rheini a fynegodd y farn hon at y sector dawns cynyddol yng Nghymru ac mewn mannau eraill.

"Mae dawns yn rhan hanfodol o'r celfyddydau perfformio. Mae angen modiwl dawns ar bob cwrs gradd theatr gerddorol felly ni fydd y rhai sydd am fynd i'r ysgol ddrama wedi'u paratoi'n ddigonol os na chawsant erioed eu asesu ar gyfer eu hunedau dawns"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Pwysleisiodd eraill fod yn rhaid i ddysgwyr yng Nghymru gael at yr un ystod o gymwysterau â dysgwyr yn rhannau eraill y DU. Roeddent yn teimlo y byddai dysgwyr Cymraeg o dan anfantais o'u cymharu â dysgwyr mewn mannau eraill pe na bai TGAU gwneud-i-Gymru ar gael. Ychwanegodd un ymatebydd fod hyn yn fwy tebygol o effeithio'n anghymesur ar ddysgwyr benywaidd, a theimlai eraill fod yn rhaid i TGAU Dawns gwneud-i-Gymru fod ar gael er mwyn osgoi anfanteisio'r rhai y mae'n well ganddynt ddysgu yn Gymraeg.

3.3.5. Cynnig dawns fel pwnc annibynnol neu fel rhan o gymwysterau eraill

Mynegodd ymatebwyr wahaniaeth barn ynghylch a ddylid cynnig dawns fel pwnc annibynnol, neu a ddylid ei chynnig fel rhan o gymwysterau eraill.

Teimlai rhai y dylai dawns fod yn elfen ddewisol o TGAU Addysg Gorfforol (AG) yn hytrach na chymhwyster annibynnol, ac ambell un yn mynegi pryderon y gallai cynnig TGAU mewn Dawns yn ogystal ag Addysg Gorfforol effeithio ar y nifer sy'n manteisio ar Addysg Gorfforol. Awgrymodd eraill y dylid cynnig dawns yn rhan o TGAU Drama.

"Mewn drama, gellir asesu ymgeisydd ar hyn o bryd ar sgil dylunio neu actio. Byddai'n rhesymegol cynnwys dawns fel opsiwn arall ar gyfer asesu"
Gweithiwr addysg proffesiynol

I'r gwrthwyneb, teimlai ymatebydd arall y dylid cynnig dawns fel cymhwyster annibynnol yn hytrach na'i chynnig o fewn Addysg Gorfforol i ddarparu ar gyfer y rheini sy'n mwynhau dawns ond nad ydynt yn rhagori mewn chwaraeon yn ehangach.

"Rwy'n anghytuno â'r cynnig hwn oherwydd i gwblhau TGAU addysg gorfforol, mae angen i chi gael eich asesu mewn tair camp. Rwy'n adnabod llawer o bobl - a dawnswyr yn benodol - a ddewisodd TGAU Addysg Gorfforol ac y bu'n rhaid wedyn iddynt ollwng y pwnc am nad oedd ganddynt dair camp y gellid eu hasesu ynddynt"
Dysgwr

Teimlai rhai ymatebwyr y gellid cynnig dawns fel rhan o gymhwyster celfyddydau mynegiannol neu gelfyddydau perfformio yn hytrach nag fel cymhwyster annibynnol. Gallai hyn gynnwys cyfuniad o unedau gorfodol a dewisol sy'n galluogi dysgwyr i addasu eu cymhwyster yn unol â'u diddordebau a chael profiad cyfannol o'r celfyddydau mynegiannol.

3.3.6. Staffio

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch staffio TGAU Dawns. Gan nodi bod prinder athrawon dawns yng Nghymru, roeddent yn teimlo y gallai llawer o ysgolion ei chael hi'n anodd dod o hyd i athrawon sydd â'r profiad neu'r cymwysterau perthnasol i gyflwyno dawns ar lefel TGAU a'r tu hwnt, gan gysylltu hyn â'r nifer sy'n manteisio ar y cymhwyster yn y dyfodol.

Teimlai un ymatebydd y gallai cynnig TGAU Dawns mewn ysgolion effeithio ar incwm athrawon dawns preifat yng Nghymru. Teimlai un arall y byddai peidio â chynnig TGAU Dawns yn lleihau nifer yr athrawon dawns yng Nghymru.

3.3.7. Cymwysterau dawns presennol

Soniodd rhai ymatebwyr am addasrwydd ac argaeledd cymwysterau dawns presennol.

Teimlai un ymatebydd fod y cymwysterau a gynigir y tu allan i'r ysgol yn asesu dawns yn fwy trylwyr ac o fwy o fudd i ddysgwyr na TGAU Dawns. Nododd un arall fod BTEC Dawns yn fwy priodol na TGAU Dawns oherwydd ei elfen "*ymarferol*" gref.

Nododd rhai ymatebwyr fod cymwysterau a gynigir gan Gymdeithas Imperial yr Athrawon Dawnsio (ISTD) yn tueddu i gael eu cynnig gan ysgolion dawns preifat yn unig ac nad ydynt yn cael eu cynnig ar hyn o bryd i ddysgwyr mewn ysgolion yng Nghymru. Roedd y cymwysterau ISTD yn gysylltiedig â ffioedd mynediad uwch a chostau ychwanegol drwy'r angen i brynu gwisgoedd ac offer arbennig. Beirniadwyd eu ffocws cul hefyd. O ganlyniad, bu'r ymatebwyr hyn yn cwestiynu a fyddai'r cymwysterau hyn yn briodol i ddysgwyr yng Nghymru. Dywedodd ymatebydd arall fod cymhwyster TGAU Dawns AQA yn anaddas gan nad yw'n cynnwys gwaith gan artistiaid o blith Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME). Dylai mynd i'r afael â hyn fod yn flaenoriaeth ar gyfer unrhyw TGAU newydd a wneir i Gymru.

3.4. Cynnig 4

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i barhau i roi dewis o gymwysterau yn y Celfyddydau Mynegiannol i ysgolion sy'n cynnig dull amlddisgyblaethol?

Ffigur 4: Lefel y cytundeb â chynnig 4 ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol



Ymatebodd ychydig yn llai o bobl i'r cynnig hwn, a 218 o ymatebion wedi dod i law. Fel gyda'r cynigion eraill ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol, roedd cefnogaeth eang i hwn, gyda saith o bob deg (70%) yn mynegi cytundeb. Dangosodd dysgwyr a gweithwyr addysg proffesiynol lefel debyg o gefnogaeth (70%).

Rhoddodd ychydig o dan hanner (48%, 105 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

Mae'n ymddangos bod llawer o'r rhai a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn wedi'i gamddeall, gan gredu mai'r cynnig oedd creu cymhwyster Celfyddydau Mynegiannol amlddisgyblaethol penodol gwneud-i-Gymru. Beth bynnag, ystyrir yr holl sylwadau'n gyfartal yn y drafodaeth hon.

3.4.1. Parhau i gynnig dewis o gymwysterau amlddisgyblaethol ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol

Roedd llawer o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn cytuno â'r cynnig yn pwysleisio'r angen i barhau i gynnig cymwysterau TGAU ar wahân yn y Celfyddydau Mynegiannol. Dywedwyd bod cymwysterau presennol eisoes yn cynnig cyfleoedd trawsgwricwlaidd. Yn ogystal, teimlai rhai ymatebwyr fod rhai pynciau ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol a'u cydrannau yn rhy wahanol i'w cyfuno'n ystyrlon.

"Credwn y dylai dysgwyr yng Nghymru barhau i gael y dewis o gymwysterau yn y Celfyddydau Mynegiannol sy'n cynnig dull amlddisgyblaethol. Mae'r celfyddydau perfformio yn gydberthynol ac mae gan ddysgwyr sy'n astudio cerddoriaeth, drama a dawns lwybr gyrfa clir ar gael iddynt. Fodd bynnag, credwn nad yw nodweddion unigryw celf a dylunio yn eistedd cystal o fewn cymhwyster Celfyddydau Mynegiannol ag y gall rhai disgyblaethau eraill. Rydym yn gryf o blaid TGAU ar wahân mewn Celf a Dylunio ar gyfer dysgwyr sydd â diddordeb yn y pwnc hwn"
Arall

Roedd rhywfaint o deimlad hefyd fod parhau i gynnig pynciau TGAU ar wahân ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol yn hanfodol er mwyn i ddysgwyr gaffael yr wybodaeth a'r sgiliau dwfn sydd eu hangen i arbenigo ôl-16.

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai gan ddysgwyr lai o ddiddordeb mewn astudio cymhwyster amlddisgyblaethol o'i gymharu ag ystod o gymwysterau yn ycelfyddydau mynegiannol gan y byddai'n lleihau eu dewis a'u gallu i arbenigo.

"Rwy'n credu y gellid mynd i'r afael â hyn i ryw raddau o fewn y cymwysterau ar wahân diwygiedig, gan sicrhau bod mwy o gysylltiadau'n cael eu gwneud â disgyblaethau eraill a sut mae prosesau creadigol yn cysylltu'n gyffredinol. Yn y pen draw, rwy'n credu mewn rhoi cyfle i ddisgyblion arbenigo ac rwy'n teimlo bod hynny'n bwysicach na chynnig [cymhwyster] amlddisgyblaethol"
Heb ei nodi

3.4.2. Dilyniant, arbenigedd a sgiliau dysgwyr

Roedd llawer o ymatebwyr yn ystyried bod parhau i gynnig dewis o bynciau ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol sy'n cynnig dull amlddisgyblaethol yn hanfodol i annog dysgwyr i ddatblygu sgiliau gwerthfawr ac amrywiol, a'u cefnogi i symud ymlaen at astudiaeth bellach a'r byd gwaith.

"Mae'n caniatáu i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol a chreadigol sydd o fudd i bob agwedd ar gymdeithas. Pan fydd myfyrwyr yn gadael yr ysgol, mae angen iddynt fod yn ddysgwyr creadigol mewn byd gwaith cyflym sy'n newid yn barhaus"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r cynnig o fudd i ddysgwyr sydd am arbenigo mewn pynciau ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol neu'r rhai sy'n ceisio cadw eu hopsiynau ar agor oherwydd ansicrwydd ynghylch pa bwnc/pynciau y maent am arbenigo ynddynt.

"...fel disgybl bydda i'n meddwl cynnig hwn oherwydd efallai nad wyf yn sicr beth rwyf eisiau arbenigo mewn eto. Gyda hynny mae'r cyfle i wneud TGAU mewn celfyddadau mynegiannol yn cynnig cyfle arbennig i fod yn fwy creadigol a thrawsbynciol, yn ogystal mae'n cynnig llwybr clir ar ôl CA3, o ddysgu am Celfyddydau mynegiannol"[12]
Dysgwr

Dywedodd rhai fod y cynnig yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru yn cael yr un mynediad at gwricwla'r celfyddydau mynegiannol â dysgwyr yng ngweddill y DU. Fodd bynnag, amlygodd eraill y ffaith bod yn rhaid i'r cymwysterau ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol a gynigir i ddysgwyr yng Nghymru fod yn rhai gwneud-i-Gymru a rhaid iddynt gael ymagwedd arloesol at gynnwys ac asesu, yn hytrach na defnyddio cymwysterau *"a wnaed ar gyfer Lloegr"* i ddarparu'r dull amlddisgyblaethol.

Nododd ambell ymatebydd fod yn rhaid teilwra cynnwys cymwysterau ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol i ddiddordebau dysgwyr, a bod yn rhaid i ddysgwyr ar draws pob ysgol yng Nghymru gael y cyfle i astudio'r un cymwysterau er mwyn sicrhau tegwch. Dywedodd un ymatebydd (a oedd yn cefnogi datblygu cymhwyster

[12] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

amlddisgyblaethol i redeg ochr yn ochr â chymwysterau ar wahân ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol) na ddylai'r cynnig fod yn ddibynnol ar *"bartneriaethau"* na fyddant efallai ar gael ym mhob rhan o Gymru.

3.4.3. Creu cymhwyster Celfyddydau Mynegiannol gwneud-i-Gymru

Roedd rhywfaint o deimlad y dylid creu cymhwyster amlddisgyblaethol gwneud-i-Gymru o fewn Maes y Celfyddydau Mynegiannol, yn unol ag ethos y cwricwlwm newydd. Teimlai rhai ymatebwyr fod cynnig peidio â gwneud hyn yn ddryslyd pan gynigiwyd hyn ar gyfer Maes y Dyniaethau, a'i fod yn mynd yn groes i drafodaethau blaenorol a gynhaliwyd gyda gweithwyr addysg proffesiynol.

"Dylai fod cymhwyster CM [Celfyddydau Mynegiannol] a wnaed yng Nghymru. Mae'r cynnig hwn yn wan, nid oes ganddo ddychymyg ac nid yw'n adlewyrchu'r angen am gyfle o'r fath i ddysgwyr. Credaf y byddai hynny'n ddadl gryfach dros gymhwyster CM a wnaed yng Nghymru nag un ar gyfer y dyniaethau"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Dywedodd rhai ymatebwyr nad yw'r cynnig yn mynd yn ddigon pell, a bod angen diwygio'r holl gymwysterau ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol yn llawn er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni ethos y cwricwlwm newydd.

Dywedodd rhai o'r rheiny a gefnogodd greu cymhwyster amlddisgyblaethol ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol y dylai fod yn fodiwlaidd ac y dylid ei gynnig ochr yn ochr â'r cymwysterau ar wahân presennol ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol. Teimlwyd y byddai hyn yn cynnig dewis eang o gymwysterau i ddysgwyr ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol y gallent eu teilwra yn unol â'u diddordebau. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnig cymhwyster dyfarniad dwbl ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol, neu un cymhwyster ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol sydd â llwybrau lluosog.

Nododd eraill y byddai cymhwyster pwrpasol yn helpu i gadw dewisiadau dysgwyr ar agor, yn caniatáu iddynt brofi nifer o ddisgyblaethau celfyddydol mynegiannol, ac yn cynyddu eu creadigrwydd.

"Er ein bod yn gwbl gefnogol i sicrhau y gall dysgwyr ddechrau arbenigo yn 14 oed, ar yr un pryd rydym yn gryf iawn am gadw opsiynau disgyblion ar agor a chaniatáu iddynt gael y cyfle i flasu ystod eang o feysydd, ac ystod eang o agweddau oddi fewn i feysydd. Rydym o'r farn bod hynny'n cydfynd yn llwyr ag ethos a bwriad y cwricwlwm newydd. Er mwyn gwneud hynny, mae angen ail-edrych ar y weledigaeth a'r strwythurau ehangach rydym yn rhoi yn eu lle. Byddai peidio gwneud hynny yn golli cyfle gwirioneddol, ac yn gwneud cam â'n dysgwyr am gyfnod hir i ddod"[13]
Heb ei nodi

Teimlai rhai ymatebwyr y gallai cymhwyster amlddisgyblaethol ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol fod yn addas i ddysgwyr llai galluog. Cynnig arall a wnaed gan ddau ymatebydd oedd creu cymhwyster celfyddydau perfformio *"galwedigaethol"* i ddysgwyr sy'n bwriadu symud ymlaen yn uniongyrchol at yrfa yn y celfyddydau mynegiannol yn hytrach na dilyn astudiaethau pellach.

[13] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

Pwyntiau eraill a godwyd mewn perthynas â chreu cymhwyster Celfyddydau Mynegiannol gwneud-i-Gymru oedd y dylai cymhwyster o'r fath roi'r un pwyslais at bob pwnc celfyddydau mynegiannol ac ymdrin â phynciau mewn digon o ddyfnder ac ehangder; ac y dylai athrawon gael hyfforddiant a DPP priodol i'w paratoi i'w gyflwyno.

Roedd rhai a fynegodd bryderon am greu cymhwyster amlddisgyblaethol ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol, neu a anghytunai â chreu hwnnw, yn teimlo efallai na fyddai'n cael ei ystyried o'r un gwerth â chymwysterau mwy sefydledig ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol.

Roedd rhywfaint o deimlad hefyd na fyddai cymhwyster amlddisgyblaethol ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol yn gallu ymdrin â phynciau'r celfyddydau mynegiannol yn ddigon manwl i gefnogi dysgwyr i symud ymlaen at ddysgu ôl-16 yn y Maes hwn.

3.4.4. Cynnwys y cymwysterau

Awgrymwyd y dylai'r cymwysterau ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol gynnwys:

- Dawns;
- Elfennau cynhyrchu (e.e. goleuadau, sain a chyfarwyddo); a
- Chynnwys sy'n benodol i Gymru a ffocws Cymreig: hanes, diwylliant, traddodiad, treftadaeth ac iaith Cymru.

Fodd bynnag, nid oedd yn glir o'r sylwadau a oedd yr awgrymiadau hyn yn ymwneud â chymwysterau ar wahân presennol ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol neu gymhwyster amlddisgyblaethol newydd ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol.

4. Iechyd a Lles

4.1. Cynnig 1

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i beidio â chreu cymhwyster newydd a fyddai'ncefnogi cyflwyno'r Maes cyfan hwn?

Ffigur 5: Lefel y cytundeb â chynnig 1 yn y Maes Iechyd a Lles



Ymatebodd cyfanswm o 270 o bobl i'r cynnig hwn. Roedd ychydig o dan ddau o bob tri (64%) yn cytuno ag ef yn gyffredinol. Roedd gwahaniaeth barn amlwg rhwng gweithwyr addysg proffesiynol a dysgwyr, gyda'r dysgwyr yn llai cefnogol: roedd llai na hanner (44%) y dysgwyr o blaid y cynnig o'u cymharu â 70% o'r gweithwyr addysg proffesiynol.

Rhoddodd ychydig dros hanner (51%, 138 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

Dylid nodi bod ymatebwyr a oedd yn anghytuno â chynnig Cymwysterau Cymru i beidio â chyflwyno cymhwyster newydd yn y Maes Iechyd a Lles ychydig yn fwy tebygol o roi sylwadau na'r rhai a gytunodd: roedd ychydig dros un rhan o bump (21%) o'r ymatebwyr yn gyffredinol yn anghytuno â'r cynnig, a thros draean (34%) o'r rhai a ychwanegodd sylwadau yn gwneud yr un peth. Gall hyn gael yr effaith o wneud i'r adborth cyffredinol ymddangos yn fwy negyddol nag ydoedd mewn gwirionedd; serch hynny, mae'n bwysig deall y pryderon hynny.

4.1.1. Dilyniant, arbenigedd a sgiliau dysgwyr

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod Iechyd a Lles yn Faes pwysig, gydag iechyd corfforol a meddyliol, gwydnwch a hunanhyder yn cael eu crybwyll fel meysydd lle mae dysgwyr yn elwa ar fewnbwn yn yr ysgol. Tynnodd rhai sylw hefyd at bwysigrwydd addysgu a dysgu priodol ar gyfer datblygu mewn meysydd a fyddai o fudd i ddysgwyr yn y tymor hir: soniwyd am hunanofal, sgiliau corfforol ac ymarferol

(gan gynnwys coginio), diet ac ymarfer corff, ac am addysg rhyw i gyd, ymhlith pynciau eraill.

"Byddai'n helpu cymaint i bobl ifanc ddeall am wahanol agweddau ar iechyd a lles ... pe bai ar gael pan oeddwn i'n iau, byddai wedi fy helpu i'n sylweddol"
Dysgwr

Lle'r oedd gwahaniaethau barn, roeddent yn canolbwyntio'n bennaf ar fanteision ac anfanteision cymharol y dull arfaethedig o beidio â chyflwyno cymhwyster newydd yn y Maes Iechyd a Lles. Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig, teimlai rhai y dylai'r Maes hwn ganolbwyntio ar ddatblygiad personol dysgwyr, nid ar gymhwyster i'w basio neu ei fethu.

"Ar y cyfan, rydym yn cytuno â phenderfyniad Cymwysterau Cymru i beidio â chreu cymhwyster i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r maes hwn i gyd. Credwn y bydd yn bwysig i athrawon flaenoriaethu iechyd a lles eu dysgwyr"
Arall

Teimlai rhai ymatebwyr fod y cymwysterau a gynigir eisoes sy'n ymwneud â gwahanol agweddau ar iechyd a lles yn werthfawr ac y gellid eu diwygio a'u hadolygu os oes angen er mwyn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. Dywedodd rhai y byddai ysgolion, drwy integreiddio iechyd a lles i rannau eraill o'r cwricwlwm, yn gallu diwallu anghenion eu dysgwyr heb droi at TGAU newydd. Roedd y rhain yn cynnwys awgrymiadau o adolygu elfennau o'r Dystysgrif Her Sgiliau.

"Mae'r rhesymeg dros beidio â chael cymhwyster annibynnol yn gryf. Fodd bynnag, fel tystiolaeth o weithgarwch a myfyrio yn y maes hwn, tybed a ellid cynnwys iechyd a lles yn y Dystysgrif Her Sgiliau..."
Rhiant / gofalwr

Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig, teimlai'r rhan fwyaf a ychwanegodd sylwadau fod angen cydnabod pwnc mor bwysig ag iechyd a lles drwy gyflwyno cymhwyster newydd. Disgrifiodd rhai ymatebwyr y cynnig fel *"colli cyfle"* i osod iechyd a lles wrth wraidd y cwricwlwm.

"Mae hwn yn faes eithriadol o bwysig ac rwy'n teimlo bod myfyrwyr sy'n ennill cymhwyster sy'n adlewyrchu'r Maes hwn yn bwysig iawn"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Codwyd rhagolygon dysgwyr yn y dyfodol gan rai ymatebwyr. Dywedodd rhai y byddai creu TGAU newydd yn ychwanegiad gwerthfawr at y gyfres o gymwysterau sydd ar gael, ac y gallai fod yn llwybr defnyddiol at ddysgu pellach neu yrfaoedd yn y dyfodol yn y maes iechyd a lles.

"Rwy'n credu y byddai'n braf i bobl gael cymhwyster mewn iechyd a lles, yn enwedig os ydynt am fynd i faes gwaith lle gallai fod angen yr wybodaeth hon, fel gofal iechyd ac addysg"
Heb ei nodi

Bu un ymatebydd a anghytunai â'r cynnig yn amlinellu ei argymhelliad sef diwygio addysgu a dysgu iechyd a lles yn sylweddol yng Nghymru. Wrth wneud hynny, tynnodd

ar fframwaith sefydledig sy'n seiliedig ar dystiolaeth, y Dull Ysgolion Hybu Iechyd[14,15], y teimlai y gellid ei fabwysiadu a'i weithredu, ochr yn ochr â dull ysgol gyfan[16] ac mewn partneriaeth â Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru[17], i sefydlu cymhwyster newydd sy'n cefnogi dysgwyr i dyfu'n "*unigolion iach a hyderus*" yn unol â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru. Yn ymarferol, dywedwyd y gallai'r cymhwyster hwn gynnwys:

"Rhaglen graidd i bawb sy'n ei chymryd, yn gyson â'r dull ysgol gyfan, ac wedyn llwybrau gwahanol i alluogi elfen o arbenigedd (er enghraifft, technoleg bwyd, iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant)"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Dadleuodd yr ymatebydd hwn y byddai'r dull hwn yn rhoi'r rhyddid sydd ei angen ar ysgolion i gynllunio eu cwricwla eu hunain sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr ac yn annog datblygiad personol dysgwyr mewn iechyd a lles.

Fodd bynnag, teimlai rhai ymatebwyr fod cymwysterau galwedigaethol a TGAU sefydledig eraill, gan gynnwys Addysg Gorfforol ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant eisoes yn cynnig llwybrau priodol i gymwysterau uwch i ddysgwyr â diddordeb mewn dilyn gyrfa yn y meysydd hynny. Teimlai un ymatebydd hefyd fod yr aflonyddwch a achoswyd gan bandemig COVID-19 at addysgu ac asesu cymwysterau a ddiwygiwyd yn gymharol ddiweddar yn golygu y byddai gwneud newidiadau ychwanegol yn yr un Maes yn annoeth.

4.1.2. Defnydd a diddordeb

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo'n gryf y gallai peidio â chael cymhwyster newydd i gefnogi addysgu a dysgu yn y Maes Iechyd a Lles ddibrisio'r Maes yng ngolwg dysgwyr. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bryderus, gan eu bod yn teimlo y gallai effeithio'n negyddol ar ddatblygiad dysgwyr, neu eu harwain at gymryd eu hiechyd a'u lles personol yn llai difrifol.

"Rwy'n pryderu na fydd dysgwyr yn cymryd pynciau heb gymhwyster o ddifrif. Mae'r maes addysg hwn yn hanfodol i lwyddiant dysgwyr yn y dyfodol mewn byd sy'n blaenoriaethu llwyddiant academaidd dros iechyd a lles a chredaf, os nad yw dysgwyr yn cymryd eu lles eu hunain o ddifrif, na fydd unrhyw faint o gymwysterau eraill yn dod â hapusrwydd iddynt yn eu dyfodol"
Heb ei nodi

Roedd hyd yn oed y rhai a gefnogai gynnig Cymwysterau Cymru i beidio â chreu cymhwyster newydd yn cydnabod y gallai leihau diddordeb yn y pwnc ac ymrwymiad iddo. Teimlwyd y gallai cymhwyster fod yn gymhelliant i ymrwymo.

---

[14] Sefydliad Iechyd y Byd (2021) *Health Promoting Schools Approach*. Langford et al (2015) The World Health Organization's Health Promoting Schools Framework: A Cochrane systematic review and meta-analysis. *BMC Public Health*, 15, 130.
[15] Langford et al (2015) The World Health Organization's Health Promoting Schools Framework: A Cochrane systematic review and meta-analysis. *BMC Public Health*, 15, 130.
[16] Llywodraeth Cymru (2020) *Canllawiau fframwaith drafft ar ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol.*
[17] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) *Cynllun Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru.*

"Mae iechyd yn rhywbeth personol i bawb ac ni ddylid ei fesur. Fodd bynnag, mae cymhwyster i lawer o bobl yn gymhelliant ac mae hynny'n bwysig er mwyn ennyn diddordeb pobl"
Dysgwr

Roedd pryder hefyd na fyddai ysgolion eu hunain efallai'n mabwysiadu dulliau newydd o addysgu a dysgu heb y pwysau o orfod paratoi dysgwyr ar gyfer cymhwyster a aseswyd. Teimlai rhai y gallai hyn bylu diddordeb a lleihau ymrwymiad i'r Maes ymhlith dysgwyr.

"I mi, mae'n ymddangos y bydd peidio â chael TGAU yn y Maes hwn yn dibrisio pwysigrwydd iechyd a lles a bydd yn golygu nad yw ysgolion yn newid eu dull gweithredu"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Fodd bynnag, roedd rhai safbwyntiau gwrthgyferbyniol. Roedd y rhain yn cynnwys yr awgrym y gallai dysgwyr fod yn llai cysylltiedig â'r pwnc pe bai cymhwyster newydd yn cael ei gyflwyno. Tynnodd un ymatebydd gymhariaeth â chyflwyno asesiadau mewn Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) a chyfeiriodd at adroddiad, a gyhoeddwyd yn 2019[18] a ddywedodd, "*... mae dysgu yn yr ysgolion hyn [sy'n defnyddio cymwysterau mewn ABCh] yn aml yn canolbwyntio ar gwblhau tasgau sy'n gysylltiedig â'r cymhwyster, ac mae gwersi'n llai tebygol o gynnwys profiadau dysgu diddorol ac ystyrlon am faterion iechyd a lles pwysig.*"

4.1.3. Y cwricwlwm iechyd a lles, yr addysgu a'r dysgu

Codwyd yr heriau o ran sicrhau bod y Maes Iechyd a Lles yn cael ei flaenoriaethu'n briodol gan ymatebwyr ar ddwy ochr y ddadl o ran a ddylid creu cymhwyster newydd gwneud-i-Gymru mewn iechyd a lles ai peidio. P'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig ei hun, tynnodd y rhan fwyaf sylw at yr angen am ddull trawsgwricwlaidd ac amlddisgyblaethol o addysgu a dysgu i adlewyrchu ehangder a dyfnder y pwnc.

Dadleuodd y rhai o blaid cymhwyster newydd y byddai'n rhoi statws cyfartal i Iechyd a Lles yng nghwricwlwm yr ysgol. Byddai hyn, medden nhw, yn helpu i sicrhau y byddai'r amser a'r adnoddau addysgu angenrheidiol, gan gynnwys staff a hyfforddwyd yn briodol, yn cael eu dyrannu yn ôl yr angen. Yn wir, teimlai rhai ymatebwyr na fyddai'r Maes yn cael blaenoriaeth efallai heb gymhwyster newydd.

"Rydym o'r farn bod cymhwyster newydd ar gyfer y Maes Iechyd a Lles yn hanfodol o ran: cefnogi addysgu a dysgu ... dylanwadu ar gynllunio'r cwricwlwm ... cefnogi cysyniad y cwricwlwm newydd [a] pwysleisio'r angen am gydweithio/cyd-adeiladu sy'n cynnwys ystod o bartneriaid lleol a chymunedol [a] rhoi cyfle i fynd i'r afael â'r bylchau posibl mewn staffio a sicrhau bod ysgolion yn recriwtio staff arbenigol ..."
Arall

[18] Estyn (2019) *Iach a hapus: effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion.* Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/iach-hapus-effaith-yr-ysgol-ar-iechyd-llesiant-disgyblion?_ga=2.30601341.397961013.1633365192-610188740.1632082077

Yn yr un modd, teimlai rhai ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig y byddai angen rhywfaint o liniaru er mwyn sicrhau nad yw'r Maes yn cael ei *"wthio i'r ochr"* yn absenoldeb cymhwyster newydd.

"Cytunwn â'r rhesymeg a gynigir yn y ddogfen ymgynghorol. Fodd bynnag, rhaid bod yn ymwybodol o'r anawsterau all ddod yn sgil meysydd nad ydynt yn cael eu hasesu o ran sicrhau digon o ofod ar yr amserlen ac ymlyniad gan ddysgwyr pan fydd gofynion eraill yn pwyso. Bydd angen dod o hyd i ffyrdd amgen o sicrhau blaenoriaeth briodol i'r maes hollbwysig hwn"[19] *Arall*

Efallai am nad yw Cymwysterau Cymru yn cynnig creu cymhwyster yn y Maes Iechyd a Lles, canolbwyntiodd rhai ymatebwyr ar addysgu a dysgu yn y Maes, sydd y tu hwnt i gylch gwaith Cymwysterau Cymru.

Teimlai rhai ymatebwyr y gellid lliniaru'r risg y bydd ysgolion yn methu â blaenoriaethu iechyd a lles, drwy ganllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar fabwysiadu *"ymagwedd ysgol gyfan"* at iechyd meddwl a lles emosiynol, y ddau faes a amlygwyd amlaf gan ymatebwyr fel rhai anaddas i asesiadau neu gymwysterau ffurfiol. Teimlwyd bod egwyddor dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a lles yn mynnu bod gan ysgolion yr ymreolaeth i gynllunio cwricwlwm sy'n diwallu anghenion penodol eu dysgwyr.

"Er mwyn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles dysgwyr a chymuned yr ysgol gyfan, mae dull ysgol gyfan yn elfen hanfodol o'r maes hwn. Mae'n hanfodol felly fod ysgolion yn adeiladu cwricwlwm ar gyfer iechyd a lles sy'n ymateb i'w hanghenion"
Arall

Un cam lliniaru posibl arall a awgrymwyd oedd cydnabod a dathlu ysgolion sy'n sicrhau bod y Maes Iechyd a Lles yn cael blaenoriaeth briodol.

"Rwy'n teimlo y dylai fod pwysau ar arweinwyr yn yr ysgol i beidio â chyfaddawdu'r maes profiad a dysgu hwn ... os na chaiff asesiad unffurf ei greu. Dylem fod yn dathlu ysgolion sy'n rhoi amser teg a phriodol uniongyrchol i'r maes hwn. Hwn, i mi, yw'r maes cyffredinol sy'n cyfrannu at ethos a llwyddiant ysgol gyfan"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i beidio â chreu cymhwyster strwythuredig newydd ar y sail y gallai gwneud hynny atal ysgolion rhag mabwysiadu'r dull mwyaf addas ar gyfer eu dysgwyr os yw'n golygu bod yn rhaid iddynt gyflawni targedau a chyrraedd nodau nad ydynt wedi gallu eu gosod eu hunain.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder hefyd y gallai rhagfarn neu hoffterau staff effeithio ar gynnwys ac addysgu'r cwricwlwm mewn rhai agweddau ar iechyd a lles heb y strwythur a ddarperir gan gymhwyster. Fodd bynnag, er bod y rhyddid i ysgolion fabwysiadu dulliau hyblyg a chreadigol o ran cynnwys a chyflwyno cyrsiau yn ddymunol, roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod ei bod hefyd yn bwysig bod digon o gysondeb rhwng ysgolion i sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn elwa ar addysgu a dysgu effeithiol. Yn absenoldeb cymhwyster, roeddent yn teimlo y byddai angen darparu digon o ganllawiau i ysgolion er mwyn sicrhau bod hyn yn wir[20].

[19] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg
[20] Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau cwricwlwm ar gyfer ysgolion.

Ymhlith yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno â'r cynnig ac yn argymell creu cymhwyster newydd yn y Maes Iechyd a Lles, crybwyllodd rhai bwysigrwydd tynnu o arbenigedd, profiad ac arfer gorau sicr i lywio'r gwaith o gynllunio cymhwyster newydd a fyddai'n cwmpasu'r Maes Iechyd a Lles.

"Ydych chi wedi siarad â'r athrawon a ysgrifennodd y Maes yn y Cwricwlwm i Gymru? Nhw ddylai fod y rhai sy'n cael eu cynnwys wrth greu TGAU a fydd yn paratoi ein dysgwyr ar gyfer y dyfodol ac nid ar gyfer y gorffennol. Byddwch yn flaengar"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Hefyd, awgrymodd un ymatebydd y dylid ystyried cydweithio â phartneriaid lleol a chymunedol pe bai cymhwyster yn cael ei ddatblygu.

"Rydym o'r farn bod cymhwyster newydd ar gyfer y Maes iechyd a lles yn hanfodol o ran [...] cefnogi'r cysyniad fframwaith y cwricwlwm newydd wrth ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin â lles emosiynol a meddyliol, a phwysleisio'r angen am gydweithio/cyd-adeiladu sy'n cynnwys amrywiaeth o bartneriaid lleol a chymunedol"
Arall

4.1.4. Cyfuno pynciau iechyd a lles

Ymhlith yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â chynnig Cymwysterau Cymru i beidio â chyflwyno cymhwyster newydd, teimlai'r rhan fwyaf fod iechyd a lles yn Faes sy'n rhy eang i'w grisialu gan un cymhwyster. Mynegodd rhai y byddai cymhwyster sy'n ceisio dwyn ynghyd ormod o bynciau yn anochel yn arwain at *"wanhau"* cynnwys sy'n gysylltiedig â meysydd pwysig o ddatblygiad personol i'r graddau y byddai'n mynd yn ddiystyr.

"Rydym yn cefnogi'r cynnig hwn. Teimlwn fod iechyd a lles yn ymwneud â datblygu dull cadarnhaol gydol oes a gwneud dewisiadau iach. Dylid edafu hyn drwy gydol addysg myfyrwyr yn hytrach na'i leihau i un cymhwyster, a fyddai'n teimlo'n symbolaidd yn unig"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Ym marn rhai ymatebwyr, gallai ceisio cyflwyno cymhwyster *"traddodiadol"* i gwmpasu Iechyd a Lles arwain at gulhau cynnwys y cwricwlwm i ganolbwyntio ar y meysydd hynny y gellir eu mesur, ar draul elfennau allweddol sy'n llai addas ar gyfer asesu ffurfiol.

"Mae'r maes hwn yn canolbwyntio ar ddysgwyr yn datblygu cyfuniad o wybodaeth, sgiliau, ymddygiadau a thueddiadau sy'n hanfodol i gefnogi eu hiechyd a'u lles eu hunain ac eraill, nawr ac ar gyfer eu dyfodol. Os cyflwynir cymhwyster yn y maes hwn, cytunir bod perygl y gallai pwyslais symud tuag at ddysgu am agweddau y gellir eu mesur/asesu yn unig"
Arall

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd cadw'r cymwysterau presennol, ar wahân yn y Maes Iechyd a Lles, gan gynnwys TGAU mewn Addysg Gorfforol, Bwyd a Maeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant. Teimlwyd bod angen cynnal y pynciau hyn er mwyn sicrhau y gall dysgwyr ddatblygu gwybodaeth a sgiliau penodol, a sicrhau na chollir agweddau pwysig ar gymwysterau presennol.

"Nid wyf yn credu ei bod yn ddefnyddiol cyfuno cymwysterau i ddiwallu anghenion maes dysgu, a llawer ohono efallai'n amherthnasol i ddarpar lwybr y disgybl i addysg bellach neu gyflogaeth"
Gweithiwr addysg proffesiynol

4.1.5. Alinio â'r Cwricwlwm i Gymru newydd

Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig i beidio â chyflwyno cymhwyster newydd yn y Maes Iechyd a Lles, canolbwyntiodd rhai ar statws y pwnc fel elfen allweddol o'r Cwricwlwm i Gymru newydd. Yn eu barn hwy, roedd hyn yn ddigon o reswm dros greu TGAU newydd mewn Iechyd a Lles a fyddai'n adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar iechyd a lles yn y cwricwlwm newydd, yn ogystal ag mewn canllawiau a deddfwriaeth arall gan gynnwys Nodau Datblygu Cynaliadwy, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chanllawiau drafft Llywodraeth Cymru ar ddull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol.

"Mae cymhwyster yn rhoi statws cyfartal i'r agenda iechyd a lles, sy'n fwriad sylweddol gan y diwygiadau"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Cafodd y farn hon ei nodweddu gan un gweithiwr addysg proffesiynol a oedd yn dadlau y dylid datblygu cymhwyster Iechyd a Lles integredig newydd i adlewyrchu dull gweithredu newydd y Cwricwlwm i Gymru newydd.

"Dylai fod TGAU ar gyfer iechyd a lles. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi lles wrth ei wraidd ac mae cynnwys Maes iechyd a lles yn golygu y dylai gael TGAU ... Os ydych chi am fabwysiadu dull gwirioneddol radical o greu TGAU sy'n ymwneud â'r Pedwar Diben, yna dylai'r cymwysterau TGAU fod yn aml-Faes ... Dylai hwn fod yn gwricwlwm ar gyfer yr 21ain ganrif"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Ategwyd y cais hwn am ddull gweithredu newydd gan rai ymatebwyr eraill, gan gynnwys rhai rhanddeiliaid consortia addysg rhanbarthol, a oedd yn teimlo y byddai'n sicrhau bod addysgu a dysgu iechyd a lles mewn ysgolion yn cael effaith gadarnhaol a pharhaol ar ddeilliannau dysgwyr.

"Byddai dulliau newydd o ddysgu ac asesu yn unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn annog dysgu dwfn yn yr agwedd hollbwysig hon"
Arall

4.1.6. Asesu

Roedd rhai ymatebwyr a gefnogodd y cynnig i beidio â chreu cymhwyster newydd yn y Maes Iechyd a Lles yn cytuno y byddai asesu cynnydd dysgwyr mewn maes dysgu eang fel iechyd a lles yn heriol, os nad amhosibl. Roeddent yn teimlo'n arbennig y byddai sefydlu mesur gwrthrychol o gyflawniad mewn pwnc sy'n pwysleisio datblygiad personol ac anghenion unigol yn anodd.

"Mae iechyd a lles gymaint yn bwysicach mewn gwirionedd nag fel arholiad y gellir ei fesur. Nid yw'r hyn sy'n iawn i iechyd meddwl un person bob amser yn iawn i un arall. Felly, yn aml nid oes atebion cywir neu anghywir i rai meysydd o fewn y pwnc"
Dysgwr

Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno'n gryf y gallai paratoi ar gyfer asesiadau a'u pasio dynnu sylw dysgwyr oddi wrth ddatblygu eu hiechyd a'u lles eu hunain, gan wrthddweud prif ddiben ei gynnwys yn y cwricwlwm. At hynny, roedd eraill yn pryderu y byddai cyflwyno unrhyw asesiad a allai achosi pryder i ddysgwyr yn wrthgynhyrchiol.

"Os ydym yn parhau i gategoreiddio ar sail graddau (sydd wedi'u seilio bron yn llwyr ar arholiadau/asesiadau allanol ar gyfer pob disgybl) mae'n effeithio'n negyddol yn gyffredinol ar ddysgu gwirioneddol disgyblion a'u cyfleoedd ar gyfer eu bywyd yn y dyfodol a'u hiechyd a'u lles"

Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn cytuno â datganiad Cymwysterau Cymru y gallai creu cymhwyster *"gael effaith gulhau ar addysgu a dysgu"*. Drwy gyflwyno asesiad, pryderwyd y gallai pwyslais cynnwys y cymhwyster symud tuag at agweddau sy'n *"rhai mesuradwy"*.

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno, gan awgrymu, os bydd cyflwyno asesiad yn arwain at ffocws culach, y gellid dweud yr un peth am yr holl gymwysterau. Yn hytrach na rheswm dros beidio â chyflwyno cymhwyster newydd, credid ei fod yn rheswm dros fod yn arloesol wrth greu un.

"Nid oes angen ystyried [hyn] fel rheswm dros beidio â chynnig cymhwyster, ond rheswm dros ail-ddychmygu ac ailddyfeisio'r dulliau a ddefnyddir i asesu cymhwyster. Beth allwn ni ei ddysgu gan wledydd eraill?"
Arall

4.2. Cynnig 2

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i adolygu a diwygio TGAU mewn Bwyd a Maeth, Addysg Gorfforol, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant?

Ffigur 6: Lefel y cytundeb â phob pwnc sydd yng nghynnig 2 yn y Maes Iechyd a Lles



Atebodd tua 240 o bobl gwestiynau ar bob un o'r pynciau yn y cynnig hwn, yn amrywio o 237 ar gyfer Bwyd a Maeth i 242 ar gyfer Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant. Roedd saith o bob deg (71%) yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Bwyd a Maeth ac Addysg Gorfforol tra bod 66% yn cefnogi adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant. Cafwyd yr anghytundeb mwyaf ar gyfer Addysg Gorfforol, lle'r oedd 13% o'r ymatebwyr yn anghytuno.

Rhoddodd 94 o ymatebwyr (39% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn) sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

4.2.1. Dilyniant, arbenigedd a sgiliau dysgwyr

At ei gilydd, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn yn cydnabod pwysigrwydd iechyd a lles dysgwyr. Yn eu barn hwy, mae'r pynciau hyn yn elfennau pwysig o gwricwlwm yr ysgol sy'n cyflwyno egwyddorion iechyd a lles ac yn rhoi sgiliau bywyd i ddysgwyr.

"Mae'r rhain yn sgiliau bywyd sylfaenol nad ydynt bob amser yn cael eu haddysgu o gartref, a hynny'n enwedig mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Gallai dysgu'r rhain â mwy o ffocws effeithio ar les cenedlaethau'r dyfodol"
Rhiant/gofalwr

Cydnabuwyd hefyd y buddion i ddysgwyr o gadw cymwysterau ar wahân mewn Addysg Gorfforol, Bwyd a Maeth, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai parhau i gynnig cymwysterau TGAU ar wahân yn y Maes Iechyd a Lles yn caniatáu i ddysgwyr ganolbwyntio ar sgiliau a gwybodaeth benodol yn eu meysydd dysgu dewisol.

"Rwy'n cytuno y byddai cael cymwysterau TGAU ar wahân yn parhau i fod o fudd ... Mae dysgwyr yn fwy tebygol o ganolbwyntio a chymryd rhan mewn pynciau y maent wedi'u dewis yn bersonol"
Dysgwr

Cyfeiriodd eraill at bwysigrwydd cymwysterau unigol sy'n darparu llwybrau at gymwysterau pellach, ac at yrfaoedd yn y dyfodol. I rai, roedd hyn yn rheswm dros sicrhau bod y dewis presennol o bynciau yn parhau ar gael i baratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.

Fodd bynnag, roedd y potensial i ddysgwyr symud ymlaen i astudiaeth bellach yn ddigon o reswm dros ystyried diwygiadau sylweddol sy'n adlewyrchu newidiadau i gwricwla ôl-16 oed a'r tu hwnt. Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod y gallai fod angen hyfforddiant ychwanegol ar hyn i sicrhau bod gan staff addysgu ddigon o adnoddau i ddarparu'r cymwysterau.

"Mae'n hanfodol ystyried yn addas ddilyniant i'r lefel nesaf o astudio - galwedigaethol neu academaidd - wrth ddiwygio neu gynllunio'r cymwysterau TGAU hyn ... Mae angen cryfhau'r pwyslais ar gyflenwi arbenigol, yn enwedig ar gyfer y cwricwlwm gofal"
Arall

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai graddau unrhyw newidiadau gofynnol i gymwysterau TGAU unigol yn debygol o amrywio o'r naill bwnc i'r llall, ac y dylid rhoi blaenoriaeth i'r pynciau hynny na fuont eisoes yn destun diwygiadau diweddar. At hynny, er nad oeddent yn gwrthwynebu adolygu a diwygio mewn egwyddor, teimlai rhai ymatebwyr fod newidiadau eisoes wedi bod i gymwysterau TGAU mewn Addysg Gorfforol ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sydd heb eu profi'n llawn eto.

"Mae'r maes llafur presennol sydd ar gael yn y TGAU Addysg Gorfforol yn bodoli ers arholiadau haf 2018. [Oherwydd Covid-19 a chanslo arholiadau], byddai pum cyfres o arholiadau wedi'u sefyll gan ddisgyblion yn dilyn y fformat 'newydd' presennol cyn gweithredu carfan arholiadau 2025. Fel adran, rydym wedi ailwampio cynlluniau gwaith, wedi prynu adnoddau sydd prin wedi'u defnyddio, wedi addasu ein dulliau addysgu i ddiwallu anghenion y fanyleb gyfredol hon ac rydym yn teimlo nad oes angen newid hyn"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â'r angen am unrhyw adolygiad neu ddiwygiad o gymwysterau mewn Addysg Gorfforol, Bwyd a Maeth, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant. Mynegodd ambell un awydd i osgoi *"newid er mwyn newid"*, ac roedd eraill yn teimlo bod y ddarpariaeth bresennol yn y Maes hwn yn ddigonol, gyda digon o elfennau'n gysylltiedig â themâu ehangach iechyd a lles i ddiwallu anghenion dysgwyr.

"Mae amrywiaeth y cynnwys mewn TGAU eisoes yn eang iawn. Mae'n cwmpasu meysydd ynddo sy'n caniatáu i fyfyrwyr ddod yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd iechyd corfforol, meddyliol a chymdeithasol"
Gweithiwr addysg proffesiynol

4.2.2. Defnydd a diddordeb

Roedd gwahaniaeth barn am ddiddordeb dysgwyr yn y cymwysterau TGAU sy'n rhan o'r Maes Iechyd a Lles ar hyn o bryd, ac am y nifer sy'n dewis manteisio arnynt. Dywedodd rhai ymatebwyr fod y pynciau'n boblogaidd gyda dysgwyr; ymhlith y dysgwyr a ymatebodd, dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn mwynhau'r pynciau. Roedd yr un peth yn wir hefyd am y nifer fach o rieni a gofalwyr a wnaeth sylwadau. Teimlai gweithwyr addysg proffesiynol a rhanddeiliaid eraill y byddai parhau i adolygu a diwygio'r cymwysterau yn sicrhau bod y nifer sy'n manteisio arnynt yn parhau'n gryf.

Teimlai rhai ymatebwyr fod sicrhau bod y cymwysterau'n cael eu hystyried *"yn academaidd gadarn"* yn cynyddu eu gwerth yng ngolwg y dysgwyr. Roedd rhai'n pwysleisio'n gryf fod angen i gymwysterau fod yn berthnasol i fywyd y tu hwnt i'r ysgol, yn enwedig o ystyried datblygiadau presennol ac yn y dyfodol yn y meysydd pwnc hyn. Yn y cyd-destun hwn, soniwyd am bwysigrwydd sicrhau cyfatebiaeth â chymwysterau tebyg a ddyfarnir mewn rhannau eraill o'r DU.

Fodd bynnag, roedd rhai safbwyntiau gwrthgyferbyniol. Teimlai rhai ymatebwyr y gallai dulliau mwyfwy damcaniaethol neu *"academaidd"* ddarbwyllo rhai dysgwyr i beidio â dewis y pynciau. Roedd un gweithiwr addysg proffesiynol yn pryderu bod mwy o ffocws ar elfennau fel deddfwriaeth yn y TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant wedi gwneud y pwnc yn llai diddorol ac felly'n llai deniadol. Dywedodd yr ymatebwyr hyn y dylid rhoi pwyslais yn hytrach ar weithgareddau ymarferol er mwyn sicrhau bod y pynciau'n cael eu defnyddio a'u cadw o hyd.

Mae'r TGAU Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant bellach yn gwrs diflas iawn gyda'r prif ffocws ar waith a deddfwriaeth ar gyfer y dyfarniad sengl .... Byddai gweithgareddau ymarferol ar fesurau ffisegol wedi bod yn ddull mwy cyfoes o ymdrin â'r uned gyntaf o ystyried materion iechyd yng Nghymru. Pam dewis Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant pan allai dysgwyr gael amser mwy diddorol yn astudio pynciau eraill?"
Gweithiwr addysg proffesiynol

4.2.3. Alinio â'r Cwricwlwm i Gymru newydd

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen adolygiad o gymwysterau TGAU cyfredol mewn Bwyd a Maeth, Addysg Gorfforol, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant. Roedd rhai o'r rheiny a wnaeth sylwadau yn canolbwyntio ar newidiadau ymarferol yn bennaf, megis cyflwyno gweithgareddau awyr agored seiliedig ar natur a rhai heblaw chwaraeon i'r cwricwlwm Addysg Gorfforol.

Fodd bynnag, credai rhai ymatebwyr eraill fod angen diwygiadau mwy sylfaenol yng ngoleuni'r Cwricwlwm i Gymru, a theimlent y dylid cynnal adolygiad trylwyr o gymwysterau yn y Maes Iechyd a Lles. Roedd y farn hon yn arbennig o gyffredin ymhlith sefydliadau rhanddeiliaid rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys rhai consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol a chyrff dyfarnu.

"Mae angen adolygu a diwygio'r cymwysterau hyn i gefnogi diben ac egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae adolygu a diwygio cymwysterau yn gyfle gwych i gwblhau ymarfer mapio o'r cynnwys presennol a nodi bylchau a chyfleoedd ar gyfer datblygiadau yn y Maes hwn"
Arall

I rai ymatebwyr, mae angen diwygio'r cymwysterau presennol fel eu bod yn gweddu'n well i gyd-destun ehangach Maes Iechyd a Lles y cwricwlwm newydd.

"Nid yw'r cymwysterau presennol yn y Maes hwn yn darparu ehangder a dyfnder llawn o ran ymdriniaeth. Mae angen adolygu a diwygio'r cymwysterau hyn i gefnogi diben ac egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru."
Arall

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau nad yw gofynion cymwysterau TGAU yn cyfyngu ar addysgu a dysgu iechyd a lles. Galwodd rhai am ddull cyfannol o addysgu a dysgu o fewn y Maes hwn fel nad yw dysgwyr nad ydynt yn dewis y cymwysterau penodol hyn yn colli cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth a dysgu sgiliau pwysig gydol oes.

Holodd rhai ymatebwyr hefyd a yw'r cynigion yn cyd-fynd yn ddigonol â Maes Iechyd a Lles y Cwricwlwm i Gymru newydd, neu a ydynt yn ddigon uchelgeisiol i drawsnewid y ffordd y caiff pynciau sy'n ymwneud ag iechyd a lles eu haddysgu. Roeddent yn pryderu y gallai cyfle i gael newidiadau pellgyrhaeddol, a fyddai o fudd i ddysgwyr, gael ei golli.

"Rwy'n credu y dylid cael dull cyfannol o gynllunio TGAU sy'n radical ei feddwl ac sy'n helpu i greu dysgwyr sy'n wirioneddol iach, yn fwy heini ... ac mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau gwybodus"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Nododd un ymatebydd y byddai angen hyfforddiant a datblygiad priodol ar y staff a fyddai'n darparu, yn asesu ac yn gwerthuso'r cymwysterau diwygiedig.

4.2.4. Dylunio cymhwyster

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen adolygu cymwysterau yn y Maes Iechyd a Lles i gefnogi dulliau addysgu a dysgu mwy diweddar. Amlygwyd bod angen adolygu a diwygio'r TGAU Addysg Gorfforol, yn benodol, er mwyn ehangu ei chwmpas: ym marn rhai ymatebwyr, nid oedd parhau i ganolbwyntio ar berfformiad a chystadleuaeth yn cyd-fynd â'r cymwysterau arfaethedig yn y Maes Iechyd a Lles.

"Mae angen newid ffocws y pynciau yma e.e. ymarfer corff, i sicrhau bod bob disgybl yn medru dysgu pwysigrwydd cadw'n iach ar gyfer iechyd corfforol a lles yn hytrach na meddwl bod pob elfen o ymarfer corff yn ymwneud a serenu a chystadlu. Mae angen dysgu i gymryd rhan mewn ymarfer corff fel sgil bywyd ac nid yn unig fel maes i gystadlu"[21]
Gweithiwr addysg proffesiynol

Dywedodd rhai ymatebwyr fod y TGAU Addysg Gorfforol bresennol yn canolbwyntio'n ormodol ar chwaraeon, ac y dylid cynnwys elfennau eraill o ffitrwydd a gweithgarwch corfforol fel rhan o gwricwlwm Iechyd a Lles ehangach. Dywedwyd y gallai hyn gynyddu apêl y pwnc a chaniatáu i elfennau newydd gael eu cyflwyno i'r cwricwlwm.

Ymhlith yr awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau newydd roedd ioga ac aerobeg, ymhlith eraill. Cafwyd dadl gref hefyd gan rai ymatebwyr o blaid cynnwys dawns yn y cwricwlwm Addysg Gorfforol, neu o blaid creu TGAU Dawns gwbl newydd i Gymru.

"Dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i Addysg Gorfforol yn benodol ac efallai cynnwys amrywiaeth ehangach o weithgareddau corfforol, nid chwaraeon tîm yn unig. Dylid gwneud mwy i hyrwyddo a defnyddio buddion iechyd meddwl bod yn egnïol yma. Efallai hefyd y byddai cyflwyno arferion fel ioga, dawns a bale yn helpu i ddenu mwy o fyfyrwyr at y pwnc"
Arall

Fodd bynnag, dadleuodd rhai ymatebwyr fod ffocws ymarferol y cwricwlwm TGAU Addysg Gorfforol presennol yn bwysig a dylid ei gynnal neu ei ehangu, gan gynnwys elfennau sy'n ymwneud â chwaraeon cystadleuol.

"Mae'n siomedig fod y cwrwiclwm newydd ond yn cyfeirio'n fras at chwaraeon - byddai cael gwared ar y cymwyster Addysg Gorfforol sy'n cynnwys opsiynau ymarferol chwaraeon yn gam enfawr yn ôl"[22]
Gweithiwr addysg proffesiynol

Mewn perthynas â'r cymwysterau eraill yn y Maes Iechyd a Lles, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bwysigrwydd sicrhau bod y cymwysterau TGAU yn cael eu dylunio a'u darparu ffordd sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer cyfleoedd astudio a gyrfa yn y dyfodol. Roedd hyn yn arbennig o wir am Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, ac roedd un sefydliad gwirfoddol sy'n arbenigo mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn cyfeirio'n benodol at gymwysterau uwch mwy newydd.

[21] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg
[22] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

"Mae'r cymwysterau yma fel ag y maent yn caniatáu i ddisgyblion arbenigo mewn pwnc a mynd ymlaen i ddewis gyrfa yn y maes o'u dewis [ac] yn cefnogi dilyniant tuag at y gyfres o gymwysterau newydd mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant a'r cymhwyster UG a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant. Mae'r rhain i gyd ond yn bodoli ers Medi 2019"[23]
Arall

Galwodd rhai gweithwyr addysg proffesiynol am wahanu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn gymwysterau ar wahân. I rai, roedd hyn yn ymwneud â chydnabod eu bod yn bynciau ar wahân gyda'u llwybrau gyrfa eu hunain. I ambell un, roedd am wahaniaethu rhwng pynciau mwy "*academaidd*", a'r rhai sy'n ymwneud â sgiliau bywyd ehangach megis meithrin a datblygu plant.

Croesawyd mwy o gydnabyddiaeth a phwyslais ar ofal fel pwnc TGAU gan un sefydliad rhanddeiliaid, sy'n gweithio i hybu ymwybyddiaeth am ofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ganddynt am y rhagolygon hirdymor ar gyfer y pwnc ac a ellid ei derfynu yn y dyfodol, er nad oeddent yn rhoi rheswm dros hyn.

Gwnaed llai o sylwadau ynghylch TGAU Bwyd a Maeth. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd y pwnc yng nghyd-destun ehangach y Maes Iechyd a Lles. Pwysleisiwyd paratoi dysgwyr i wneud dewisiadau ffordd iach o fyw ynghylch bwyd a maeth, ac argymhellwyd dull sy'n cydbwyso anghenion gwahanol unigolion.

"Yn enwedig gyda bwyd a maeth, mae angen dull cytbwys sy'n helpu disgyblion i ddeall nad oes y fath beth â bwyd 'da' a 'drwg'. Mae anhwylderau bwyta ar eu huchaf ar hyn o bryd, ac mae angen i ni fod yn fwy ymwybodol o'r hyn rydym yn ei ddweud wrth ein dysgwyr a sut rydym yn ystyried iechyd"
Heb ei nodi

4.2.5. Diwallu anghenion pob dysgwr

Cododd rhai ymatebwyr faterion yn ymwneud ag addasrwydd cymwysterau yn y Maes Iechyd a Lles i bob dysgwr. Cyfeiriodd rhai at fanteision cymwysterau gydag elfen ymarferol gref. Roeddent yn teimlo bod hyn yn rhoi cyfleoedd da i ddysgwyr llai abl gyflawni cymwysterau a fyddai o fudd i'w rhagolygon yn y dyfodol.

Tynnodd rhai sylw at bwysigrwydd diwallu anghenion pob dysgwr mewn perthynas ag asesu TGAU yn y Maes Iechyd a Lles. Roedd rhai o'r rhain yn canolbwyntio ar yr angen i sicrhau nad yw'r gofynion ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ar gyfer TGAU Addysg Gorfforol yn cael effaith negyddol ar ddysgwyr a allai ei chael yn anodd cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, e.e., y rhai o ardaloedd mwy difreintiedig.

[23] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

"Hoffwn hefyd petai gweithgaredd unigol gorfodol yn cael ei waredu, gan fod yr asesiad presennol o fudd i fyfyrwyr sy'n cystadlu mewn gweithgaredd y tu allan i'r ysgol. Fel athro mewn ardal o Gymru sy'n gymdeithasol ddifreintiedig, ni all llawer o'm myfyrwyr fforddio mynychu clybiau yn y gweithgareddau hyn"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Hefyd yn gysylltiedig â TGAU Addysg Gorfforol, teimlai rhai ymatebwyr y dylid ehangu'r diffiniad o *"chwaraeon"* i gynnwys gweithgareddau corfforol eraill. Awgrymodd ambell un y byddai gwneud hynny'n helpu i ddiwallu anghenion pob dysgwr, tra dywedwyd hefyd y gallai'r gofyniad i ddysgwyr TGAU Addysg Gorfforol gystadlu mewn sawl camp greu anhawster i rai dysgwyr oherwydd diffyg amser neu oherwydd y gost sy'n gysylltiedig â gwneud hynny y tu allan i'r ysgol. Argymhellwyd dull mwy hyblyg o ymdrin â'r gofynion presennol.

"Dylai cymwysterau newydd sicrhau bod pob dysgwr yn gallu llwyddo yn elfen ymarferol y cymhwyster mewn lleoliad ysgol, dylai fod yn gwbl gynhwysol a pheidio â dibynnu ar ffactorau cyfranogiad allanol mewn chwaraeon "
Gweithiwr addysg proffesiynol

Mewn cymwysterau eraill yn y Maes Iechyd a Lles, teimlai rhai ymatebwyr y gallai newidiadau yn y gorffennol i gymwysterau fod wedi effeithio'n anghymesur ar ddysgwyr gyda Saesneg fel iaith ychwanegol, er enghraifft, neu lefelau llythrennedd is. Cyfeiriodd un ymatebydd at derfynu BTEC Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel enghraifft, a soniodd rhai fod cyfuno'r pwnc â gofal plant yn cael effaith negyddol ar ddysgwyr llai galluog.

Soniodd rhai ymatebwyr hefyd fod newidiadau i fanylebau pwnc sy'n pwysleisio theori a dull mwy *"gwyddonol"* yn rhwystr posibl rhag dysgu i rai dysgwyr. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr a deimlai fod cymwysterau yn y Maes Iechyd a Lles yn cael eu hystyried yn *"hawdd"* ac felly'n llai *"academaidd drwyadl"* na phynciau eraill. Er eu bod yn cydnabod pwysigrwydd diwallu anghenion pob dysgwr, roeddent yn teimlo ei bod hefyd yn bwysig bod cymwysterau'n cael eu dylunio i arfogi pob dysgwr i ymgymryd ag astudiaethau ychwanegol neu ddilyn gyrfaoedd sy'n ymwneud ag iechyd a lles.

4.2.6. Asesu

Teimlai rhai ymatebwyr fod adolygu a diwygio'r ffordd y caiff yr holl gymwysterau yn y Maes Iechyd a Lles eu hasesu yn hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at eu diben ac yn cyd-fynd â nodau'r Cwricwlwm i Gymru newydd ac yn annog dysgu gwirioneddol.

"Mae angen adolygu a diweddaru pob cymhwyster er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben o fewn y modelau cynnydd y bydd disgyblion yn eu hadeiladu drwy ddatganiadau 'beth sy'n bwysig' y cwricwlwm newydd a'r camau dilyniant. Mae angen eu hadolygu hefyd o ran y gweithdrefnau asesu a ddefnyddir, i'w gwneud yn hygyrch i fwy o ddisgyblion a'r cyfleoedd dysgu ynddynt yn fwy dilys, nid eu haddysgu 'ar gyfer prawf' yn unig, nad yw'n darparu'r dysgu gorau am weddill eu hoes"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau barn ynghylch asesu ar gyfer TGAU Addysg Gorfforol. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo'n gryf y dylid rhoi mwy o bwyslais ar asesu elfennau ymarferol gan ei fod yn bwnc ymarferol yn bennaf, a dylai asesu adlewyrchu hyn. Yn wir, tybiwyd y gallai rhoi gormod o bwyslais ar elfennau damcaniaethol wneud y pwnc yn llai deniadol i rai dysgwyr.

"Mae dyfarnu marciau annigonol i'r elfen ymarferol yn gwneud y pwnc yn llai deniadol i lawer o fyfyrwyr. Byddai gwell cydbwysedd i'r system raddio yn 60/40 o blaid yr elfen ymarferol. Byddai hyn yn caniatáu i fwy o fyfyrwyr fod yn llwyddiannus"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Soniodd rhai ymatebwyr am natur gynhwysol addysg gorfforol fel pwnc TGAU, gyda phryder y dylai asesu ganiatáu i ddysgwyr ddangos eu cynnydd mewn gwahanol ffyrdd fel bod dysgwyr llai galluog, neu'r rhai ag anableddau dysgu fel dyslecsia, yn gallu ennill cymwysterau.

"Mae'r pwnc yn tueddu i ddenu llawer o fyfyrwyr sydd â'u cryfderau mewn dysgu ymarferol, cinesthetig ... mae angen i adolygiad edrych ar gynyddu elfen ymarferol y pwnc hwn a lleihau'r ochr ddamcaniaethol, heb gyfaddawdu statws y pwnc. Rwy'n credu y byddai hyn yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y pwnc ac yn codi lefelau cyrhaeddiad"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Fodd bynnag, roedd gan rai ymatebwyr farn wahanol, gan ddweud y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddamcaniaeth ac y gellid cyflwyno ffyrdd eraill o asesu dysgu. Er enghraifft, awgrymwyd y gellid cyflwyno asesiad sy'n ymwneud â dyfarnu, neu gellid cyflwyno hyfforddi ac arwain mewn manyleb ddiwygiedig.

"Mae angen i Addysg Gorfforol ddarparu'r cyfleoedd i ddysgwyr gael eu hasesu fel arweinwyr a hyfforddwyr yn hytrach na pherfformwyr yn unig. Mae Addysg Gorfforol yn ymwneud â llawer mwy na chyflawni sgil ymarferol a dylai roi cyfle i ddysgwyr gael eu hasesu mewn rolau eraill sy'n llawer mwy perthnasol ar ôl addysg ysgol"
Gweithiwr addysg proffesiynol

5. Y Dyniaethau

5.1. Cynnig 1

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i adolygu a diwygio TGAU mewn Busnes, Daearyddiaeth, Hanes ac Astudiaethau Crefyddol?

Ffigur 7: Lefel y cytundeb â phob pwnc o dan gynnig 1 ym Maes y Dyniaethau



Dewisodd ychydig dros 300 o bobl ymateb i'r cynnig hwn. Cytunai'r mwyafrif â'r cynnig i adolygu a diwygio'r pedair TGAU a gynhwyswyd yn y cynnig. Cafwyd y lefel isaf o gytundeb ar gyfer Busnes, sef 58%. Dangosodd y pwnc hwn hefyd y lefel uchaf o ymatebion niwtral a 'ddim yn gwybod', gan awgrymu y gallai'r ymatebwyr fod yn llai cyfarwydd â'r pwnc hwn na'r tri arall.

Rhoddodd mwy na dau o bob tri (68%, 205 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

5.1.1. Cadw cymwysterau TGAU ar wahân ym Maes y Dyniaethau

Roedd cytundeb cryf â'r cynnig ymhlith ymatebwyr, gyda llawer yn mynegi y dylai'r cymwysterau TGAU presennol ym Maes y Dyniaethau aros ar wahân. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd a gwerth pynciau'r dyniaethau unigol ac yn teimlo y byddai cadw pynciau ar wahân yn cynnal trylwyredd sy'n benodol i ddisgyblaeth ac yn atal pynciau rhag gwanhau. Serch hynny, pwysleisiodd rhai hefyd y dylid cydnabod yn benodol elfennau cyffredin a natur ryngddisgyblaethol y pynciau.

"Dylid parhau i addysgu prosesau a themâu allweddol pob un o'r pynciau uchod, ond dylid addysgu'r sgiliau i fyfyrwyr wneud cysylltiadau, cymhwyso gwybodaeth a chreu dealltwriaeth drwy ddatrys problemau. Rwy'n teimlo y dylai'r TGAU newydd barhau i gynnwys y themâu allweddol hyn, ond yn hytrach na cheisio addysgu popeth o dan yr haul i ddisgyblion, dylid canolbwyntio ar egwyddorion neu feysydd pwnc allweddol"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Nododd rhai ymatebwyr bwysigrwydd cael amrywiaeth o ddewisiadau i ddysgwyr ar lefel TGAU i ddatblygu gwybodaeth bwnc ymhellach. Roedd eraill yn cytuno â'r cynnig i barhau i addysgu astudiaethau crefyddol fel pwnc ar wahân i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu gwybodaeth gywir am wahanol ffydd ac yn meithrin goddefgarwch at ddiwylliannau a grwpiau eraill.

Nododd rhai hefyd y byddai cadw'r pynciau ar wahân yn helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau a'r dyfnder gwybodaeth sydd eu hangen i symud ymlaen i Safon Uwch a'r tu hwnt.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid ystyried dull cyfunol neu integredig o ymdrin â TGAU ym Maes y Dyniaethau, fel y nodir yng nghynnig 3 yn y Maes hwn. Tynnodd rhai sylw at yr angen i gadw cymwysterau TGAU ar wahân ym Maes y Dyniaethau, gan ddweud hefyd y gellid cynnig TGAU Dyniaethau cyfun ochr yn ochr â hwy. Awgrymodd ymatebwyr mai dewis arall fyddai cynnig modiwl dyniaethau craidd cyffredin sy'n rhedeg ar draws cymwysterau TGAU ar wahân ym Maes y Dyniaethau. Byddai hyn, medden nhw, yn caniatáu i ddysgwyr arbenigo yn eu pynciau dewisol mewn ffordd sy'n hylaw i ysgolion.

Nododd eraill y dylai unrhyw gymwysterau TGAU a adolygwyd ac a ddiwygiwyd ym Maes y Dyniaethau bwysleisio cysylltiadau trawsgwricwlaidd, er enghraifft y berthynas agos rhwng daearyddiaeth a gwyddoniaeth. Nodwyd bod cysylltiad agosach rhwng daearyddiaeth a gwyddoniaeth na daearyddiaeth a'r dyniaethau mewn rhai ysgolion, ac y dylid cydnabod hyn. Teimlai rhai ymatebwyr y dylai'r cymwysterau TGAU wedi'u hadolygu a'u diwygio ym Maes y Dyniaethau hefyd harneisio a datblygu ymhellach y sgiliau trosglwyddadwy a enillwyd drwy ddysgu dyniaethau integredig blaenorol yn yr ysgol.

"Ar yr un pryd, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau'r dull mwy cyfannol o ymdrin â'r 'dyniaethau' a'r sgiliau dysgu annibynnol y maent wedi'u datblygu. Byddai'n braf gweld hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn y TGAU"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Teimlai lleiafrif o'r ymatebwyr y gallai fod yn anodd i ddysgwyr symud ymlaen mewn disgyblaethau ar wahân ar lefel TGAU ar ôl astudio dyniaethau cyfun yn ystod *"Cyfnod Allweddol 3"*. At hynny, awgrymodd rhai y gallai cynnig cymhwyster amlddisgyblaethol helpu dysgwyr i *"gadw eu hopsiynau'n fwy agored a hyblyg"* a gwerthfawrogi'r gydberthynas rhwng pynciau ym Maes y Dyniaethau.

"Wrth adolygu a diwygio'r TGAU fel hyn, dylid ystyried natur ryngddisgyblaethol y maes, y cysylltiadau rhwng pynciau, a'r cyd-destunau lle gall y pynciau ddarparu lensys ategol i weld cynnwys drwyddynt"
Arall

5.1.2. Cynnwys "trwm" TGAU ym Maes y Dyniaethau

Mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryder ynghylch natur *"drom o ran cynnwys"* y cymwysterau TGAU presennol ym Maes y Dyniaethau. Gwnaed y sylwadau hyn am gymwysterau TGAU ym Maes y Dyniaethau yn gyffredinol, ac yn benodol am TGAU Hanes a Daearyddiaeth. Roedd rhywfaint o deimlad bod cynnwys trwm y cymwysterau hyn yn dileu gallu athrawon i addysgu'r pynciau'n greadigol, yn arloesol ac yn ddigon manwl. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo bod cynnwys trwm y cymwysterau yn lleihau gallu athrawon i addysgu medrau allweddol a chynnal asesiadau ffurfiol. Felly, dylai'r cymwysterau yn y dyfodol, medden nhw, ganolbwyntio mwy ar ddatblygu sgiliau a mwynhau'r pynciau.

Roedd teimlad eithaf cryf bod cynnwys trwm y cymwysterau TGAU ym Maes y Dyniaethau yn anfanteisio neu'n digalonni dysgwyr llai galluog, y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), neu lefelau llythrennedd is. Soniwyd am hyn amlaf mewn perthynas â TGAU Astudiaethau Crefyddol a TGAU Hanes.

"Mae llawer o ddysgwyr sy'n is eu cyrhaeddiad yn cael eu heithrio yn y pen draw rhag parhau i astudio'r pynciau ar wahân hyn, hyd yn oed os ydynt yn mwynhau dysgu amdanynt, am nad ydynt yn hygyrch yn eu fformat presennol"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Dywedwyd hefyd fod cynnwys trwm yn annog dysgwyr i beidio ag astudio Safon Uwch mewn Hanes a Daearyddiaeth, gan gynnwys y rhai sy'n fwy abl. Dywedodd sawl ymatebydd y dylai'r cymwysterau TGAU newydd arfaethedig ym Maes y Dyniaethau fod yn hygyrch i ddysgwyr llai galluog yn ogystal â darparu her briodol i ddysgwyr gallu uwch.

Nododd rhai ymatebwyr ei bod yn bwysig cael cydbwysedd rhwng datblygu sgiliau allweddol ac ymdrin â chynnwys hanfodol.

"Rwy'n cytuno bod y cymwysterau TGAU presennol yn rhy drwm eu cynnwys o ystyried yr amser a roddir i gyflwyno'r cynnwys a datblygu sgiliau'r myfyrwyr. Ni hoffwn weld newid sylweddol i orbwysleisio sgiliau ar draul y cynnwys. Rhaid cael y cydbwysedd ... Cynnwys ein disgyblaethau sy'n sbarduno ein brwdfrydedd dros ein pynciau, a'r parch a'r rhyfeddod a deimlwn wrth eu dysgu. Mae'n sgil ynddo'i hun - un gwerthfawr iawn - i allu storio llawer o wybodaeth ond gallu dewis o'i phlith a'i defnyddio'n effeithiol"
Gweithiwr addysg proffesiynol

5.1.3. Adolygu cynnwys cymwysterau TGAU yn y dyfodol ym Maes y Dyniaethau

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai cynnwys cymwysterau TGAU ym Maes y Dyniaethau yn y dyfodol fod yn fwy amrywiol, cyfoes a pherthnasol, gyda ffocws byd-eang neu ryngwladol ehangach. Nodwyd bod gormod o ffocws yn aml ar bynciau traddodiadol a phynciau sy'n seiliedig ar Gymru neu'r DU, a beirniadwyd y TGAU Hanes bresennol yn arbennig am ddiffyg amrywiaeth. Amlygodd yr ymatebwyr a wnaeth y pwynt hwn y ffaith bod angen cynrychiolaeth ehangach o safbwyntiau treftadaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) ar draws y cwricwlwm. Nododd rhai hefyd y dylai TGAU Daearyddiaeth newydd annog dysgwyr i ddatblygu sgiliau daearyddol sy'n seiliedig ar bwnc yn ogystal â safbwyntiau byd-eang cryfach.

Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd gadw ei ffocws ar sail gwybodaeth a pheidio â chanolbwyntio'n ormodol ar ddatblygu sgiliau. Amlygwyd bod y TGAU bresennol eisoes yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddatblygu ac arddangos sgiliau, er enghraifft, drwy gymhwyso, dehongli, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth.

Tynnodd rhai sylw hefyd at y ffaith y dylai dysgu mewn cymwysterau ym Maes y Dyniaethau fod yn fwy hunangyfeiriedig a rhyngweithiol, ac y dylai pynciau fod yn fwy diddorol a pherthnasol i ddysgwyr[24]. Pwysleisiwyd yr angen i gymwysterau TGAU ym Maes y Dyniaethau gael eu haddysgu gan athrawon arbenigol, yn enwedig o ystyried dyfnder ac ehangder eu cynnwys.

Nododd rhai ymatebwyr, er y byddai'n ddymunol cynnwys mwy o bwyslais ar ddysgu seiliedig ar ymholi ar draws y pynciau ym Maes y Dyniaethau, y dylid cydnabod y bydd y dull yn amrywio rhwng gwahanol bynciau.

Mae gwybodaeth a sgiliau a enillwyd o bynciau ym Maes y Dyniaethau yn bwysig wrth lunio gwybodaeth ac ymwybyddiaeth dysgwyr o faterion cysylltiedig, yn ôl rhai ymatebwyr. Dywedwyd bod dysgu amrywiaeth eang o bynciau cyn-16 oed yn helpu dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth bwnc ddofn. Dylai cymwysterau TGAU ym Maes y Dyniaethau gysylltu'n glir â dysgu a sgiliau blaenorol, ac roedd rhywfaint o deimlad nad yw hyn yn wir ar hyn o bryd.

"Am fod disgyblion bellach yn astudio'r 'dyniaethau' ym mlynyddoedd 7 ac 8 yn ein hysgol, prin yw'r cysylltiadau rhwng y pynciau TGAU presennol a'r hyn y mae disgyblion wedi'i astudio o'r blaen"
Gweithiwr addysg proffesiynol

I'r gwrthwyneb, teimlai rhai ymatebwyr y gallai mwy o ymreolaeth i ysgolion ar y cwricwlwm yng *"Nghyfnod Allweddol 3"* arwain at anghysondeb o ran cynnwys, yn enwedig mewn daearyddiaeth. Dywedwyd y gall hyn wneud y newid i *"Gyfnod Allweddol 4"* yn heriol i ddysgwyr. Er gallai ysgolion ddewis cynnwys penodol yng *"Nghyfnod Allweddol 4"* i fynd i'r afael â hyn, dywedwyd y dylai strwythurau dibynadwy fod ar waith i oresgyn yr heriau y gallai hyn eu cyflwyno pan asesir dysgwyr. Un pwynt

[24] Trafodir awgrymiadau penodol ar gyfer gwella cynnwys ac asesiad TGAU y dyniaethau mewn isadran ar wahân.

cysylltiedig oedd bod angen i gynnwys TGAU ym Maes y Dyniaethau gysylltu'n dda neu'n well â chynnwys Safon Uwch cysylltiedig i baratoi dysgwyr i'w hastudio ymhellach.

Awgrymodd ymatebwyr amrywiaeth o welliannau posibl penodol i gynnwys TGAU ym Maes y Dyniaethau:

Ar gyfer TGAU Daearyddiaeth, y rhain oedd:

- Cynnwys mwy o ddaearyddiaeth amgylcheddol i addysgu pobl ifanc am gynaliadwyedd a chysylltu prosesau ffisegol y ddaear â'u hachosion er mwyn i ddysgwyr ddeall effaith gweithgarwch dynol ar y blaned (e.e. newid yn yr hinsawdd, diffeithdiro, ac ansawdd pridd gwael).
- Datblygu ymhellach astudiaeth ystyrlon o ran themâu dynol, ffisegol ac amgylcheddol, ac astudiaeth o ran lle.
- Datblygu sgiliau allweddol ymhellach drwy waith maes a defnyddio systemau gwybodaeth ddaearyddol.
- Cwmpasu cynnwys mwy cyfoes, megis daearyddiaeth clefydau, twf pŵer Tsieina yn yr economi fyd-eang, ac enghreifftiau diweddar o gynllunio trefol.
- Cynnwys unedau hunan-astudio ym meysydd diddordeb dysgwyr, e.e. ymchwilio i gyflenwadau ynni amgen.

Ar gyfer TGAU Hanes, y rhain oedd:

- Ymgorffori elfennau mwy ymarferol fel archaeoleg.
- Gwaredu meddygaeth Gymreig, gan nad yw dysgwyr yn tueddu i'w mwynhau na'i chael yn berthnasol.
- Ymgorffori dysgu am hanes modern Cymru (nid canolbwyntio ar bynciau traddodiadol fel diwydiannu yn unig) a chyfraniadau amrywiol gwahanol Gymry.
- Cynnwys ffocws mwy rhyngwladol. Mynegodd rhai ymatebwyr fod y TGAU Hanes yn canolbwyntio gormod ar Gymru, gan wneud y dysgwyr yn *"ynysig gyda diffyg gwybodaeth ehangach"*.
- Ymdrin â gwladychiaeth Prydain ac effaith Prydain ar Gymru drwy, er enghraifft, caethwasiaeth, allfudo a mewnfudo, gan adlewyrchu pwyntiau a wnaed mewn mannau eraill ynghylch cynyddu amrywiaeth yn y cwricwlwm hanes.
- Cynyddu cysondeb rhwng unedau yn y TGAU Hanes. Dywedwyd bod rhai unedau'n cynnwys mwy o gynnwys a manylder nag eraill, gan gymhlethu addysgu a dysgu.
- Caniatáu i ysgolion ddewis eu safle Cymreig hanesyddol eu hunain.

Ar gyfer TGAU Busnes, y rhain oedd:

- Ymgorffori entrepreneuriaeth a syniadau ar gyfer dysgu cinesthetig ymarferol[25] yn y gymuned, e.e. gweithio gyda phartneriaethau busnes lleol.
- Ymgorffori astudio economeg yn llawnach, yn ogystal â chyllid personol a chyffredinol.
- Cwmpasu ystod fwy o sgiliau *"sy'n berthnasol yn alwedigaethol"*, megis rhifedd cymhwysol a llythrennedd digidol.

Ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol, y rhain oedd:

- Rhoi'r ymreolaeth i awdurdodau lleol yng Nghymru osod eu meysydd llafur eu hunain ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol er mwyn sicrhau ei bod yn briodol i ddysgwyr mewn ysgolion o gymeriad crefyddol a'r rhai mewn ysgolion anenwadol.[26]
- Rhoi pwyslais cryfach ar archwilio'r hyn sy'n digwydd pan fydd pobl yn marw. Byddai hyn yn paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd diweddarach a byddai'n eu galluogi i ddeall gwahanol systemau cred.
- Ymdrin â chrefyddau eraill yn hytrach na chanolbwyntio'n ormodol ar Gristnogaeth ac, i raddau llai, Islam.
- Cynnwys themâu moesegol fel moeseg busnes, trawsrywedd, hawliau anifeiliaid, a'r amgylchedd.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai TGAU Astudiaethau Clasurol fod ar gael i bob dysgwr yng Nghymru.

5.1.4. Yr angen am ddiwygiad

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen adolygu a diwygio cymwysterau TGAU ym Maes y Dyniaethau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y Cwricwlwm i Gymru newydd ac, mewn rhai achosion, gwella'r ffordd y caiff y pynciau eu haddysgu a'u hasesu. Er eu bod yn croesawu'r diwygiadau arfaethedig, teimlai rhai fod angen cadw'r agweddau ar y cymwysterau TGAU presennol sy'n gweithio'n dda a phwysleisiwyd bod angen gwarchod gwerth pynciau'r dyniaethau unigol wrth eu diwygio.

I'r gwrthwyneb, teimlai rhai ymatebwyr nad yw'r cynnig yn cyd-fynd yn ddigonol â'r cwricwlwm newydd.

---

[25] Mae dysgu cinesthetig neu gyffyrddol yn cynnwys dysgu drwy gynnal gweithgareddau corfforol yn hytrach na gwrando ar wersi neu wylio arddangosiadau.

[26] Mae Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2021 yn nodi y bydd ysgolion yng Nghymru yn dylunio eu cwricwlwm eu hunain ar gyfer pob Maes. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad pellach ar ei chanllawiau i gefnogi Ysgolion i gynllunio Addysg, Gwerthoedd a Moeseg yn eu cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr 3 i 16 oed, a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2021: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-05/dogfen-ymgynghori-cwricwlwm-i-gymru-crefydd-gwerthoedd-a-moeseg_0.pdf

"Nid yw'r cynigion fel petaent yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, felly rwyf am ofyn i chi - beth yw barn yr athrawon? Pwy ysgrifennodd ganllawiau'r dyniaethau yn y Cwricwlwm i Gymru? A sut mae eich cynnig yn cefnogi dysgwyr i symud ymlaen tuag at y pedwar diben? Sut mae'n eu paratoi ar gyfer meddwl yn feirniadol, datrys problemau, a chyfathrebu, sy'n ofynnol i adeiladu cymdeithas gydlynol lle mae pobl yn gweithredu er lles pennaf ein hamgylchedd?"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Nododd rhai ei bod yn rhy fuan i gael diwygiad arall, a bod y cymwysterau a adolygwyd yn ddiweddar yn addas at eu diben, gan gredu na fyddai diwygiadau pellach ond yn arwain at fân newidiadau. Nodwyd faint o amser ac ymdrech sydd eu hangen i baratoi i addysgu manylebau TGAU newydd. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at effaith sylweddol COVID-19 ar addysgu a dysgu, gan ddweud nad oeddent yn teimlo bod newidiadau pellach yn amserol yng ngoleuni hyn.

"Mae gormod o newidiadau (diangen) wedi bod yn barod"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn anfodlon ar y diwygiadau diweddar i gymwysterau TGAU ym Maes y Dyniaethau. Er enghraifft, gwelwyd bod newidiadau i TGAU Astudiaethau Crefyddol wedi niweidio'r pwnc a'i wneud yn llai perthnasol.

"Credaf fod y diwygiadau diweddar i astudiaethau crefyddol wedi gwneud niwed enfawr i'r pwnc a byddai'n well gennyf ddychwelyd i berthnasedd neu ganiatáu ar gyfer peidio â'i addysgu"
Gweithiwr addysg proffesiynol

5.1.5. Asesu

Roedd llawer o'r rhai a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn yn myfyrio ynghylch asesu'r cymwysterau TGAU presennol ym Maes y Dyniaethau. Dywedodd rhai eu bod yn canolbwyntio gormod ar baratoi dysgwyr ar gyfer asesiadau, yn cyfyngu ar allu athrawon i addysgu'r medrau allweddol ym mhob disgyblaeth, ac yn cyfyngu ar fwynhad dysgwyr o'r pynciau.

Amlygodd eraill fod angen asesu cymwysterau TGAU ym Maes y Dyniaethau yn y dyfodol mewn modd mwy arloesol a rhyngweithiol, a chanolbwyntio llai ar ddysgu cynnwys i basio arholiadau. Nodwyd y dylai'r cymwysterau TGAU newydd gynnwys ystod ehangach o fathau o asesiadau sy'n adeiladu ar sgiliau a chymwyseddau dysgwyr ac yn datblygu gwybodaeth eang am bynciau.

"Mae angen i asesiadau roi cyfle gwirioneddol i ddysgwyr gyfleu eu dealltwriaeth a'u dyfnder gwybodaeth mewn maes pwnc neu sgil disgyblaethol mewn ffyrdd creadigol ac amrywiol. Yn aml, nid yw'r fformatau asesu, yn enwedig arholiadau, yn rhoi amser i ddisgyblion fyfyrio, hunanholi a meddwl yn y bôn. Mae angen i natur asesiadau hwyluso dealltwriaeth gysyniadol disgyblion o'r disgyblaethau pwnc"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd rhywfaint o deimlad bod dysgwyr yn ei chael hi'n anodd cwblhau'r arholiadau presennol (yn enwedig mewn TGAU Hanes) o fewn yr amser a neilltuwyd ac i'r safon ofynnol. Mae rhai yn ystyried bod asesiad TGAU Hanes yn canolbwyntio ar *"ailchwydu*

nodiadau", sy'n gysylltiedig â'r manylebau sy'n drwm eu cynnwys. Credid hefyd bod yr iaith a ddefnyddir yn y TGAU Hanes yn rhy anodd i ddysgwyr llai abl.

Dywedwyd bod asesu TGAU Astudiaethau Crefyddol yn gyfan gwbl drwy arholiad yn ei hatal rhag cael ei hystyried yn gyfartal â phynciau eraill ym Maes y Dyniaethau (gan leihau ei gallu hefyd i ddiwallu anghenion pob dysgwr a'i hatyniad i rai dysgwyr), sy'n cynnwys cyfuniad o ddulliau asesu.

Dywedwyd hefyd fod angen elfen gwaith cwrs neu asesiad di-arholiad (ADA) ar y TGAU Busnes i'w chysoni â phynciau eraill ym Maes y Dyniaethau. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, awgrymwyd gan rai y dylai fod gan bob TGAU ym Maes y Dyniaethau fodelau asesu tebyg yn y dyfodol, gan gynnwys asesiad modiwlaidd o bosibl.

Nodwyd hefyd y gellid hefyd cyflwyno dull gwahanol o ymdrin ag ADA i wneud TGAU Hanes yn fwy hygyrch i ddysgwyr, ac felly hefyd cyflwyno llai o gwestiynau arholiad a rhai mwy graddedig. Awgrymodd un ymatebydd y gellid rhannu astudiaethau achos busnes cyn arholiadau i helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau a magu hyder.

Teimlai rhai ymatebwyr y dylid cael mwy o gydnabyddiaeth o werth gwaith a asesir gan athrawon, gan fanteisio ar brofiadau ysgolion ers pandemig COVID-19. Fodd bynnag, nodwyd bod yn rhaid i'r asesiad fod yn hylaw i athrawon a dysgwyr.

"Ceir cytundeb cyffredinol ar gyfer mwy o gydnabyddiaeth o waith a asesir gan athrawon, gan adeiladu'n benodol ar y profiadau mewn ysgolion ers mis Mawrth 2020"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Amlygwyd gan rai ymatebwyr fod angen defnyddio dull parhaus, blaengar, digidol a chyfunol o addysgu, dysgu ac asesu, a hefyd fod angen mwy o ffocws ar ddilyniant unigol ac asesiadau ffurfiannol dros asesiadau crynodol. Dywedwyd hefyd y dylai asesiadau llafar anffurfiol ddod yn amlycach, yn enwedig i ddysgwyr â sgiliau llythrennedd is. Nodwyd hefyd y dylai asesiad pob TGAU ym Maes y Dyniaethau gynnwys llythrennedd, rhifedd a gofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD).

5.1.6. Cysondeb a dyluniad

Roedd rhywfaint o deimlad y dylai'r holl gymwysterau ym Maes y Dyniaethau gael eu strwythuro mewn ffordd debyg a bod yn gyson â'i gilydd. Yn wir, dywedodd rhai ymatebwyr fod yn rhaid i'r cymwysterau fod â nodau a meini prawf clir i sicrhau addasrwydd i'r diben a chymaroldeb rhwng pynciau, a bod yn rhaid iddynt gydbwyso ehangder a dyfnder cynnwys i sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei herio'n briodol a bod ganddo sail gadarn ar gyfer symud ymlaen i astudio pellach. Nododd rhai ymatebwyr hefyd y dylai manylebau ar gyfer pob cymhwyster ym Maes y Dyniaethau fod ar gael ar yr un pryd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Yn unol â hyn, awgrymwyd y dylid neilltuo'r un amser addysgu i bob pwnc ym Maes y Dyniaethau o fewn y cwricwlwm, a dywedwyd nad hynny sy'n digwydd ar hyn o bryd[27].

[27] I egluro, mae'r amser a ddyrennir i addysgu a dysgu yn fater amserlennu i ysgolion. Mae TGAU lawn yn 120 o oriau dysgu dan arweiniad. Nid yw'r amser y mae ysgolion yn ei neilltuo i addysgu cymhwyster yn perthyn i gylch gwaith Cymwysterau Cymru.

Er mwyn sicrhau bod y cymwysterau TGAU ym Maes y Dyniaethau yn gyson, teimlai ychydig o ymatebwyr y dylai pob un ohonynt aros yr un maint; dylai pynciau fod ar wahân; a dylid dileu haenau a chyrsiau byr.

Nododd un ymatebydd nad yw TGAU Astudiaethau Crefyddol yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr arddangos sgiliau gwerthuso i'r un graddau â TGAU mewn Hanes a Daearyddiaeth, a welwyd yn annheg i ddysgwyr.

"Lle rwy'n gweld y gwahaniaeth mwyaf o fewn ystod y dyniaethau yw graddau'r sgiliau sydd eu hangen mewn Astudiaethau Crefyddol a'r raddfa farcio unffurf[28] i ddyfarnu graddau. Mewn hanes, a daearyddiaeth i raddau, mae gofyn defnyddio sgiliau gwerthuso go iawn, heb fod disgwyl hyn gydag Astudiaethau Crefyddol. E.e., disgwylir i fyfyrwyr AC ddeall yr hyn y mae gwahanol ddehongliadau'n ei ddweud, ond nid oes rhaid iddynt brofi graddau dilysrwydd y rhain yn seiliedig ar i) dilysrwydd yr awdur; ii) pam mae gan yr awdur ei farn benodol a iii) y brif dystiolaeth a ddefnyddiwyd. Ni allaf weld sut y gellir cymharu hanes ac AC o flwyddyn i flwyddyn tra bydd cymaint o wahaniaeth rhwng sgiliau, graddio is ar y raddfa farcio unffurf ar gyfer AC, a'r un mathau o gwestiynau'n cael eu cynnwys ar bob papur yn yr arholiadau AC"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Fodd bynnag, mynegodd rhai ymatebwyr gefnogaeth gref i gyflwyno cwrs byr neu gymhwyster lefel 2 cyfatebol ochr yn ochr â TGAU lawn mewn astudiaethau crefyddol. Teimlwyd y byddai hyn yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael sylfaen mewn addysg grefyddol ac y byddai'n paratoi'r rhai sy'n dymuno arbenigo yn y pwnc ar gyfer astudio pellach. Byddai hefyd yn sicrhau bod addysg grefyddol ar gael o hyd a byddai'n gwneud darpariaeth ac asesiad y pwnc yn fwy hylaw i ysgolion.

"Rhaid rhoi ystyriaeth arbennig i natur statudol astudio astudiaethau crefyddol / crefydd, gwerthoedd a moeseg hyd at 16 oed a rhaid cydnabod a rhoi cyfrif am hyn mewn adolygiadau o gymwysterau. Felly, mae angen gwahaniaethu rhwng cymhwyster statudol mewn astudiaethau crefyddol a chymhwyster dewisol, ar wahân. Yn ei dro, bydd angen adolygu gwahaniaeth enw a / neu deitl i adlewyrchu'r gwahaniaeth hwn... mae angen cyfres ddwyieithog, gynhwysol ac eang o gymwysterau mewn astudiaethau crefyddol ar lefel TGAU"
Arall

Awgrymwyd hefyd y dylid ailenwi'r cwrs byr a'r TGAU lawn i adlewyrchu eu natur a'u cynnwys. Awgrymwyd y gellid galw'r TGAU lawn yn *"Crefydd a Safbwyntiau Byd"* neu *"Addysg Gwerthoedd"*, ac y gellid galw'r cwrs byr yn *"Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg"*[29]. Teimlai un ymatebydd na ddylai teitl y TGAU Astudiaethau Crefyddol gynnwys y gair *"crefydd"*, oherwydd ystyriwyd bod hyn yn colli diddordeb dysgwyr. Dywedwyd hefyd y gellid cyflwyno cyfran o ADA ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno arbenigo mewn astudiaethau crefyddol, gan asesu'r rhai sy'n astudio'r cwrs byr yn ddigidol/ar-lein.

[28] UMS = Graddfa Farcio Unffurf. Defnyddir Graddfa Farcio Unffurf i safoni'r broses o farcio papurau ar draws gwahanol fyrddau arholi, er mwyn cymharu marciau o wahanol fyrddau arholi.
[29] Bydd "Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg" (CGM) yn ofyniad statudol yn y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer pob dysgwr o 3 i 16 oed. Datblygwyd canllawiau drafft i gefnogi ysgolion i gynllunio maes llafur ar gyfer CGM.

5.1.7. Cydraddoldeb a gwerth

Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru o dan anfantais a bod eu cynnig dysgu yn debyg i Loegr ac awdurdodaethau eraill yn y DU. Dywedasant fod yn rhaid i gynnwys a thrylwyredd cymwysterau TGAU diwygiedig yng Nghymru fod yn debyg i gynnwys y cymwysterau cyfatebol a gynigir yn Lloegr ac mewn mannau eraill i gefnogi cynnydd dysgwyr i ddysgu pellach. Yn ogystal, dywedwyd na ddylai'r diwygio niweidio enw da TGAU yng Nghymru o'u cymharu â'r rhai a gynigir mewn rhannau eraill o'r DU.

"Byddai addasu'r cymwysterau hyn, gan eu gwneud yn gyfartal â chymwysterau gwledydd eraill, yn dylunio system gymwysterau a fyddai'n cael ei chydnabod ledled y byd ac mewn pynciau unigol sy'n cael eu hadnabod a'u cydnabod yn uchel mewn lleoliadau academaidd"
Gweithiwr addysg proffesiynol

5.2. Cynnig 2

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu TGAU newydd mewn Astudiaethau Cymdeithasol, os yw'n ymarferol bosib?

Ffigur 8: Lefel y cytundeb â chynnig 2 ym Maes y Dyniaethau



Ymatebodd 315 o bobl i'r cynnig hwn. Roedd ychydig dros hanner (56%) yn cytuno â'r cynnig i greu TGAU newydd mewn Astudiaethau Cymdeithasol. Roedd gweithwyr addysg proffesiynol ychydig yn llai cefnogol: roedd 53% yn cytuno a thros chwarter (27%) yn anghytuno, gan gynnwys 17% yn anghytuno'n gryf. Rhoddodd dros hanner (57%, 180 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

5.2.1. Perthnasedd a phwysigrwydd

Roedd llawer o'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn yn teimlo y byddai TGAU mewn Astudiaethau Cymdeithasol yn ymdrin â phynciau sy'n bwysig ac yn berthnasol i ddysgwyr. Nododd rhai y byddai'r cymhwyster yn helpu i ehangu gwybodaeth dysgwyr am faterion rhyngwladol, gan helpu i gynyddu eu hempathi a'u dealltwriaeth.

"Byddai ymwybyddiaeth am amrywiaeth o faterion gwahanol yn gynharach yn eu dysgu yn fuddiol iawn. Yn ôl yr adborth gan lawer o ddisgyblion Blwyddyn 11, teimlant nad ydynt wedi'u paratoi ar gyfer y byd, er eu bod wedi astudio ystod eang o bynciau penodol iawn. Gallai astudiaethau cymdeithasol helpu disgyblion i ddatblygu gwybodaeth lawer ehangach a fyddai o fudd iddynt yn y dyfodol ac agor eu llygaid i amrywiaeth lawer ehangach o feysydd pwnc ôl-16" Gweithiwr addysg proffesiynol

Dywedodd rhai ymatebwyr hefyd y byddai TGAU mewn Astudiaethau Cymdeithasol yn helpu i gefnogi'r rhai sy'n dymuno astudio astudiaethau cymdeithasol a phynciau cysylltiedig fel y gyfraith, cymdeithaseg, gwleidyddiaeth a throseddeg am Safon Uwch a'r tu hwnt, ac yn eu paratoi ar gyfer bywyd diweddarach. Nododd un ymatebydd hefyd y byddai'n ddefnyddiol i ddysgwyr sy'n dymuno bod yn athrawon yn y dyfodol.

Teimlwyd hefyd y byddai TGAU Astudiaethau Cymdeithasol yn helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy defnyddiol, megis methodoleg a dadansoddi tystiolaeth, ac y byddai'n gosod y pwnc yn gyfartal ag eraill ym Maes y Dyniaethau.

5.2.2. Defnydd, diddordeb, a gwerth

Roedd rhai ymatebwyr yn rhagweld y byddai TGAU mewn Astudiaethau Cymdeithasol yn boblogaidd ymhlith dysgwyr, yn enwedig dysgwyr llai galluog a allai gael trafferth gyda TGAU ar wahân ym Maes y Dyniaethau. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai dysgwyr gallu uwch hefyd yn croesawu'r cymhwyster hwn. Holodd un a fyddai cymhwyster cyfwerth â Safon Uwch yn cael ei ddatblygu i roi cyfle i symud ymlaen ac arbenigo yn y pwnc.

Gall TGAU Astudiaethau Cymdeithasol hefyd apelio at ddysgwyr sydd am astudio gwahanol bynciau ym Maes y Dyniaethau, awgrymodd rhai ymatebwyr. Ystyriwyd bod astudiaethau cymdeithasol yn cynnig cyfle i barhau i astudio'r dyniaethau ymhlith dysgwyr nad ydynt yn dymuno dilyn y disgyblaethau mwy traddodiadol.

"Bydd hefyd yn gyfle i ddysgwyr barhau i astudio agwedd ar y dyniaethau hyd yn oed os nad oeddent am astudio busnes, daearyddiaeth, hanes nac addysg grefyddol. I ddysgwyr â diddordeb cryf ym mhynciau'r dyniaethau, mae posibilrwydd y gellid cymryd astudiaethau cymdeithasol fel TGAU ochr yn ochr ag un o bynciau eraill y dyniaethau i ehangu eu cyfleoedd yn y maes hwn ymhellach"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Dywedodd rhai ymatebwyr y gallai astudiaethau cymdeithasol ddod yn *"bwnc ychwanegol"* drwy roi cyfleoedd i astudio addysg Bersonol, Gymdeithasol, Iechyd ac Economaidd (PSHE), dinasyddiaeth, hawliau dynol, ac elfennau o bynciau'r dyniaethau. Ond er mwyn bod yn gredadwy, dywedwyd bod rhaid i'r pwnc fod â dyfnder ac ehangder digonol, a chwmpasu sgiliau a gwybodaeth.

Ar y llaw arall, teimlai rhai ymatebwyr na fyddai gan ddysgwyr ddiddordeb mewn cymhwyster astudiaethau cymdeithasol newydd, ac y byddent yn hytrach yn dewis astudio pynciau mwy traddodiadol yn y dyniaethau. Awgrymodd sawl un arall y byddai TGAU mewn Astudiaethau Cymdeithasol yn gymhwyster *"wedi'i wanhau"*, heb ddyfnder a thrylwyredd. Cyfeiriodd rhai at gymwysterau mewn astudiaethau cymdeithasol, dinasyddiaeth a chymdeithaseg a gynigiwyd i ddysgwyr yng Nghymru a Lloegr yn y gorffennol ond a ddaeth i ben ers hynny oherwydd eu diffyg trylwyredd, dyfnder a her ymddangosiadol.

Yn gysylltiedig â hyn, teimlai rhai na fyddai TGAU Astudiaethau Cymdeithasol yn ystyrlon nac yn cael ei gwerthfawrogi gan sefydliadau addysg uwch na chyflogwyr o'i chymharu â chymwysterau mwy sefydledig ym Maes y Dyniaethau.

Nid oedd eraill yn teimlo y gallai'r cymhwyster astudiaethau cymdeithasol arfaethedig gwmpasu'r holl bynciau angenrheidiol yn ddigon manwl, sy'n golygu y byddai dysgwyr yn llai parod i astudio pynciau o fewn Maes y Dyniaethau mewn addysg bellach ac addysg uwch. Er mwyn bod yn llwyddiannus, pwysleisiodd ymatebwyr y byddai angen

i'r cymhwyster fod â'r un trylwyredd â chymwysterau eraill ym Maes y Dyniaethau ac y byddai angen iddo ategu yn hytrach na disodli pynciau sefydledig.

5.2.3. Cystadlu, dyblygu ac integreiddio â chymwysterau sy'n bodoli eisoes

Mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryder y byddai'r cymhwyster astudiaethau cymdeithasol arfaethedig yn *"gwthio i'r ochr"* neu'n bwrw i'r cysgod gymwysterau TGAU presennol ym Maes y Dyniaethau, gan fentro eu hymyleiddio o fewn cwricwla ac amserlenni ysgolion. Credid y gallai hyn effeithio ar y nifer sy'n astudio pynciau eraill ym Maes y Dyniaethau ar Safon Uwch a'r tu hwnt. Credid hefyd fod ganddo'r potensial i gynyddu cystadleuaeth rhwng pynciau yn y Maes hwn.

Roedd rhywfaint o deimlad bod astudiaethau cymdeithasol eisoes yn cael eu cwmpasu gan y cymwysterau TGAU eraill ym Maes y Dyniaethau ac agweddau ar y Dystysgrif Her Sgiliau.

"Sut bydd hyn yn wahanol i Fagloriaeth Cymru[30]? Cymysgedd o bynciau a dulliau gweithredu - mae'n ymddangos yn eithaf gwan, ac mae ysgolion eisoes dan bwysau i addysgu cwricwlwm amrywiol, yn ogystal â chyflenwi Bagloriaeth Cymru heb arbenigwyr pwnc - rwy'n synnu'n fawr fod hyn hyd yn oed yn cael ei ystyried"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai'r TGAU Astudiaethau Cymdeithasol arfaethedig ddisodli'r Dystysgrif Her Sgiliau yng *"Nghyfnod Allweddol 4",* neu y gellid addasu'r Dystysgrif Her Sgiliau i gynnwys rhywfaint o'r cynnwys arfaethedig ar gyfer TGAU Astudiaethau Cymdeithasol.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid mynd i'r afael â bylchau yn y cymwysterau eraill ym Maes y Dyniaethau, yn hytrach na chyflwyno TGAU Astudiaethau Cymdeithasol newydd. Roedd rhywfaint o awgrym hefyd y dylid ymgorffori astudiaethau cymdeithasol mewn pynciau eraill fel astudiaethau crefyddol (neu yn y TGAU Dyniaethau integredig arfaethedig a drafodir ar wahân yn yr adroddiad hwn), yn hytrach na chreu cymhwyster newydd ar wahân. Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnig gwleidyddiaeth yn hytrach na TGAU Astudiaethau Cymdeithasol, yn enwedig gan fod yr oedran pleidleisio ar gyfer Etholiadau'r Senedd wedi'i ostwng yng Nghymru.

Teimlai ambell un arall y byddai astudiaethau cymdeithasol yn cynnig cynnwys newydd nad yw'n ymddangos yn y disgyblaethau mwy traddodiadol ym Maes y Dyniaethau. Fodd bynnag, dywedwyd y byddai angen ystyried cynnwys TGAU Astudiaethau Cymdeithasol yn ofalus er mwyn osgoi dyblygu gyda chymwysterau sy'n bodoli eisoes ym Maes y Dyniaethau.

Nodwyd hefyd y dylai'r cymhwyster arfaethedig egluro'r cysylltiadau rhwng pynciau'r dyniaethau ac adlewyrchu eu natur integredig naturiol, gan gadw hunaniaeth benodol ar yr un pryd.

[30] Cyfeiriodd yr ymatebydd hwn at "Fagloriaeth Cymru" pan oedd fel petai'n golygu elfen Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.

"Er bod llawer o gysylltiadau cyflenwol a thrawsgwricwlaidd ar draws a rhwng pynciau'r dyniaethau, gan gynnwys y cynigion astudiaethau cymdeithasol, mae'n hanfodol bod gofynion y cwrs wedi'u hysgrifennu o fewn fframwaith astudiaethau cymdeithasol. Byddai'r pwnc a'r cymhwyster wedyn yn ddisgyblaeth ychwanegol, academaidd ac ar wahân sy'n ategu cymwysterau eraill gwneud-i-Gymru o fewn y dyniaethau. Byddai'n bwysig sicrhau bod elfennau disgyblaethol astudiaethau cymdeithasol yn cael eu nodi'n glir a'u gwahaniaethu oddi wrth ddisgyblaethau eraill o fewn y dyniaethau"
Arall

5.2.4. Alinio â'r Cwricwlwm i Gymru newydd

Dywedodd sawl ymatebydd fod cymwysterau amlddisgyblaethol fel hyn yn cyd-fynd yn gryf â nodau a dibenion y cwricwlwm newydd.

"Mae'r diffyg TGAU gwneud-i-Gymru yn y ddisgyblaeth hon ar hyn o bryd yn fwlch clir o ran aliniad rhwng cymwysterau a'r cwricwlwm newydd, fel y dangosir yn y papur ymgynghori. Bydd astudiaethau cymdeithasol yn ddisgyblaeth bwysig o fewn y cwricwlwm newydd ar gyfer dysgu am gydraddoldeb a hawliau dynol, materion cymdeithasol a dinasyddiaeth"
Arall

Roedd cefnogaeth hefyd i'r cymhwyster fod yn un gwneud-i-Gymru, i gael ei gynllunio gan arbenigwyr pwnc yng Nghymru, bod ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a chynnwys cyd-destun a phwyslais sy'n gysylltiedig â Chymru i ddiwallu anghenion dysgwyr Cymraeg.

5.2.5. Staffio

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch sut y byddai TGAU Astudiaethau Cymdeithasol yn cael ei haddysgu, gan awgrymu y gallai ysgolion gael trafferth recriwtio digon o staff arbenigol i'w chyflenwi. Dywedwyd bod athrawon astudiaethau cymdeithasol arbenigol yn adnodd prin, ac er y gallai'r cymhwyster arfaethedig gael ei addysgu gan arbenigwyr mewn disgyblaethau eraill, dywedwyd efallai nad fyddant mor frwd drosto â'u pynciau eu hunain.

"Byddai'r diffyg staff arbenigol sy'n addysgu hyn yng Nghyfnod Allweddol 3 yn debygol o'i wneud yn bwnc amhoblogaidd, heb ei addysgu cystal. Mae'n debygol y byddai'n gyfrifoldeb i athrawon daearyddiaeth, hanes neu addysg grefyddol ei gynnwys mewn gwersi, gan leihau'r amser sydd gennym i addysgu'r pynciau yr ydym wedi cymhwyso ynddynt ac yn arbenigo yn eu haddysgu"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Teimlwyd hefyd y gallai'r sefyllfa hon arwain at broblemau baich gwaith, gyda rhai ymatebwyr yn pwysleisio y byddai angen uwchsgilio ar staff, ac adnoddau ategol a chanllawiau clir i'w galluogi i gyflenwi TGAU Astudiaethau Cymdeithasol.

5.2.6. Cynnwys ac asesu

Dylai TGAU Astudiaethau Cymdeithasol gynnwys ymgysylltu â'r gymuned, er enghraifft, drwy ymgysylltu â grwpiau cymunedol a'r rhai sydd â phrofiad byw o'r materion sy'n cael eu trafod, yn ôl rhai ymatebwyr. Dywedwyd y byddai hyn yn helpu i feithrin perthynas rhwng gwahanol genedlaethau a meithrin cydlyniant cymunedol.

Awgrymodd rhai eraill hefyd y dylai dysgwyr allu dewis modiwlau ar wahanol bynciau yn unol â'u diddordebau eu hunain.

Gwnaed rhai awgrymiadau pellach ynghylch cynnwys y TGAU Astudiaethau Cymdeithasol arfaethedig, gan gynnwys:

- Cydbwysedd o faterion hanesyddol a chyfoes, gan gynnwys sut mae digwyddiadau'r gorffennol wedi llunio cymdeithas heddiw.
- Democratiaeth, gwleidyddiaeth ac economeg i baratoi dysgwyr i bleidleisio yn 16 oed a dod yn ddinasyddion byd-eang.
- Materion cymdeithasol, hunaniaeth, hawliau a threfniadaeth gymdeithasol.
- Effaith y cyfryngau cymdeithasol ar gymdeithas.
- Hiliaeth a dinasyddiaeth.
- Sgiliau meddwl yn feirniadol ac ymholi athronyddol.

Soniodd ambell ymatebydd am sut y dylid asesu TGAU Astudiaethau Cymdeithasol. Awgrymodd un y dylai'r asesiad adlewyrchu trylwyredd a safon y cymwysterau TGAU unigol ym Maes y Dyniaethau. Pwysleisiodd un arall y dylid ymgorffori'r FfCD yn y meini prawf asesu; a theimlai un arall fod angen rhagor o wybodaeth am gydbwysedd ADA ac arholiadau i asesu'r cymhwyster.

5.3. Cynnig 3

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu TGAU integredig newydd yn y Dyniaethau, os yw'n ymarferol bosib?

Ffigur 9: Lefel y cytundeb â chynnig 3 ym Maes y Dyniaethau



Ymatebodd cyfanswm o 311 o bobl i'r cynnig hwn ac roedd dros hanner (52%) yn anghytuno â'r syniad o ddatblygu TGAU integredig newydd yn y Dyniaethau. Roedd hyn yn cynnwys 36% a oedd yn anghytuno'n gryf. Ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol, roedd anghytundeb hyd yn oed yn fwy amlwg gyda 61% yn anghytuno, gan gynnwys 41% a oedd yn anghytuno'n gryf â'r cynnig.

Rhoddodd bron i ddau o bob tri (63%, 197 o bobl) o'r rhai a ymatebodd sylw ysgrifenedig hefyd. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

5.3.1. Dyfnder ac ehangder y cymhwyster

Y pryder mwyaf oedd y gallai TGAU Dyniaethau newydd wneud y meysydd pwnc yn rhy eang; gwanhau gwybodaeth a sgiliau pwnc; cyfyngu ar gyfleoedd i arbenigo; a cheisio ymgorffori gormod o gynnwys mewn un cymhwyster.

Mynegwyd cryn bryder hefyd y byddai TGAU Dyniaethau newydd yn ceisio ymdrin â gormod o gynnwys, gan ei gwneud yn anodd ei haddysgu a'i hastudio. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu na fyddai'n ymdrin â phynciau ym Maes y Dyniaethau yn ddigon manwl. Mae posibilrwydd *"gwanhau"* disgyblaethau sefydledig ac uchel eu parch a hepgor dysgu hanfodol yn poeni rhai ymatebwyr eraill.

Er bod rhai ymatebwyr yn cytuno y gallai dyfarniad dwbl fod yn fwy priodol na chymhwyster dyfarniad sengl i sicrhau y byddai gan bob un o'r pynciau ym Maes y Dyniaethau yr un pwyslais ynddo, teimlai cyfran uwch na fyddai dyfarniad dwbl yn dal i gwmpasu'r pynciau o fewn y Maes yn ddigon dwfn ac eang. Pwysleisiwyd y lle ychwanegol y byddai TGAU dyfarniad dwbl yn ei lenwi yn yr amserlen a'i botensial i *"wthio i'r ochr"* bynciau eraill mewn perthynas â'r pwynt hwn.

Nododd rhai ymatebwyr y byddai cynnwys y cymhwyster TGAU integredig arfaethedig yn y Dyniaethau yn anodd i ysgolion benderfynu arno, a'i gynllunio, o ystyried amrywiaeth y pynciau ym Maes y Dyniaethau a'r prinder lle ar gael o fewn y cwricwlwm.

Teimlai rhai ymatebwyr na ddylai'r TGAU arfaethedig yn y Dyniaethau gael ei chynnig yn lle cymwysterau TGAU ar wahân ym Maes y Dyniaethau, gan awgrymu eu bod wedi camddeall y cynnig. Ar y llaw arall, teimlai nifer fach y gellid cynnig y cymhwyster arfaethedig fel dewis amgen i gymwysterau TGAU ar wahân ym Maes y Dyniaethau. Pe bai hyn yn wir, rhaid i ddewis arall o'r fath, dywedwyd, fod *"yn academaidd gadarn"*.

Awgrymodd sawl ymatebydd y dylid gwneud cysylltiadau a sgiliau trosglwyddadwy ar draws cymwysterau TGAU ym Maes y Dyniaethau yn hytrach na chreu cymhwyster TGAU Dyniaethau newydd.

"Nid ydym yn siŵr a yw dull gwirioneddol integredig o ymdrin â'r dyniaethau yn briodol ar gyfer TGAU. Credwn ei bod yn fwy hylaw i'r rhan fwyaf o ddysgwyr astudio disgyblaethau ar wahân yn CA4, yna symud ymlaen i gymwysterau gyda mwy o bwyslais ar y cysylltiadau rhyngddynt"
Arall

5.3.2. Dilyniant dysgwyr

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr na fyddai'r TGAU Dyniaethau arfaethedig yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth benodol i bwnc sydd eu hangen ar ddysgwyr ar gyfer astudio pynciau ym Maes y Dyniaethau ymhellach, a hynny efallai'n effeithio ar y nifer sy'n eu hastudio ar lefel Safon Uwch a'r tu hwnt.

"Dim ond y myfyrwyr eithriadol hynny sy'n gallu ymdopi â'r her bellach o ymgymryd â Safon Uwch yn un o'r dyniaethau os nad ydynt wedi ymgymryd â'r cwrs TGAU - mae sgiliau dadansoddi ffynonellau a dehongli yn UG hanes / ysgrifennu traethodau ar draws ystod y dyniaethau yn anodd iawn i lawer o fyfyrwyr heb sylfaen y TGAU. Ni fyddai TGAU dyniaethau o reidrwydd yn eu paratoi ar gyfer lefel yr arbenigedd i gymhwyso sgiliau i gyd-destunau / cynnwys newydd yn UG ac A2"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Pwysleisiodd rhai o'r rheini a fynegodd y farn hon hefyd y dylid cynnig unedau neu fodiwlau unigol ym Maes y Dyniaethau yn briodol o eang ac yn fanwl mewn unrhyw TGAU Dyniaethau newydd.

Yn yr un modd, nododd ymatebwyr y gallai dysgwyr sy'n astudio TGAU Dyniaethau fod o dan anfantais o'u cymharu ag eraill sydd wedi astudio cymwysterau TGAU ar wahân ym Maes y Dyniaethau wrth symud ymlaen i addysg bellach ac uwch, a hynny efallai'n effeithio ar eu rhagolygon yn y dyfodol. Dywedwyd nad yw adrannau derbyn sefydliadau addysg uwch yn ystyried bod TGAU Dyniaethau yn hafal i gymwysterau mwy traddodiadol ym Maes y Dyniaethau. Nodwyd hefyd fod angen i ddysgwyr yng Nghymru gael cymwysterau o fewn Maes y Dyniaethau sy'n cael eu hystyried yn gyfartal â'u cymheiriaid yng ngwledydd eraill y DU.

Gwnaed pwynt cysylltiedig gan rai ymatebwyr a nododd, er y gallai dyniaethau integredig weithio yng *"Nghyfnod Allweddol 3"* ac is, nid yw'n berthnasol ar lefel TGAU pan fydd angen i ddysgwyr ddechrau arbenigo mewn pynciau penodol. Roeddent yn

teimlo na ddylid cynnig TGAU yn y Dyniaethau felly gan y byddai'n atal dysgwyr rhag arbenigo. I'r gwrthwyneb, teimlai rhai ymatebwyr y gallai astudio disgyblaethau lluosog fel hyn alluogi dysgwyr i ddewis o ystod ehangach o bynciau Safon Uwch.

Roedd rhai a oedd yn gefnogol ar y cyfan tua'r TGAU Dyniaethau arfaethedig yn teimlo y dylai Safon Uwch y Dyniaethau integredig hefyd fod ar gael i alluogi dilyniant o'r TGAU.

"Mae cwestiwn ynghylch a fyddai gan ddysgwyr yr hawl i ddisgwyl astudio cymhwyster dyniaethau integredig ar lefel ôl-16 ac a fyddai angen datblygu cymhwyster o'r fath"
Arall

Nododd rhai ymatebwyr y dylai'r TGAU Dyniaethau arfaethedig fod ar gael i ddechrau mewn ysgolion sy'n cyflwyno cwricwlwm dyniaethau integredig yng *"Nghyfnod Allweddol 3"* i gefnogi'r ddarpariaeth mewn TGAU, ac y dylai gael ei threialu yn yr ysgolion hynny.

5.3.3. Cystadlu a dyblygu â chymwysterau sy'n bodoli eisoes

Teimlai llawer o'r ymatebwyr y byddai'r TGAU integredig arfaethedig yn y Dyniaethau yn tanseilio pwysigrwydd y pynciau unigol ym Maes y Dyniaethau, gan leihau'r nifer sy'n eu hastudio, gan arwain at golli arbenigedd ymhlith dysgwyr, ac ymyleiddio pynciau eraill ym Maes y Dyniaethau o fewn amserlenni ysgolion.

Roedd rhywfaint o deimlad bod pynciau ym Maes y Dyniaethau yn rhy wahanol i'w gilydd i gyfiawnhau creu TGAU integredig yn y Dyniaethau. Byddai'r cymhwyster arfaethedig felly'n golygu *"gorfodi pynciau at ei gilydd"*, gan wneud cysylltiadau gwan neu lai ystyrlon rhwng y disgyblaethau. Er enghraifft, nododd rhai ymatebwyr y gellid colli elfennau ffisegol, gwyddonol a daearegol daearyddiaeth drwy gyfuno'r pwnc ag eraill.

"Mae hyn yn beryglus i'r tri phwnc. Ni fyddech yn disgwyl i'r Gymraeg, Ffrangeg a Sbaeneg ddod yn un TGAU dim ond am mai ieithoedd ydyn nhw. Maent yn wahanol iawn, a gellir dweud hynny hefyd am AG, hanes a daearyddiaeth"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch sut y byddai'r cynnig yn effeithio ar bwnc gorfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Roeddent yn ofni y gallai ysgolion ddefnyddio'r TGAU Dyniaethau arfaethedig yn y pen draw i gymryd lle'r pwnc gorfodol hwnnw.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr y byddai angen ystyried creu'r TGAU Dyniaethau arfaethedig yn ofalus er mwyn osgoi dyblygu'r cymwysterau presennol ym Maes y Dyniaethau oherwydd, pe bai cynnwys y TGAU newydd yn rhy debyg, gallai arwain at broblemau o ran cystadlu â'r cymwysterau presennol a'u hyfywedd.

"Mae'n debyg y byddai'n rhaid i TGAU dyniaethau integredig gynnwys gwahanol gynnwys er mwyn sicrhau nad oes gorgyffwrdd nac ailadrodd â phynciau TGAU y dyniaethau unigol? Os na, mae hyn yn swnio fel dewis yn lle'r TGAU pwnc unigol a allai achosi problemau iddynt o ran cystadleuaeth a hyfywedd a allai effeithio ar staffio"
Arall

5.3.4. Staffio

Cododd llawer o ymatebwyr bryderon ynghylch y cymhwyster arfaethedig yn cael ei addysgu gan athrawon nad ydynt yn arbenigwyr, ac sydd efallai heb ehangder a dyfnder y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ymdrin â phob pwnc ym Maes y Dyniaethau. Roeddent yn teimlo y gallai hyn dibrisio'r pynciau hyn a lleihau mwynhad dysgwyr ohonynt.

Amlygodd rhai ymatebwyr hefyd y risg y gallai TGAU arfaethedig y Dyniaethau gael ei dehongli'n anghyson oherwydd ei natur integredig. At hynny, roedd yr amser staff ychwanegol (a'r costau cysylltiedig) sydd ei angen i addysgu'r TGAU Dyniaethau arfaethedig yn poeni rhai, a oedd yn teimlo y byddai'n her benodol i ysgolion llai. Teimlwyd y gallai hefyd fod yn anodd recriwtio athrawon sydd am gyflwyno pwnc mor eang.

"Mae'n anodd i bobl nad ydynt yn arbenigwyr... ar gyfer ysgolion bach, ni fyddai'n bosibl cynnig hyn yn ogystal â phynciau unigryw - a byddai'n well gan y rhan fwyaf o athrawon eu pynciau unigryw, rwy'n amau"
Gweithiwr addysg proffesiynol

5.3.5. Defnydd, diddordeb, a gwerth

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y TGAU integredig flaenorol yn y Dyniaethau a oedd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru. Nododd y rhan fwyaf nad oedd ganddo ddyfnder a thrylwyredd ac nad oedd llawer iawn yn ei hastudio, gan fynegi pryderon y byddai llai o ddysgwyr am astudio'r TGAU arfaethedig. Nododd eraill y byddai angen i TGAU integredig newydd yn y Dyniaethau fod yn fwy addas at y diben na'r TGAU integredig flaenorol yn y Dyniaethau. Dywedwyd hefyd y gallai rhai dysgwyr gael eu darbwyllo i beidio â'i hastudio am fod rhaid iddynt astudio cynnwys o bynciau ym Maes y Dyniaethau nad oes ganddynt ddiddordeb ynddynt. Yn ogystal, teimlai rhai y gallai ychwanegu'r cymhwyster arfaethedig fel opsiwn ei gwneud yn anodd i ddysgwyr ddewis rhwng y disgyblaethau.

"Gan mai dim ond 3 TGAU y caniateir i ni eu dewis, weithiau gall fod yn anodd dewis rhwng rhai tebyg"
Dysgwr

Mae perygl y gellid trin y TGAU integredig arfaethedig yn y Dyniaethau fel TGAU *"eilradd"* neu opsiwn haws i ddysgwyr llai galluog, yn ôl rhai ymatebwyr. Er mwyn osgoi hyn, awgrymwyd y byddai angen rhoi'r un gydnabyddiaeth i TGAU integredig newydd yn y Dyniaethau â'r cymwysterau TGAU presennol ym Maes y Dyniaethau. I'r gwrthwyneb, dywedodd rhai y byddent yn croesawu cymhwyster sy'n debyg i'r TGAU Dyniaethau flaenorol oherwydd ei hymdriniaeth dda â'r pwnc a'i haddasrwydd ar gyfer ystod eang o ddysgwyr.

Roedd y gyfran gymharol lai o ymatebwyr a oedd o blaid cyflwyno'r TGAU Dyniaethau arfaethedig yn tueddu i nodi natur uchelgeisiol a heriol y cynnig ochr yn ochr â'r angen i ddatblygu dull newydd o addysgu a dysgu i adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru newydd.

Roedd rhai o'r ymatebwyr hyn yn teimlo y byddai dull thematig neu integredig yn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth ehangach o bynciau ym Maes y Dyniaethau, gan eu helpu i werthfawrogi'r gydberthynas rhyngddynt. Roedd rhywfaint o deimlad hefyd y gallai TGAU Dyniaethau newydd apelio at ddysgwyr sy'n dymuno astudio sawl agwedd ar y dyniaethau gan y byddai'n creu cyfleoedd iddynt weithio mewn ffordd ryngddisgyblaethol.

Dywedodd ymatebwyr eraill a oedd o blaid y TGAU Dyniaethau arfaethedig y byddai'r cymhwyster yn cyd-fynd â'r dull cyfannol ar gyfer y dyniaethau a geir yng *"Nghyfnod Allweddol 3"* neu fod dull dyniaethau integredig yn gweithio'n dda yng *"Nghyfnod Allweddol 3",* gan ei gwneud yn haws i bontio i TGAU. Roeddent yn teimlo y byddai dysgwyr yn mwynhau'r cyfle a gyflwynir gan TGAU integredig newydd yn y Dyniaethau ac y byddent wedi'u paratoi'n well i barhau â dysgu mwy integredig yn y dyniaethau ar lefel TGAU, gan adeiladu ar eu profiadau o'r dull hwn a'r wybodaeth a'r sgiliau a geir yng *"Nghyfnod Allweddol 3"*.

"Dw i'n gallu gweld rhywfaint o werth mewn TGAU dyniaethau - o ran integreiddio pynciau a sgiliau, cysylltu â'r dyniaethau yn CA3. A gwneud cysylltiadau ar draws meysydd pwnc i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o wahanol themâu a materion"
Gweithiwr addysg proffesiynol

5.3.6. Diwallu anghenion pob dysgwr

Yn wahanol i rai o'r safbwyntiau a amlinellwyd eisoes, teimlai rhai ymatebwyr y dylid cynnig y TGAU integredig arfaethedig yn y Dyniaethau fel cymhwyster *"galwedigaethol"* a/neu gymhwyster mwy hygyrch ar gyfer dysgwyr llai galluog, y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), neu'r rhai sy'n cael trafferth gyda natur *"academaidd"* y cymwysterau presennol ym Maes y Dyniaethau. Dywedwyd y dylai'r TGAU Dyniaethau arfaethedig ganolbwyntio mwy ar ddatblygu sgiliau yn hytrach na chynnwys, ac y gellid ei chynnig ochr yn ochr â chyfres o gymwysterau llai.

"Byddai hyn yn ddefnyddiol i ddisgyblion llai galluog a allai fod yn ei chael hi'n rhy anodd astudio un o bynciau'r dyniaethau, ac yn rhoi cyfle iddynt"
Gweithiwr addysg proffesiynol

5.3.7. Dylunio'r cymhwyster

Cododd rhai ymatebwyr bryderon am yr amser cyn y byddai TGAU Dyniaethau arfaethedig ar gael, gan bwysleisio y byddai angen ei chyflwyno ochr yn ochr â diwygiadau eraill.

"Os ydych chi'n mynd i greu TGAU integredig newydd, dylai fod yn barod ar gyfer 2025. Cyfrannwch fwy o gyllid a gweithlu at greu'r TGAU hwn. Beth yw diben cael cwricwlwm newydd os nad yw popeth yn barod ar yr un pryd?"
Heb ei nodi

Nododd eraill y byddai angen i'r TGAU Dyniaethau newydd fod yn ffrwyth dylunio da a gofalus, ac y byddai angen iddi gynnwys cyfraniad arbenigwyr pwnc. Byddai angen adnoddau ar ysgolion hefyd ac amser penodol i gefnogi'r broses o'i chyflwyno.

"Er bod gan y dull hwn y potensial i ddarparu gormod o le i ddehongli, efallai y gellid rhyddhau adnoddau / sesiynau hyfforddi wedi'u modelu ar ddechrau'r cwrs i gefnogi'r pontio i fath newydd o TGAU"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Nododd rhai ymatebwyr y dylai dysgwyr allu dewis gwahanol fodiwlau neu feysydd pwnc o fewn y TGAU integredig arfaethedig yn y Dyniaethau, yn unol â'u diddordebau. Gallai hyn gymryd fformat *"catalog modiwlau megis yn y brifysgol"* lle mae dysgwyr yn dewis modiwlau y maent yn dymuno eu hastudio.

Awgrymodd eraill y dylai cymwysterau llai atodol fod ar gael ochr yn ochr â'r cymhwyster arfaethedig i annog dysgwyr i arbenigo ac i ddiwallu anghenion pob dysgwr. Awgrymwyd hefyd y gallai'r gallu i ddewis modiwlau o wahanol feintiau mewn gwahanol bynciau neu feysydd pwnc hefyd helpu i wneud dysgu ac asesu'r cymhwyster TGAU integredig arfaethedig yn y Dyniaethau yn fwy hylaw i ddysgwyr.

Gwnaeth rhai ymatebwyr awgrymiadau penodol ynghylch cynnwys cymhwyster TGAU Dyniaethau newydd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Hawliau dynol, materion cymdeithasol a dinasyddiaeth.
- Hanes, treftadaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth ethnig Cymru a'r byd.
- Llenyddiaeth.
- Gwleidyddiaeth, gwerthoedd/moeseg, seicoleg, cymdeithaseg, athroniaeth ac estheteg.
- Gwareiddiadau Groegaidd a Rhufeinig.

6. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

6.1. Cynnig 1

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu TGAU iaith a llenyddiaeth gyfun newydd yn Saesneg a Chymraeg i ddisodli'r cymwysterau TGAU presennol sy'n cael eu cynnig ar wahân? Byddai'r cymwysterau TGAU cyfun newydd hyn oddeutumaint 1½ TGAU.

Ffigur 10: Lefel y cytundeb â chynnig 1 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Atebodd cyfanswm o 435 o bobl y cwestiwn hwn, a'r grŵp unigol mwyaf oedd gweithwyr addysg proffesiynol (251). Roedd mwy na hanner (56%) yr ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig, a rhyw dau o bob pump (39%) yn anghytuno'n gryf. Roedd llai na thraean (30%) yn cytuno. Pan ystyriwn y data gan wahanol grwpiau rhanddeiliaid, roedd dysgwyr yn llawer mwy cefnogol o'r cynnig, gyda hanner yn cytuno (50%) o'u cymharu ag ychydig o dan chwarter (24%) o weithwyr addysg proffesiynol. O'r 435 o bobl a ymatebodd i'r cynnig, rhoddodd 67% (292 o bobl) sylw ysgrifenedig hefyd. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

6.1.1. Maint y cymwysterau arfaethedig

Y pryder mwyaf cyffredin ymhlith y rhai a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn yw y byddai'r cymwysterau TGAU iaith a llenyddiaeth cyfun arfaethedig yn dibrisio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau oherwydd eu maint llai o'u cymharu â'r cymwysterau presennol yn y pynciau hyn. Roedd cymhwyster iaith a llenyddiaeth cyfun yn y Gymraeg a'r Saesneg yn peri pryder sylweddol i lawer o ymatebwyr, gan eu bod yn credu efallai na fydd yn darparu cydraddoldeb â chymwysterau cyfatebol mewn rhannau eraill o'r DU, yn enwedig yn Lloegr, ac y gallai hynny roi dysgwyr yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu â'u cymheiriaid mewn mannau eraill. Awgrymwyd nad yw hanner cymwysterau TGAU yn cael eu gwerthfawrogi, eu deall na'u cydnabod yn eang, ac felly dylid darparu unrhyw newidiadau ar ffurf TGAU sengl neu ddwbl. Roedd

pryderon hefyd y gallai'r cynnig hwn effeithio'n negyddol ar lefelau llythrennedd, sydd eisoes ar lefel is yng Nghymru.

"Rwy'n gwerthfawrogi syniad y continwwm iaith ond, o ystyried y sgiliau llythrennedd gwael yng Nghymru, ni fydd y cynnig hwn yn helpu hyn. Mae cyfeirio at wledydd eraill sydd â chymhwyster iaith a llenyddiaeth cyfun a honni bod gan y gwledydd hyn ganlyniadau PISA cryf yn drysu dau fater gwahanol iawn. Mae gan Gymru lythrennedd gwan, ac mae angen i ni gymryd hyn o ddifrif os ydym am roi'r cyfle gorau i'r plant yng Nghymru lwyddo'n genedlaethol ac yn rhyngwladol"
Heb ei nodi

I rieni a gofalwyr, yn enwedig y rhai â phlant mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, roedd pryder ynghylch yr effaith ar sgiliau llythrennedd eu plant, pryder y byddai cyflogwyr yn eu hystyried yn llai ffafriol na'u cyfoedion yn Lloegr, a phryder y byddai mwy o ffocws ar y Gymraeg ar draul addysgu Saesneg.

Teimlai llawer o'r ymatebwyr na fyddai sefydliadau addysg uwch yn cydnabod hanner TGAU ar hyn o bryd, gan ofyn yn hytrach yn benodol am gyflawni gradd mewn cymhwyster sy'n benodol i lenyddiaeth er mwyn cael lle ar rai cyrsiau gradd. At hynny, teimlai llawer o ymatebwyr na fyddai maint y cymwysterau arfaethedig yn ffafriol i gyflogwyr, gan roi dysgwyr o dan anfantais bellach o bosibl wrth gystadlu am swyddi.

"Mae lleihau'r cymwysterau TGAU i 1½ TGAU yn dibrisio'r cymwysterau, a bydd cyflogwyr yn eu hystyried yn un TGAU"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Mewn ystyr ymarferol, roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai cyfuno'r pynciau a'u cynnig fel un TGAU a hanner yn cael effaith negyddol ar adnoddau'r ysgol. Nododd yr ymatebwyr hyn y gellid cwtogi ar amser addysgu, mewn rhai achosion lle cynigir y ddau bwnc i bob dysgwr, ac y gallai fod effaith negyddol ar lefelau staffio. Un pryder ymarferol arall oedd sut y gellid darparu ar gyfer ailsefyll gyda mwy o bwysau ar adnoddau staff a dysgwyr mewn ysgolion ac mewn addysg bellach.

Nododd y rhai sy'n cefnogi'r cynnig, gan fod rhai themâu sy'n gorgyffwrdd rhwng y cymwysterau iaith a llenyddiaeth presennol, y gallai'r cynnig leihau dyblygu a gwella cydbwysedd cyffredinol cynnwys y cymhwyster. Gallai symud i un TGAU a hanner hefyd olygu bod mwy o gapasiti ac amser i alluogi dysgwyr i ganolbwyntio ar bynciau eraill sydd o ddiddordeb iddynt ar lefel TGAU.

"Dylai ganiatáu mwy o amser i bynciau eraill gydbwyso'r cwricwlwm cyffredinol yn well. Mae'n ymddangos bod gorgyffwrdd a dyblygu dysgu yn y meysydd pwnc hyn, a bydd y cyfuno hwn yn mynd i'r afael â hynny."
Rhiant/gofalwr

6.1.2. Diwallu anghenion pob dysgwr

Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn fod dysgwyr sy'n llai abl i ymgysylltu â llenyddiaeth yn cael y dewis ar hyn o bryd i ganolbwyntio ar iaith. Teimlwyd y gallai'r baich gwaith cynyddol posibl ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr sy'n gorfod astudio mwy o lenyddiaeth, ynghyd efallai ag ymagwedd lai penodol at sgiliau

iaith a gramadeg, gael effaith negyddol ar ddysgwyr llai galluog, ac erydu sgiliau llythrennedd ymhellach yn gyffredinol.

"Mae iaith yn ddisgyblaeth greadigol sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion ysgrifennu a deall iaith. Mae llawer o ddisgyblion llai galluog yn gallu deall natur ymarferol iaith ond nid y sgiliau dadansoddol sy'n gysylltiedig â llenyddiaeth"
Heb ei nodi

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai dysgwyr gallu uwch hefyd fod o dan anfantais oherwydd cymwysterau *"gwannach"* nad ydynt yn eu paratoi'n ddigonol ar gyfer dilyniant i Safon Uwch a'r tu hwnt.

"Gallai'r cynigion hyn atal dysgwyr rhag astudio Cymraeg/Saesneg yn ddigon eang a manwl i gefnogi astudio yn y dyfodol, yn enwedig ar lefel Safon Uwch"
Arall

Roedd y cynnig i ddileu haenau hefyd yn achos pryder oherwydd ystyriwyd ei bod yn anodd dewis cynnwys llenyddol sy'n hygyrch i ddysgwyr llai galluog ac sy'n ddigon heriol i ddysgwyr gallu uwch.

Roedd dysgwyr yn agored i bosibilrwydd astudio mwy o lenyddiaeth ac roeddent yn gwerthfawrogi ei phwysigrwydd. Fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch mwy o lwyth gwaith a chwestiynau ynghylch anhawster posibl.

"Rwy'n anghytuno â'r cynnig hwn gan fod llawer o fyfyrwyr yn llawer gwell naill ai am iaith neu lenyddiaeth. O gyfuno'r ddau, yn hytrach na rhywun yn cael A a D, byddai'n cael C. Yn ogystal â hyn, mae llawer o bobl yn cael trafferth gyda llenyddiaeth yn fwy nag iaith; drwy gyfuno'r ddau bwnc mae'n lleihau'n sylweddol y siawns y byddai pobl sydd eisoes yn cael trafferth gyda'r cymhwyster ar wahân yn pasio'r adrannau cyfun"*
Dysgwr

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr eraill bwysigrwydd darparu mynediad at lenyddiaeth i ystod mor eang â phosibl o ddysgwyr yng *"Nghyfnod Allweddol 4"* ac roeddent yn teimlo y gallai'r opsiwn hwn gynyddu'r amlygiad hwn. Yn eu barn hwy, mae gan gymhwyster iaith a llenyddiaeth cyfun y potensial i fod yn fwy cynhwysol. Ymhlith yr ymatebwyr hyn, dywedodd llawer hefyd fod llenyddiaeth yn darparu cyd-destun defnyddiol wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd a gwella gramadeg ac y gall annog mwy o ddiddordeb mewn astudio llenyddiaeth Saesneg neu Gymraeg ar ôl 16 oed a'r tu hwnt.

6.1.3. Cyfuno iaith a llenyddiaeth

Ar lefel fwy sylfaenol, dadleuodd llawer o'r rhai a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn fod iaith a llenyddiaeth yn ddau bwnc gwahanol ac y dylent barhau felly, gydag elfen o ddewis i ysgolion o ran eu cyflwyno. Er enghraifft, pe bai ysgol yn penderfynu nad yw dysgwr yn gallu dilyn TGAU Iaith a TGAU Llenyddiaeth, dylai gael yr opsiwn o gofrestru'r dysgwr hwnnw ar gyfer TGAU Iaith yn unig. Derbyniwyd y dylid diwygio cynnwys y cymwysterau presennol, ond teimlwyd y dylid gwneud hyn ar wahân gyda chyfraniad sylweddol gan y sector addysg. Er bod rhai ymatebwyr o'r farn y byddai cyfuno TGAU iaith a llenyddiaeth yn rhesymegol oherwydd y cysylltiadau rhwng y

ddwy, teimlai sawl ymatebydd a wrthwynebai'r cynnig fod yr hyfforddiant a gaiff athrawon yn dileu'r angen i gyfuno'r cymwysterau hyn gan eu bod yn cael eu hannog i addysgu mewn ffordd sy'n gwneud y cysylltiadau rhwng iaith a llenyddiaeth wrth gadw'r ddwy ddisgyblaeth ar wahân.

"Mae lleihau'r hyn a oedd yn 2 TGAU i 'ryw 1.5 TGAU' yn awgrymu dibrisio'r ddau bwnc. Maent yn bynciau gwahanol ac ar wahân, ac mae eu cyfuno yn awgrymu diffyg eglurder a phwysigrwydd fel pynciau gwahanol (er eu bod yn gysylltiedig) "
Gweithiwr addysg proffesiynol

Dywedwyd y gallai cyfuno cymwysterau iaith a llenyddiaeth leihau amrywiaeth y llenyddiaeth y maent yn dod ar ei thraws. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn awyddus i dynnu sylw at bwysigrwydd dod ar draws ystod eang o lenyddiaeth ac roeddent yn poeni bod y cynnig hwn yn tanseilio hyn.

I'r gwrthwyneb, teimlai'r rhai a gefnogai'r cynnig hwn fod cyfuno cymwysterau iaith a llenyddiaeth yn rhesymegol am eu bod yn ategu a hysbysu ei gilydd yn dda. Yn ogystal, nododd rhai dysgwyr y gallai cyfuno'r cymwysterau helpu i leihau eu baich gwaith a'u galluogi i astudio cymwysterau eraill.

"Rwy'n credu y byddai cyfuno llenyddiaeth ac iaith Saesneg o fudd i ddysgwyr oherwydd gallai o bosibl wneud y pynciau'n gyflymach ac yn haws i'w dysgu. Credaf hefyd y byddai'n ddefnyddiol eu cyfuno i ganiatáu i ddysgwyr gael cymwysterau eraill"
Dysgwr

Drwy gyfuno'r cymwysterau, nododd rhai ymatebwyr fod gan ddysgwyr y potensial i werthfawrogi'n well sut mae iaith a llenyddiaeth yn gysylltiedig a datblygu sgiliau trosglwyddadwy o ganlyniad.

"Ni allwch astudio'r naill heb y llall mewn gwirionedd. Mae'n gwneud synnwyr edrych ar iaith yn ei chyfanrwydd, ei mecaneg a sut mae'n effeithio ar destunau llenyddol"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Un awgrym cyffredin ymhlith ymatebwyr oedd y dylai cynnwys diwygiedig TGAU, p'un a yw iaith a llenyddiaeth yn cael eu cyfuno neu eu cadw ar wahân, fod yn ddiddorol, ac y dylai adlewyrchu llenyddiaeth a thestunau pwysig a chyfredol o Gymru a'r tu hwnt. Awgrymwyd y dylai'r rhain gael mwy o elfennau gwaith cwrs a llai o ffocws ar dechneg arholiad nag sy'n digwydd ar hyn o bryd.

6.1.4. Alinio â pholisi iaith Gymraeg

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu bod y cynigion hyn yn blaenoriaethu polisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hyrwyddo'r Gymraeg ar draul lefelau llythrennedd Saesneg. Dywedwyd hefyd fod y ffaith bod nifer llai yn manteisio ar gymwysterau llenyddiaeth yn gysylltiedig â phetruster Llywodraeth Cymru ynghylch a ydynt yn cyfrannu at fesurau perfformiad ysgolion. Yn y grŵp hwn o ymatebwyr, awgrymwyd y byddai gwneud cymwysterau llenyddiaeth yn orfodol i bawb a'u cynnwys yn rhan o fesurau perfformiad yn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Yn ogystal, teimlai rhai ymatebwyr nad yw'r dull hwn yn cyd-fynd yn dda â dibenion y Cwricwlwm i Gymru newydd, yn enwedig o ran creu dinasyddion gwybodus y byd.

"Ni fydd disgyblion o Gymru yn gallu cystadlu â dinasyddion eraill y byd os byddwn yn lleihau eu cymwysterau yn (i'r rhan fwyaf) eu hiaith gyntaf"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Yn ôl pryderon rhai ymatebwyr, os gwneir y cymhwyster Cymraeg yn amlycach mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, bydd hyn ar draul addysgu Saesneg, ac ystyriwyd bod hyn yn amhriodol. Mynegodd cynrychiolwyr ysgolion ger y ffin bryderon na fyddai'r dull hwn o fudd i'w dysgwyr, ac y bydd llawer ohonynt yn ceisio addysg bellach a chyflogaeth yn Lloegr. Yn y bôn, dywedwyd, os yw'r cynnig hwn yn effeithio'n negyddol ar eu sgiliau llythrennedd yn yr iaith Saesneg, y byddant o dan anfantais[31].

"Mae lleihau llenyddiaeth Saesneg ac iaith Saesneg i TGAU cyfun yn dro gwael. Mae'r syniad y byddai TGAU Cymraeg mewn ysgolion Saesneg eu hiaith yn dod yn gyfwerth â llenyddiaeth Saesneg ac iaith Saesneg fel TGAU gyfunol yn annerbyniol, ac nid yw'n rhoi sylfaen dda i ddysgwyr ar gyfer eu dyfodol"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Ar y llaw arall, roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y gallai'r opsiwn hwn effeithio'n negyddol ar statws y Gymraeg a nodau Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ac ehangu'r bwlch sgiliau iaith rhwng y rhai mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r rhai mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Un pryder penodol oedd bod gwneud y mwyaf posibl o amser addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer datblygiad ieithyddol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd gyda lefelau isel o siaradwyr Cymraeg, ac y gallai'r opsiwn hwn erydu'r amser addysgu sydd ar gael.

6.1.5. Ymateb Cymdeithas yr Iaith i gynnig 1

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn, cyflwynodd 253 o aelodau Cymdeithas yr Iaith ymatebion ar gyfer yr ymgynghoriad. Gwnaeth yr holl ymatebion bwyntiau bron yn union yr un fath. Dywedodd y rhai a gyflwynodd ymatebion eu bod yn anghytuno'n gryf â'r cynnig hwn. Gwnaethant y pwyntiau canlynol.

Dywedodd yr ymatebwyr hyn fod y cynnig *"yn golygu parhad o'r sefyllfa bresennol. Ni fydd hyn yn arwain at gynnydd yn y safonau cyrhaeddiad Cymraeg i 80% o ddisgyblion Cymru"*[32]

Teimlai'r sefydliad fod angen sicrhau bod dysgu Cymraeg ar hyd un continwwm yn arwain at un asesiad cyfannol a chyfle cyfartal i bob dysgwr gyrraedd y safonau uchaf yn y Gymraeg. Byddai hyn yn gatalydd i ychwanegu amser ac adnoddau at addysgu a dysgu Cymraeg ym mhob ysgol yng Nghymru, yn ôl y sefydliad.

Yn ogystal, nodwyd y dylid rhoi iaith yng nghyd-destun diwylliant a bywyd cyfoes i wneud dysgu Cymraeg yn berthnasol ac yn ddiddorol i bobl ifanc. Awgrymodd yr

[31] I egluro, mae Cymwysterau Cymru yn cynnig cynyddu maint y TGAU Cymraeg ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg yn unig. Ymdrinnir â hyn gan gynnig 2 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Ar hyn o bryd, mae dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn astudio dwy TGAU yn y Gymraeg. Mae Cymwysterau Cymru yn cynnig creu cymhwyster cyfunol newydd a fyddai tua'r un maint â 1 ½ TGAU.
[32] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

aelodau y dylai'r cwricwlwm ar gyfer y Gymraeg gynnwys pynciau fel hawliau a chyfiawnder personol a chymdeithasol, newid yn yr hinsawdd, a democratiaeth gymunedol. Dywedasant hefyd *"...yn lle dylid creu cymhwyster 'Iaith, Llenyddiaeth a'r Gymru gyfoes' – cyfwerth a 2 TGAU i ddisodli'r cymhwyster presennol"*[33]. Mae'n debygol bod yr awgrym hwn yn ymwneud â'r cymwysterau TGAU iaith Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg, ond nid yw hyn wedi'i nodi'n benodol.

[33] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

6.2. Cynnig 2

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i roi'r gorau i TGAU Cymraeg Ail Iaith a chreu TGAU newydd, mwy o faint wedi'i gynllunio ar gyfer dysgwyr mewn cyd-destunau cyfrwng Saesneg? Byddai'r cymhwyster newydd oddeutu maint 1½ TGAU.

Ffigur 11: Lefel y cytundeb â chynnig 2 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Atebodd cyfanswm o 416 o bobl y cwestiwn hwn gyda 30% yn cytuno a 44% yn anghytuno. Yn gyffredinol, roedd tri o bob deg (31%) o ymatebwyr yn anghytuno'n gryf â'r cynnig. Ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol, roedd 47% yn anghytuno; ymhlith rhieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd, cododd hyn i 59%; ac ymhlith dysgwyr syrthiodd i 31%. Rhoddodd 54% (226 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

6.2.1. Poblogrwydd a pherthnasedd pwnc

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch addysgu TGAU Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, roedd gwahaniaeth barn am ei phoblogrwydd a'i llwyddiant. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod teimlad negyddol gan ddysgwyr, rhieni a gofalwyr, ac ysgolion ynghylch y ffaith bod dysgu Cymraeg yn orfodol hyd at 16 oed. Awgrymwyd bod y sbardunau i ddysgu iaith yn dod o gymhellion personol ac allanol cadarnhaol ac felly fod y canfyddiad bod dysgwyr yn cael eu *"gorfodi"* i ymgymryd â'r cymhwyster yn hyrwyddo teimladau negyddol tuag ato.

Roedd llawer o'r farn bod rhieni a gofalwyr wedi dewis ysgolion cyfrwng Saesneg i'w plant am reswm penodol a, phe byddent am i'w plant fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl, y byddent wedi dewis eu hanfon i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Nid oedd yr ymatebwyr hyn yn gwerthfawrogi'r cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith presennol, a'r farn honno, yn ôl yr ymatebwyr, yn arbennig o gyffredin ymhlith rhieni a gofalwyr mewn ardaloedd â niferoedd isel o siaradwyr Cymraeg. Awgrymwyd y gallai'r newidiadau arfaethedig ysgogi barn negyddol bellach ar addysgu'r Gymraeg a'r iaith

yn ehangach oherwydd bod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth dros ieithoedd rhyngwladol.

"Pe bawn i eisiau i fy mhlant gael gwell addysg Gymraeg, byddwn i wedi ystyried ysgol Gymraeg. Rwy'n gwerthfawrogi ac yn parchu y dylent ddysgu ychydig o Gymraeg, ond ni fyddwn am i wersi eraill gael eu lleihau er mwyn cynyddu gwersi Cymraeg"
Rhiant/gofalwr

Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai newid addysgeg yn fwy priodol ar hyn o bryd i ddatblygu cymhellion cadarnhaol ar gyfer dysgu Cymraeg. Roeddent yn teimlo y gallai fod mwy o ffocws ar siarad a gwrando yn ogystal â mwy o elfennau sy'n ehangu dealltwriaeth dysgwyr o'r diwylliant a'r dreftadaeth sy'n gysylltiedig â'r iaith.

"Mae angen i hyn fod yn brif ffocws, fel y gall disgyblion werthfawrogi a dod o hyd i werth o fewn y Gymraeg os ydynt yn mynd i ysgol gyfrwng Saesneg. Mae cymaint o negyddoldeb ynghylch y Gymraeg gan y rhai nad ydynt yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae'r iaith yn cael ei dibrisio a heb ei gwerthfawrogi. Mae'r Gymraeg yn gymaint o ran ohonom ni, ein treftadaeth a'n diwylliant, a dylid ei dangos a'i gwerthfawrogi yn yr ysgol"
Heb ei nodi

Yn gysylltiedig â'r uchod, teimlai llawer o ymatebwyr na fyddai'r ffocws cynyddol arfaethedig ar ddysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn briodol oherwydd diffyg perthnasedd canfyddedig y tu allan i Gymru. Dywedodd yr ymatebwyr hyn na fydd dysgu Cymraeg ond o werth i'r rhai sy'n dymuno aros yng Nghymru ar ôl eu haddysg ac y bydd cynyddu maint y cymhwyster yn lleihau eu hopsiynau a'u profiadau yn y dyfodol, na fyddant ynddynt eu hunain yn adlewyrchu'r byd y maent yn byw ynddo.

Ystyriwyd hyn unwaith eto yn her benodol i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd ar y ffin lle mae dysgwyr yn mynychu'r ysgol yng Nghymru ond yn byw yn Lloegr. Mynegodd rhai bryderon fod *"system ddwy haen"* yn cael ei chreu lle bydd dysgwyr Cymraeg yn llusgo y tu ôl i'w cymheiriaid yn Lloegr o ran sgiliau os bydd mwy o ffocws ar addysgu'r Gymraeg ar draul y Saesneg.

"Ni allwn fforddio cymryd amser i ffwrdd o astudio Saesneg, sef iaith fyd-eang busnes a diwydiant. Nid yw amser y cwricwlwm a neilltuir i'r Gymraeg yn arfogi disgyblion i weithredu mewn ffordd fyd-eang. Ni allwn fforddio llesteirio datblygiad llythrennedd ein disgyblion"
Heb ei nodi

Mae'r farn gan ddysgwyr sy'n ymateb i'r ymgynghoriad yn adleisio'r uchod i raddau helaeth. Dywedodd llawer nad ydynt yn mwynhau dysgu Cymraeg ac na fyddent yn dymuno cynyddu'r addysgu a gânt. Er eu bod yn gyffredinol yn derbyn yr angen am ddysgu Cymraeg yn y cwricwlwm, maent yn *"digio"* wrth y ffaith ei fod yn orfodol a byddent yn croesawu newidiadau sy'n golygu eu bod yn ei chael hi'n haws dysgu'r iaith.

I'r gwrthwyneb, teimlai rhai dysgwyr fod y cymhwyster yn ddigonol ar ei ffurf bresennol, gyda nifer fach yn dweud eu bod yn mwynhau dysgu Cymraeg mewn TGAU ac y byddai cymhwyster mwy cynhwysfawr yn her i'w chroesawu.

"Rwy'n credu bod angen edrych ar yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn Gymraeg ar hyn o bryd yn hytrach na'i wneud yn anoddach. Drwy gydol fy amser yn gwneud Cymraeg, mae llawer o bobl wedi dweud wrthyf eu bod yn ei chael hi'n anodd iawn, a minnau'n cytuno. Nid ydym yn teimlo bod y pethau rydym yn eu dysgu ohoni yn ddefnyddiol ac nid ydym yn gwybod sut i gael sgwrs iawn yn yr iaith."
Dysgwr

Trafododd llawer o'r ymatebwyr y penderfyniad i beidio â rhoi'r enw *"Cymraeg Ail Iaith"* i'r cymhwyster newydd arfaethedig.Ystyriwyd bod hyn yn newid cadarnhaol mewn egwyddor gan fod y term yn gallu dibrisio'r Gymraeg a chyfrannu at ddiffyg hyder ymhlith dysgwyr, yn enwedig wrth iddynt ddod i ddefnyddio'r iaith yn ddiweddarach mewn bywyd. Fodd bynnag, roedd ychydig o amheuaeth ynghylch a fyddai'r cynnig hwn yn arwain at newid mewn unrhyw beth mwy nag enw.

6.2.2. Maint a chynnwys y cymhwyster

Fel yn yr un modd â'r cynnig blaenorol, mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch cyflwyno cymhwyster o faint un TGAU a hanner. Teimlwyd efallai na fydd hanner TGAU yn cael ei gydnabod gan gyflogwyr neu o fewn y sector addysg uwch, gan roi dysgwyr o dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion mewn rhannau eraill o'r DU. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr hyn y dylai'r cymhwyster aros fel un TGAU i ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

"Byddai 1.5 TGAU, hyd yn oed o'i chyfuno â chymwysterau bach eraill, yn cael effaith negyddol yn y dyfodol. A fyddai cyflogwyr yn edrych ar y cymhwyster fel un TGAU yn lle 1.5? Wrth restru cymwysterau TGAU sut y byddai disgyblion yn cyfathrebu bod y cymhwyster yn werth mwy nag un TGAU? Mae'n siŵr y byddai'n well i'r cymhwyster fod yn werth dwy neu un TGAU?"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd rhai ymatebwyr eraill o'r farn fod maint presennol y cymhwyster yn ddigonol ac na ddylid ei newid, neu dywedasant fod angen mwy o fanylion i ddarparu ymateb gwybodus. Dywedodd y rhai a nododd awgrymiadau i newid maint a chynnwys y cymhwyster fod angen iddo fod yn gyfoes ac yn ddychmygus i sbarduno diddordeb dysgwyr a lleihau *"digio"* pellach. Dywedasant hefyd fod lle i archwilio'r datblygiadau technolegol niferus sy'n cefnogi oedolion i ddysgu Cymraeg er mwyn gwella rhuglder cyffredinol dysgwyr mewn ysgolion.

"Mae angen cwrs o well ansawdd sy'n caniatáu i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau Cymraeg pan fyddant mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Un pryder allweddol arall ymhlith yr ymatebwyr oedd yr adnodd ychwanegol sydd ei angen i hwyluso cynnydd i un TGAU a hanner. Mae ysgolion ledled Cymru yn dweud eu bod yn wynebu anhawster wrth geisio recriwtio athrawon Cymraeg i ysgolion cyfrwng Saesneg ac roedd pryder y byddai'r newid hwn yn gwaethygu'r materion hyn.

Teimlwyd bod y cynnig yn rhy uchelgeisiol ar gyfer y gronfa adnoddau sydd ar gael yn ogystal â'r capasiti presennol sydd ar gael mewn ysgolion. Fel y nodwyd, teimlai rhai ymatebwyr nad oes digon o staff addysgu â'r sgiliau angenrheidiol ar gael ar hyn o bryd ac ofnwyd y byddai'r hanner TGAU ychwanegol, y byddai angen amser addysgu

ychwanegol arno, yn ymestyn yr adnoddau hynny ymhellach byth. Holodd rhai ymatebwyr a fyddai adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu i gefnogi'r gwaith o gynyddu addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg gan eu bod yn teimlo y byddai ei angen i gyflawni maint yr uchelgais.

"A fydd ysgolion yn cael cyllid i gefnogi'r amser addysgu ychwanegol sydd ei angen i dyfu'r pwnc/cwrs hwn? Mae athrawon Cymraeg yn anodd eu recriwtio a'u cadw ar hyn o bryd, felly sut mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â hyn neu liniaru'r ffaith hon wrth gynllunio a dyfarnu'r cymhwyster hwn"
Gweithiwr addysg proffesiynol

6.2.3. Addasrwydd i bob dysgwr, ac effaith ar amser addysgu Saesneg

Mynegodd ymatebwyr bryder y byddai baich gwaith cynyddol sy'n gysylltiedig â hanner TGAU ychwanegol yn gorlwytho dysgwyr, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn cael trafferth gyda'r pwnc. Teimlai'r rhan fwyaf na fyddai cynyddu maint y cymhwyster yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig ag ef ar hyn o bryd.

Cynigiwyd rhai awgrymiadau i wneud y cymhwyster arfaethedig yn addas i bob dysgwr. Ymhlith y rhai a fynegodd y camsyniad bod cymryd TGAU Cymraeg yn orfodol i bawb, teimlwyd y dylai fod yn ddewisol, gyda rhyw fath o ddewis arall yn cael ei gynnig i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg heb fod angen arholiad.

Teimlwyd y byddai hyn yn cynnig opsiwn mwy ymarferol i'r rhai â lefelau isel o ddealltwriaeth. Awgrym arall oedd cynnig *"Cymraeg pellach"* ar ben cymhwyster llai manwl ar gyfer y rhai sy'n fwy datblygedig ac sy'n dymuno cynyddu eu sgiliau ymhellach.

"Mae'r myfyrwyr yn fy ysgol i'n cael anawsterau gyda llythrennedd sylfaenol. Ni fydd ceisio eu cael i ymgysylltu â llenyddiaeth mewn iaith arall o fudd iddynt o gwbl"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Soniodd llawer o'r ymatebwyr y gallai'r llwyth gwaith cynyddol hwn ac anhawster cynyddol o bosibl effeithio'n negyddol ar lefelau llythrennedd sydd eisoes yn isel yn gyffredinol gan y gallai'r cymhwyster mwy arfaethedig gymryd amser addysgu oddi wrth bynciau eraill. Nid oedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod y Gymraeg mor bwysig â'r Saesneg ac felly nid oeddent yn teimlo y dylid rhoi cydraddoldeb iddi yn y cwricwlwm. Ofnwyd y gallai'r newid hwn gael effaith andwyol ar raddau yn gyffredinol.

"Mae'r syniad y byddai TGAU Cymraeg mewn ysgolion Saesneg eu hiaith yn dod yn gyfwerth â llenyddiaeth Saesneg ac iaith Saesneg fel TGAU gyfunol yn annerbyniol, ac nid yw'n rhoi sylfaen dda i ddysgwyr ar gyfer eu dyfodol. Nid yw'r sgiliau a'r wybodaeth a ddatblygir mewn llenyddiaeth Saesneg ac iaith Saesneg yn hafal i'r rheini yn y Gymraeg lle maent yn dysgu siarad iaith fel y byddent yn dysgu Ffrangeg neu Almaeneg"
Gweithiwr addysg proffesiynol

6.2.4. Dilyniant

Dywedwyd mai un o'r heriau allweddol wrth symud i ffwrdd o addysgu Cymraeg yn y bôn fel *"iaith dramor"* yw'r anghysondeb o ran addysgu ar lefel ysgol gynradd. Nododd rhai ymatebwyr fod rhai dysgwyr yn gadael yr ysgol gynradd heb fawr o Gymraeg os o gwbl, a bod gan eraill well dealltwriaeth, sy'n dibynnu ar yr adnodd sydd ar gael ym mhob ysgol. Roedd pryder hefyd fod y fformat presennol yn golygu bod plant yn dysgu ar dafod leferydd, heb eu bod yn adeiladu ar ddysgu o *"Gyfnod Allweddol 2"*. I rai, nid yw'r newidiadau arfaethedig yn mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

"Mae angen i bob ysgol gynradd yng Nghymru fynnu bod pob disgybl yn cael cynifer o oriau'r wythnos â Saesneg a mathemateg os ydyn nhw am allu ymdopi â gofynion uwch fyth y Gymraeg yn yr ysgol uwchradd"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Teimlai rhai ymatebwyr mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â her dysgwyr sydd â lefelau rhuglder gwahanol iawn yn y Gymraeg ar ôl yr ysgol gynradd yw cyflwyno continwwm dysgu gan ddefnyddio fframwaith asesu yn seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer Ieithoedd (CEFR[34]). Er bod y cynnig ar gyfer yr opsiwn hwn yn cyfeirio at greu continwwm, ni theimlwyd bod manylion y cynlluniau'n adlewyrchu hyn yn wir ar hyn o bryd.

"Nid ystyr cysyniad continwwm ieithyddol oedd mapio dau gymhwyster gwahanol ar un continwwm cyffredin, ond yn hytrach bod un continwwm yn cael ei ddatblygu fel fframwaith fyddai'n sail ar gyfer symud yn raddol at un rhaglen addysgu ac un cymhwyster cyffredin (neu o leiaf mwy cyffredin). Y pwynt sylfaenol oedd sut y byddid yn defnyddio continwwm er mwyn gwella sgiliau disgyblion y sector cyfrwng Saesneg dros gyfnod o amser. Gwnaed yr ymrwymiadau hyn yng nghyd-destun gweledigaeth a thargedau'r Llywodraeth i sicrhau bod cynnydd sylweddol yn nifer dysgwyr y sector cyfrwng Saesneg sy'n gadael addysg orfodol fel siaradwyr Cymraeg"[35]
Arall

6.2.5. Alinio â'r Cwricwlwm i Gymru newydd a nodau gwleidyddol ehangach

Nid oedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y cynnig hwn yn cyd-fynd yn dda â nodau'r cwricwlwm newydd, yn enwedig o ran creu dinasyddion sy'n ymwybodol yn fyd-eang. Roeddent yn dadlau y gallai dysgwyr fod yn llai ymwybodol yn fyd-eang, pe byddai mwy o ffocws ar y Gymraeg yn arwain at lai o amser cwricwlwm ar gael ar gyfer Saesneg ac astudio ieithoedd eraill.

Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y byddai dileu dysgu gorfodol y Gymraeg yn annog dysgwyr i astudio ieithoedd eraill, gan feithrin ymwybyddiaeth fwy byd-eang. I'r gwrthwyneb, teimlai rhai eraill y gallai cynyddu cynnwys diwylliannol y cymhwyster

[34] Mae'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin (CEFR) yn offeryn a ddefnyddir i ddisgrifio lefel rhuglder dysgwyr mewn ieithoedd.
[35] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

Cymraeg wella ymwybyddiaeth am fanteision dwyieithrwydd ac yn ei dro ddatblygu ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn i Gymru a'r byd ehangach.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo'n gryf bod y newidiadau a gynigir yn adlewyrchu agenda gwleidyddol yn fwy nag anghenion addysgol. Mae'r syniad bod proffil cynyddol o addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael ei *"orfodi"* ar ddysgwyr gan Lywodraeth Cymru yn gwaethygu'r digio ymhellach yn hytrach nag annog diddordeb.

"Mae'n ymddangos bod hyn yn ymwneud â chenedlaetholdeb a cheisio adfywio iaith yn hytrach nag anghenion dysgwyr. Mae'n mynd yn groes i ddiben addysg ac mae'n debyg ei fod yn ymwneud ag agenda gwleidyddol yn unig"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Fodd bynnag, roedd cefnogaeth gyffredinol i barhau i addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, fel y soniwyd. Teimlai rhai fod gwerth mewn codi proffil y Gymraeg ymhellach a gwaith i'w wneud i rannu manteision meddu ar iaith arall ar wahân i'r Saesneg. Dywedwyd hefyd y bydd gwella'r cymhwyster mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac y gallai cynnwys testunau mwy llenyddol wella diddordeb cyffredinol yn y pwnc.

6.2.6. Ymateb Cymdeithas yr Iaith i gynnig 2

Dywedodd aelodau o Gymdeithas yr Iaith eu bod yn anghytuno'n gryf â chynnig 2.

Er eu bod yn cytuno â'r penderfyniad i ddisodli'r cymhwyster Cymraeg Ail Iaith presennol, dywedasant y dylid creu un cymhwyster TGAU Cymraeg gyfannol yn ei le. Byddai'r cymhwyster hwn yn cael ei greu yn lle'r cymwysterau a amlinellir yng nghynigion 1 a 2. Byddai'r TGAU Cymraeg gyfannol yn cynnwys dau bapur arholiad, gan arwain at ddyfarniad deuol / dwy TGAU:

1. Papur arholiad cyffredinol yn y Gymraeg / Cymraeg Uwch (gyda graddau'n amrywio o radd B Cymraeg Uwch i Radd F Cymraeg), a naill ai:

2. Papur Arholiad Cymraeg Uwch, graddau safonol Cymraeg Uwch yn amrywio o A* i F; neu

3. Papur arholiad Cymraeg ar gyfer y Gymraeg gyda graddau safonol yn amrywio o A* i F.

Byddai'r radd derfynol a ddyfarnwyd yn seiliedig ar ganlyniad y ddau bapur. Byddai'r papurau'n cael eu graddio yn unol â'r system orgyffwrdd ganlynol, lle mae B mewn Cymraeg Uwch yn cyfateb i A* yn Gymraeg:

A* A B C D E F Cymraeg Uwch

A* A B C D E F Cymraeg.

Dywedwyd y byddai'r dull hwn yn adlewyrchu egwyddor continwwm dysgu Cymraeg ac y byddai'n ffordd gyson o fesur cynnydd a chyrhaeddiad, gan drin cymwysterau Cymraeg yn gyfartal â'r rhai ym mhob Maes arall. Dywedodd aelodau Cymdeithas yr Iaith y byddai'r disgwyliadau ar gyfer pob papur yn glir ac yn gorgyffwrdd, gan gynnig i ddysgwyr gallu uwch sy'n sefyll y Gymraeg gael gradd gyfatebol hefyd mewn Cymraeg Uwch. Dywedwyd hefyd y byddai'r dull hwn yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael mwy o amser addysgu a dysgu ym mhob ysgol ac y byddai'n gosod disgwyliadau a nodau cyrhaeddiad uwch ar gyfer pob dysgwr.

6.3. Cynnig 3

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cyfres o gymwysterau bach sgiliau iaith Cymraeg gellir eu cymryd yn ychwanegol at TGAU i gefnogi dilyniant ar hyd y continwwm Cymraeg?

Ffigur 12: Lefel y cytundeb â chynnig 3 o fewn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Ymatebodd cyfanswm o 402 o bobl i'r cynnig hwn. Roedd bron i hanner (49%) yn cytuno, tra bod ychydig o dan chwarter yn anghytuno. Wrth edrych ar is-grwpiau, roedd cyfran gymharol fach o ddysgwyr (7%) yn anghytuno'n gryf o gymharu â 22% llawer uwch o rieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd. Roedd gweithwyr addysg proffesiynol yn syrthio rhwng y ddau, gyda 14% yn anghytuno'n gryf. Rhoddodd 48% (194 o bobl) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

6.3.1. Opsiynau i ddysgwyr

Teimlai'r rhai a oedd yn cytuno â'r cynnig hwn y byddai'r fformat a awgrymwyd yn darparu cronfa ehangach o opsiynau a dewis i ddysgwyr, a hynny'n cael ei groesawu. Dywedasant hefyd fod cynnig cymwysterau Cymraeg mewn *"darnau"* llai o faint yn galluogi'r rhai sydd â diddordeb brwd ac sy'n fwy abl i ehangu eu gwybodaeth a chodi safonau.

Dywedwyd y gallai cynnig mwy o gyfleoedd i ymarfer Cymraeg llafar drwy'r cymwysterau bach wella hyder dysgwyr a darparu pont i astudio ymhellach, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n dymuno astudio'r Gymraeg ar lefel Safon Uwch a'r tu hwnt.

"Bydd hyn yn sicrhau cywirdeb iaith ein dysgwyr ac yn ymestyn y plant mwy abl a thalentog wrth iddynt astudio'r cwrs TGAU. Bydd hefyd yn ategu at y cwrs Safon Uwch a thu hwnt gydag addysg bellach yn y pwnc"[36]
Gweithiwr addysg proffesiynol

[36] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

Roedd rhai hefyd yn ystyried bod y cynnig yn cynnig dewisiadau amgen posibl[37] i ddysgwyr y gallai TGAU Cymraeg lawn fod yn hynod anodd iddynt, gan sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad at gymwysterau Cymraeg priodol, a gwella hunan-gymhelliant i ddysgu Cymraeg.

"Llai o bwysau i rai myfyrwyr a allai fod â diddordeb mewn agwedd benodol ar y Gymraeg ond sy'n cael eu dychryn gan gwricwlwm Cymraeg llawn"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Fodd bynnag, roedd y safbwyntiau hyn i gyd yn dibynnu ar gael eglurhad pellach ar sut y byddai'r cymwysterau bach hyn yn gweithio ochr yn ochr â'r prif TGAU.

Awgrymodd sawl ymatebydd y dylai'r cymwysterau bach hyn gwmpasu sgiliau bywyd ymarferol, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Byddai hyn yn cynnwys lleoliadau swyddfa ond hefyd y sector twristiaeth a lletygarwch, chwaraeon a gweithgareddau ieuenctid a'r sgiliau sydd eu hangen i fynd ymlaen i ddysgu Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Teimlwyd y dylid canolbwyntio'n gryf ar Gymraeg llafar a llai o ffocws ar arholiadau i sicrhau bod y cymwysterau hyn yn *"rhai sydd eu hangen, yn gyd-destunol, [ac] yn gysylltiedig â busnes" (Gweithiwr addysg proffesiynol).*

6.3.2. Diwallu anghenion pob dysgwr

Roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo y gallai'r cymwysterau bach fod yn arbennig o ddefnyddiol i ddysgwyr llai galluog neu'r rhai â lefelau isel iawn o Gymraeg ar ôl symud i Gymru yn ddiweddarach. Dywedwyd bod hyn yn arwydd o gefnu ar y dull *"un ateb sy'n addas i bawb"* a fabwysiadwyd hyd yma ac yn dileu elfen o *"orfodi"* dysgu Cymraeg ar ddysgwyr, sy'n sbarduno teimladau negyddol.

Credid y gallai cynnig y Gymraeg mewn darnau llai i ddysgwyr llai galluog wneud y profiad yn fwy deniadol, hwyliog a hygyrch. Byddai hefyd yn caniatáu i'r dysgwyr hyn ddatblygu sgiliau bywyd ac fe'i disgrifiwyd fel *"cam i'r cyfeiriad cywir"* wrth arloesi yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu, yn enwedig i ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

"Mae angen rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer pen isaf yr ystod gallu ac i'r rhai sy'n newydd i Gymru, yn ogystal â'r rhai sy'n dymuno ymestyn eu 'portffolio' o ieithoedd. Rhaid i'r cymwysterau fod â rhywfaint o werth yng ngolwg cyflogwyr/ addysg bellach/ addysg uwch"
Aelod o'r cyhoedd

Ar y llaw arall, teimlai rhai ymatebwyr na fyddai'r cynnig hwn yn addas i bob dysgwr. Roeddent yn teimlo bod *"gormod"* o Gymraeg eisoes ar gael yn y cwricwlwm a dywedasant nad yw'n cael ei gwerthfawrogi'n gyffredinol. Teimlwyd y gallai'r cymwysterau bach ychwanegol fod yn llethol i ddysgwyr ar ben y cymhwyster TGAU Cymraeg newydd – ac nid oedd rhai ymatebwyr yn deall pam y byddai ei angen ochr

[37] Mae'r adborth hwn yn awgrymu y gallai rhai ymatebwyr fod wedi camddeall mai'r cynnig oedd creu cymwysterau bach Cymraeg a oedd i'w cynnig ochr yn ochr â TGAU Cymraeg, nid yn lle hynny.

yn ochr â chymhwyster mwy cadarn a oedd wedi'i anelu at ddysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.

"Pam cael pethau ychwanegol os yw'r diwygiad yn rhoi TGAU ddigonol/dda? Mae'n drysu'r cymhwyster - a oes angen i'r pethau ychwanegol fod yn deilwng o bwyntiau ychwanegol/sgiliau ychwanegol? Os felly, dylent aros yn y TGAU. Byddai'n anodd iawn addysgu pethau ychwanegol"
Rhiant/gofalwr

Roedd ymatebwyr a fynegodd y farn hon yn tueddu i fynegi mwy o gefnogaeth i'r cymwysterau bach fel dewis amgen i'r cymhwyster TGAU Cymraeg a hanner ar gyfer dysgwyr llai galluog, ond prin oedd y gefnogaeth y tueddasant ei mynegi i'w cynnig yn ogystal. Roeddent yn teimlo nad yw ychwanegu mwy o gymwysterau yn mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â dysgu Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg ac yn amau na fyddai llawer iawn o ddiddordeb ynddynt.

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr hyn, pe bai'r cymwysterau bach yn cael eu cynnig fel dewis yn lle TGAU Cymraeg, y dylent gynnwys opsiwn *"cyflwyniad i'r Gymraeg"* neu *"cyflwyniad i lenyddiaeth Gymraeg"* i gefnogi'r rhai sydd â lefelau isel iawn o'r iaith[38].

Yn gadarnhaol, gwelwyd bod y cynlluniau'n dangos arloesedd a'u bod yn agored i newid, yn enwedig yn y cynnig i gynnwys asesiadau digidol. Fodd bynnag, credid bod angen gofal i sicrhau nad yw hyn yn rhoi rhai dysgwyr ac ysgolion dan anfantais oherwydd gallu ysgolion i ariannu offer digidol.

6.3.3. Yr effaith bosibl ar gymwysterau eraill a'r berthynas â'r TGAU Cymraeg

Roedd pryder ymhlith rhai ymatebwyr fod y cynigion hyn yn rhoi mwy o ffocws ar addysgu Cymraeg na Saesneg, gyda lleiafrif bach yn disgrifio'r cynlluniau fel rhai *"gwahaniaethol"* neu gysylltiedig ag agenda gwleidyddol. Roedd pryder y gallai'r dull arwain at anghydbwysedd o ran astudio pynciau eraill gan gynnwys Saesneg a Mathemateg. Fel gyda'r opsiynau eraill, teimlai rhai ymatebwyr y gallai hyn gael effaith negyddol ar lefelau llythrennedd sydd eisoes yn isel yn Saesneg.

"Mae angen neilltuo mwy o werth ac amser i ddatblygu medrau Saesneg disgyblion nid Cymraeg. Rydym ymhlith y lefelau llythrennedd isaf yn y byd! Dylem fod yn neilltuo amser i ddatblygu sgiliau llythrennedd Saesneg i roi cyfle i ddisgyblion Cymru mewn bywyd ac yn y byd yn erbyn disgyblion y mae eu medrau llythrennedd Saesneg yn flaenoriaeth"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Er bod rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid cynnig y cymwysterau bach yn lle'r TGAU lawn, roedd pryder ymhlith eraill fod cynnig y cymwysterau bach yn cynrychioli *"gwanhau"* ymrwymiad Llywodraeth Cymru i addysgu Cymraeg, yn enwedig mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg (gan ddangos eu bod wedi camddeall y cynnig). Nid oedd yr ymatebwyr hyn yn teimlo y dylai'r cymwysterau bach ddisodli'r TGAU Cymraeg lawn na rhoi cyfle i ysgolion *"ddewis peidio"* â'i chynnig.

[38] Mae'r adborth hwn yn awgrymu y gallai rhai ymatebwyr fod wedi camddeall mai'r cynnig oedd creu cymwysterau bach Cymraeg a oedd i'w cynnig ochr yn ochr â TGAU Cymraeg, nid yn lle hynny.

Roedd llawer o'r ymatebwyr a fynegodd y farn hon yn teimlo y byddai'n well, yn hytrach na datblygu'r cymwysterau yn y cynnig hwn, datblygu cymhwyster neu gymwysterau sy'n darparu cydraddoldeb i bob dysgwr ac sydd â chynnwys o ansawdd gwell nag a gynigir ar hyn o bryd. Roedd llawer yn cefnogi cymhwyster neu gymwysterau amgen i ddilyn continwwm iaith yn seiliedig ar asesiadau CEFR.

"Byddai cael amrediad eang o unedau ar wahanol lefelau o bosib yn ffordd o greu cymhwyster fyddai'n caniatáu dyfarniad fyddai'n gydnaws â chontinwwm (gan osgoi creu rhwystrau a nenfydau diangen), yn arbennig felly petai'n gysylltiedig â'r Fframwaith CEFR"[39]
Arall

Soniodd eraill nad oedd yn glir at bwy yn union yr anelir y cymwysterau hyn, nac ychwaith i ba raddau y byddant yn ategu neu'n disodli opsiynau eraill. Awgrymodd ambell un fod cyflwyno cymwysterau bach yn awgrymu na fyddai'r TGAU newydd arfaethedig yn addas i'r diben, gan ddweud na fyddent yn angenrheidiol pe bai'r cymhwyster llawn yn cael ei ailgynllunio i bob diben. At hynny, dywedodd un ymatebydd na ddylid ynysu'r sgiliau sy'n cael eu cynnig drwy'r cymwysterau bach a bod eu haddysgu fel hyn yn mynd yn groes i ddamcaniaeth caffael iaith.

"Nid yw union fwriad a phwrpas y cymwysterau bach hyn yn glir o'r disgrifiad yn y ddogfen ymgynghorol, na'r cydberthynas gyda'r TGAU llawn...Gwelwn berygl y gallai'r cymwysterau bach danseilio'r TGAU mewn rhai achosion pe na bai gofyniad digon clir o ran dilyn a sefyll y TGAU Cymraeg"[40]
Arall

6.3.4. Ymarferoldeb darparu

Er bod cefnogaeth gyffredinol i syniad cymwysterau bychain Cymraeg, nododd ymatebwyr nifer o bryderon neu heriau ymarferol i'w darparu. Y cyntaf oedd faint o werth fyddai ynghlwm wrth bob un o'r cymwysterau bach er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n ymarferol ac nad ydynt yn dod yn *"annibendod"*. Credid bod angen mwy o eglurder ynghylch a ellid eu *"cyfnewid"* i wneud cymhwyster mwy o faint.

Pe byddent yn cael eu dylunio a'u targedu'n ofalus, teimlai ychydig o'r ymatebwyr y gallai'r cymwysterau bach gael eu darparu'n effeithiol, cynyddu cymhelliant dysgwyr, a bod yn werthfawr i gyflogwyr.

"Gallai roi mwy o fri i'r cymhwyster a'r iaith gan y byddai cyflogwyr yn ei weld fel cymhwyster mwy gwerthfawr. Gallai ddarparu cyfleoedd pellach i ddysgu Cymraeg, gan gynnwys dealltwriaeth ddiwylliannol a llenyddiaeth ond dim ond yn ogystal â dysgu Cymraeg, nid yn lle hynny."
Gweithiwr addysg proffesiynol

Teimlwyd hefyd y byddai'n rhaid i'r gyfres o gymwysterau bach fod yn gynhwysfawr i ddarparu ar gyfer ystod eang o ddysgwyr – ac y gallai hyn fod yn broblem mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sydd eisoes â phroblemau adnoddau sy'n ymwneud ag addysgu Cymraeg. Ystyriwyd nad oedd yn glir sut y byddai'r cymwysterau bach yn cael

[39] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg
[40] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

eu hamserlennu ac a fyddai digon o staff ar gael i gefnogi'r newid – sy'n broblem ar draws y sector, fel y nodwyd mewn perthynas â'r cynnig blaenorol.

"Os dylid dyrannu amser ychwanegol, bydd hyn yn hunllef i ysgolion ei weithredu; os na, yna byddech yn mentro gorfod gwasgu'r cymwysterau i'r slot 'Cymraeg' presennol ar yr amserlen ar draul yr amser addysgu"
Gweithiwr addysg proffesiynol

O safbwynt dysgwyr, roedd rhai'n pryderu y byddai'r newidiadau hyn yn golygu llwyth gwaith trymach a gorlwytho. Fodd bynnag, roedd llawer o rai eraill yn gefnogol i'r syniad ac yn teimlo y byddai'r cymwysterau bach yn cynnig *"elfen atodol"* i'r rhai sy'n awyddus i symud ymlaen i astudio ymhellach a hybu eu gallu.

6.3.5. Ymateb Cymdeithas yr Iaith i gynnig 3

Yn debyg i gynigion 1 a 2 yn y Maes hwn, dywedodd aelodau Cymdeithas yr Iaith eu bod yn anghytuno'n gryf â chynnig 3. Yn hytrach, roeddent yn argymell datblygu modiwlau ychwanegol a chyfres o gymwysterau fel pont rhwng TGAU a safon UG.

Roeddent yn teimlo y byddai ysgolion yn ystyried y cymwysterau bach yn ddewis amgen i'r cwrs byr TGAU Cymraeg a oedd ar gael yn flaenorol mewn ysgolion yng Nghymru, ac y byddai'r cynnig yn cyfyngu ar yr amser addysgu a dysgu a ddyrennir i'r Gymraeg.

Gan wneud pwyntiau tebyg i'r rhai a wnaed ar gyfer cynnig 2, dywedodd yr aelodau hefyd:

"Trwy gyfyngu ar y cyfle i fynegi barn am yr holl ystod o opsiynau posibl, mae Cymwysterau Cymru yn euog o gyfyngu ar y ddadl ac yn dangos diffyg uchelgais a diffyg arweiniad. Heb newid i arholiad TGAU cyfannol bydd y drefn dysgu Cymraeg yn parhau i wneud cam â'r 80% o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg"[41]

[41] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

6.4. Cynnig 4

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i adolygu a diwygio TGAU 'gwneud-i-Gymru' yn Ffrangeg, Almaeneg, a Sbaeneg?

Ffigur 13: Lefel y cytundeb â chynnig 4 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Gwnaeth cyfanswm o 401 o bobl sylwadau ar y cynnig hwn, gyda thros hanner (56%) yn cytuno a dim ond ychydig dros ddeg (11%) yn anghytuno. O edrych ar y math o ymatebydd, roedd dysgwyr yn fwyaf tebygol o gytuno'n gryf, tra bod yr anghytundeb cryfaf yn dod gan rieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd. Roedd deuddeg y cant o'r grŵp hwn yn anghytuno, a 10% ohonynt yn gryf. Dangosodd dysgwyr a gweithwyr addysg proffesiynol lefelau tebyg o anghytundeb cyffredinol (14% a 10% yn y drefn honno) ond roeddent yn fwy tebygol o dueddu i anghytuno nag anghytuno'n gryf.

Rhoddodd 36% (143 o bobl) o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn sylw ysgrifenedig hefyd. Amlinellir y prif themâu a nodwyd yn sylwadau'r ymatebwyr isod.

6.4.1. Mynd i'r afael â'r gostyngiad yn y nifer sy'n manteisio

Roedd ymatebwyr yn gefnogol, i raddau helaeth,o ddiwygio'r tri chymhwyster mewn ieithoedd rhyngwladol, yn enwedig o ran y cynnwys a gwmpesir. Teimlwyd bod angen newid er mwyn mynd i'r afael â'r gostyngiad sydyn yn y nifer sy'n astudio'r cymwysterau hyn dros y blynyddoedd diwethaf.

Dywedwyd nad oedd y cymwysterau'n cael eu hystyried yn addas i'r diben, ar hyn o bryd, gan fod iddynt ormod o gynnwys a baich gwaith trwm, yn enwedig o'u cymharu â chymwysterau TGAU eraill. Teimlir bod y cynnwys yn dangos ymarfer *"ticio blwch"* yn hytrach na chreu cyfathrebwyr da, fel y dylai'r nod fod, dywedwyd. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid ailwampio cynnwys y cymwysterau i ganolbwyntio ar gyfathrebu, gyda rhai elfennau o ramadeg wedi'u gosod yng nghyd-destun diwylliant, pobl a lleoliad yr iaith.

Dywedwyd hefyd y dylai cynnwys y cymwysterau diwygiedig arfaethedig gynyddu hyder dysgwyr wrth siarad yr iaith ac apelio at gyflogwyr. Roedd rhai ymatebwyr o'r

farn bod gormod o ffocws ar sicrhau rhuglder ar y lefel hon, sy'n nod afrealistig ac yn digalonni dysgwyr. Credid yn gyffredinol nad yw'r dull addysgu *"traddodiadol"* sy'n drwm o werslyfrau yn ffafriol i gaffael iaith yn dda nac yn ddeniadol i ddysgwyr. Awgrymwyd bod angen elfen o drochi, gyda rhai hefyd yn pwysleisio bod addysgu yn yr iaith darged yn hanfodol. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai datblygu sgiliau trawsieithog fod yn ffocws pwysig.

"Rwy'n teimlo y dylai'r cymwysterau Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg hyn alluogi myfyrwyr i ddangos eu sgiliau cyfathrebol amlieithog yn eu cyd-destun 'bywyd go iawn'... byddai hefyd yn dda gweld ffocws ar gyfryngu creadigol sy'n adlewyrchu cyd-destun go iawn dysgu iaith, lle mae myfyrwyr sy'n dysgu ieithoedd mewn ystafell ddosbarth iaith yn cyfryngu rhwng eu mamiaith ac ati. A'r iaith y maent yn ei dysgu. O ystyried bod y cwricwlwm newydd yn hyrwyddo ieithoedd lluosog, amlieithrwydd, trawsieithu a chyfryngu, rwy'n credu ei bod yn allweddol adlewyrchu a dyfarnu dysgu o'r fath mewn cymwysterau Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg er mwyn alinio dysgu, addysgu ac asesu yn hanfodol fel y nodwyd yn y Cwricwlwm i Gymru 2022"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Dywedodd rhai ymatebwyr y byddent yn croesawu cynnig TGAU Eidaleg fel opsiwn arall i ddysgwyr.

Roedd cefnogaeth gyffredinol ymhlith ymatebwyr i gynyddu'r defnydd o dechnoleg ddigidol i gefnogi dysgu. Teimlwyd y byddai hyn yn dechrau moderneiddio cymwysterau iaith rhyngwladol a gwella diddordeb. Dywedwyd hefyd y gall technoleg ehangu cyfle o ran yr hyn a addysgir ac y gallai olygu cynnig mwy o ieithoedd ar lefel TGAU, a allai gael eu darparu o unrhyw le yn y byd.

6.4.2. Diwallu anghenion pob dysgwr

Yn gysylltiedig â'r uchod, mae teimlad eang ymhlith ymatebwyr nad yw cymwysterau TGAU mewn ieithoedd rhyngwladol yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr yn eu fformat presennol. Dywedodd ymatebwyr a fynegodd y farn hon mai dim ond ar gyfer dysgwyr gallu uwch y mae'r cymwysterau TGAU hyn yn addas ar hyn o bryd, a bod hwythau hyd yn oed yn digalonni wrth iddynt frwydro gyda'r cymwysterau hyn a'u cael yn fwy heriol na llawer o'u dewisiadau pwnc eraill. At hynny, dywedwyd bod y cymwysterau hyn yn dibynnu ar y ffaith fod gan ddysgwyr sylfaen ieithyddol gadarn ar waith cyn eu cychwyn, ac nid yw hynny'n wir am y mwyafrif.

"Nid yw'r ymdrech sydd ei hangen i ennill TGAU iaith yn cael ei hailadrodd mewn pynciau eraill... mae caffael iaith yn mynnu mwy o ymroddiad o lawer"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Mae'r cymwysterau TGAU ieithoedd rhyngwladol presennol hefyd yn drwm eu harholiadau ac yn cael eu marcio'n fwy llym na phynciau eraill, yn ôl sawl ymatebydd. Teimlwyd felly fod yn rhaid i'r cymwysterau hyn fod yn fwy hygyrch i ddysgwyr o bob gallu, canolbwyntio llai ar arholiadau ac asesu, a dod yn fwy pleserus a chyfoes eu natur.

"Mae'r cwrs TGAU yn yr ieithoedd yma ar hyn o bryd llawer rhy anodd i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Dim ond wir y rhai mwyaf abl a thalentog sydd yn llwyddo yn TGAU ITM fel y mae'n sefyll ar hyn o bryd. Mae'n rhaid ceisio denu disgyblion sydd efallai llai talentog, ond sydd o hyd yn haeddu'r cyfle i allu llwyddo mewn rhyw fath o gymhwyster ar ôl CA3"[42]
Gweithiwr addysg proffesiynol

I'r gwrthwyneb, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y cymwysterau TGAU presennol yn addas ac yn briodol, ond fod ganddynt enw gwael a bod llawer yn methu deall manteision eu hastudio, gan arwain at leihau'r nifer sy'n manteisio ar y cymwysterau TGAU. Teimlwyd bod angen ymdrech farchnata gryfach i fynd i'r afael â'r safbwyntiau negyddol hyn.

6.4.3. Y cyd-destun Cymreig ar gyfer ieithoedd rhyngwladol ac alinio â'r cwricwlwm newydd

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith bod Cymru mewn sefyllfa unigryw (o safbwynt y DU) gan fod llawer o ddysgwyr eisoes yn ddwyieithog. O ganlyniad, teimlwyd y gallai model priodol o addysgu a dysgu ieithoedd rhyngwladol sy'n manteisio ar sgiliau presennol arwain at ddilyniant da.

"Y 'darparu sylfaen dda' sy'n hanfodol...Dylai dwyieithrwydd unigryw Cymru fod yn bont naturiol at sylweddoli hynny, nid yn rhwystr...Trychineb yw'r cilio enbyd oddi wrth astudio ieithoedd yng Nghymru ar hyn o bryd. Gobeithio y bydd y darpariaethau newydd yn gyfraniad real at atal y trai llai na thrychineb"[43]
Aelod o'r cyhoedd

Fodd bynnag, roedd rhai pryderon y byddai llai o gymwysterau TGAU ieithoedd rhyngwladol ar gael i ddysgwyr yng Nghymru o'u cymharu â dysgwyr yn Lloegr, gan arwain o bosibl at ddiffyg parch at gymwysterau dysgwyr Cymru ymhlith cyflogwyr a'r sectorau addysg bellach ac uwch.

"Rwy'n pryderu am y dull 'gwneud-i-Gymru' sy'n ymddangos yn gul ac yn fewnblyg. Dylem fod yn annog edrych y tu hwnt i'n ffiniau i'r byd ehangach fel bod ein pobl ifanc yn gyfartal ag eraill y tu allan i Gymru a bod ganddynt gymwysterau tebyg"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Er hynny, roedd eraill yn ystyried bod yr elfen 'gwneud-i-Gymru' yn gadarnhaol, gan fod rhywfaint o feirniadaeth wedi bod o'r newidiadau a gynigiwyd i gymwysterau TGAU ieithoedd rhyngwladol yn Lloegr, sy'n golygu y gallai Cymru ddatblygu cynnig gwell. Teimlwyd hefyd y byddai hyn yn golygu gwell aliniad ag elfen 'Cynefin'[44] y cwricwlwm newydd.

[42] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn y Gymraeg
[43] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn y Gymraeg
[44] Diffinnir 'Cynefin' yn y Cwricwlwm i Gymru newydd fel yr ardal leol: y lle hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sy'n llunio'r cymunedau sy'n byw yno.

6.5. Cynnig 5

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cyfres o gymwysterau bach, 'gwneud-i-Gymru' mewn ystod o ieithoedd rhyngwladol i gefnogi ymgysylltiad a dilyniant mewn dysgu iaith?

Ffigur 14: Lefel y cytundeb â chynnig 5 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Rhoddodd cyfanswm o 402 o bobl farn am y cynnig hwn. Roedd bron i dri o bob pump (58%) yn ei gefnogi, gyda'r gweddill yn niwtral neu'n ansicr i raddau helaeth. Dim ond 12% o'r ymatebwyr oedd yn anghytuno, hanner ohonynt yn gryf. O'i ystyried fesul is-grŵp, cytunodd 57% o weithwyr addysg proffesiynol tra bod 14% yn anghytuno, gan gynnwys 8% a oedd yn anghytuno'n gryf. Ymhlith dysgwyr, roedd mwy o gefnogaeth gyda 71% yn cytuno a dim ond 5% yn anghytuno.

Rhoddodd tua dau o bob pump (39%, 155 o bobl) o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig sylw ysgrifenedig hefyd. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

6.5.1. Dibenion y cymwysterau

Cynigiodd yr ymatebwyr sawl awgrym ar sut y gellid defnyddio'r cymwysterau bach. Roedd teimlad cryf y dylai'r cymwysterau bach arfaethedig baratoi pob dysgwr ar gyfer astudio ieithoedd ymhellach, er bod rhai ymatebwyr yn teimlo na allent ond rhoi sgiliau iaith sylfaenol i ddysgwyr eu defnyddio, dyweder, ar wyliau yn hytrach na darparu dyfnder y wybodaeth a'r hyfedredd sydd eu hangen i symud ymlaen i astudiaeth bellach neu'r byd gwaith.

Teimlai rhai ymatebwyr y gallai'r cymwysterau bach fod ar gael i ddysgwyr yng *"Nghyfnod Allweddol 3"* fel *"carreg sarn"* tuag at gymwysterau TGAU ieithoedd rhyngwladol, yn hytrach na'u cynnig ar lefel TGAU.

"Gall cydnabod dysgu iaith drwy gymhwyster llai o faint helpu i roi'r hyder i ddysgwyr symud ymlaen i ddysgu iaith wahanol neu astudio'r iaith honno ymhellach. O gofio y bydd dysgwyr yn symud ymlaen mewn trydedd iaith erbyn diwedd yr ysgol gynradd, a allai'r rhain fod ar gael i ddysgwyr iau ar gam dilyniant cam 3 fel cam tuag at TGAU?"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Barn arall oedd y dylid cynnig y cymwysterau o *"Gyfnod Allweddol 3"* a thrwy'r ysgol uwchradd i alluogi dysgwyr i'w cwblhau pan fyddant yn barod. Roedd rhywfaint yn teimlo hefyd y dylid cynnig Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg hefyd fel cymwysterau bach i ddarparu llwybrau dilyniant priodol.

"... Rwy'n teimlo y dylent hefyd fod ar gael mewn Ffrangeg/Almaeneg a Sbaeneg yn ogystal i fyfyrwyr ôl-16 neu i baratoi fel cymorth ar gyfer TGAU fel yr unedau Cymraeg byrrach arfaethedig"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y CEFR yn eu hadborth. Pwysleisiodd un y dylai cyfeirio at y cymwysterau bach a'r cymwysterau TGAU ieithoedd rhyngwladol yn erbyn y CEFR bwysleisio a dangos y dilyniant rhwng y ddwy set o gymwysterau fel eu bod yn cael eu hystyried yn gymwysterau annibynnol ac fel llwybr dilyniant ar gyfer dysgu iaith o'r ysgol gynradd hyd at ysgol uwchradd a'r tu hwnt.

Teimlai rhywfaint y gallai'r cymwysterau bach hefyd gefnogi dilyniant mewn meysydd eraill ar gyfer y rhai nad ydynt yn dymuno astudio ieithoedd rhyngwladol ar lefel TGAU neu Safon Uwch. Er enghraifft, gellid eu cyfuno â phynciau neu Feysydd eraill, megis Lladin a gwyddoniaeth, neu Sbaeneg gyda hamdden a thwristiaeth.

Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r cymwysterau bach yn rhoi hwb i sgiliau a hyder iaith dysgwyr ac o fudd i'r rhai sydd am weithio dramor yn y dyfodol. Fe'u hystyriwyd hefyd yn ased i CVs dysgwyr yn ehangach, gyda'r potensial i agor ystod eang o gyfleoedd yn y dyfodol.

Roedd ychydig o'r rhai a gytunai â'r cynnig yn teimlo y byddai'n helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth ddiwylliannol, cydraddoldeb a dealltwriaeth o fewn cymdeithas, gan hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang. Nododd eraill y byddai'n helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau ehangach, megis rhesymu ac adnabod patrymau. Fodd bynnag, rhybuddiodd rhai y dylai'r cymwysterau bach sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddatblygu'r ystod lawn o sgiliau iaith, gan gynnwys dealltwriaeth o gaffael iaith.

Fel y nodwyd mewn mannau eraill, roedd teimlad cryf y dylai'r cymwysterau bach (a chymwysterau TGAU mewn rhai achosion) fod ar gael mewn ystod eang o ieithoedd rhyngwladol i adlewyrchu amrywiaeth cymunedau ledled Cymru. Yr ieithoedd a grybwyllwyd gan ymatebwyr oedd Somalieg, Tsieceg, Slofaceg, Rwmaneg, Pashto, Arabeg, Mandarin, Japaneeg, Corëeg, Ffarsi, Hindi, Wrdw, a Hindko. Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid cynnig TGAU mewn Eidaleg, er mwyn sicrhau ei bod ar gael i ddysgwyr i'r un graddau â Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg.

6.5.2. Defnydd, diddordeb, a gwerth

Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynnig yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar ieithoedd rhyngwladol ac yn ymddiddori ynddynt, yn y TGAU a'r tu hwnt.

"Mae'n swnio'n gynllun diddorol sy'n agor drysau i ieithoedd a diwylliannau eraill i'r disgyblion hynny sydd a diddordeb yn y maes. Gallent barhau i astudio'r ieithoedd hyn yn annibynnol yn y dyfodol neu barhau ym myd addysg"[45]
Gweithiwr addysg proffesiynol

Gan bwysleisio'r angen cryf am y cymwysterau hyn, teimlai rhai y byddent yn cynnig mwy o ddewis ac yn helpu i *"ailwampio"* ieithoedd rhyngwladol, gan godi eu proffil ymhlith dysgwyr.

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r cynnig yn annog dysgwyr i ymfalchïo yn eu hieithoedd cymunedol a chartref, ac yn ennyn mwy o ddiddordeb yn eu plith i'w hastudio. Pwysleisiodd llawer fod yn rhaid cynnig y cymwysterau bach mewn ystod amrywiol o ieithoedd cymunedol y tu hwnt i'r *"tair fawr"* sef Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg.

Teimlai rhai ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig y dylid, yn hytrach na chyflwyno cymwysterau bach, cynnig cymwysterau TGAU mewn ystod ehangach o ieithoedd i adlewyrchu gwerth y rhai a siaredir gan bob dysgwr yng Nghymru. Dywedodd eraill y dylai'r cymwysterau bach hefyd fod ar gael mewn ieithoedd lleiafrifol sy'n cael eu siarad mewn cymunedau yng Nghymru.

"Ni all y rhain fod yn gymwysterau 'bach'. Dylent adlewyrchu pob dysgwr yng Nghymru, gan gynnwys dros 50 o ieithoedd sy'n cael eu siarad ymhlith poblogaeth ysgolion Cymru. Dylent hefyd fod yn gymwysterau o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu gwerth yr ieithoedd a siaredir gan bob dysgwr yng Nghymru, nid cyfres o ychwanegiadau bach sy'n tanseilio eu hunaniaeth Gymreig. Ni fydd cysyniad cymwysterau bach ac ychwanegiadau yn galluogi dinasyddion byd-eang. Teimlwn fod rhagfarn yn y cwestiwn hwn a diffyg dealltwriaeth lwyr o ymyleiddio ein disgyblion pan fyddwch yn bychanu'r iaith y maent yn ei siarad drwy beidio â'u cynnwys fel cymwysterau sydd yr un mor ddilys ochr yn ochr â Chymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd rhywfaint o deimlad y byddai gan fwy o ddysgwyr ddiddordeb mewn astudio ystod o gymwysterau bach mewn gwahanol ieithoedd nag mewn astudio un iaith (er bod rhai ymatebwyr yn pwysleisio bod y gwrthwyneb yn wir). Credid mai'r rheswm am hyn oedd y byddai'r cymwysterau bach yn darparu *"opsiwn ysgafnach"* neu ffordd *"lai beichus"* o gyflwyno ieithoedd o'u cymharu â gorfod astudio TGAU lawn.

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r gostyngiad amlwg yn nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio ieithoedd rhyngwladol mewn TGAU. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o bryder hefyd nad yw'r cynnig yn ddigon radical.

Codwyd pryderon pellach ynghylch sut y byddai'r cymwysterau bach yn cael eu cydnabod, ac a fyddai sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a chyflogwyr yn eu

[45] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

hystyried yn gyfartal o ran gwerth i gymwysterau eraill. Roedd rhai ymatebwyr yn cysylltu hyn â therminoleg *"cymwysterau bach",* sy'n awgrymu eu bod o werth llai o'u cymharu â rhai mwy sefydledig. Unwaith eto, gwelwyd bod cydnabod cymwysterau bach yn broblem benodol i ddysgwyr sy'n dymuno astudio, byw a gweithio y tu allan i Gymru.

Teimlai ymatebwyr eraill fod y cymwysterau bach yn ddiangen, gan awgrymu y byddai eu cynnig yn dibrisio'r cynnig cwricwlwm i ddysgwyr yng Nghymru, gan eu hanfanteisio o'u cymharu â'r rheini yng ngwledydd eraill y DU am nad ystyrir eu bod yn gyfartal â'r cymwysterau sydd ar gael mewn rhannau eraill o'r DU. Teimlai rhai y byddai'r cynnig yn gorgymhlethu cynnig y cwricwlwm ac yn cyfyngu ar lwybrau dilyniant.

"Dydw i ddim yn gweld hyn o fudd i'r myfyriwr TGAU cyffredin. Rwy'n credu y byddai'n achosi cymhlethdodau ac yn drysu'r disgyblion pe bai gormod o ddewis. Rwyf hefyd yn credu y byddai cymhwyster sy'n werth llai na TGAU yn dda i ddim os ydych am fynd ar drywydd ieithoedd mewn addysg uwch"
Dysgwr

6.5.3. Staffio, adnoddau ac amserlennu

Gan bwysleisio prinder athrawon ieithoedd rhyngwladol a'r anawsterau a gaiff ysgolion wrth eu recriwtio a'u cadw, teimlai rhai ymatebwyr fod angen ystyried yn fanylach sut y byddai'r cymwysterau bach yn cael eu staffio. Yn wir, mynegwyd rhywfaint o bryder y byddai dysgwyr mewn ysgolion sydd wedi cael trafferth yn recriwtio staff arbenigol yn cael cynnig cwricwlwm anghyfartal, gan greu bylchau mewn sgiliau o'u cymharu â'r rhai mewn ysgolion â digon o arbenigwyr iaith. Nododd rhai hefyd y byddai angen hyfforddiant cychwynnol a pharhaus ar staff i'w paratoi i ddarparu'r cymwysterau bach pe bai'r cynnig yn cael ei fabwysiadu.

"Sut y byddai'r rhain yn cael eu staffio, siawns na fyddai hyn yn dibynnu ar sgiliau ieithyddol yr athrawon mewn canolfannau unigol, beth sy'n digwydd os byddant yn gadael?"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd rhai o'r rheiny a anghytunai â'r cynnig yn teimlo y byddai'r cymwysterau bach yn cynyddu llwyth gwaith athrawon. Nododd eraill y byddai'r cymwysterau bach hefyd yn achosi gwaith ac asesiad ychwanegol i ddysgwyr. Gan gyfeirio at gymwysterau bach presennol mewn Meysydd eraill, dywedodd ymatebydd arall eu bod yn gysylltiedig â lefel uchel o weinyddiaeth sy'n anodd i ysgolion llai ddarparu ar ei chyfer, a dywedwyd bod hyn wedi arwain at lai o ysgolion yn eu cynnig. Er mwyn lliniaru pwysau staffio, awgrymodd un ymatebydd y gellid rhannu staff arbenigol rhwng ysgolion er mwyn sicrhau y gallai pob dysgwr astudio a chael ei asesu yn y cymwysterau bach.

Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu sut y gallai ysgolion ddarparu ar gyfer y cymwysterau bach o fewn eu hamserlenni.

"Yn yr un modd â'r cymwysterau bach Cymraeg, sut byddai'r rhain yn ffitio mewn amserlen? Pe baem yn neilltuo pedair gwers yr wythnos ar gyfer TGAU Ffrangeg a ddylai ysgolion fod yn rhoi gwers ychwanegol yr wythnos neu a fyddai'r cymwysterau bach hyn yn cael eu haddysgu o fewn yr amser addysgu penodedig 'arferol'? Os dylid dyrannu amser ychwanegol, bydd hyn yn hunllef i ysgolion ei weithredu; os na, yna byddech yn mentro gorfod gwasgu'r cymwysterau i'r slot presennol ar yr amserlen ar draul yr amser addysgu"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Pwysleisiodd eraill a drafododd amserlennu y byddai angen i ysgolion neilltuo digon o amser addysgu i bob agwedd ar ddysgu iaith er mwyn i'r cymwysterau bach fod yn llwyddiannus, gan gysylltu'r gostyngiad diweddar yn nifer y bobl sy'n astudio iaith ryngwladol ag ymyleiddio ieithoedd rhyngwladol o fewn cwricwla ac amserlenni ysgolion.

6.5.4. Cystadleuaeth â chymwysterau ieithoedd rhyngwladol presennol

Roedd ymatebwyr yn teimlo'n gryf na ddylai'r cymwysterau bach ddisodli cymwysterau ieithoedd rhyngwladol TGAU a bod yn rhaid iddynt yn hytrach fod ar gael ochr yn ochr â hwy, gan adlewyrchu cynnig Cymwysterau Cymru. Teimlai rhai y gallai ysgolion gael eu temtio i gynnig y cymwysterau bach yn lle TGAU, a nododd eraill fod cymwysterau addas eisoes yn bodoli. At hynny, teimlai rhai fod angen mwy o eglurder ynghylch diben a natur y cymwysterau a'u perthynas â'r cymwysterau TGAU arfaethedig.

6.5.5. Cynnwys dyluniad, ac asesu

Cynigiwyd sawl awgrym ar gyfer cynnwys a chynllun y cymwysterau bach gan ymatebwyr. Nododd rhai ymatebwyr y byddai angen dylunio'r cymwysterau bach mewn ffordd arloesol, gan gefnu ar dechnegau fel cyfieithu, yr oeddent yn eu hystyried yn hen ffasiwn, yn aneffeithiol ac yn ddiflas i ddysgwyr.

Er mwyn galluogi dysgwyr i arbenigo yn eu hoff agweddau ar yr ieithoedd, nododd rhai ymatebwyr y dylai'r cymwysterau fod yn fodiwlaidd, gan ganiatáu i ddysgwyr gronni credydau i'w rhoi tuag at gymhwyster mwy. Byddai defnyddio modelau cwricwlwm fel y Fagloriaeth Ryngwladol (IB) yn ffordd dda o gyflwyno'r cymwysterau, yn ôl un ymatebydd.

Dywedodd un arall y gellid astudio'r cymwysterau bach yn rhan o *"broffil iaith"* fel y Pasbort Iaith Ewropeaidd, sy'n caniatáu i ddysgwyr adeiladu tystiolaeth o sgil ieithyddol ac sy'n arwain at ennill TGAU mewn ieithyddiaeth luosog. Awgrymodd un arall greu cymhwyster iaith *"cymysg"* sy'n addysgu hanfodion sawl iaith i gynorthwyo dysgwyr pan fyddant yn teithio.

Teimlai rhywfaint fod gan y cynnig y potensial i ysgolion greu a datblygu cysylltiadau presennol ag ysgolion rhyngwladol i gyfoethogi dysgu iaith. Er enghraifft, gallai rhaglenni cyfnewid digidol gynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer cyd-gyflenwi. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid cyflenwi'r cymwysterau drwy ddysgu digidol neu ddysgu cyfunol, gan gynyddu dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr.

Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu'r angen am ddull Cymreig penodol o gynllunio'r cymwysterau, gan ddweud y byddai hyn yn arwain at gostau ychwanegol ac yn cymhlethu'r cymwysterau.

"Rhowch y gorau i wastraffu amser ac arian yn gwneud adnoddau Cymreig penodol diangen! Dylem fod yn defnyddio ac yn rhannu ein galluoedd a'n hadnoddau a'n gwybodaeth ledled y DU gyfan, heb wneud ein hunain yn fwy ynysig byth a thorri i ffwrdd o'r byd!"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar agweddau ar asesu'r cymwysterau bach:

- Dywedodd un y dylai asesu osgoi defnyddio dysgu ar y cof ar draul annibyniaeth.
- Teimlai un arall y dylai'r cymwysterau bach gael eu cysylltu ag asesiadau iaith rhyngwladol penodol fel DSD[46] (diploma iaith Almaeneg), DSH[47] (arholiad iaith Almaeneg ar gyfer mynediad at sefydliadau addysg uwch), TestDaF[48] (prawf Almaeneg fel iaith dramor), SIELE[49] (Gwerthuso ac ardystio rhyngwladol ar gyfer **i**aith Sbaeneg) a TELC (Y Tystysgrifau Iaith Ewropeaidd).

6.5.6. Diwallu anghenion pob dysgwr

Byddai'r cymwysterau bach yn galluogi dysgwyr llai galluog, dysgwyr llai hyderus, a'r rhai sy'n cael trafferth gyda rhai agweddau ar ddysgu iaith i gael at ieithoedd rhyngwladol, yn ôl rhai ymatebwyr.

"Byddai cymwysterau gwneud-i-Gymru mewn ieithoedd rhyngwladol yn fanteisiol i ni gan ei bod yn swnio fel petaent yn canolbwyntio ar dynnu sylw at gryfderau disgyblion unigol. Ar hyn o bryd mae angen i bob disgybl sy'n eistedd arholiad iaith ryngwladol sy'n defnyddio bwrdd o Loegr allu gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu yn yr iaith honno. Mae hyn yn cyfyngu ar nifer y disgyblion sy'n gallu ennill cymhwyster mewn iaith ryngwladol. Mae gennym nifer o ddisgyblion nad ydynt yn gallu darllen nac ysgrifennu ond sy'n gallu deall a siarad yn rhugl. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae iaith yn defnyddio wyddor wahanol. Byddai cymwysterau 'gwnaed yng Nghymru' ar gyfer yr ieithoedd hyn yn caniatáu i'r disgyblion hynny gael ardystiad ffurfiol o'r sgiliau hyn a fydd yn eu helpu wrth wneud cais am swyddi"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Awgrymodd eraill y dylai'r cymwysterau bach fod yn ddewisol a chael eu cynnig i ddysgwyr mwy galluog, y rhai sydd â diddordeb mewn ieithoedd, a'r rhai sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY).

[46] Deutsches Sprachdiplom der Kultusministerkonferenz
[47] Deutsche Sprachprüfung für den Hochschulzugang
[48] Test Deutsch als Fremdsprache
[49] Servicio Internacional de Evaluación de la Lengua Española

6.6. Cynnig 6

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i sicrhau y gall dysgwyr ac ysgolion barhau i gael mynediad at ystod o gymwysterau Iaith Arwyddion Prydain (BSL), gan gynnwys unrhyw TGAU newydd a ddatblygwydar gyferdysgwyr yn Lloegr?

Ffigur 15: Lefel y cytundeb â chynnig 6 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Ymatebodd 391 o bobl i'r cynnig hwn. Dim ond 2% a ddywedodd eu bod yn tueddu i anghytuno ag ef. Rhoddodd chwarter (97 o bobl) o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn sylw ysgrifenedig hefyd. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod.

6.6.1. Hyrwyddo cynhwysiant a diwallu anghenion pob dysgwr

Y thema gryfaf o bell ffordd a ddeilliodd o adborth ymatebwyr oedd y byddai parhau i gynnig ystod o gymwysterau BSL i ddysgwyr ac ysgolion yn helpu i hyrwyddo cynnwys dysgwyr B/byddar[50]. Dywedodd ymatebwyr a fynegodd y farn hon y byddai hefyd yn hybu ymwybyddiaeth ehangach am yr heriau sy'n eu hwynebu ac am y diwylliant byddar, gan helpu i greu cymdeithas fwy cynhwysol a gofalgar.

"Byddai dysgwyr yn cael cyfle i fyfyrio ar eu cyfrifoldeb tuag at ei gilydd a'r angen i dderbyn pawb a sicrhau bod hawliau ac urddas pawb yn cael eu cadw a'u blaenoriaethu, waeth beth fo'u hanabledd"
Arall

Roedd teimlad cryf hefyd y byddai'r cynnig yn helpu i sicrhau bod y Cwricwlwm i Gymru newydd yn diwallu anghenion pob dysgwr, gan sicrhau y gall dysgwyr B/byddar gael ato'n llawn, a rhoi *"chwarae teg"*[51] i bob dysgwr.

[50] Mae "B/byddar" neu "D/deaf" yn disgrifio'r rheini sy'n Fyddar (defnyddwyr iaith arwyddion) a byddar (sy'n drwm eu clyw ond sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf ac sy'n darllen gwefusau a/neu'n defnyddio cymhorthion clyw efallai).
[51] "*Chwarae teg*"

Fodd bynnag, er mwyn diwallu anghenion pob dysgwr yng Nghymru, pwysleisiodd llawer o ymatebwyr fod yn rhaid i gymwysterau BSL fod ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Nododd rhai a fynegodd y farn hon fod gan BSL arwyddion neu ystumiau penodol ar gyfer llythrennau Cymraeg, a'i bod yn cynnwys amrywiadau rhanbarthol tebyg i acenion yng Nghymru y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddatblygu unrhyw gymhwyster neu gymwysterau newydd.

"Mae angen i'r BSL fod yn ddwyieithog a dylid ei haddysgu'n ddwyieithog hefyd, nid yn Saesneg yn unig. Dyma sut rydyn ni'n helpu ieithoedd. Peidiwch ag ynysu ieithoedd yn eu dosbarthiadau a'u cylch iaith eu hunain. Addysgwch ddaearyddiaeth trwy'r Gymraeg, Addysg Gorfforol drwy Sbaeneg, hanes trwy Saesneg ac ati. I sicrhau agwedd fwy cyfannol tuag at iaith"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Teimlai eraill nad yw cynnig cymwysterau BSL uniaith Saesneg yn adlewyrchu ethos unigryw'r Cwricwlwm i Gymru newydd.

"Unwaith eto, sut y gall cymwysterau a ddatblygir ar gyfer dysgwyr yn Lloegr fodloni'r Cwricwlwm gwahanol iawn i Gymru? ... Does dim sôn ei fod yn gynnig dwyieithog"
Arall

Pwysleisiodd un arall y dylai Cymwysterau Cymru barhau i ymwneud yn agos â datblygu cymwysterau BSL yn Lloegr er mwyn sicrhau eu bod hefyd yn briodol i'w defnyddio yng Nghymru a'u bod ar gael ar yr un pryd.

Mynegodd ymatebwyr farn wahanol ynghylch a ddylai cymwysterau BSL fod yn orfodol i bob dysgwr. Teimlai rhai y dylid eu cynnig i bob dysgwr fel eu bod yn deall *"yr hanfodion"*, tra bod eraill yn teimlo y dylai fod yn ddewisol.

6.6.2. Staffio ac amserlennu

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu na fyddai digon o staff â'r proffil sgiliau cywir i weithredu'r cynnig hwn. Nododd eraill y byddai angen hyfforddiant ar staff i ddarparu cymwysterau BSL a sicrhau mynediad cyfartal ar draws pob ysgol yng Nghymru. Nodwyd hefyd y galw am athrawon BSL sydd â sgiliau Cymraeg.

"Mae galw mawr am ymarferwyr sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg priodol yn ogystal â'r sgiliau BSL angenrheidiol. Mae angen cynorthwywyr dysgu, athrawon ac athrawon arbenigol sydd yn gymwys mewn BSL a'r Gymraeg er mwyn sicrhau y gall plant a phobl ifanc byddar neu trwm eu clyw fynychu lleoliadau addysg a gofal cyfrwng Cymraeg"[52]
Arall

Nododd un ymatebydd na fyddai unrhyw TGAU BSL newydd sy'n cael ei datblygu yn Lloegr ar gael tan fis Medi 2023 o leiaf. Felly, roeddent yn annog Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod seilwaith athrawon sydd â'r sgiliau BSL priodol ar waith cyn y dyddiad hwn fel y gall Cymru gyflwyno TGAU BSL ar yr un pryd â Lloegr.

Awgrymodd rhai y dylid cynnig cymwysterau BSL fel modiwl o'r Gymraeg a/neu'r Saesneg yng *"Nghyfnod Allweddol 3"* yn hytrach na *"Chyfnod Allweddol 4"* oherwydd byddai'n anodd darparu ar eu cyfer o fewn amserlen *"Cyfnod Allweddol 4"*. Awgrymodd

[52] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

un ymatebydd hefyd y dylid cynnig BSL fel cymhwyster bach yn hytrach na TGAU llawn, a hynny o bosibl yn rhan o'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh). Pwysleisiodd un arall na ddylid cynnig BSL yn lle ieithoedd eraill.

6.6.3. Defnydd, diddordeb a dilyniant

Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at y ffaith y byddai'r cymwysterau'n ddiddorol, yn ddeniadol ac yn ddefnyddiol i ddysgwyr a staff. Byddai hyn yn helpu i hybu proffil BSL, gan ei roi ar sail gyfartal ag ieithoedd eraill. I'r gwrthwyneb, roedd rhai ymatebwyr yn rhagweld y byddai'r nifer sy'n manteisio ar gymwysterau BSL yn isel, gan gysylltu hyn â'i berthnasedd culach i'r rhan fwyaf o ddysgwyr o gymharu ag ieithoedd eraill.

"Y broblem gyda BSL, yn ôl ffrind teuluol byddar i mi, yw bod angen i chi ei defnyddio'n rheolaidd neu byddwch yn ei anghofio'n gyflym. Ni fyddai'r math hwn o gymhwyster o ddefnydd heblaw i'r rhai sydd naill ai'n adnabod pobl fyddar neu sy'n dymuno dilyn gyrfa sy'n gofyn am BSL. Mae'n syniad braf, ond alla i ddim gweld ei fod o fudd hirdymor i'r mwyafrif"
Dysgwr

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod BSL yn sgil gwerthfawr i ddysgwyr, yn yr ysgol a'r tu allan iddi, ac yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Nododd eraill y byddai BSL yn arbennig o werthfawr i'r rhai sy'n dymuno dilyn gyrfaoedd yn y sector gofal cymdeithasol.

Pwysleisiodd rhai y byddai BSL yn rhoi hwb i sgiliau cyfathrebu dysgwyr ac yn helpu i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth gysylltiedig arall megis ffoneg a deall sut mae ieithoedd yn gweithio.

Nododd un ymatebydd y dylai'r cymwysterau BSL sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru gefnogi dilyniant mewn BSL ar gyfer pob dysgwr.

"Er bod cymwysterau BSL ar gael ar hyn o bryd efallai, nid yw dilyniant mewn BSL yn cael ei gefnogi'n ddigonol. Sut y gall CC a Llywodraeth Cymru gefnogi ysgolion a lleoliadau gyda dilyniant mewn dysgu BSL sydd wedi'i achredu, nid yn unig ar gyfer plant a phobl ifanc B/byddar a thrwm eu clyw ond hefyd i'r rhai sydd â ffrindiau a theulu B/byddar neu drwm eu clyw ac eraill, yn enwedig y rhai sydd â diddordeb mewn gweithio mewn addysg neu iechyd a gofal cymdeithasol?"
Gweithiwr addysg proffesiynol

7. Mathemateg a Rhifedd

7.1. Cynnig 1

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster Mathemateg a Rhifedd TGAU cyfun newydd i ddisodli'r ddau TGAU presennol mewn Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd? Byddai'r TGAU newydd oddeutu 1½ TGAU.

Ffigur 16: Lefel y cytundeb â chynnig 1 yn y Maes Mathemateg a Rhifedd



Rhoddodd cyfanswm o 250 o ymatebwyr eu barn am y cynnig hwn. Roedd mwy na hanner (57%) y rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn o'i blaid, ac ychydig dros chwarter (27%) yn ei erbyn. Ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol, roedd lefel y gefnogaeth yn parhau'r un fath (57%) er bod cyfran ychydig yn uwch yn erbyn y cynnig (32%). Roedd y grŵp hwn yn llai tebygol o fod yn niwtral neu ateb "ddim yn gwybod" na'r sampl cyffredinol.

O'r 250 o bobl a ymatebodd, dewisodd ychydig dros hanner (54% neu 134 o bobl) wneud sylwadau pellach. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod.

7.1.1. Cyfuno TGAU Mathemateg a TGAU Rhifedd

Fel y disgwylid o ganlyniadau'r cwestiynau caeedig, roedd cryn gefnogaeth i'r syniad o gyfuno mathemateg a rhifedd, gyda sawl ymatebydd yn dweud ei fod yn ateb synhwyrol.

"Mae cyfuno'r ddwy TGAU yn gwneud synnwyr llwyr gan ein bod yn addysgu'r sgiliau sy'n cael eu profi mewn Mathemateg i ganiatáu i'r disgyblion gymhwyso'r sgiliau hyn mewn cyd-destun bywyd go iawn. Mae'r sefyllfa bresennol lle maent ar wahân yn awgrymu i'r disgyblion mai pethau ar wahân ydyn nhw, ac ni ddylent fod"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Amlygodd sylwadau cefnogol yn aml fod sgiliau mathemateg a rhifedd yn gydgysylltiedig ac yn cael eu haddysgu'n aml gan yr un athro neu athrawes. Roedd rhywfaint o deimlad bod y rhaniad presennol rhwng y ddau gymhwyster yn creu rhaniad artiffisial o fewn y pwnc a allai fod yn niweidiol i ddealltwriaeth gyffredinol.

"Byddai hyn yn helpu i wella addysgu mathemateg er mwyn sicrhau bod y sgiliau rhesymu a gweithdrefnol yn cael eu hintegreiddio'n fwy mewn gwersi"
Gweithiwr addysg proffesiynol

O fewn y sylwadau cefnogol hyn, roedd cydnabyddiaeth o'r cynnwys presennol sy'n gorgyffwrdd y gellid ei addysgu'n fwy effeithiol efallai drwy gyfuno'r cymhwyster.

"Byddai'n ymddangos yn synhwyrol integreiddio'r ddwy ddisgyblaeth hyn. Mae maint y gorgyffwrdd cynnwys rhwng y ddwy fel petai'n cefnogi'r cynnig 1½ TGAU"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd pryder a godwyd gan rai ymatebwyr yn ystyried a fyddai'r cynnig yn arwain at leihau amser addysgu. Dywedwyd y byddai'r pwysau ar yr amserlen yn annog ysgolion i roi llai o amser i'r pwnc pe bai'n arwain at gymhwyster llai o faint na'r ddwy TGAU flaenorol.

"Y cynigion hyn yw'r bygythiad mwyaf i addysg mathemateg yng Nghymru mewn cenhedlaeth. Ar ôl meithrin gallu i addysgu dau gymhwyster TGAU yn y pwnc hwn, byddai gostyngiad i un a hanner yn rhoi'r golau gwyrdd i ysgolion ledled Cymru i leihau'r ddarpariaeth yn y pwnc hwn. [...] Byddai hyn yn anochel yn arwain at lai o amser cyswllt ar gyfer addysgu mathemateg mewn ysgolion, ac felly canlyniadau gwaeth"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Mewn llawer o achosion, daeth y sylwadau hyn gan ymatebwyr a oedd cefnogi cyfuno'r pwnc ond roeddent yn pryderu bod y cynnig yn lleihau pwysigrwydd cyffredinol mathemateg yn y cwricwlwm ac fel sgil bywyd. Roedd y sylwadau hyn yn myfyrio ynghylch lefelau sgiliau cyffredinol ac, mewn rhai achosion, roeddent yn awgrymu bod yr amser a roddwyd gyda dwy TGAU wedi cael effaith gadarnhaol ar sgiliau.

"Mae gostyngiad yng ngwerth cymwysterau mathemateg a rhifedd yn debygol o arwain at lai o amser cwricwlwm ar gyfer pwnc pwysig iawn. Credaf nad cyd-ddigwyddiad mohono fod sgoriau Pisa Cymru wedi gwella'n sylweddol ers cyflwyno'r ddau gymhwyster TGAU. Am y rheswm hwn, a'r ffaith y bydd cyflogwyr am gael disgyblion sy'n hyderus wrth ddelio â rhifau, dylai mathemateg a rhifedd barhau i fod yn werth dau gymhwyster TGAU llawn"
Aelod o'r cyhoedd

7.1.2. Maint y cymhwyster arfaethedig

Un o'r themâu allweddol a godwyd oedd dryswch ynghylch y syniad y byddai'r TGAU newydd tua maint un TGAU a hanner. Hwn oedd y pryder unigol mwyaf a soniwyd amdano gan tua chwarter y rhai a roddodd sylwadau. Roedd y sylwadau hyn yr un mor debygol o ddod oddi wrth y rhai a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig, gan ymddangos yn y rhan fwyaf o'r sylwadau gan y rhai a ddywedodd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd rhai o'r pryderon hyn yn awgrymu diffyg eglurder ond mynegodd eraill bryder gwirioneddol ynghylch sut y byddai cyflogwyr neu sefydliadau addysg uwch yn deall hyn. Roedd hyn yn cynnwys dryswch ynghylch sut y gellid cydnabod hanner TGAU.

"Mae'r syniad o gyfuno'r ddau yn dda, mae'r awgrym ei fod yn werth 1½ TGAU yn hurt. Sut y byddech yn gallu dweud ei bod yn werth hynny? 'Mae gen i 12½ TGAU'?"
Dysgwr

Roedd hyn weithiau'n peri pryder y byddai dysgwyr o Gymru dan anfantais yn erbyn dysgwyr o fannau eraill yn y DU wrth wneud cais am swyddi neu leoedd mewn sefydliadau addysg uwch.

"Ni fydd cyflogwyr/sefydliadau addysgol yn cydnabod un a hanner TGAU felly cystal i ddysgwyr gymryd un"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd rhywfaint o ddisgwyl hefyd y gallai'r cymhwyster gael ei ystyried yn gymhwyster sengl yn unig, er ei fod yn fwy o faint.

"Felly, os yw'n 1½ gwaith y maint, a fydd ond yn gywerth ag un TGAU o hyd? Pa mor deg yw hynny? A fydd yn ddau gymhwyster TGAU?
Gweithiwr addysg proffesiynol

7.1.3. Diwallu anghenion pob dysgwr

Maes allweddol arall o sylw oedd effaith y newidiadau arfaethedig ar ddysgwyr a'u cyfleoedd dilynol. Mae hyn yn cynnwys nifer o wahanol bryderon megis a fydd yn paratoi dysgwyr gallu uwch ar gyfer Safon Uwch a'r tu hwnt; ac a fydd yn gwneud mathemateg yn llai hygyrch i ddysgwyr llai galluog, gan adael mwy heb unrhyw gymwysterau.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd y cymhwyster wrth baratoi dysgwyr gallu uwch ar gyfer astudio pellach, gan adlewyrchu pryderon y gallai llai o fanyleb mathemateg hepgor pynciau sy'n ofynnol ar gyfer Safon Uwch.

"Serch hynny, fy unig bryder yw a fydd hyn yn golygu y bydd rhywfaint o'r cynnwys Mathemateg yn cael ei ddileu, a hynny'n gallu anfanteisio disgyblion sydd am ddilyn gyrfa mewn Mathemateg"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd eraill yn pryderu na fyddai'r dull hwn yn gweddu i ddysgwyr gallu uwch nac i rai llai galluog.

"A fyddai opsiwn mathemateg pur hefyd ar gyfer disgyblion gallu uwch? Gallai cael opsiwn 1½ TGAU hefyd ei gwneud yn anhygyrch i ddisgyblion llai galluog"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd y pryderon manylach yn aml yn cynnwys rhywfaint o feirniadaeth o addasrwydd y TGAU Rhifedd bresennol i bob dysgwr. Roedd hyn yn canolbwyntio ar y syniad bod y TGAU Rhifedd yn cyflwyno mathemateg fel problemau bywyd go iawn ond bod angen sgiliau llythrennedd uwch i ddeall y cwestiynau.

"Mae llawer o ddysgwyr eisoes yn cael trafferth gyda'r TGAU rhifedd oherwydd cael yr wybodaeth gywir o'r cwestiynau. Pe baech yn creu TGAU newydd a oedd yn seiliedig yn gyfan gwbl ar y math hwn o gwestiwn, byddech yn anfanteisio o ddifrif y dysgwyr a oedd yn cael trafferth gyda'r Saesneg ac yn cael gwybodaeth"
Dysgwr

7.1.4. Ailsefyll

Codwyd mwy nag ychydig o bryderon ynghylch ailsefyll. Ar hyn o bryd, anogir dysgwyr sy'n cyflawni graddau is i gymryd TGAU Rhifedd sy'n ddyfarniad sengl, ac mae hyn wedi'i gynnwys mewn amserlenni mewn sefydliadau addysg bellach. Yn ôl rhai ymatebwyr, gellid ystyried bod angen mwy o amser addysgu ar y cymhwyster mwy o faint, a'i fod hefyd yn fwy o her i ddysgwyr llai abl.

"Mae ein pryder olaf mewn perthynas â'r cynnig hwn yn ymwneud â dysgwyr ôl-16 sy'n anelu at ailsefyll TGAU Mathemateg ochr yn ochr â gwaith neu astudiaethau ôl-16 eraill. Ar hyn o bryd mae'r dysgwyr hyn yn gallu dilyn TGAU Rhifedd ond o dan y cynigion newydd byddai'n rhaid iddynt gymryd cymhwyster ehangach a mwy heriol, sy'n llai addas i arddangos rhifedd at ddibenion dilyniant neu gyflogaeth. Byddai maint ac ystod y cymhwyster newydd yn gwneud ailsefyll yn fwy heriol i ysgolion, colegau a dysgwyr a gallai effeithio ar y cyfleoedd i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig ennill y cymhwyster pwysig hwn"
Arall

Fodd bynnag, er ei fod yn amlwg yn codi rhai materion ymarferol, roedd cefnogaeth o hyd i'r cynnig o fewn y sector addysg bellach.

"Fel coleg AB sy'n darparu llawer iawn o TGAU mathemateg-rhifedd, bydd rhai anghenion datblygu staff i ni fynd i'r afael â nhw o ran y cynnwys mathemateg. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei orbwyso gan y manteision i ddysgwyr sy'n gorfod sefyll pedwar arholiad ar hyn o bryd, os ydynt yn ymgymryd â'r ddau gymhwyster. Rwy'n cytuno bod cryn dipyn o orgyffwrdd a chyn belled â bod asesiad y cymhwyster yn gallu cadw'r teimlad o senarios ymarferol, pob dydd i ymgymryd â nhw, rwy'n cefnogi'r symud i un cymhwyster"
Gweithiwr addysg proffesiynol

7.1.5. Yr angen am adolygiad

Ymhlith y pryderon a'r sylwadau eraill a godwyd roedd rhwystredigaeth gyda'r syniad o newid y cymwysterau mor fuan ar ôl i'r system bresennol gael ei mabwysiadu.

"Ar ôl newid yn weddol ddiweddar i strwythyr TGAU gyda'r ychwanegiad o'r gymhwyster Rhifedd, nid wyf yn hyderus bod newid hwn eto yn mynd i fod yn fuddiol i ni fel staff na'r plant"[53]."
Heb ei nodi

Gwnaed y sylwadau hyn yn bennaf gan bobl a oedd yn anghytuno â'r cynnig.

[53] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

7.2. Cynnig 2

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster bach newydd y gellir ei gymryd yn ychwanegol at y TGAU i asesu hyfedredd rhifiadol dysgwr, gan ddefnyddio dull asesu ar y sgrîn?

Ffigur 17: Lefel y cytundeb â chynnig 2 o fewn y Maes Mathemateg a Rhifedd



Ymatebodd cyfanswm o 238 o bobl i'r cynnig hwn. Roedd dau o bob tri (67%) yn cytuno â'r cynnig hwn o'u gymharu â dim ond 18% a oedd yn anghytuno. O edrych ar is-grwpiau, roedd y gefnogaeth yn uwch byth ymhlith rhieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd, ond dysgwyr oedd y lleiaf tebygol o gytuno.

Rhoddodd ychydig dros hanner (51% neu 121 o bobl) o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn sylw ysgrifenedig hefyd i esbonio eu hateb. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod.

7.2.1. Diwallu anghenion pob dysgwr

Y thema fwyaf cyffredin a godwyd oedd y byddai'r cymhwyster bach yn caniatáu i bob dysgwr ennill sgiliau, hyder a chymhwyster mewn mathemateg, yn enwedig y rhai a oedd yn cael trafferth gyda'r pwnc, neu'r rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Ychwanegodd rhai y gallai'r cymhwyster arfaethedig hefyd apelio at ddysgwyr yr oedd angen iddynt ddangos eu sgiliau rhifedd yn hytrach na gofyn am ddealltwriaeth fanwl o fathemateg.

Roedd peth anghytundeb ynghylch addasrwydd y cymhwyster ar gyfer dysgwyr gallu uwch. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'n briodol i'r rhai a oedd am gael dysgu ychwanegol mewn mathemateg, tra bod eraill yn anghytuno y byddai'r cymhwyster yn addas ar gyfer y garfan hon.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cynnig y cymhwyster i bob dysgwr er mwyn atal creu *"system ddwy haen"*.

"Dylai hyn fod yn orfodol i bawb neu ddim o gwbl. Mae Cwricwlwm i Gymru yn gwricwlwm ar gyfer tegwch. Os byddwch yn parhau â'r cynnig hwn, byddwch yn cydymffurfio wrth barhau arfer setiau. Mae ymchwil yn profi bod pob dysgwr yn elwa ar weithio gydag eraill o wahanol alluoedd. Felly, gall pawb gymryd y prawf hwn ac, ychydig fel continwwm iaith, bydd dysgwyr yn dod allan gyda sgiliau rhifedd rywle ar hyd y continwwm hwnnw"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Dywedodd un o'r rhai a fynegodd y farn hon y dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb cyn i'r cymhwyster gael ei gyflwyno i sicrhau nad oedd yn rhoi grwpiau penodol dan anfantais.

"Byddai'n well cadw cymhwyster rhifedd â brand TGAU ar gyfer dysgwyr nad ydynt am barhau ag astudiaethau mathemategol neu wyddonol, er mwyn osgoi'r posibilrwydd y bydd grwpiau penodol yn cael eu llywio'n anghymesur tuag at y cymhwyster newydd nad yw'n TGAU. Bydd angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb cyn dod i benderfyniad ar y cynnig hwn. Os caiff cymhwyster ei greu a hwnnw'n cynnwys asesiad ar y sgrin, bydd yn hanfodol sicrhau hygyrchedd a thegwch i ddysgwyr anabl"
Arall

Nododd eraill y byddai angen dylunio'r cymhwyster yn ofalus i sicrhau ei fod yn galluogi dysgwyr â sgiliau llythrennedd isel i ddangos eu hyfedredd rhifiadol, gan fod llawer o ddysgwyr felly'n ei chael yn anodd cael gafael ar gymwysterau mathemateg presennol.

Nid yw'r ffaith bod rhywbeth ar-lein yn ei gwneud yn haws dangos dealltwriaeth rifiadol. Yn wir, pan roddir dewis lluosog i ddisgyblion gallu isel, maent yn tueddu i beidio â darllen cwestiwn yn iawn a dyfalu atebion ar hap. Dydw i ddim yn credu y dylid cael dewis lluosog. A chredaf hefyd y dylid darllen y cwestiynau i'r myfyrwyr am mai un o'r problemau mwyaf o ran dangos gallu mathemategol yw anallu disgybl i ddarllen y cwestiwn yn gywir"
Gweithiwr addysg proffesiynol

7.2.2. Gwerth a chydnabyddiaeth

Prif thema arall yn adborth yr ymatebwyr oedd pryder ynghylch a fyddai'r cymhwyster bach yn cael ei gydnabod gan sefydliadau addysg bellach ac uwch a chyflogwyr. Roedd hyn yn gysylltiedig yn bennaf â maint y cymhwyster. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'n well gan sefydliadau a chyflogwyr i ddysgwyr gael TGAU llawn dros gymhwyster bach, gan ofni y gallai dysgwyr â'r cymhwyster bach fod o dan anfantais yn y pen draw o'u cymharu â'r rhai â TGAU[54]

Byddai angen gwneud gwaith ymgysylltu a marchnata sylweddol gyda sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a chyflogwyr i sicrhau eu bod yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cymhwyster bach, yn ôl rhai ymatebwyr.

[54] Mae'r pwynt hwn fel petai'n adlewyrchu camddealltwriaeth rhai ymatebwyr y byddai'r cymhwyster bach yn cael ei astudio yn hytrach na TGAU lawn yn y Maes Mathemateg a Rhifedd. I egluro, cynnig Cymwysterau Cymru yw y byddai'r cymhwyster bach yn vael ei astudio ochr yn ochr â'r TGAU lawn yn y Maes hwn, yn hytrach nag yn lle hynny.

"Er y gallwn weld gwerth darparu cymhwyster i ddysgwyr nad ydynt wedi ennill gradd C mewn TGAU i symud ymlaen i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, mae angen mwy o wybodaeth er mwyn cytuno â'r cynnig hwn. A oes sicrwydd y bydd y cymhwyster yn cael ei gydnabod gan gyflogwyr a pha waith a wneir er mwyn gwella dealltwriaeth cyflogwyr o'r cymhwyster hwn?"
Arall

Dywedodd eraill fod y cymhwyster yn ddryslyd ac yn ddiangen. Roedd rhai a fynegodd y farn hon yn cwestiynu'r angen am y cymhwyster bach, ar yr amod bod y TGAU Mathemateg a Rhifedd ddiwygiedig wedi'i chynllunio'n dda ac yn addas ar gyfer pob dysgwr.

"Rydym yn tueddu i anghytuno oherwydd ni ddylai fod angen cymhwyster ychwanegol o'r math hwn os yw'r TGAU newydd mewn mathemateg a rhifedd wedi'i chynllunio'n dda o ran ei chynnwys a'i hasesiad. Yn realistig, byddai'n annhebygol y byddai'r cymwysterau bach newydd yn cael eu gwerthfawrogi gan randdeiliaid allweddol fel colegau a chyflogwyr. Byddai'n well gennym weld bod y TGAU newydd yn fwy hygyrch i bob dysgwr yn hytrach na chreu cymhwyster ychwanegol ar wahân i rai heb werth gwirioneddol"
Arall

Roedd rhai o'r rheiny a fynegodd y farn hon yn teimlo y dylai addysgu da a chymwysterau presennol fod yn ddigonol i alluogi a dangos dilyniant mewn mathemateg. Yn unol â hyn, nododd rhai ymatebwyr na fyddai'r cymhwyster yn rhoi'r sgiliau mathemateg yr oedd eu hangen ar ddysgwyr i astudio ymhellach mewn pynciau cysylltiedig ac yn y byd gwaith. Roedd peth pryder hefyd y gallai'r cymhwyster bach ddibrisio TGAU mewn Mathemateg a lleihau diddordeb dysgwyr mewn pynciau a gyrfaoedd cysylltiedig yn y dyfodol.

7.2.3. Asesiad ar y sgrin

Mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau am addysgu ac asesu'r cymhwyster ar y sgrin. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai dull asesu ar y sgrin yn caniatáu i gymhwyster mwy cyfredol gael ei ddatblygu. Nododd eraill y byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd o ran pryd y gallai dysgwyr gwblhau eu hasesiadau. Dywedodd rhai dysgwyr y byddent yn croesawu'r cyfle i gwblhau'r asesiad cyn Blwyddyn 11.

"Bydd yn newid o orfod aros tan ddiwedd Blwyddyn 11 i wneud y cymhwyster"
Dysgwr

Nododd eraill fod rhai dysgwyr yn cael trafferth gyda dulliau asesu ar y sgrin a byddai angen cymorth sylweddol arnynt i'w hatal rhag bod dan anfantais oherwydd y dull hwn. Roedd peth pryder hefyd nad oedd asesu ar y sgrin yn briodol ar gyfer dysgu mathemateg, ac efallai na fydd dysgwyr sydd heb gyfrifiadur gartref yn cael yr un cyfle i ymarfer mathemateg ar y sgrin â'r rhai sydd â chyfrifiadur gartref, gan eu rhoi dan anfantais. Gallai asesu ar y sgrin hefyd leihau gallu dysgwyr i ddangos eu gwaith cyfrifo, y dywedodd rhai ei fod yn ffordd bwysig o ddangos dealltwriaeth mewn mathemateg. Yn unol â hynny, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai dysgwyr ac ysgolion allu dewis a yw'r cymhwyster yn cael ei asesu ar y sgrin neu ar bapur.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai'r cynnig annog athrawon i hyfforddi dysgwyr i basio asesiadau yn hytrach na deall mathemateg. Teimlai eraill y gallai'r math hwn o

ddull asesu alluogi neu annog twyllo, gan ddweud bod yn rhaid cwblhau asesiad o dan amodau arholiad gyda goruchwylwyr i atal hyn.

7.2.4. Ailsefyll

Er bod rhywfaint o deimlad bod caniatáu ailsefyll yn bwysig gan y gallai gynyddu siawns dysgwyr o basio'r cymhwyster, nododd rhai ymatebwyr y gallai'r cynnig olygu bod rhai dysgwyr yn gorfod cwblhau'r asesiad dro ar ôl tro er mwyn llwyddo. Roeddent yn teimlo y gallai hyn effeithio ar eu lles, eu cymhelliant a'u mwynhad o fathemateg. Roeddent hefyd yn pryderu y gallai hyn effeithio ar werth y cymhwyster, pe gallai sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a chyflogwyr ddweud bod dysgwyr wedi rhoi cynnig arni sawl gwaith.

"Fodd bynnag, dylid cyfyngu rhywfaint ar sawl gwaith y caiff ei sefyll, neu fel arall daw'n fesur (p'un a yw'r llywodraeth yn dweud hynny ai peidio) ac yna bydd yn rhywbeth sy'n cael ei hapchwarae ac yn negyddol i'r myfyrwyr - sefwch ef nes i chi lwyddo, gan olygu methiant cyson a gwaethygu'r casineb at fathemateg"
Gweithiwr addysg proffesiynol

7.2.5. Dylunio'r cymhwyster

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder pellach ynghylch sut y byddai'r cymhwyster yn ymgorffori sgiliau hanfodol a sut y byddai'n eistedd ochr yn ochr â'r cymwysterau arfaethedig newydd megis TGAU Mathemateg a Rhifedd a'r Dystysgrif Her Sgiliau ddiwygiedig. Roedd rhai yn pryderu y byddai'n gorgyffwrdd â'r llwybrau presennol neu'r cymhwyster mathemateg lefel mynediad. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch yr angen i ddysgwyr astudio'r cymhwyster bach ochr yn ochr â'r TGAU Mathemateg a Rhifedd newydd arfaethedig. Roedd rhywfaint o deimlad y byddai hyn yn rhoi pwysau ar ddysgwyr ac athrawon.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid cynnig y cymhwyster bach yn rhan o gyfres o gymwysterau hyfedredd rhifiadol y gellid eu cyfuno'n TGAU lawn, neu y gallai fod yn rhan o ddyfarniad dwbl mewn mathemateg a rhifedd pe bai'n dechrau ym Mlwyddyn 9. Roedd eraill yn teimlo y dylai dysgwyr astudio'r cymhwyster ar ei ben ei hun yn hytrach nag yn ychwanegol at gymwysterau mathemateg presennol i gynnal eu cymhelliant a'u diddordeb. Awgrymodd rhai y dylid hefyd gael TGAU Sylfaen mewn mathemateg a fyddai'n galluogi dysgwyr i arddangos sgiliau *"craidd"* neu *"hanfodol"* mathemateg. Gellid capio hyn ar radd C, medden nhw. Yna gallai'r brif TGAU asesu cymhwysedd dysgwyr y tu hwnt i'r lefel hon, gan alluogi asesu ystod ehangach o bynciau, nodwyd.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r cymhwyster gynnwys llythrennedd ariannol, gan ei wneud yn berthnasol i bob dysgwr. Dylid creu cymhwyster bach cyfatebol mewn llythrennedd hefyd, nododd rhai eraill.

7.2.6. Amserlennu

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai ysgolion yn ei chael hi'n anodd cyflwyno'r cymhwyster arfaethedig o fewn eu hamserlenni. Nododd rhai nad oedd amserlenni'n ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer cymwysterau bach. Dywedodd eraill y byddai ceisio cyflwyno'r cymhwyster arfaethedig o fewn amserlen sydd eisoes yn llawn yn rhoi athrawon a dysgwyr dan bwysau, ac y gallai hefyd leihau'r hyn a gynigir gan y cwricwlwm.

"Drwy gynnig cwrs byr, codir mater amserlennu ar gyfer gwahanol alluoedd. Nid oes gan amserlenni ysgolion yr hyblygrwydd i gynnig dyraniadau o wahanol faint ar gyfer pynciau craidd. Golyga hyn naill ai osod pwysau ar athrawon i gyflenwi i bob disgybl mewn llai o amser neu glustogi cwricwlwm disgyblion llai abl i lenwi'r bylchau lle nad oes angen amser addysgu craidd. Hefyd, byddai disgyblion yn cael eu rhoi heibio i lwybrau ym Mlwyddyn 10 na fyddant yn gallu torri allan ohonynt"
Gweithiwr addysg proffesiynol

7.3. Cynnig 3

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i greu cymhwyster Lefel 2 'gwneud-i-Gymru' mewn Mathemateg Ychwanegol?

Ffigur 18: Lefel y cytundeb â chynnig 3 o fewn y Maes Mathemateg a Rhifedd



Gwnaeth cyfanswm o 236 o bobl sylwadau ar y cynnig hwn. Roedd dros bedwar o bob pump o bobl (81%) yn cytuno â'r cynnig gan gynnwys 58% a oedd yn cytuno'n gryf. Roedd cytundeb yn debyg ar y cyfan ar draws y tri phrif is-grŵp. Ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol, roedd degfed yn anghytuno'n gyffredinol, gyda 5% yn anghytuno'n gryf.

Rhoddodd pedwar o bob deg (41%, 97 o bobl) o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn sylw ysgrifenedig hefyd i esbonio eu hateb. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod.

7.3.1. Dilyniant, arbenigedd a sgiliau dysgwyr

Mynegodd y rhan fwyaf o'r rhai a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn y byddai cymhwyster Lefel 2 mewn Mathemateg Ychwanegol o fudd i ddysgwyr a oedd yn mwynhau ac yn rhagori mewn mathemateg. Roeddent yn teimlo y byddai'r cymhwyster yn helpu dysgwyr i bontio o TGAU i Safon Uwch.

"Credaf ei bod hi'n hynod bwysig i gynnig cymhwyster sy'n apelio at ddisgyblion mwy abl ym Mathemateg. Mae yna dipyn o naid yn lefel gwaith o TGAU i Lefel A, mae'r cymhwyster yn rhoi blas i ddisgyblion ac yn rhoi sylfaen da iddynt i'r cwrs Lefel A"[55]
Gweithiwr addysg proffesiynol

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r cymhwyster yn ymestyn galluoedd a sgiliau dysgwyr mewn mathemateg, gan eu hannog i anelu a symud ymlaen at yrfaoedd sy'n gysylltiedig â mathemateg. Fodd bynnag, nododd rhai y byddai angen i gyflogwyr fod yn fwy ymwybodol o'r cymhwyster.

[55] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

Roedd rhywfaint o deimlad hefyd y byddai'r cymhwyster yn annog dysgwyr i symud ymlaen mewn pynciau eraill fel y gwyddorau a pheirianneg lle mae sgiliau mathemateg yn fuddiol.

"Byddai hyn yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n dilyn mathemateg ar Safon Uwch ond hefyd pynciau gwyddoniaeth a pheirianneg a hwythau, er hynny, heb yr amser na'r awydd i gymryd pob Safon Uwch mathemateg"
Gweithiwr addysg proffesiynol

7.3.2. Tegwch a chydraddoldeb

Un brif thema arall yn sylwadau'r ymatebwyr oedd y byddai'r cymhwyster yn sicrhau bod cymwysterau cyfatebol ar gael i ddysgwyr yng Nghymru a Lloegr i'w gwneud yn deg i ddysgwyr yn y ddwy awdurdodaeth. Teimlai un ymatebydd fod hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr sy'n byw mewn ardaloedd ar y ffin a allai fod am symud ymlaen i addysg bellach yn Lloegr. Pwysleisiodd un arall y dylai'r cymhwyster fod wedi'i wneud yn wirioneddol i Gymru ac nid yn symbolaidd.

"Dyma gyfle i greu cymhwyster mathemateg ychwanegol 'gwnaed i Gymru', ei alw'n TGAU a'i raddio felly"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Er mwyn sicrhau tegwch, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r cymhwyster fod ar gael i bob dysgwr a oedd am ei astudio. Nodwyd bod dysgwyr nad oeddent yn rhagori mewn mathemateg ond eto am astudio mathemateg ar lefel Safon Uwch wedi bod o dan anfantais drwy fethu ag astudio mathemateg ychwanegol yn y gorffennol.

"Dylai pawb gael y cyfle i wneud hynny os ydyn nhw'n mwynhau mathemateg. Mae'n annheg iddo fod ar gael i leiafrif o fyfyrwyr yn unig"
Dysgwr

Gallai cynnig y cymhwyster i'r dysgwyr â'r gallu uchaf ym Mlwyddyn 11 yn unig hefyd ei gwneud yn anos i staff ac felly'n llai hyfyw i ysgolion ei gyflenwi, yn ôl rhai ymatebwyr. Gallai hyn olygu na fyddai'r cymhwyster ar gael ym mhob ysgol, dywedwyd. Dywedodd un arall na ddylid gwneud y cymhwyster yn rhy anodd i sicrhau nad oedd dysgwyr yn colli hyder mewn mathemateg.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid cynnig y cymhwyster i ddysgwyr a oedd yn barod ar ei gyfer ym Mlwyddyn 10, gan rybuddio serch hynny y dylai dysgwyr allu ailsefyll y cymhwyster os oes angen heb gosbi ysgolion.

Er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle cyfartal i ddangos ei gyrhaeddiad, waeth beth fo'i arbenigeddau, teimlai un ymatebydd y dylid creu cymwysterau ychwanegol cyfatebol ym mhob Maes.

7.3.3. Yr angen am ddiwygiad

Roedd teimlad eithaf cryf y dylai'r cymhwyster newydd adlewyrchu'r cymhwyster mathemateg ychwanegol presennol sydd eisoes yn cael ei gynnig gan rai ysgolion. Roedd y rhai a fynegodd y farn hon yn teimlo bod y cymhwyster presennol yn addas i'r diben a'i fod yn cael ei fwynhau gan ddysgwyr sy'n rhagori mewn mathemateg. Fodd

bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a fynegodd y farn hon hefyd yn teimlo nad oedd angen y cymhwyster newydd am eu bod yn hapus â'r TGAU presennol mewn Mathemateg Ychwanegol.

"Ni allaf weld y synnwyr mewn dyblygu cymhwyster sydd eisoes yn briodol. Mae'r un rydyn ni'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn berffaith addas at y diben"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Rhybuddiodd rhai hefyd na ddylai'r cymhwyster mathemateg ychwanegol newydd wanhau'r TGAU mathemateg presennol.

Dylid croesawu unrhyw gyfle i ddarparu cymwysterau ychwanegol i bontio'r bwlch rhwng TGAU ac UG, ond nid ar draul gwanhau ansawdd y brif TGAU"
Heb ei nodi

7.3.4. Amserlennu ac adnoddau

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai ysgolion yn ei chael hi'n anodd cyflwyno'r cymhwyster arfaethedig o fewn eu hamserlenni. O ganlyniad, efallai y bydd yn cael ei addysgu yn ystod amser cinio ac amser egwyl neu ar ôl ysgol, fel y dywedwyd sy'n wir am y cymhwyster mathemateg ychwanegol presennol sy'n cael ei gynnig mewn rhai ysgolion. Roedd peth pryder hefyd y gallai'r cymhwyster leihau'r amser sydd ar gael ar gyfer addysgu'r TGAU mathemateg.

"Mae hyn yn cynnig dewis, ond dylai fod yn glir bod y TGAU ei hun yn caniatáu dilyniant i lefel UG - a dylid dylunio'r TGAU i gyflawni hynny. Mae perygl bod hyn yn gwasgu pwnc arall allan yn hytrach na bod yn gwbl ychwanegol"
Rhiant/gofalwr

Amlygodd rhai ymatebwyr hefyd fod angen darparu adnoddau priodol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cymhwyster newydd mewn pryd.

8. Gwyddoniaeth a Thechnoleg

8.1. Cynnig 1

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i adolygu a diwygio TGAU mewn Cyfrifiadureg, yr Amgylchedd Adeiledig, Dylunio a Thechnoleg, a Thechnoleg Ddigidol?

Ffigur 19: Lefel y cytundeb â phob pwnc yng nghynnig 1 yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg



Ymatebodd ychydig o dan 350 o bobl i'r cynnig hwn ar gyfer pob un o'r pedwar cymhwyster sy'n cael eu hystyried i'w hadolygu. Mae'r darlun cyffredinol yn un o gefnogaeth, er bod niferoedd gweddol fawr yn rhoi ymateb niwtral 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' neu'n dweud 'ddim yn gwybod'. Roedd y lefel isaf o gytundeb ond hefyd y lefel uchaf o sgoriau niwtral ar gyfer TGAU yr Amgylchedd Adeiledig. Gallai hyn fod oherwydd bod y pwnc yn llai cyfarwydd. Roedd degfed yn anghytuno â'r cynnig ar gyfer Technoleg Ddigidol ac ychydig yn llai ar gyfer Cyfrifiadureg (7%), Dylunio a Thechnoleg (8%), a'r Amgylchedd Adeiledig (9%).

Rhoddodd bron i bedwar o bob deg (39%, 137 o bobl) o'r rhai a ymatebodd sylw ysgrifenedig hefyd. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod.

8.1.1. Yr angen am ddiwygio

Y pwnc a drafodwyd amlaf gan ymatebwyr oedd yr angen i ddiwygio'r cymwysterau TGAU a gwmpesir gan y cynnig. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod angen diwygio'r cymwysterau hyn er mwyn darparu cynnig hyblyg, wedi'i deilwra a chytbwys i ddysgwyr. Roedd teimlad cryf bod y cymwysterau TGAU presennol wedi dyddio (er bod rhai yn anghytuno), yn enwedig Cyfrifiadureg. Pwysleisiodd ymatebwyr felly'r angen i wneud y cymwysterau'n fwy diweddar, perthnasol, diddorol ac addas i bob dysgwr[56] i annog mwy o ddysgwyr i'w hastudio ac i ddilyn astudiaethau pellach a gyrfaoedd yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

"Mae angen [i'r cymwysterau] fod mor berthnasol â phosibl i fywyd modern a gallu addasu i'r oes er mwyn paratoi disgyblion ar gyfer eu dyfodol"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Dywedwyd bod diweddaru'r cymwysterau er mwyn iddynt gydredeg yn well â'r cwricwlwm newydd yn flaenoriaeth gan rai ymatebwyr. Roedd rhai'n cyfleu bod diffyg manylder, dychymyg ac uchelgais i'r cynigion. Roeddent yn teimlo bod angen diwygio mwy radical yn ychwanegol at yr hyn a gynigiwyd i gyflawni uchelgeisiau'r cwricwlwm newydd yn llawn.

"Rwy'n credu bod cyfle wedi'i golli i wir fabwysiadu ethos y cwricwlwm newydd mewn gwirionedd, a bod y newidiadau'n ymwneud ag addasu cymhwyster hanesyddol yn hytrach na chreu cymhwyster gwirioneddol ysbrydoledig sy'n cyd-fynd ag ethos y cwricwlwm newydd"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod y byddai angen adolygu a diwygio rhai o'r cymwysterau yn fanylach nag eraill. Roedd rhai'n cwestiynu'r angen i ddiwygio'r cymwysterau TGAU hyn, naill ai am mai dim ond yn ddiweddar y cawsant eu datblygu (Technoleg Ddigidol, Dylunio a Thechnoleg, a'r Amgylchedd Adeiledig) neu eu diwygio (Dylunio a Thechnoleg, a Chyfrifiadureg). Nododd y rhan fwyaf o'r rhai a fynegodd y farn hon fod y cymwysterau hyn eisoes yn addas i'r diben.

8.1.2. Cynnwys ac asesu'r cymwysterau

Roedd teimlad cryf ymhlith yr ymatebwyr y dylid diweddaru cynnwys y cymwysterau TGAU arfaethedig yn rheolaidd er mwyn darparu ar gyfer esblygiad cyflym eu disgyblaethau. Dywedwyd y dylai'r cymwysterau hefyd fod yn gymharol hawdd a chyflym i'w diweddaru yn hytrach na bod yn destun proses adolygu hir i sicrhau eu bod yn aros yn berthnasol i ddysgwyr. Yn yr un modd, nododd rhai y dylai'r cymwysterau ymgorffori ac adlewyrchu technolegau'r presennol a'r dyfodol a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Nododd ymatebwyr hefyd y dylai'r cymwysterau:

- Adlewyrchu anghenion ac arferion diwydiant, a
- Pheidio â dyblygu cymwysterau galwedigaethol ôl-16 presennol, *"nac arwain at yr argraff o unrhyw elfen o gymhwysedd galwedigaethol"*.

[56]Trafodir addasrwydd i bob dysgwr yn fanylach o dan isadran ar wahân y sylwebaeth ar y cynnig hwn.

Gwnaeth rhai sylwadau penodol am gynnwys y TGAU Cyfrifiadureg arfaethedig, gan awgrymu y dylai:

- Ymgorffori gwyddor data.
- Canolbwyntio ar raglennu nad yw'n destunol, e.e., Scratch[57], ac yna testun, e.e., Python[58] neu JavaScript[59] i wneud y cymhwyster yn fwy hygyrch a diddorol i ddysgwyr.
- Cynnwys codio, rheoli amser real, ac awtomeiddio.
- Cynnwys ystod fwy cytbwys o dasgau, cael ei moderneiddio, a'i gwneud yn fwy diddorol.
- Cael ei chynnig ochr yn ochr â TGAU TGCh. Dylai TGAU TGCh ganolbwyntio ar y sgiliau TGCh ehangach sy'n ofynnol yn y gweithle (e.e. defnydd busnes Microsoft Office), tra dylai TGAU Cyfrifiadureg fod yn fwy technegol, gan ganolbwyntio ar raglennu, meddwl cyfrifiadurol, a sut mae cyfrifiaduron yn gweithio.
- Cynnwys mwy o sgiliau ymarferol a llai o ddamcaniaeth.

Teimlai rhai ymatebwyr y dylai TGAU Dylunio a Thechnoleg newydd ymgorffori sgiliau crefft, dylunio a gweithgynhyrchu i raddau helaethach. Roedd y rhain yn cynnwys gwaith coed, gwaith metel, tecstilau ac economeg y cartref.

Gan adleisio rhai o'r sylwadau a wnaed am gynnwys y cymwysterau hyn, roedd rhai ymatebwyr yn meddwl y dylai asesu ganolbwyntio ar sgiliau ymarferol i raddau helaethach, er bod rhai'n rhybuddio na ddylai'r asesiadau ymarferol gymryd gormod o amser.

Teimlai rhai fod y dulliau asesu presennol ar gyfer cymwysterau TGAU mewn Cyfrifiadureg a Dylunio a Thechnoleg yn ymwneud ag *"ail-chwydu ffeithiau"*, gan ddibynnu'n ormodol ar sgiliau cof dysgwyr.

Nododd eraill y dylai'r cymhwyster diwygiedig gynnwys mwy o gydran gwaith cwrs. Roeddent yn teimlo bod gormod o bwys ar arholiadau, yn enwedig mewn Dylunio a Thechnoleg, a oedd yn digalonni dysgwyr llai galluog.

Awgrymodd un ymatebydd y dylai TGAU Dylunio a Thechnoleg fod â strwythur asesu tebycach i'r TGAU Celf a Dylunio, gyda phwysiad o 60% ar waith cwrs gyda mwy o amser i'w gwblhau, ynghyd â phwysiad o 20% ar arholiad dylunio, ac 20% ar arholiad ysgrifenedig. Awgrymwyd y dylai'r TGAU asesu gwybodaeth a sgiliau dysgwyr a'u gallu i gyfathrebu. Roedd awgrymiadau eraill ar gyfer asesu Dylunio a Thechnoleg yn cynnwys defnyddio meddalwedd i arddangos dealltwriaeth drwy dasgau cyfrifiadurol a

[57] Mae Scratch yn iaith raglennu gyfrifiadurol a chymuned ar-lein am ddim lle gall dysgwyr greu eu straeon, gemau ac animeiddiadau rhyngweithiol eu hunain.
[58] Mae Python yn iaith raglennu gyfrifiadurol lefel uchel, wedi'i dehongli, at ddiben cyffredinol.
[59] Iaith raglennu gyfrifiadurol sgriptio yw JavaScript.

defnyddio cronfa ddata neu dabl gwybodaeth i ddod o hyd i ddata a'i ddefnyddio wrth edrych ar briodweddau deunyddiau at ddibenion penodol.

Teimlai rhai ymatebwyr hefyd fod yr asesiad TGAU Cyfrifiadureg bresennol yn dibynnu'n ormodol ar arholiadau. Dywedwyd bod angen diweddaru'r asesiadau yn unol â'r cynnwys er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn adlewyrchu arferion y diwydiant ac anghenion cyflogwyr. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r cymhwyster hwn gynnwys asesiad ar y sgrin yn hytrach nag arholiad ysgrifenedig. Teimlai un arall y dylid adolygu'r Asesiad Di-Arholiad (ADA) ar gyfer TGAU Cyfrifiadureg gan ei fod ar hyn o bryd yn cymryd llawer mwy o amser nag y mae ei bwysoliad 20% yn ei warantu.

8.1.3. Dilyniant a sgiliau dysgwyr

Nododd rhai ymatebwyr y byddai'r ystod o gymwysterau a gynigir o fewn y cynnig hwn yn apelio at ddysgwyr â gwahanol ddiddordebau ac yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu sgiliau eang eu cwmpas a ystyriwyd yn hanfodol ar gyfer bywydau a gyrfaoedd dysgwyr yn y dyfodol. Yn benodol, teimlai rhai bod y TGAU Technoleg Ddigidol newydd (i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2021) yn edrych yn berthnasol, yn ddiddorol, ac y byddai'n annog datblygiad sgiliau ar gyfer ystod eang o alluoedd a llwybrau gyrfa yn y dyfodol. Nododd rhai ymatebwyr hefyd fod angen i gysylltiadau â dysgu ôl-16 fod yn glir o fewn y cymwysterau diwygiedig.

8.1.4. Y berthynas rhwng cymwysterau TGAU yn y Maes hwn

Wrth adolygu a diwygio'r cymwysterau TGAU hyn, nododd rhai ymatebwyr y dylid egluro'r cysylltiadau rhwng y pynciau er mwyn i'r dysgwyr elwa cymaint â phosibl ar eu hastudio.

Yn ôl rhai ymatebwyr, mae elfennau o'r cymwysterau TGAU presennol mewn Cyfrifiadureg a Thechnoleg Ddigidol yn gorgyffwrdd gormod. Dylid mynd i'r afael â hyn wrth eu hadolygu a'u diwygio er mwyn sicrhau bod eu dibenion yn glir a'u bod yn ddeniadol i ddysgwyr.

"Byddai'n fuddiol i fanylebau cymwysterau ar wahân dynnu sylw at orgyffwrdd clir rhwng disgyblaethau o fewn eu Maes Dysgu a Phrofiad, lle maent yn bodoli. Efallai yr hoffai Cymwysterau Cymru ystyried yr ymagwedd at dechnoleg ddigidol a chyfrifiadureg er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gymwys yn ddigidol yn ymarferol ond hefyd yn cael cyfleoedd i reoli a rhaglennu technoleg. Gall hyn helpu i fanteisio ar y cysylltiadau rhwng y ddau gymhwyster megis elfennau codio, data a chyfathrebu"
Arall

Awgrymodd un ymatebydd y byddai'r TGAU Gweithgynhyrchu a Pheirianneg arfaethedig yn fwyaf tebygol o gynnwys llawer o gynnwys y TGAU Dylunio a Thechnoleg, gan gwestiynu'r angen am y cymhwyster olaf.

8.1.5. Cadw cymwysterau TGAU ar wahân mewn Cyfrifiadureg, yr Amgylchedd Adeiledig, Dylunio a Thechnoleg, a Thechnoleg Ddigidol

Roedd sylwadau rhai ymatebwyr yn ymwneud â'r angen i gadw'r cymwysterau TGAU ar wahân a pheidio â'u cyfuno'n un cymhwyster cyffredinol yn y Maes hwn, gan gefnogi cynnig Cymwysterau Cymru.

"Yn gyffredinol, rydym yn cytuno â'r cynnig i adolygu cynnwys ac asesiad y cymwysterau hyn. At hynny, rydym yn deall natur arwahanol y pynciau hyn ac y byddai unrhyw gymhwyster cyfunol yn niweidiol i ddysgwyr"
Arall

Nododd ymatebwyr a fynegodd y farn hon y byddai cadw'r cymwysterau TGAU hyn ar wahân yn helpu i gadw uniondeb y pynciau ac yn rhoi'r wybodaeth bwnc fanwl sydd ei hangen ar ddysgwyr i'w paratoi ar gyfer astudiaeth bellach. Nododd rhai y byddai cadw cymwysterau unigol yn caniatáu i ddysgwyr arbenigo yn eu dewis o bynciau. I'r gwrthwyneb, dywedodd un ymatebydd fod peidio â chynnig cymhwyster cyfunol yn gyfle a gollwyd.

"Os yw gwyddoniaeth a thechnoleg am fod yn Faes Dysgu a Phrofiad, mae trin y ddau ar wahân yn wall. Byddwch yn fwy creadigol - rydych chi'n colli cyfle yma. Mae angen cymhwyster gwyddoniaeth a thechnoleg cyfunol ac ymddengys nad yw'n rhan o'r broses feddwl"
Gweithiwr addysg proffesiynol

8.1.6. Diwallu anghenion pob dysgwr

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod y TGAU Cyfrifiadureg bresennol yn rhy anodd, yn enwedig i ddysgwyr llai galluog. Dywedwyd hefyd ei bod yn anos na'r cymwysterau TGAU eraill yn y Maes hwn. Dywedwyd bod hyn yn annog dysgwyr i beidio ag astudio'r cymhwyster, gan arwain yn hytrach at rai ysgolion yn terfynu'r cymhwyster mewn TGAU o blaid cymwysterau mwy *"hygyrch"* . Dywedodd rhai y byddent yn croesawu dychwelyd i'r fersiwn flaenorol o TGAU Cyfrifiadureg a oedd, yn eu barn hwy, yn fwy addas i ddysgwyr â galluoedd amrywiol.

Hefyd, nododd rhai y dylai'r holl gymwysterau TGAU a gwmpesir gan y cynnig hwn fod o lefel anhawster hydrin a bod yn destun dulliau asesu cyfatebol i sicrhau tegwch i bob dysgwr ac i annog mwy o ddysgwyr i'w hastudio.

"Gosodwch lefel yr wybodaeth yn gywir, peidiwch â bod yn 'or-uchelgeisiol' gyda gwybodaeth graidd, TGAU a Safon Uwch yw'r camau cyntaf ar deithiau disgyblion, rhowch yr hyder iddynt symud ymlaen"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Teimlai rhai ymatebwyr fod y gostyngiad yng nghynnwys ymarferol y TGAU Amgylchedd Adeiledig a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn debygol o'i gwneud yn llai deniadol i ddysgwyr ac yn llai addas i bob dysgwr, yn enwedig ar gyfer dysgwyr llai galluog, gan dynnu sylw at y ffaith bod ffocws ymarferol cymwysterau eraill yn y Maes hwn yn allweddol i lwyddiant dysgwyr.

Awgrymodd un arall y dylid ailgyflwyno cymwysterau BTEC yn opsiwn ymarferol i ysgolion, yn enwedig ym maes adeiladu a thecstilau, er nad oedd yn glir o'u hymateb a

oeddent yn teimlo bod hyn yn lle'r cymwysterau TGAU a drafodwyd o dan y cynnig hwn, neu'n ogystal â hwy.

8.1.7. Staffio, offer a thechnoleg

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr angen i sicrhau bod y dechnoleg, y feddalwedd a'r offer gofynnol ar gael i ysgolion i alluogi pob dysgwr i gael yr un cymwysterau. Dywedwyd y byddai mynediad anghyfartal yn rhoi dysgwyr dan anfantais mewn ysgolion heb eu hariannu cystal. Dywedodd eraill y byddai angen hyfforddiant ar staff addysgu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau ar draws y pynciau.

"Wrth adolygu a diwygio'r cymwysterau TGAU presennol hyn, mae angen i CBAC a Cymwysterau Cymru ystyried yr effaith ariannol ar ysgolion o wneud newidiadau o'r fath; yr adnoddau presennol sydd ar gael i ysgolion efallai ac mae hyn yn cynnwys staff yn ogystal â chaledwedd priodol i ddarparu'r cymwysterau i ddysgwyr"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Teimlai un ymatebydd hefyd na ddylai'r cymwysterau ddibynnu ar gysylltiadau a phartneriaethau â gweithwyr proffesiynol neu sefydliadau allanol. Gallai hyn roi rhai dysgwyr dan anfantais, dywedwyd.

8.2. Cynnig 2

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu TGAU Peirianneg a Gweithgynhyrchu newydd?

Ffigur 20: Lefel y cytundeb â chynnig 2 yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg



Gwnaeth cyfanswm o 352 o bobl sylwadau ar y cynnig hwn. Roedd dau o bob tri o bobl (66%) yn cytuno â'r cynnig hwn, a dim ond 6% oedd yn anghytuno. O'i ystyried fesul is-grŵp, roedd y gefnogaeth yn uwch byth ymhlith dysgwyr a rhieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd. Ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol, roedd 62% yn cytuno â'r cynnig a 7% yn anghytuno. Atebodd cyfran gymharol uchel (15%) o weithwyr addysg proffesiynol 'ddim yn gwybod' i'r cynnig hwn.

Rhoddodd dros draean (36%, 126 o bobl) o'r rhai a ymatebodd sylw ysgrifenedig hefyd. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod.

8.2.1. Perthnasedd a phwysigrwydd

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a wnaeth sylwadau ar y cynnig yn pwysleisio perthnasedd a phwysigrwydd cynnig y cymhwyster arfaethedig. Roedd llawer o'r rhai a fynegodd y farn hon yn teimlo y byddai'n rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr i symud ymlaen i ddysgu pellach a gyrfaoedd mewn peirianneg a gweithgynhyrchu. Nododd rhai y byddai'r cymhwyster yn rhoi sgiliau ymarferol i ddysgwyr a fyddai'n werthfawr mewn bywyd pob dydd, megis meddwl yn feirniadol a sgiliau datrys problemau. Dywedwyd y byddai hefyd yn gyfle i gymhwyso'r sgiliau y maent wedi'u dysgu mewn cymwysterau eraill.

Roedd cytundeb cryf y byddai cyflwyno cymhwyster mewn peirianneg a gweithgynhyrchu yn gynharach yn annog mwy o ddysgwyr i ystyried gyrfaoedd medrus yn y diwydiannau hyn yn y dyfodol. Gwelwyd bod hyn yn arbennig o bwysig oherwydd

y pwyslais cynyddol ar hyrwyddo twf a mynd i'r afael â phrinder sgiliau yn y sectorau hyn yng Nghymru.

"Mae ffyniant y genedl yn y dyfodol a rhagolygon gyrfa hirdymor yn dibynnu ar ysgogi diddordeb cynnar yn y ddau faes hyn"
Arall

Dywedodd rhai ymatebwyr fod y cymhwyster arfaethedig yn cyd-fynd yn agos â'r Cwricwlwm i Gymru newydd, yn enwedig o'i gymharu â'r cymwysterau presennol a gynigir.

"Mae teitl y cymhwyster yn cyd-fynd â'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig. Mae hefyd yn fwy perthnasol i Gymru. Ar ôl gweithio ym maes gweithgynhyrchu a pheirianneg cyn dechrau addysgu, gallaf weld y cysylltiadau. Rwyf wedi ei chael ychydig yn anoddach esbonio cysylltiadau Dylunio a Thechnoleg â pheirianneg. Byddai ailfrandio gyda chynnwys sy'n canolbwyntio ar beirianneg a gweithgynhyrchu yn darparu llwybrau clir i yrfaoedd mewn peirianneg"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Nododd eraill y byddai'r cymhwyster yn helpu i chwalu *"canfyddiadau di-fudd am yr academaidd yn erbyn y galwedigaethol"*.

8.2.2. Staffio, offer a thechnoleg

Roedd rhai o'r rheiny a wnaeth sylwadau ar y cynnig hwn yn pryderu y byddai ysgolion yn ei chael hi'n anodd darparu'r staff, yr offer a'r dechnoleg sydd eu hangen i ddarparu'r cymhwyster.

"Y broblem i mi yw adnoddau yn yr ysgol, mae ehangder yr opsiynau technoleg yn golygu y gall ysgolion gynnig yr hyn y mae adnoddau yn eu caniatáu i'w wneud. Mae un TGAU yn golygu y bydd cyllidebau'n cael eu hymestyn i'r eithaf i gaffael turnau, argraffwyr 3D a'u tebyg"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd hyn yn aml yn gysylltiedig â'r angen i uwchraddio'r cyfleusterau sy'n debygol o fod yn ofynnol ar gyfer unrhyw elfennau ymarferol a digidol o'r cymhwyster. Er enghraifft, roedd rhywfaint o deimlad y byddai angen i ysgolion fuddsoddi mewn datblygu ac uwchraddio eu gweithdai i ddarparu ar gyfer Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAD) a Gweithgynhyrchu gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAM). Pwysleisiwyd cost prynu deunyddiau hefyd. Dywedodd rhai fod yn rhaid nodi'n glir ymlaen llaw y gofynion ar gyfer yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r cymhwyster, os cânt eu mabwysiadu, er mwyn sicrhau mynediad cyfartal.

Pwysleisiodd rhai y byddai angen hyfforddiant penodol iawn ar athrawon i gyflwyno'r cymhwyster, gan awgrymu y dylid recriwtio gweithwyr proffesiynol o ddiwydiannau peirianneg a gweithgynhyrchu i ateb y galw am addysgu arbenigol. Nododd rhai ymatebwyr y gallai ysgolion bach yn arbennig ei chael hi'n anodd darparu'r staff addysgu i gyflwyno'r cymhwyster.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr anghenion staffio ac adnoddu sy'n gysylltiedig â darparu profiadau y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn unol â chynnwys posibl y cymhwyster (e.e., adeiladu llongau, neu weithgynhyrchu busnesau bach mewn unedau lleol).

8.2.3. Dilyniant

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai TGAU newydd mewn Peirianneg a Gweithgynhyrchu yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen yn ddidrafferth i gymwysterau pellach yn y Maes (er bod rhai yn anghytuno). Teimlai un y byddai'r cymwysterau TGAU presennol mewn ffiseg a mathemateg yn paratoi dysgwyr ar gyfer gyrfaoedd mewn peirianneg yn well na'r TGAU arfaethedig.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr fod yn rhaid ystyried llwybrau dilyniant a chysylltiadau â chymwysterau eraill yn ofalus wrth gynllunio'r cymhwyster, oherwydd yr angen am staff a chyfleusterau arbenigol.

Teimlai rhai ymatebwyr y dylai ysgolion a sefydliadau addysg bellach gydweithio'n agosach i sicrhau bod y cymwysterau a gynigir mewn TGAU ac ôl-16 yn galluogi dilyniant llyfn i ddysgwyr. Awgrymodd un y gallai cydweithio agosach hefyd ddarparu cyfleoedd cyd-addysgu a chefnogi DPP athrawon a darlithwyr.

8.2.4. Diwallu anghenion pob dysgwr

Roedd teimlad eithaf cryf y dylai'r cymhwyster arfaethedig fod yn addas i bob dysgwr, gan gynnig lefel briodol o her i ddysgwyr gallu is a gallu uwch. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai hyn olygu darparu cymhwyster hyblyg a oedd yn cynnig dull mwy damcaniaethol i ddysgwyr gallu uwch ac yn rhoi profiad mwy ymarferol i ddysgwyr gallu is.

"Bydd hyn yn caniatáu i ddisgyblion sydd â thuedd fwy ymarferol ffynnu mewn maes pwnc llai academaidd (ond mwy defnyddiol yn y pen draw!)"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Awgrymodd ymatebydd arall y dylid creu dwy TGAU mewn peirianneg a gweithgynhyrchu, y naill yn canolbwyntio mwy ar ddatblygu sgiliau ymarferol, a'r llall yn gyfuniad o'r cymwysterau TGAU mewn technoleg ddigidol a pheirianneg. Byddai'r cymhwyster olaf yn fwy *"academaidd"* neu *"dechnegol"* ei ffocws a byddai'n fwy priodol i ddysgwyr a oedd yn dymuno astudio pynciau cysylltiedig mewn addysg uwch.

Nododd un ymatebydd y byddai angen dylunio'r cymhwyster yn ofalus i sicrhau nad yw'n cael ei ystyried yn *"gwrs rhoi'r gorau iddi"* ac y byddai'n parhau i fod yn ddeniadol i ddysgwyr gallu uwch. Credid hefyd ei bod yn bwysig ei hyrwyddo fel un sy'n gyfartal ag unrhyw gymhwyster *"academaidd"* arall i sicrhau bod nifer dda o'r holl ddysgwyr yn manteisio arno.

Teimlai ymatebydd arall y gallai'r cymhwyster gynnig dewis yn lle TGAU Ffiseg i ddysgwyr sy'n cael trafferth gyda'r cysyniadau lefel uchel mewn ffiseg, neu i'r rhai sy'n *"fecanyddol eu meddwl"*, ond yn cael trafferth gyda rhai agweddau ar y gwyddorau.

Tynnodd rhai sylw at yr angen i gynnig cymhwyster lefel 1/2 priodol yn ogystal â'r TGAU i ddarparu ar gyfer dysgwyr llai galluog a/neu'r rhai a fyddai'n ei chael yn anodd bodloni gofynion yr arholiad neu astudio TGAU lawn. Dywedasant fod y Dyfarniad Peirianneg CBAC Lefel 1/2 presennol yn annigonol ac nad yw'n rhoi'r sgiliau angenrheidiol i ddysgwyr symud ymlaen yn y maes.

8.2.5. Cystadlu a dyblygu â chymwysterau eraill

Gwnaeth ymatebwyr amrywiaeth o bwyntiau gwahanol mewn perthynas â chystadleuaeth y cymhwyster arfaethedig â chymwysterau tebyg eraill, a'r posibilrwydd y byddai'n eu dyblygu. Nododd rhai y byddai cynnig TGAU mewn Peirianneg a Gweithgynhyrchu yn dod â'r disgyblaethau hyn yn gyfartal â chymwysterau a gynigir mewn Meysydd eraill.

Teimlai rhai y byddai'r cymhwyster yn gorgyffwrdd gormod â chymwysterau presennol yn y Maes hwn, gan olygu na fyddai ysgolion yn gallu cynnig y gyfres lawn o gymwysterau i ddysgwyr, ac y byddai'r cymwysterau presennol yn cael eu cysgodi. Y cymwysterau presennol a grybwyllwyd oedd TGAU yn yr amgylchedd adeiledig, mathemateg a ffiseg.

Gan gyfeirio at y TGAU Dylunio a Thechnoleg bresennol, teimlai un ymatebydd fod y cymhwyster arfaethedig yn ddiangen gan y byddai'n dyblygu llawer o'r cynnwys dylunio peirianyddol o fewn y cymhwyster hwn gan ddileu'r cyfleoedd ar gyfer dylunio peirianneg yr oedd llawer o ddysgwyr yn eu mwynhau.

Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai'r cymhwyster yn gorgyffwrdd yn sylweddol â'r TGAU Dylunio a Thechnoleg. I'r gwrthwyneb, teimlai un arall na ddylai ddisodli TGAU Dylunio a Thechnoleg, gan fod elfennau o'r ddau gymhwyster yn apelio at ddysgwyr â gwahanol setiau sgiliau.

Roedd rhywfaint o deimlad y dylai'r cymhwyster fod yn opsiwn ychwanegol yn hytrach na disodli cymwysterau eraill yn y Maes. Dywedodd rhai ymatebwyr a fynegodd y farn hon fod cymwysterau presennol, megis NVQ[60] a BTEC mewn peirianneg a gweithgynhyrchu eisoes yn briodol ac yn apelio at ddysgwyr. Roedd rhai hefyd yn cwestiynu'r angen am y cymhwyster newydd ar y sail hon.

Roedd un ymatebydd yn amheus ynghylch llwyddiant y cymhwyster, gan gyfeirio at greu a thynnu cymwysterau tebyg yn ôl yn y gorffennol. Roeddent yn teimlo nad oedd y cymwysterau hyn yn rhoi'r profiadau yr oedd eu heisiau na'u hangen ar ddysgwyr, ac yn ofni y byddai'r cymhwyster arfaethedig yr un fath.

"Y broblem gyda'r cymwysterau hyn yw bod hanes o ymdrechion aflwyddiannus - GNVQ[61] peirianneg, GNVQ gweithgynhyrchu, canolradd ac uwch. Set arall o gymwysterau biwrocrataidd a oedd yn gofyn i ddisgyblion dreulio mwy o amser yn llenwi gwaith papur ac yn darparu tystiolaeth ar gyfer meini prawf perfformiad nad oeddent yn gwella eu profiad. Peidiwch â syrthio i'r fagl hon"
Gweithiwr addysg proffesiynol

[60] NVQ = Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol. Cymwysterau cysylltiedig â gwaith yw NVQ y gellir eu hastudio mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach, neu weithleoedd. Maent yn seiliedig ar safonau galwedigaethol cenedlaethol sy'n disgrifio'r hyn y dylai pobl gymwys mewn rhai galwedigaethau allu ei wneud.
[61] Roedd y Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol (GNVQ) yn dystysgrif addysg alwedigaethol yn y Deyrnas Unedig. Dyfarnwyd y cymwysterau GNVQ olaf yn 2007.

8.2.6. Dylunio cymhwyster

Soniodd yr ymatebwyr am wahanol agweddau ar gynllun posibl y cymhwyster arfaethedig.

Fel y nodwyd eisoes, pwysleisiodd rhai ymatebwyr y byddai angen pwyslais *"ymarferol"* ar y cymhwyster, yn unol â hoffter y rhan fwyaf o ddysgwyr. Nododd eraill y dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr arsylwi ac ymarfer peirianneg a gweithgynhyrchu mewn gweithdai a lleoliadau cynhyrchu yn hytrach nag mewn ystafelloedd dosbarth.

Wrth gynllunio'r cymhwyster, roedd rhywfaint o deimlad y dylai Cymwysterau Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid ac athrawon y diwydiant ledled Cymru i sicrhau bod y cymhwyster yn seiliedig ar farn sampl cynrychioliadol o randdeiliaid.

Teimlai rhai y dylai cynnwys y cymhwyster gynnwys datblygiadau newydd ym maes peirianneg a gweithgynhyrchu er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu arferion presennol y diwydiant, ac y dylai fod yn ddigon hyblyg i gael ei ddiweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn y meysydd hyn.

"Rwy'n cytuno'n llwyr â'r angen i gymhwyso theori yn fwy ymarferol ac mae peirianneg yn 4ydd maes chwyldro diwydiannol. Fodd bynnag, byddai angen iddo ganolbwyntio ar y datblygiadau newydd yn y meysydd hyn er mwyn diogelu datblygiad sgiliau/canfyddiad dysgwyr at y dyfodol" Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd un ymatebydd yn pryderu y byddai'r cymhwyster arfaethedig yn mynd yn rhy eang drwy geisio cwmpasu'r holl wahanol ganghennau peirianneg, gan ei wneud yn *"llawer rhy eang i fod yn ystyrlon"*. Gan wneud pwynt tebyg, awgrymodd un arall y dylid creu dau neu dri chymhwyster yn y maes hwn yn hytrach nag un yn unig. Roeddent yn teimlo y gallai'r cymhwyster fod yn debyg i'r NVQ presennol mewn Cyflawni Gweithrediadau Peirianneg sydd eisoes yn cael ei gynnig mewn rhai ysgolion ac sy'n boblogaidd gyda dysgwyr.

Gellid ailfodelu TGAU Dylunio a Thechnoleg i ymgorffori arbenigedd gweithgynhyrchu a allai greu llwybr amgen, yn ôl un ymatebydd. Gellid integreiddio llawer o'r sgiliau gweithgynhyrchu mewn *"Profiad dysgu TGAU Technoleg Dylunio"*, dywedwyd.

Awgrymodd ymatebwyr hefyd y dylai'r cymhwyster arfaethedig:

- Ymgorffori cynnwys dylunio uwch gan ddefnyddio modelu mathemategol i ddarparu ar gyfer dysgwyr mwy abl a'r rhai sy'n bwriadu mynd ar drywydd peirianneg mewn addysg uwch.
- Galluogi dysgwyr i gymhwyso gwybodaeth i senarios bywyd go iawn. Byddai hyn yn gwneud y mwyaf o ymgysylltu â dysgwyr, ond byddai angen ei ystyried yn ofalus.
- Rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i ddysgwyr gyflawni gweithrediadau gweithgynhyrchu sylfaenol a gwybod enwau a defnyddiau offer.
- Archwilio sut mae lluniadau gweithio yn cael eu creu gan ddefnyddio dyluniad cyfrifiadurol 3D.

- Ymchwilio i ddata neu wybodaeth ar gyfer priodweddau deunydd penodol.
- Cymhwyso ffiseg i beirianneg, e.e., defnyddio fformiwlâu i weithio allan symudiadau plygu a mantais fecanyddol.
- Dilyn cynllun clir, gan wneud cysylltiadau rhwng y Meysydd Mathemateg a Rhifedd a Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

8.3. Cynnig 3

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth newydd i ddisodli'r gyfres bresennol o TGAU gwyddoniaeth? Mae'r cymhwyster hwn yn debygol o fod tua'r maint dau TGAU.

Ffigur 21: Lefel y cytundeb â chynnig 3 yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg



Ymatebodd cyfanswm o 355 o bobl i'r cynnig hwn. Ymhlith yr holl ymatebwyr, roedd 42% yn cytuno â'r cynnig a 40% yn anghytuno, gan ddarparu rhaniad gweddol gyfartal mewn ymatebion. Roedd anghytundeb ddwywaith mor debygol ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol (49%) ag ydoedd ymhlith dysgwyr (22%), gyda rhieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd, yn disgyn rhwng y ddau grŵp arall.

Dim ond 16% (57 o bobl) o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn a roddodd sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod[62].

8.3.1. Llwybr cyffredin drwy wyddoniaeth

Roedd rhywfaint o gefnogaeth i ddiwygio'r cynnig gwyddoniaeth presennol mewn TGAU - a ddisgrifiwyd fel un dryslyd a rhy gymhleth - yn ogystal â chydnabyddiaeth nad yw pob dysgwr ledled Cymru yn cael cyfle cyfartal mewn gwyddoniaeth ar hyn o bryd.

" ... Rydym yn ymwybodol nad yw 20% o ysgolion ... ar hyn o bryd yn cynnig [cymhwyster gwyddoniaeth ar wahân sy'n bodoli eisoes] ledled Cymru. Felly, rydym yn cytuno nad oes angen cynnig y gyfres hon o gymwysterau ..."
Arall

Yng ngoleuni hyn, roedd rhai'n ystyried bod y TGAU Gwyddoniaeth newydd arfaethedig yn gymhwyster a fyddai o fudd i'r rhan fwyaf o ddysgwyr, wrth alluogi'r rhai sy'n dymuno astudio cymwysterau ychwanegol i wneud hynny drwy'r cymwysterau

[62] Sylwch fod rhai ymatebwyr wedi gwneud sylwadau wrth gyfeirio at Gynnig 4 mewn ymateb i'r cwestiwn yn gofyn am eu barn ar Gynnig 3. Adroddwyd am y sylwadau hyn yn yr adran Cynnig 3.

gwyddoniaeth bach ychwanegol fel y trafodir yn ddiweddarach yn yr adran hon. Dywedwyd y byddai hefyd yn sicrhau *"mwy o gydraddoldeb a chysondeb"* o gynnig ledled Cymru, ac y byddai'n symlach i ysgolion ei gynnig ac i rieni a gofalwyr, a chyflogwyr y dyfodol ei ddeall.

"Rwy'n cytuno'n gryf â'r cynnig i gynnal un cymhwyster gwyddoniaeth cyffredinol i wneud mynediad at gymwysterau gwyddoniaeth yn deg i bob disgybl ym mhob ysgol ... "
Gweithiwr addysg proffesiynol

Fodd bynnag, mynegwyd llawer o bryderon ynghylch goblygiadau'r newidiadau arfaethedig. Y prif bryder oedd bod ganddo'r potensial i leihau dewisiadau dysgwyr ac felly gallai leihau eu dewis a chyfleoedd ysgolion i gynnig cymwysterau sydd wedi'u teilwra i alluoedd a diddordebau dysgwyr sy'n adlewyrchu ethos y Cwricwlwm i Gymru newydd.

"Mae'r cymwysterau gwahanol yn helpu myfyrwyr. Gall ysgolion ddewis beth sydd orau i'w dysgwyr a phersonoli'r cwricwlwm sef athroniaeth y Cwricwlwm i Gymru"
Rhiant/gofalwr

8.3.2. Dilyniant, arbenigedd a sgiliau dysgwyr

Un pryder penodol oedd na fyddai un TGAU Gwyddoniaeth yn caniatáu i ddysgwyr arbenigo a herio eu hunain mewn disgyblaeth benodol.

Yn wir, dadleuwyd bod gwahanu'r tair disgyblaeth wyddoniaeth ar lefel TGAU (fel y sefyllfa bresennol) yn caniatáu i ddysgwyr a'u hathrawon nodi eu cryfderau a chanolbwyntio arnynt ac yn helpu i lywio eu dewisiadau Safon Uwch.

"... Credaf y byddai'n well i'r tair gwyddoniaeth fod ar wahân. Mae rhai pobl yn wych am un wyddoniaeth, ond yn wael am y ddwy arall. Byddai'n well gennyf gael yr opsiwn i gymryd fy ngwyddoniaeth orau a gwneud yn dda iawn ynddi, na chael sgôr gyffredin yn y tair i gyd"
Dysgwr

I'r gwrthwyneb, roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi cyflwyno'r TGAU Gwyddoniaeth arfaethedig am eu bod yn teimlo y byddai un llwybr yn sicrhau y gallai pob dysgwr fanteisio ar yr un cyfleoedd dilyniant mewn gwyddoniaeth. Dywedwyd y gallai cynnig llwybrau gwyddoniaeth lluosog ar lefel TGAU leihau cyfleoedd astudio a gwaith yn y dyfodol.

Fel y crybwyllwyd uchod, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai cyfuno'r tair gwyddoniaeth yn anfanteisio'r rheini â dawn am un neu ddwy o'r gwyddoniaethau ac nid y llall neu'r lleill, ac y gallai gradd gyffredinol guddio rhagoriaeth academaidd mewn disgyblaethau penodol. Yn ôl ymatebwyr, pe bai dysgwr yn cyflawni gradd A, C a D yn y tair gwyddoniaeth ar wahân, byddent ar hyn o bryd yn cael eu derbyn ar gymhwyster Safon Uwch yn eu pwnc gradd A, ond pe bai eu canlyniadau'n cael eu hystyried ar sail cyfartaledd (i BC neu CC), efallai na fyddent.

"... Gall rhai myfyrwyr berfformio'n dda iawn mewn disgyblaeth benodol, ond yn wael mewn un arall; bydd eu cymhwyster yn dangos eu bod yn fyfyrwyr gwyddoniaeth canolig, pan allent mewn gwirionedd fod yn rhyfeddol o wych mewn un pwnc, ac yn ofnadwy mewn un arall ..."
Gweithiwr addysg proffesiynol

Awgrymodd rhai ymatebwyr fod cymwysterau TGAU ar wahân yn y tair gwyddoniaeth yn darparu'r sylfaen gryfaf nid yn unig ar gyfer astudio addysg bellach ac addysg uwch, ond hefyd cyfleoedd gyrfa yn y dyfodol – ac y bydd unrhyw symudiad oddi wrth hyn yn cael yr effaith o leddfu brwdfrydedd y rhai sy'n ceisio gweithio mewn rolau gwyddonol.

Yn benodol, awgrymwyd y gallai'r newidiadau arfaethedig fod yn niweidiol i ddysgwyr Cymru drwy eu rhoi o dan anfantais gystadleuol (ar gyfer lleoedd addysg uwch a chyfleoedd am swyddi) o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr a'r Alban.

Mewn perthynas â hyn, dadleuodd rhai ymatebwyr yn erbyn y dybiaeth ei bod yn well gan sefydliadau addysg uwch gael ehangder gwybodaeth na dyfnder gwybodaeth ac nad oes ganddynt wrthwynebiad i dderbyn y rhai nad ydynt wedi astudio gwyddoniaeth driphlyg mewn TGAU. At hynny, dywedwyd hyd yn oed petai hyn yn wir, nad yw rhai sefydliadau addysg bellach mor hyblyg.

"... er y gallai (o bosibl) fod yn wir nad oes ots gan brifysgolion dderbyn myfyrwyr sydd heb astudio gwyddoniaeth driphlyg yn yr ysgol, nid yw rhai colegau a chweched dosbarthiadau mor faddeugar"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn cytuno mai ehangder yr wybodaeth sydd bwysicaf ar lefel TGAU. Codwyd y *"naid"* sylweddol rhwng TGAU a Safon Uwch, gyda rhai'n dadlau y gallai'r TGAU Gwyddoniaeth arfaethedig waethygu hyn ac y gallai arwain at raddau is a/neu *"roi'r gorau iddi"* ar Safon Uwch o ganlyniad i ddiffyg dyfnder mewn TGAU. At hynny, roedd y ffaith bod y tri phwnc gwyddoniaeth yn cael eu haddysgu ar wahân ar lefel Safon Uwch yn aml yn cael ei rhoi fel rheswm dros gynnal yr un gwahaniaethau mewn TGAU.

Yn wir, roedd hyd yn oed y rhai a oedd yn cefnogi'r cynnig yn annog ystyriaeth ofalus o gynnwys unrhyw gymhwyster newydd - ac ymgynghori yn ei gylch â rhanddeiliaid perthnasol - i sicrhau ei fod yn ddigon trwyadl i alluogi'r pontio i Safon Uwch, ac eto heb fod yn rhy drwm nes y daw'n rhy feichus i'w addysgu a'i ddysgu.

"Rydym yn cymeradwyo'r bwriad i gyflwyno dull cyffredin yn lle'r amrywiaeth ac anghyfartaledd presennol. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch lefel yr arbenigedd a'r dilyniant i gymwysterau pellach ôl-16"[63]
Arall

8.3.3. Diwallu anghenion pob dysgwr

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r TGAU Gwyddoniaeth arfaethedig yn rhoi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) dan anfantais, a llawer ohonynt ar hyn o bryd yn astudio gwyddoniaeth gymhwysol sengl ar y lefel hon; fe allent ei chael

[63] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

yn anodd ymdopi â gofynion y cymhwyster arfaethedig yn y dyfodol, ac felly cael eu heithrio ohono.

"Rwy'n ofni am y disgyblion sy'n cael trafferth gyda gofynion dyfarniad dwbl, efallai y byddant yn mynd ar goll eto. Ar hyn o bryd mae'r cymhwyster cymhwysol sengl a ddefnyddiwn yn caniatáu i'r dysgwyr hynny mewn darpariaeth amgen a chyfleuster addysgu arbenigol[64] gael TGAU mewn gwyddoniaeth sy'n agor mwy o ddrysau iddyn nhw na gradd U mewn dyfarniad dwbl"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd hepgor cymhwyster gwyddoniaeth gymhwysol o'r cynnig yn bryder sylweddol i rai, a nododd ei fod bellach yn fwyfwy poblogaidd mewn ysgolion ac a deimlai ei fod o fudd mawr i'r dysgwyr hynny sy'n tueddu i gael trafferth gyda gofynion gwyddoniaeth ddwbl.

" ... Ar hyn o bryd rydym mewn sefyllfa lle mae llawer o'n dysgwyr llai abl wedi cael eu difreinio i bob pwrpas gan y cwrs gwyddoniaeth dyfarniad dwbl TGAU oherwydd bod rhai pynciau'n rhy anodd iddynt eu deall ac maent yn cael eu digalonni'n llwyr gan arddull y cwestiynau y maent yn gorfod eu hwynebu ... "
Gweithiwr addysg proffesiynol

Mae gan hyn oll oblygiadau o ran sicrhau bod y cymhwyster arfaethedig yn diwallu anghenion pob dysgwr, ond hefyd ar gyfer cyfraddau llwyddo TGAU cyffredinol yr ysgol, yn ôl rhai ymatebwyr. Mae dysgwyr ag ADY, a allai fod wedi cyflawni gradd mewn TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (dyfarniad sengl), yn annhebygol o wneud hynny mewn *"dyfarniad dwbl"*, yn ôl rhai ymatebwyr.

O ran *"dyfarniad sengl"*, ystyriwyd bod hyn (neu gymhwyster yr un mor hygyrch) unwaith eto yn arbennig o bwysig i ddysgwyr ag ADY – yn ogystal â'r opsiwn ar gyfer dysgu mwy seiliedig ar gynnwys a llwybrau asesu mwy amrywiol, arholiadau traddodiadol a/neu bortffolios o fath BTEC.

"... Yn ei hanfod, byddai gennym 1 neu 2 gymhwyster o faint TGAU, a'r ddau ohonynt o natur gynnwys neu gymhwysol ac yn cael eu hasesu drwy arholiadau neu bortffolio. Byddai hyn yn caniatáu i ddisgyblion ddilyn cymhwyster sy'n seiliedig ar wyddoniaeth y mae ganddynt ddiddordeb ynddo lle nad yw'r model asesu wedi'i bentyrru yn eu herbyn"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Soniodd un ymatebydd hefyd am ddysgwyr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD), a oedd yn dadlau eu bod hwythau'n gweld canlyniadau gwell drwy ganolbwyntio ar un pwnc ac felly y byddent yn cael eu difreinio drwy gyflwyno'r TGAU Gwyddoniaeth arfaethedig.

Credid hefyd fod dysgwyr gallu uwch o dan anfantais drwy fethu ag arbenigo'n ddigonol yn eu disgyblaeth neu ddisgyblaethau gwyddoniaeth dewisol. I dynnu sylw at hyn, nododd un ymatebydd y neges o ganlyniadau PISA 2018, sef, er bod dysgwyr gallu canol ac isaf Cymru yn cymharu'n weddol dda â gwledydd eraill ar gyfer gwyddoniaeth, bod ei 10% o ddysgwyr gwyddoniaeth sy'n perfformio orau yn

[64] Cyfleuster Addysgu Arbenigol = uned sydd fel arfer ynghlwm wrth ysgol gynradd neu uwchradd brif ffrwd sy'n darparu adnoddau a staff arbenigol i ddarparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol penodol.

tangyflawni o'u cymharu â dysgwyr tebyg ar draws gwledydd sy'n aelodau o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)[65].

Yn ei hanfod, dadleuwyd:

... Sut mae un cymhwyster sy'n gorfod bod yn ddigon heriol i weddu i'r rhai a fydd yn parhau i astudio gwyddoniaeth ôl-16 yn mynd i fod yn hygyrch i fyfyrwyr llai galluog nad ydynt yn dymuno astudio gwyddoniaeth? Mewn ymdrech i fod yn addas i bawb, rwy'n ofni na fydd y cymhwyster hwn yn paratoi myfyrwyr yn ddigonol ar gyfer heriau Safon Uwch nac yn caniatáu i fyfyrwyr llai galluog lwyddo ..."
Gweithiwr addysg proffesiynol

I'r gwrthwyneb, teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r TGAU Gwyddoniaeth arfaethedig yn helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu astudio'r un cymhwyster, gan roi cyfle cyfartal iddynt. Roedd hyn yn cynnwys dysgwyr gallu is a gallu uwch, a'r rhai o gefndiroedd mwy a llai cyfoethog, nad oes ganddynt fynediad ar hyn o bryd i'r un llwybrau a chymwysterau mewn gwyddoniaeth, dywedwyd.

8.3.4. "*Gwanhau*" gwyddoniaeth

Nododd rhai ymatebwyr fod bioleg, cemeg a ffiseg yn dair disgyblaeth ar wahân (er yn gysylltiedig) sy'n dra gwahanol i'w gilydd, ac ystyriwyd bod eu cyfuniad arfaethedig ar gyfer TGAU yn fath o *"wanhau"* neu *"ddibrisio"* a fyddai'n anfanteisiol i wyddonwyr dyfodol Cymru.

"... Mae bioleg, cemeg a ffiseg i gyd yn wahanol iawn i'w gilydd yn y TGAU ... mae'n ymddangos bod y cynnig hwn yn 'gwanhau' gwyddoniaeth yn ei chyfanrwydd, a hynny'n ddim ond niweidiol i ansawdd y gwyddonwyr sy'n cael eu cynhyrchu gan Gymru"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd un ymatebydd, er ei fod yn cytuno ar bwysigrwydd cadw'r tair disgyblaeth ar wahân fel *'blociau adeiladu'* o fewn y cwricwlwm ac yn fodd o farnu cynnydd dysgwyr, yn bendant y byddai'r TGAU Gwyddoniaeth arfaethedig yn caniatáu hyn. Teimlai un arall y byddai'n cynnig cyfle gwerthfawr i ddysgwyr weld sut mae pob un o'r disgyblaethau unigol yn integreiddio i baentio darlun ehangach.

" ... mae'n bwysig iawn bod pynciau'n cael ... eu hasesu fel disgyblaethau ar wahân ac nid fel Meysydd, sydd, yn fy marn i, heb eu hystyried yn ddigon da ... Rwyf felly'n croesawu ac yn cefnogi'n fawr y cynnig TGAU gwyddoniaeth, sy'n ymgorffori disgyblaethau bioleg, cemeg a ffiseg ar wahân ... "
Gweithiwr addysg proffesiynol

Rhybuddiodd rhai ymatebwyr eraill a oedd o blaid y cymhwyster arfaethedig hefyd na ddylai'r pynciau gwyddoniaeth unigol golli eu hunaniaeth unigryw. Dywedwyd y byddai cadw hunaniaethau penodol y tair gwyddoniaeth yn hanfodol er mwyn galluogi dysgwyr i wneud dewisiadau gwybodus ar ôl 16 oed.

---

[65] Sefydliad rhyngwladol sy'n gweithio i adeiladu polisïau gwell ar gyfer bywydau gwell yw OECD. Ar hyn o bryd mae 36 o wledydd yn aelodau o'r OECD, gan gynnwys y DU. Mae rhagor o fanylion ar gael yn OECD.org - OECD.

8.3.5. Canolbwyntio ar wyddoniaeth

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod gormod o ffocws ar bynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) ar hyn o bryd ar draul pynciau eraill sydd yr un mor bwysig. Yn wir, cwestiynodd rhai ymatebwyr yr angen am TGAU gwyddoniaeth orfodol o gwbl o ystyried nad oes gan rai dysgwyr ddiddordeb ynddi. Dywedwyd y byddai hyn yn rhyddhau mwy o opsiynau i'r dysgwyr hyn astudio pynciau yn eu meysydd diddordeb.

"Mae llawer o ddisgyblion sydd heb ddiddordeb o gwbl mewn gwyddoniaeth, ac mae'n chwerthinllyd eu bod yn dal i gael eu gorfodi i wneud cwrs 'cywerth â dwy TGAU' ... cynigiwch gwrs llai i'w gwblhau yn Bl 10, gan agor y posibilrwydd o ganolbwyntio ar bynciau eraill (a ddewiswyd) (neu leoliadau gwaith/prentisiaethau) yn Bl 11 ..."
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd eraill yn anghytuno, gan awgrymu bod pandemig COVID-19 wedi dangos bod canolbwyntio ar wyddoniaeth yn benodol - yn ogystal ag annog a meithrin y rhai sydd â dawn amdani - yn bwysicach nag erioed.

"... ni werthfawrogwyd gwyddoniaeth cymaint erioed ag y bu yn 2020/2021. Nid dyma'r amser i ostwng gwerth ei rôl mewn cymdeithas na'r cwricwlwm ag un cymhwyster TGAU gwyddoniaeth"
Arall

I rai, dim ond drwy arbenigo y gellir sicrhau hyn – a chredwyd bod y ffaith bod nifer y dysgwyr sy'n astudio gwyddoniaeth driphlyg wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dangos llwyddiant hyn a'r angen i'w barhau fel opsiwn i'r rhai sy'n chwilio am yrfaoedd mewn STEM. At hynny, dywedodd un gweithiwr addysg proffesiynol fod cynyddu nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd â gwyddoniaeth dyfarniad triphlyg wedi caniatáu i'w hysgol godi ei safonau perfformiad cyffredinol.

"... Rydym wedi canfod, drwy ddefnyddio'r gyfres wyddoniaeth ar gyfer ein dysgwyr, ein bod wedi gallu gwneud y mwyaf o gyrhaeddiad y disgyblion a pherfformiad cyffredinol yr ysgol. Rydym bellach ymhlith yr ysgolion uchaf eu cyflawniad yn ein grŵp yng Nghymru. Er syndod, rydym wedi canfod bod hyn wedi'i gyflawni drwy gynyddu nifer y myfyrwyr triphlyg a lleihau'r gyfran sy'n gwneud y dwbl ... "
Gweithiwr addysg proffesiynol

8.3.6. Goblygiadau i athrawon ac ysgolion

Awgrymwyd y byddai angen llai o oriau addysgu na dyfarniad triphlyg ar y cymhwyster gwyddoniaeth dyfarniad dwbl arfaethedig, gyda'r awgrym y gallai fod angen llai o athrawon yn y dyfodol. At hynny, roedd rhai'n cwestiynu a fyddai'r cynnig yn arwain at broblemau recriwtio a chadw gan y gallai athrawon gwyddoniaeth sy'n ceisio addysgu dyfarniad triphlyg edrych tuag at ysgolion yn Lloegr – neu adael y proffesiwn yn gyfan gwbl.

"... Bydd y cynnig hwn yn effeithio ar recriwtio a chadw staff. Mae recriwtio eisoes yn anodd iawn mewn gwyddoniaeth. Bydd gorsymleiddio a pheidio â galluogi athrawon i gyflenwi'r hyn y maent wedi'i astudio yn cael effaith andwyol ... bydd llawer yn gadael y proffesiwn os caiff y cynigion hyn eu gwireddu ..."
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd un ymatebydd yn pryderu a fyddai athrawon o Gymru sy'n chwilio am swyddi yn Lloegr o dan anfantais oherwydd diffyg profiad addysgu diweddar gyda'r tair gwyddoniaeth ar wahân ar lefel TGAU. Codwyd hefyd y posibilrwydd o golli dysgwyr ar ffiniau Cymru i ysgolion Lloegr â manylebau ehangach a mwy hygyrch.

"Rydym yn anghytuno'n gryf â'r cynnig hwn oherwydd bydd dileu'r tair gwyddoniaeth ar wahân yn cael effaith ar dderbyn a throsglwyddo rhwng ysgolion - yn enwedig ysgolion ar y ffin lle mae ysgolion cyfagos yn Lloegr yn cynnig y cymwysterau gwyddoniaeth ar wahân ..."
Arall

Holodd un neu ddau o'r ymatebwyr a fyddai ysgolion yn gallu dewis byrddau arholi amgen, gan awgrymu y byddai llawer yn gwneud hynny pe bai'n caniatáu iddynt gadw'r gallu i addysgu'r tair gwyddoniaeth ar wahân. Dywedwyd y byddai hyn yn creu gwahaniaeth rhwng ysgolion gwladol ac ysgolion cyhoeddus gan fod yr olaf yn gallu gwneud hynny'n llawer haws.

Nododd ymatebwyr eraill nad yw'r newidiadau arfaethedig yn angenrheidiol nac yn ddymunol ar hyn o bryd. Roedd hyn yn bennaf am fod y cymwysterau presennol yn gymharol newydd ac yn cymryd amser i fwrw eu gwreiddiau; a chysylltwyd hyn â maint y gwaith sy'n gysylltiedig â chynhyrchu adnoddau a deunyddiau.

Yn fwy cadarnhaol, roedd rhywfaint o deimlad y byddai'r TGAU Gwyddoniaeth arfaethedig yn llawer haws i ysgolion ei gweinyddu, yn lleihau dibyniaeth ar athrawon arbenigol sy'n gallu bod yn anodd eu recriwtio, ac yn lleihau cynnwys, y dywedwyd ei fod yn rhy fawr ar gyfer yr amser addysgu sydd ar gael mewn llawer o ysgolion.

Nododd un ymatebydd yr ansefydlogrwydd a achoswyd gan bandemig COVID-19, a awgrymodd na ddylid ystyried newidiadau sylweddol fel y rhai a gynigiwyd nes bod ysgolion yn gweithredu ar sail gadarnach.

"... A oes unrhyw un wedi ystyried effaith gorfodi hyn drwodd ar ôl 12+mis o ansefydlogrwydd? Mae'n gwneud testun sbort o'r holl amser a'r ymdrech am adnoddau yr ydym wedi gorfod eu creu i addysgu yn yr oes newydd hon ac mae'n ormod o bwysau yn yr hinsawdd bresennol ..."
Gweithiwr addysg proffesiynol

8.3.7. Yr angen am ragor o wybodaeth ac eglurhad

Roedd rhai ymatebwyr yn awyddus i ddeall mwy am fanylion a goblygiadau'r newidiadau arfaethedig, gan awgrymu eu bod yn teimlo nad oeddent yn gallu gwneud sylwadau priodol ar gynnig gyda chymaint o elfennau anhysbys.

Yn fwyaf cyffredin, cwestiynwyd ymadrodd Cymwysterau Cymru *"tua'r un maint â dwy TGAU"* gan y rheini sy'n ceisio deall beth yn union fyddai hyn yn ei olygu'n ymarferol ac a fyddai cyflogwyr yn y dyfodol yn ei ddeall. Dywedodd un ymatebydd y byddai'n rhaid

i unrhyw gymhwyster newydd fod yn gyfwerth ag o leiaf dwy TGAU o ystyried ei ehangder tebygol.

Roedd rhai eraill hefyd yn ceisio deall y gwahaniaeth rhwng y TGAU Gwyddoniaeth arfaethedig a'r cymhwyster dyfarniad dwbl presennol, gyda pheth pryder yn cael ei fynegi bod y cynnig yn achos o ail-frandio diangen cymhwyster nad yw bellach yn addas i'r diben.

"Rydym yn ... pryderu y bydd y cynnwys yn ... ddim ond ailfrandio'r TGAU gwyddoniaeth dyfarniad dwbl presennol ac na fydd yn adlewyrchu anghenion dysgu a disgyblion yr 21ain ganrif. Mae'r fanyleb gyfredol ... wir wedi dyddio, ac mae'n drwm ei chynnwys heb unrhyw gymhwyso go iawn na chysylltiadau pwrpasol â bywydau dysgwyr, y byd o'u cwmpas na chymdeithas ... "
Arall

Roedd gwybodaeth arall a ddymunir yn ymwneud â sut y byddai amser dysgu'n cael ei rannu a'i gyflenwi; a beth yn union fyddai ar gael i ddysgwyr llai galluog.

" ... Rwy'n teimlo bod y cynnig yn addas ar gyfer yr ystod gallu a fwriedir. Fodd bynnag, byddai wedi bod yn braf gweld meddyliau cychwynnol ar y math o gymhwyster lefel 1 a gynigir ar gyfer gwyddoniaeth, er mwyn gallu rhoi sylwadau ar addasrwydd asesu ar draws yr ystod gallu gyfan ... "
Gweithiwr addysg proffesiynol

8.3.8. Awgrymiadau amgen

O ran awgrymiadau, dywedodd rhai ymatebwyr na fyddent ond yn cefnogi'r TGAU Gwyddoniaeth arfaethedig pe bai dysgwyr hefyd yn gallu mynd ar drywydd *"dyfarniad triphlyg"* a *"dyfarniad sengl"* ochr yn ochr ag ef. Teimlwyd y byddai hyn yn sicrhau bod dysgwyr gallu uwch a gallu is yn gallu dilyn llwybr sy'n gweddu i'w galluoedd.

"Rwy'n credu y dylai fod opsiwn o hyd i ddysgwyr gwblhau'r llwybr gwyddoniaeth ar wahân mwy traddodiadol. Fodd bynnag, byddai cyfuno'r gyfres bresennol o wyddoniaeth ddwbl/cymhwysol yn fuddiol"
Dysgwr

Awgrymiadau eraill oedd: cynnwys daeareg o fewn y cwricwlwm fel disgyblaeth annibynnol; un TGAU Gwyddoniaeth sy'n cyfateb i dri chymhwyster TGAU i ddysgwyr gallu uwch; a chyflwyno'r opsiwn i ymgymryd â Safon Uwch gwyddoniaeth yn gynnar i'r rhai sydd â'r awydd a'r ddawn ar ei chyfer.

8.4. Cynnig 4

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i greu cyfres o gymwysterau gwyddoniaeth bach y gellir eu cymryd yn ychwanegol at yr cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth newydd arfaethedig?
Mae'r unedau hyn yn debygol o fod yn gyfwerth o ran maint naill ai un rhan o dair neu ddwy ran o dair o TGAU.

Ffigur 22: Lefel y cytundeb â chynnig 4 yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg



Gwnaeth cyfanswm o 350 o bobl sylwadau ar y cynnig hwn. Ar y cyfan, roedd 42% yn cytuno â'r cynnig ac 37% yn anghytuno. Roedd gweithwyr addysg proffesiynol yn llai tebygol o gytuno (34%) ac yn fwy tebygol o anghytuno (45%) nag is-grwpiau eraill.

Rhoddodd ychydig dros hanner (51%, 180 o bobl) o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

8.4.1. Amserlennu ac adnoddau

Y pryder mwyaf cyffredin a godwyd mewn perthynas â'r cynnig am gymwysterau gwyddoniaeth bach ychwanegol oedd y byddai'n golygu problemau amserlennu a staffio sylweddol i ysgolion. Yn wir, roedd hyd yn oed y rhai a gefnogai'r cynnig mewn egwyddor yn rhannu'r pryder hwn.

" ... Nid oes gan unrhyw ysgol yn y wlad yr offer i gynnal yr holl gyrsiau hynny fel y gall y myfyrwyr ddewis eu rhaglen astudio eu hunain, sef y nod gyda hyn, rwy'n tybio. Mae'n anymarferol ... "
Gweithiwr addysg proffesiynol

O ran amserlennu yn benodol, disgrifiwyd darparu'r cymwysterau ychwanegol arfaethedig yn aml fel rhywbeth *"amhosibl"* – ac awgrymodd rhai y byddai penaethiaid yn amharod i gynnig llawer o le ar yr amserlen, os o gwbl, o ystyried na fydd ganddynt statws TGAU.

"Nid wyf yn gweld sut mae hyn yn bosibl yn y rhan fwyaf o ysgolion gwladol. Mae dyraniadau amserlen yn dynn ac nid oes cyfle i gynnig ystod lawn o bynciau ... "
Rhiant/gofalwr

Ystyriwyd hefyd bod goblygiadau o ran adnoddau i ysgolion mewn perthynas â'r angen posibl am offer newydd a datblygu/hyfforddi staff yn ystyriaeth wrth gyflwyno'r cymwysterau arfaethedig. Yn wir, roedd un ymatebydd yn awyddus i ddeall a fyddai banc canolog o adnoddau/canllawiau ar gael i athrawon i'w hatal rhag gorfod *"ailddyfeisio'r olwyn"* wrth gynllunio gwersi.

Ar fater cysylltiedig, roedd ymatebydd arall yn poeni'n sylweddol na fyddai pynciau ychwanegol y gall fod angen teithio, offer, amser ychwanegol, neu wybodaeth addysgu arbenigol arnynt yn cael eu cynnig i bob dysgwr, gan fentro colli cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored a gwaith maes a'r gallu i ddatblygu sgiliau STEM yng nghyd-destun y byd go iawn.

Awgrymodd yr ymatebydd y gallai hyn arwain yn anfwriadol at gau llwybrau at swyddi gwyrdd a gyrfaoedd ecolegol i nifer sylweddol o ddysgwyr. Roedd rhai ymatebwyr yn rhagweld y gallai ysgolion, fel cyfaddawd i oresgyn anawsterau amserlen i raddau, ddewis cyfres o gymwysterau gwyddoniaeth bach ychwanegol i'w cyfuno'n TGAU cyfan yn *"atodol"* i'r cymhwyster gwyddoniaeth sengl newydd arfaethedig – gobaith a groesawyd gan rai wrth gynnig lefel hylaw o ddewis i ddysgwyr, ond nid eraill a oedd o'r farn bod hwn yn enw arall am wyddoniaeth dyfarniad triphlyg.

"Mae'r unedau hyn yn darparu'r potensial i fyfyrwyr ddatblygu ystod lawer ehangach o ddiddordebau gwyddonol. Mewn gwirionedd, disgwyliaf y bydd ysgolion yn dewis cyfres o gymwysterau y gellir eu hagregu i roi un radd TGAU a chynnig hyn fel opsiwn. Os nad yw'r cydgrynhoi hwn yn bosibl, yna rwy'n disgwyl y bydd y nifer sy'n manteisio arno'n isel iawn gan na fydd ysgolion yn cynnig yr amser cwricwlwm ... "
Gweithiwr addysg proffesiynol

8.4.2. Maint y cymwysterau

Roedd rhywfaint o deimlad y byddai syniad cymwysterau bach yn ddryslyd i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr, a chyflogwyr, yn ogystal ag amheuaeth y byddai dysgwyr yn gwerthfawrogi cymwysterau sy'n cynhyrchu traean o TGAU yn unig.

" ... Ni fydd myfyrwyr yn dewis pwnc sy'n cyfateb i hanner/dwy ran o dair o TGAU dros bwnc sy'n cynnig cymhwyster TGAU cyfan ... "
Gweithiwr addysg proffesiynol

Byddai hyn, meddai un ymatebydd, yn ei gwneud yn anodd i unrhyw gorff dyfarnu gynnig y cymwysterau ychwanegol am fod cyn lleied o ddysgwyr yn dymuno eu cymryd yng Nghymru ar unrhyw adeg benodol.

Pryderwyd hefyd na fyddai'r cymwysterau gwyddoniaeth bach arfaethedig yn cael eu cydnabod na'u hystyried yn gredadwy gan sefydliadau addysgol a chyflogwyr yn y dyfodol. Unwaith eto, codwyd y mater bod dysgwyr o Gymru o dan anfantais gystadleuol i'w cymheiriaid ledled y DU yn y cyd-destun hwn ac ystyriwyd ei bod yn

hanfodol bod gan ddysgwyr yng Nghymru gymwysterau o'r un gwerth cyfartal â'u cyfoedion mewn rhannau eraill o'r DU.

"Unwaith eto, rwy'n pryderu y bydd plant o Gymru sy'n cystadlu am fannau prifysgol gyda phlant o Loegr dan anfantais oherwydd darnio cymwysterau mewn modd rhy gymhleth, a'u maint a'u gwerth yn aneglur"
Rhiant/gofalwr

8.4.3. Diwallu anghenion pob dysgwr

Mater arall a godwyd yn aml oedd y byddai'r cynnig hwn yn ffafrio ysgolion annibynnol a gwladol mwy o faint gan anfanteisio ysgolion llai o faint a/neu wledig a chanddynt lai o athrawon (yn enwedig arbenigwyr), gan arwain at fwy o annhegwch yn y ddarpariaeth ledled Cymru.

" ... Byddai arweinwyr ysgolion mewn rhai lleoliadau, yn enwedig ysgolion bach a'r ysgolion hynny nad oes ganddynt athrawon arbenigol, yn ei chael yn amhosibl cynnig yr hyblygrwydd. Byddai hefyd yn anodd sicrhau bod unedau a gynigir yn cael eu teilwra i ddewis a diddordebau'r dysgwyr ac nad oeddent yn cael eu gwthio gan yr athrawon"
Arall

At hynny, credid bod y ffaith y bydd gan wahanol ysgolion aelodau o staff sy'n arbenigo mewn gwahanol feysydd yn codi'r risg o barhau ag anghydraddoldeb presennol y cynnig ledled Cymru y bwriedir i'r TGAU Gwyddoniaeth newydd arfaethedig ei oresgyn.

"... Gyda'ch cynnig blaenorol, rydych am ddileu'r ffaith na all llawer o ysgolion gynnig y gyfres lawn o gymwysterau ... bydd hyn yn dod â hynny i gyd yn ôl ... "
Arall

Cododd rhai ymatebwyr bryderon y byddai'r cymwysterau arfaethedig yn ailadrodd yr anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â llwybrau TGAU lluosog ar hyn o bryd os, er enghraifft, bydd cwblhau un neu fwy o gymwysterau ychwanegol yn dod yn rhagofyniad dilyniant i astudio ôl-16, a bod ysgolion yn cyfyngu ar fynediad i'r cymwysterau yn seiliedig ar lefel cyrhaeddiad. Fodd bynnag, dywedodd un o'r ymatebwyr a fynegodd y farn hon hefyd:

"... Os gellir dylunio a gweithredu'r set fach o gymwysterau yn y fath fodd sy'n lliniaru'r problemau a amlinellir uchod, gyda'r cymorth angenrheidiol gan y system, yna nid ydym yn gwrthwynebu egwyddor y cynigion ... "
Arall

O ran diwallu anghenion pob dysgwr, teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r cymwysterau arfaethedig, ar y cyd, yn ddeniadol ac yn fuddiol i ddysgwyr llai galluog pe baent yn cael eu cynnig fel dewis amgen i'r TGAU Gwyddoniaeth newydd arfaethedig. Serch hynny, roeddent yn poeni mai dim ond fel cymwysterau ychwanegol i ddysgwyr gallu uwch y byddai'r cymwysterau bach yn cael eu cynnig yn hytrach nag yn lle cymwysterau traddodiadol ar gyfer dysgwyr llai galluog.

" ... A allai fod unedau llai o faint ar gael i'r ymgeiswyr gwannach fel y gallant ennill TGAU dyfarniad sengl mewn gwyddoniaeth. Byddai hyn yn pontio'r bwlch hwnnw i'r cyflawnwyr is ac yn rhoi cymhwyster mwy effeithiol iddynt yn hytrach na gradd E ddwbl neu debyg"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Pe bai'r cymwysterau bach arfaethedig ar gael fel ychwanegiad at y TGAU Gwyddoniaeth newydd yn unig (yn hytrach na dewis arall), awgrymodd un neu ddau o ymatebwyr mai dim ond at y rhai sy'n dymuno mynd ymlaen i Safon Uwch yn y maes gwyddoniaeth y dylid eu marchnata i'w hatal rhag cael eu dilyn gan y rhai a fydd yn debygol o gael trafferth gyda'u gofynion.

8.4.4. Dewis i ddysgwyr

Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r cymwysterau gwyddoniaeth bach ychwanegol arfaethedig ar y sail y byddent yn cynnig mwy o ddewis, hyblygrwydd, a chyfle i ddysgwyr feithrin eu mwynhad a'u sgiliau ymhellach mewn meysydd gwyddoniaeth penodol (ac anhraddodiadol), yn ogystal â phontio'r bwlch rhwng TGAU a lefel UG yn well.

"Rwy'n hoffi'r syniad o gymwysterau TGAU llai mewn gwahanol bynciau a rhoi cyfle i bobl ddatblygu eu sgiliau mewn adran lai o'r pwnc hwnnw"
Dysgwr

Yn wir, dywedwyd y byddai cael dewis o gymwysterau ychwanegol yn galluogi ysgolion i deilwra eu cwricwlwm, gan ganiatáu i ddysgwyr adeiladu eu llwybrau eu hunain at lefel TGAU a'r tu hwnt yn seiliedig ar eu diddordebau a'u huchelgeisiau.

Fodd bynnag, awgrymodd eraill y gallai'r cynnig gyfyngu ar ddewis dysgwyr mewn gwirionedd, gan y bydd cyfran mor uchel o wersi gwyddoniaeth o fewn yr amserlenni cyffredinol yn effeithio ar bynciau eraill.

"Bydd myfyriwr sy'n dilyn y cynnig hwn efallai'n cael 8/25 o wersi gwyddoniaeth yn ystod yr wythnos, gyda 15 gwers ar gyfer Saesneg/Llenyddiaeth, Cymraeg a Mathemateg. Bydd hynny'n gadael dwy wers ar gyfer pynciau eraill, gan gyfyngu ar hyblygrwydd a dewis"
Arall

Teimlwyd y byddai problemau yn ymwneud ag amserlennu yn cyfyngu ar ddewis dysgwyr, yn enwedig yng ngoleuni'r amharodrwydd a ragwelir ymhlith penaethiaid i gynnig amser cwricwlwm i bynciau sy'n werth llai na TGAU lawn. Hyd yn oed pe bai ysgolion yn cynnig y cymwysterau gwyddoniaeth bach ychwanegol arfaethedig, roedd rhai ymatebwyr yn poeni'n arbennig y byddai eu haddysgu'n *"cael ei ychwanegu at"* amser gwyddoniaeth gyfun, gan gywasgu amserlenni a pheidio â chaniatáu digon o amser i ddysgwyr ymgolli yn eu pynciau dewisol.

Roedd peth pryder hefyd y byddai'r cynnig hwn yn golygu bod dysgwyr yn dewis eu hopsiynau arbenigol yn llawer rhy gynnar, a allai gael effaith andwyol ar eu cyfleoedd addysgol a gyrfa yn y dyfodol.

" ... Mae'r ychwanegion llai yn gofyn i ddisgyblion wybod beth maen nhw eisiau ei wneud mewn bywyd yn barod - maen nhw'n 14, dydyn nhw ddim, felly mae opsiynau'n cael eu cau i lawr ... "
Gweithiwr addysg proffesiynol

Er mwyn lliniaru yn erbyn rhai o'r materion hyn o leiaf, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r cymwysterau bach ychwanegol arfaethedig fod ar gael i'r rhai sy'n dymuno eu dilyn, ond nid fel opsiynau ffurfiol sy'n cyfyngu ar ddewis mewn mannau eraill.

" ... Ni ddylai fod yn opsiwn mewn dewisiadau opsiwn gan ei fod yn dileu dewis. Mae'r dewisiadau mor gyfyngedig mewn ysgolion beth bynnag, felly mae angen i ni roi mwy o ddewis yn hytrach na chanolbwyntio cymaint ar STEM yn y blociau opsiwn"
Gweithiwr addysg proffesiynol

8.4.5. Rhagor o wybodaeth

Roedd rhai ymatebwyr yn dymuno cael rhagor o wybodaeth am y cynnig hwn. Heb hyn, roeddent yn teimlo na allent wneud dyfarniad cadarn ar sail ei deilyngdod. Yn benodol, gofynnwyd cwestiynau ynghylch: oriau addysgu disgwyliedig; beth yn union fyddai gwerth y cymwysterau gwyddoniaeth bach ychwanegol arfaethedig; a ellid eu hagregu i ffurfio TGAU gyfan; ac a fyddant yn gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

"Mae angen mwy o eglurder ar strwythur y cynnwys. A yw'r cymwysterau hyn yn sefyll ar eu pennau eu hunain neu a ellir eu cyfuno i ffurfio cymhwyster lefel TGAU gwyddoniaeth cyffredinol ... ? A fydd y cymwysterau hyn mewn gwirionedd yn cael eu hachredu a'u derbyn gan brifysgolion yn rhyngwladol?"
Gweithiwr addysg proffesiynol

8.4.6. Y "*pecyn*" gwyddoniaeth

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr bwysigrwydd y cymwysterau gwyddoniaeth bach ychwanegol arfaethedig os yw'r cynnig ar gyfer y TGAU Gwyddoniaeth newydd yn cael ei ddatblygu, yn enwedig i'r rhai sy'n ceisio symud ymlaen i Safon Uwch a'r tu hwnt. Yn wir, roedd rhai ymatebwyr yn frwdfrydig iawn am yr agwedd hon ar y *"pecyn"* gwyddoniaeth.

" ... pe gellid dylunio'r unedau i fod yn ddamcaniaethol iawn neu'n ymarferol / ymchwiliol iawn, yna byddai'n [gorbwyso] culhau cyflwyno cymhwyster TGAU gwyddoniaeth sengl. Mae'r maes hwn yn fy nghyffroi ac, yn fy marn i, hwn ddylai fod y maes a archwilir ac a ddatblygir cymaint â phosibl ..."
Gweithiwr addysg proffesiynol

Fodd bynnag, manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle unwaith eto i feirniadu'r bwriad i ddileu opsiwn y tair gwyddoniaeth ar wahân o'r cwricwlwm ac annog cadw'r gyfres bresennol o gymwysterau.

8.4.7. Dylunio'r cymwysterau

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r pynciau a gynigiwyd fel *"ychwanegion"* - daeareg, newid yn yr hinsawdd, hanes naturiol a gwyddor amgylcheddol er enghraifft - fod yn rhan o'r arlwy TGAU Gwyddoniaeth.

"... Nid themâu mo'r enghreifftiau thematig a nodir mewn gwirionedd ond naill ai disgyblaethau gwyddoniaeth pwysig ynddynt eu hunain (daeareg a hanes naturiol ...) a dylent fod yn rhan o'r brif TGAU, neu bynciau y dylai pob dysgwr yng Nghymru gael dealltwriaeth ohonynt (e.e. y gofod) ... "
Gweithiwr addysg proffesiynol

Yn wir, roedd rhai o'r farn, os yw'r TGAU Gwyddoniaeth newydd arfaethedig yn ddigon cadarn ac wedi'i chynllunio'n briodol, na ddylai'r *"ychwanegion"* fod yn ofynnol.

Pwysleisiodd un ymatebydd y dylid ymdrin â meddwl ac arbrofi gwyddonol yn y TGAU Gwyddoniaeth newydd ac nid yn y gyfres fechan o gymwysterau yn unig, fel yr awgrymwyd gan Cymwysterau Cymru yn ei ymgynghoriad – ac y dylai unrhyw raglen asesu gynnwys asesu dealltwriaeth o waith ymarferol a gwerthfawrogiad o effeithiau cemeg ar gymdeithas, a gallu yn hyn o beth.

8.4.8. Awgrymiadau ychwanegol/amgen

Fel y crybwyllwyd yn gynharach, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid caniatáu i ysgolion gyfuno'r cymwysterau gwyddoniaeth bach ychwanegol â *"phecynnau"* neu *"unedau"* TGAU cyfan i ddysgwyr gan ddibynnu ar arbenigeddau'r staff sydd ar gael.

Awgrymodd ambell un arall eto y dylai'r *'ychwanegion'* fod yn rhan orfodol yn hytrach na dewisol o'r cynnig TGAU Gwyddoniaeth - fel a ganlyn, er enghraifft.

Ydych chi wedi ystyried posibilrwydd cynnig cymhwyster TGAU gwyddoniaeth sy'n cyfateb i 1 TGAU a chaniatáu i ysgolion gynnig hyn fel opsiwn ar gyfer eu hail un ... Rwy'n gwybod y byddai fy nisgyblion mewn ardal wledig wrth eu bodd yn cael opsiwn ar gyfer agwedd gwyddor amaethyddiaeth ond yn hytrach na'r ail TGAU mewn gwyddoniaeth gan nad yw hynny o ddiddordeb iddynt ... mae ei wneud yn opsiwn arall ar gyfer ... disgyblion i gymryd rhan mewn gwyddoniaeth yn rhywbeth y bydd ysgolion wir ei eisiau"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Awgrymiadau penodol eraill oedd: cynnig TGAU ychwanegol ddewisol yn cynnwys tri dewis o chwe modiwl; a chynnwys opsiynau cemeg, ffiseg a bioleg bellach am resymau dewis a chysondeb (h.y. pob ysgol yn gallu eu cynnig a'u haddysgu) – unwaith eto o bosibl yn ffurfio cymhwyster *"gwyddoniaeth bellach neu ychwanegol"* annibynnol sy'n werth TGAU gyfan i'r dysgwyr mwyaf galluog.

Holodd un ymatebydd a ellid trosi'r cymwysterau gwyddoniaeth bach ychwanegol yn ystod o gymwysterau sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol, megis ffermio, sgiliau labordy/technegydd, gwyddoniaeth feddygol, seryddiaeth, daeareg ac ati. Byddai hyn, yn eu barn hwy, yn darparu'n well i'r rheini nad yw TGAU Gwyddoniaeth draddodiadol yn addas iddynt.

9. Sgiliau Cyfannol

9.1. Cynnig 1

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ddiwygio'r cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau i'w gwneud yn symlach ac yn fwy hylaw, gyda ffocws ar asesu'r Sgiliau Cyfannol: Creadigrwydd ac Arloesi, Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, Effeithiolrwydd Personol a Chynllunio a Threfnu?

Ffigur 23: Lefel y cytundeb â'r cynnig Sgiliau Cyfannol



Ymatebodd cyfanswm o 185 o bobl i'r cynnig hwn. Ymhlith yr holl ymatebwyr, roedd dros saith o bob deg (72%) yn cytuno â'r cynnig. Cododd hyn i 75% ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol ac i 92% ymhlith yr is-grŵp rhieni / gofalwyr. Dylid nodi bod yr ymatebion cyffredinol i'r cynnig hwn yn is nag ar gyfer y rhan fwyaf o gynigion eraill, a dim ond 25 o ymatebion gan rieni a gofalwyr, ac aelodau o'r cyhoedd.

Rhoddodd pedwar o bob deg (40%, 74 o bobl) o'r rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn sylw ysgrifenedig. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu sylwadau isod.

9.1.1. Yr angen i gadw'r Dystysgrif Her Sgiliau

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion ysgrifenedig yn cefnogi'r cynnig. Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r ffocws ar y sgiliau hyn yn y cwricwlwm a'r ffaith eu bod yn cael eu cynnwys, yn credu bod y cymhwyster yn cael ei werthfawrogi gan gyflogwyr, ac yn awgrymu ei fod yn ddefnyddiol wrth amlygu'r pedwar diben a'u pwysigrwydd drwy'r cwricwlwm cyfan.

"Mae'r ffocws ar y sgiliau cyfannol yn cefnogi gallu pobl ifanc i ddysgu yn ystod addysg orfodol ac yn helpu i'w paratoi'n well ar gyfer pontio llyfnach i ddysgu / hyfforddiant / byd gwaith ôl-16 a'r tu hwnt. Mae sgiliau cyfannol yn cyd-fynd yn rhwydd â sgiliau cyflogadwyedd y mae cyflogwyr wedi'u nodi ers blynyddoedd lawer ymhlith y rhai y maent yn chwilio amdanynt yn eu gweithwyr, ochr yn ochr ag unrhyw gymwysterau academaidd angenrheidiol ar gyfer y swydd / diwydiant"
Arall

Yn ogystal â chanmol y cymhwyster am ei allu i ddiwallu anghenion pob dysgwr ac i ganiatáu pontio i Fagloriaeth Sgiliau Uwch newydd Cymru, teimlai ymatebwyr fod y Dystysgrif Her Sgiliau (THS) yn hyrwyddo dewis ac yn cefnogi dysgwyr i *"greu eu llwybrau eu hunain"*. Canmolwyd y Dystysgrif Her Sgiliau hefyd am roi cyfle i ddysgwyr ymarfer sgiliau ymchwil yn eu *"prosiectau unigol"*[66].

Ymhlith y rhai a gytunodd â'r cynnig, nododd sawl un yn benodol bwysigrwydd cynnal y Dystysgrif Her Sgiliau fel cymhwyster ynddo'i hun, gan weld gwerth yn y ffocws ar sgiliau ac oherwydd bod ysgolion wedi buddsoddi yn ei ddarpariaeth yn ddiweddar. Nododd rhai ymatebwyr fod y cynnig hwn yn cynrychioli canlyniad ymgynghoriad diweddar a oedd yn benodol am y THS Uwch.

Roedd y dadleuon o blaid diwygio yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiffygion canfyddedig y THS bresennol, fel a ganlyn.

9.1.2. Symleiddio

Teimlai sawl ymatebydd fod angen symleiddio'r Dystysgrif Her Sgiliau bresennol a'i gwneud yn fwy hylaw i ddysgwyr ac athrawon fel ei gilydd, gan ei gwneud yn addas i bob dysgwr ond heb golli'r elfen o her. Dywedodd rhai ei bod yn *"feichus"*, am amrywiaeth o resymau; crybwyllwyd ei maint, a hithau'n *"drwm o waith papur"* neu'n *"fiwrocrataidd"* a materion ymarferol a diogelu penodol sy'n gysylltiedig â bodloni'r elfen Her Gymunedol.

"Mae disgyblion CA4 yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli gan eu bod dan oed yn gyfreithiol ac ar gyfer ysgolion mwy o faint mae hyn yn rhoi straen a phwysau ychwanegol ar adnoddau ac amser yr ysgol"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Awgrymodd rhai y dylid hepgor yr Her Gymunedol, a dywedodd eraill y gellid dangos tystiolaeth ohoni'n wahanol, er enghraifft gan ddefnyddio logiau amser am oriau a dreuliwyd yn cefnogi gweithgareddau cymunedol. Awgrymodd rhai y dylid cael profiad gwaith yn lle'r Her Gymunedol.

"Tynnwch yr her gymunedol allan a rhowch brofiad gwaith yn ei lle. Mae'r elfennau byd-eang a menter yn ormod o waith papur, heb fod yn ddigon ymarferol. Gwnewch hi'n fwy ymarferol. Adolygwch y prosiect, a'i wneud yn fwy realistig i fywyd yn eu hoedran nhw"
Gweithiwr addysg proffesiynol

[66] Y prosiect unigol yw un o elfennau'r cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau. Mae rhagor o wybodaeth am y cymhwyster a'i gydrannau ar gael yma: Cymwysterau Cymru / Tystysgrif Her Sgiliau

9.1.3. Ailadrodd

Dywedodd rhai ymatebwyr fod elfennau o'r THS bresennol yn *"ailadroddus"*, a bod dyblygu sgiliau a thasgau yn golygu bod dysgwyr yn colli diddordeb mewn cymhwyster sydd fel arall yn ddefnyddiol.

"Mae'r cymhwyster yn un ail-adroddus sy'n arwain at ddisgyblion yn colli cymhelliant. Cytunwn gyda'r cynnig i barhau i ddiwygio ac addasu'r cymhwyster gyda ffocws gynyddol ar y sgiliau mae disgyblion yn meithrin wrth gwblhau'r rhaglen dysgu ac addysgu. Mae'r heriau ail-adroddus yn arwain at ddisgyblion yn colli ffocws o'r hyn sy'n bwysig sef sgiliau trosglwyddadwy sy'n addas i bwrpas wrth baratoi am addysg pellach, uwch a byd gwaith"[67]
Gweithiwr addysg proffesiynol

9.1.4. Ailfrandio

Dywedodd sawl ymatebydd fod angen *"ailfrandio"* y Dystysgrif Her Sgiliau er bod gwahaniaeth barn am sut y dylid gwneud hyn. Teimlai rhai nad yw dysgwyr, rhieni a gofalwyr, na chyflogwyr ar hyn o bryd yn deall statws na pherthnasedd y Dystysgrif Her Sgiliau na Bagloriaeth Cymru. Dadleuodd un ymatebydd fod angen ei ystyried yn gymhwyster cywerth â chymwysterau TGAU. Teimlai un ymatebydd y dylai ail-frandio hefyd olygu newid enw, gan nad yw Bagloriaeth Cymru yn cael ei deall yn dda. I'r gwrthwyneb, lleisiodd un arall bryder na ddylid colli brand Bagloriaeth Cymru.

"Nid yw'n ymddangos fel petai'r cynnig hwn wedi'i ddatblygu'n ddigonol i allu rhoi eglurder ynghylch statws y Dystysgrif o fewn y system ehangach. Mewn gwrthgyferbyniad â'r penderfyniad i gadw'r brand TGAU, pryderwn bod yna beryg o golli 'brand' Bagloriaeth Cymru, a hynny heb unrhyw ymgynghori penodol ar y mater. Rydym o'r farn y gallai fod yn enw a model gwerthfawr wrth fynd ati i greu system gymwysterau flaengar i Gymru"[68]
Arall

Teimlai un ymatebydd nad yw ysgolion yn cymryd y THS yn ddigon o ddifrif ar hyn o bryd, ac nad yw'n cael digon o amser o fewn y cwricwlwm.

"Mae'r her sgiliau yn gymhwyster gwerth chweil – ond nid yw'n cael digon o amser cwricwlwm ac felly mae'n cael ei drin fel pwnc 'dibwrpas' gan rieni a disgyblion. Dydyn nhw ddim yn ei gymryd o ddifrif achos dyw'r ysgolion ddim yn ei gymryd o ddifrif"
Gweithiwr addysg proffesiynol

9.1.5. Asesu

Soniodd rhai ymatebwyr mai asesu oedd yr agwedd ar y Dystysgrif Her Sgiliau y mae angen ei diwygio fwyaf, gan ei bod yn cyfrannu at y farn fod y cymhwyster yn un *"beichus"*. Awgrymodd un ymatebydd y gellid ei hasesu drwy waith digidol yn unig.

Roedd rhai eraill hefyd yn deisebu am ailwampio'r cynnwys a'r asesu yn llwyr, er mwyn adnewyddu'r cymhwyster.

[67] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg
[68] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

"A wnewch chi feddwl am rywbeth sy'n ffres a newydd a chyffrous ac sy'n addas ar gyfer y byd go iawn. Gallech gynllunio 6 asesiad sy'n ymwneud â chyfathrebu, gan ddefnyddio offer digidol i ddehongli data i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar senarios. Nid oes angen i ni barhau i gael papurau prawf ysgrifenedig hynafol – mae'r byd go iawn yn newid yn gyflym, bydd angen i bobl ifanc fod yn hyblyg, er mwyn gallu cyfathrebu'n fyd-eang a dehongli data. Byddwch yn flaengar i gefnogi pob dysgwr i wireddu'r pedwar diben"
Gweithiwr addysg proffesiynol

9.1.6. Diwygiadau eraill a awgrymir

Gwnaeth y rhai a gefnogai'r cynnig sawl awgrym arall ynghylch sut y gellid diwygio'r cymhwyster. Awgrymodd rhai y gellid cyfuno'r THS â'r Maes Iechyd a Lles, neu ag addysg hawliau dynol.

"Rwy'n credu y dylai'r pwnc THS gynnwys sgiliau gweithio defnyddiol ac Iechyd a Lles gyda'i gilydd"
Dysgwr

Awgrymodd eraill y dylid ei gwneud yn ddewisol, gan honni bod polisi mabwysiadu cyffredinol presennol Llywodraeth Cymru yn gwneud y pwnc yn amhoblogaidd. Ond, i'r gwrthwyneb, roedd un ymatebydd yn mynegi pryder y gallai'r pwnc gael ei drin fel *'ychwanegyn'* ac na fyddai ysgolion yn ei gyflenwi mewn ffordd sy'n hyrwyddo creadigrwydd.

Awgrymodd un ymatebydd y gellid datblygu'r cwricwlwm cyn-TGAU i gefnogi'r gwaith o gydnabod a deall y sgiliau a asesir yn y Dystysgrif Her Sgiliau.

"Gellid ymgorffori creadigrwydd ac arloesedd ymhlith y sgiliau cyfannol mewn sylfaen cyn-TGAU ar gyfer pob plentyn yn seiliedig ar gyfathrebu'n effeithiol, gwrando, cymhwyso creadigrwydd i ddatrys heriau. Mae lle i ddatblygu fframwaith tebyg i Wobr Dug Caeredin, wedi'i deilwra i'r sgiliau hyn a'i gyflwyno yn ystod y cam cywir yn nhaith y dysgwr; gallai fod yn gyfle i arfogi ein pobl ifanc â'r sgiliau hyn yn gynnar yn eu hoes, er mwyn helpu i gyflawni eu potensial fel y gall Cymru lunio model dinasyddiaeth sy'n cefnogi egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol"
Arall

9.1.7. Anghytuno ag asesu sgiliau fel cymhwyster ar wahân

Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig, naill ai gan awgrymu y dylid hepgor y Dystysgrif Her Sgiliau yn gyfan gwbl, neu y dylid cyflawni'r canlyniadau ar draws y Meysydd eraill.

"Byddwn i yn cwestiynu yr angen bellach am y tystysgrif hwn, gan y dylsai y Sgiliau Cyfannol gael eu gwreiddio ym mhob Maes ar draws y cwricwlwm. Maent yn sgiliau sydd angen eu datblygu fel ysgol gyfan. Os oes cymhwyster ar wahân, efallai y bydd yn golygu nad yw pob maes yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn yn llwyr"[69]
Arall

[69] Sylwadau a gyflwynwyd yn wreiddiol yn Gymraeg

10. Asesiad o Effaith

Wrth ddatblygu'r cynigion yn yr ymgynghoriad, ystyriodd Cymwysterau Cymru yr effeithiau y gallai pob cynnig eu cael. Gofynnodd yr arolwg ar-lein a oes unrhyw gamau ychwanegol y gallai Cymwysterau Cymru eu cymryd i leihau'r effeithiau a nodwyd ganddynt. Gofynnodd gwestiynau hefyd am effaith y cynigion ar unigolion neu grwpiau â nodweddion gwarchodedig; ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac mewn perthynas â thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Gofynnodd yr arolwg ar-lein hefyd a allai'r cynigion gael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill.

10.1. Cwestiwn effaith 1

O ran yr effeithiau yr ydym wedi'u nodi, a oes unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i leihau effeithiau negyddol posibl?

Rhoddodd cyfanswm o 99 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn penagored hwn. Ailadroddwyd rhai o'r sylwadau o adrannau cynharach neu nid oeddent yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r cwestiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yma. Mae'r adran hon yn cyflwyno sylwadau sy'n ymwneud yn benodol â chamau y gellid eu cymryd i leihau'r effeithiau posibl.

10.1.1. Sicrhau bod cymwysterau'n diwallu anghenion pob dysgwr

Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r cynigion arwain at gymwysterau sy'n diwallu anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Roedd awgrymiadau penodol yn cynnwys:

- Creu cymwysterau lefel mynediad gyda llwybrau dilyniant priodol ar gyfer dysgwyr llai galluog ym mhob pwnc, nid mewn *"pynciau craidd"* yn unig.
- Cyflwyno asesiadau haenog a pharhaus i leihau'r pryder a achosir gan arholiadau.
- Gwneud mwy o ddefnydd o gymwysterau a phrentisiaethau ymarferol, gan gefnu rhywfaint ar y ffocws presennol ar arholiadau ysgrifenedig.
- Cynnwys cyfeiriad penodol at rwymedigaethau ysgolion i wneud addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gynyddu rhyngweithio dysgwr mewn amgylchedd cynhwysol o fewn canllawiau cymwysterau.
- Rhoi mwy o sylw i ddiagnosis niwroamrywiaeth er mwyn sicrhau bod addysg dysgwyr yn cael ei hasesu'n briodol oherwydd dadleuir bod diffyg dealltwriaeth yn niweidiol i iechyd meddwl a rhagolygon y dyfodol.

"Rwy'n credu bod angen i chi ystyried bod plant â gwahaniaethau niwrolegol yn wahanol mewn llawer o ffyrdd a bod llawer mor ddeallus ag unrhyw blentyn arall, ond byddai'r set bresennol o TGAU yn eu hatal rhag ennill cymwysterau a fyddai o fudd iddynt neu'n dangos pa mor dda ydynt"
Gweithiwr addysg proffesiynol

10.1.2. Mwy o ystyriaeth i lwyth gwaith athrawon

Hoffai llawer o ymatebwyr weld gostyngiad yn y llwyth gwaith i athrawon. Yn benodol, byddent yn hoffi llai o newidiadau i feysydd llafur, sy'n cynnwys llawer iawn o waith. Maent hefyd yn galw am fwy o sicrwydd a rhybudd cynnar o newidiadau sydd i ddod, gan ganiatáu amser i staff baratoi.

"Caniatewch ddigon o amser i ysgolion baratoi, peidiwch â chynhyrchu canllawiau drafft sy'n debygol o gael eu newid yn sylweddol"
Gweithiwr addysg proffesiynol

10.1.3. Mwy o ffocws ar asesiadau sy'n seiliedig ar athrawon

Hoffai rhai ymatebwyr weld system sy'n rhoi llai o bwysau ar bobl ifanc drwy leihau effaith arholiadau arnynt. Mae rhai a fynegodd y farn hon yn credu y byddai asesiadau a arweinir gan athrawon, fel y cynigiwyd gan adroddiad Tomlinson[70], yn fwy priodol, ac yn ofni na fydd y system *"hynafol"* gyfredol lle mae addysgu'n cael ei gyfeirio at lwyddiant mewn arholiadau yn newid o dan y cynigion presennol.

"Yn gwbl absennol yn y cynigion hyn mae lle asesiadau athrawon a'r effaith neu'r dylanwad a gaent ar y cymwysterau TGAU fel yr amlinellir. Felly, byddai'n ymddangos o'r cynigion hyn fod yr arholiad unwaith eto'n cael blaenoriaeth cyn unrhyw drafodaeth am yr hyn sy'n gwneud asesiad da ac yn wir y cwestiwn sylfaenol iawn o beth yw asesiad mewn gwirionedd. Mewn geiriau eraill, rydym yn dechrau o'r pwynt terfyn yn hytrach nag o archwilio cyfoeth y cwricwlwm newydd"
Gweithiwr addysg proffesiynol

10.1.4. Ymgysylltu ac ymgynghori ehangach a mwy amserol

Teimlai rhai ymatebwyr na ddylai'r ymgynghoriad fod wedi'i gynnal yn ystod y pandemig. Teimlai eraill nad oedd y broses ymgynghori yn annog digon o ddadlau a mewnbwn.

"Mae angen sgwrs llawer ehangach cyn unrhyw drafodaeth am gymwysterau. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gul ei gwmpas ac yn fyr ei olwg. Yn wir, mae'r duedd ymwybodol wrth roi'r teitl "Y Dewis Cywir i Gymru" i'r cynigion yn amlwg yn cyfarwyddo'r ymatebydd/ymatebwyr i gytuno â'r cynnwys. Nid yw'r cwestiynau eu hunain yn caniatáu dadl na sgwrs arall sy'n cytuno neu'n anghytuno"
Arall

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai staff addysgu gymryd mwy o ran mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol sy'n ymwneud â diwygio cymwysterau yn barhaus er

[70] Cyflwynodd Adroddiad Tomlinson (2004) ganfyddiadau gweithgor a sefydlwyd gan weinidogion llywodraeth y DU i gynghori ar ddiwygio'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma.

mwyn sicrhau bod y Cwricwlwm i Gymru newydd yn cynnig dull newydd o gyflenwi cymwysterau a symud ymlaen i'r pedwar diben. Awgrymodd un ymatebydd hefyd gynnwys sefydliadau addysg uwch.

"Yr effeithiau negyddol o'ch cynigion fydd nad yw athrawon uwchradd yn gweld unrhyw newid yn y cymwysterau TGAU, a byddwn yn parhau â system sydd wedi torri sy'n methu'r rhan fwyaf o'n pobl ifanc. Felly, er mwyn osgoi hyn - bydd angen ymgysylltu â'r athrawon/pobl sy'n ymwneud ag ysgrifennu'r Cwricwlwm i Gymru ... Dyma gyfle unwaith mewn oes i addysgu ein pobl ifanc ar gyfer yr 21ain Ganrif ac mae'n rhaid manteisio arno. Nid yw'r cynigion yn ddim ond mân dwtio o amgylch yr ymylon. Mae angen i ymarferwyr yn yr ysgol weld bod newid sylfaenol yn digwydd"
Gweithiwr addysg proffesiynol

10.1.5. Asesu effaith a monitro parhaus ar gyfer unrhyw effeithiau anghymesur y cynigion ar ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig

Sylwodd un ymatebydd nad oedd yr ymgynghoriad yn cyflwyno unrhyw ganfyddiadau ar yr asesiad effaith a gynhaliwyd ac nad oedd ychwaith wedi nodi unrhyw effeithiau penodol na materion cydraddoldeb. Byddai'n hoffi petai asesiadau manwl pellach o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal cyn gwneud unrhyw newidiadau. Yn benodol, hoffent weld effeithiau posibl y newidiadau arfaethedig i'r cymwysterau TGAU mewn Cymraeg a Saesneg iaith a llenyddiaeth, cymwysterau Cymraeg, y cymwysterau yn y Maes Mathemateg a Rhifedd, cymwysterau llai, TGAU mewn ieithoedd rhyngwladol, a'r Dystysgrif Her Sgiliau (THS).

"Dylai dadansoddiad data o batrymau defnyddio a chyrhaeddiad ei gwneud yn bosibl penderfynu a yw'n debygol y bydd unrhyw effaith anghymesur ar unrhyw grŵp ethnig, rhyw, grŵp crefyddol, pobl anabl neu ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ... Mae monitro a gwerthuso effaith y newidiadau yn barhaus yn ofyniad a dylai Cymwysterau Cymru barhau i ystyried yr holl wybodaeth berthnasol er mwyn sicrhau bod yr effaith yn cyd-fynd â'r hyn a ragwelwyd a chymryd camau perthnasol lle nad yw hyn yn wir"
Arall

Tynnodd ymatebydd arall sylw at y cysylltiad rhwng statws economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad addysgol a galwodd am gynllunio cymwysterau i gyfyngu ar effeithiau andwyol ar ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Roedd yr ymatebydd hwn am weld mynediad teg at y cymwysterau TGAU, y THS a'r cymwysterau eraill ar eu newydd wedd. Roeddent yn argymell cynhyrchu canllawiau penodol i sicrhau bod newidiadau i gymwysterau yn cefnogi'r nod o leihau bylchau cyrhaeddiad, a allai fod yn arbennig o berthnasol pan gynhelir asesiad gan staff mewn ysgolion.

10.1.6. Sicrhau adnoddau, offer a meddalwedd priodol

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr angen i ryddhau canllawiau ac adnoddau addysgu cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar yr un pryd. Un angen penodol a nodwyd gan un ymatebydd oedd mynediad cyfartal at offer a meddalwedd cyfrifiadurol mewn ysgolion, yn enwedig ar gyfer cymwysterau yn y Maes Celfyddydau Mynegiannol. Fodd bynnag, credant na ddylai buddsoddi mewn meddalwedd drud fod yn ofyniad ar gyfer cymwysterau newydd nac i ddysgwyr lwyddo mewn pwnc.

"Dylai'r meddalwedd y mae disgyblion yn ei ddefnyddio ar Hwb (sydd eisoes yn sylweddol ac yn lle a ddefnyddir gan ddisgyblion) fod yn ddigon i ddisgyblion gyflawni'r marciau gorau mewn TGAU. Mae hyn yn negyddu buddsoddiad trwm gan ysgolion ac unigolion ... gall buddsoddiad trwm a wneir gan ysgol ar gyfer meddalwedd fod yn ddiwerth os na chyrhaeddir niferoedd hyfyw ddwy neu dair blynedd yn ddiweddarach. Hefyd, mae angen amser ar ddisgyblion CA2 a 3 i ddysgu'r meddalwedd ... gall diweddaru meddalwedd fod yn gostus hefyd. Mae'r rhain i gyd yn ystyriaethau dilys a all yn aml atal ysgol rhag cynnig opsiwn penodol neu ddisgyblion rhag ei gymryd"
Gweithiwr addysg proffesiynol

10.1.7. Awgrymiadau mewn perthynas â TGAU

Beirniadodd rhai ymatebwyr yr ymgynghoriad am eu bod yn teimlo ei fod yn hyrwyddo'r gyfres bresennol o gymwysterau TGAU, ac na fyddai'r cynigion a amlinellwyd yn cyflawni uchelgeisiau'r cwricwlwm newydd yn ddigonol. Cyfeiriodd ymatebydd at yr adolygiad annibynnol o drefniadau haf 2020 i ddyfarnu graddau ac ystyriaethau ar gyfer haf 2021 (fel y'u diffiniwyd yn flaenorol) lle amlygwyd y cyfle i *"ailwampio asesiadau ac arholiadau"*, i *"ddiwallu anghenion pob dysgwr yng Nghymru"*. Teimlai un ymatebydd y dylid cynnig llai o gymwysterau TGAU.

10.1.8. Sicrhau bod y cynigion yn hyrwyddo mynediad teg at gymwysterau ledled Cymru

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at faterion yn ymwneud ag anghydraddoldeb mynediad ledled Cymru yr hoffent eu gweld yn cael sylw. Yn benodol, nodwyd bod y cymwysterau bach arfaethedig yn mentro cael eu cynnig mewn rhai meysydd ac nid eraill, neu hyd yn oed yn lle TGAU.

Dywedwyd y gallai'r cynnig i beidio â datblygu TGAU Dawns gwneud-i-Gymru *"gau opsiwn a allai gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr anabl a'r rhai o gefndiroedd ethnig a diwylliannol amrywiol"*.

Galwodd un ymatebydd am gystadleuaeth deg rhwng CBAC a chyrff dyfarnu eraill i alluogi dysgwyr yng Nghymru i gael yr un dewis o gymwysterau â'u cyfoedion yn Lloegr, fel nad ydynt o dan anfantais o'u cymharu â hwy. Teimlai rhai fod mynnu bod pob cymhwyster ar gael yn Gymraeg yn cyfyngu ar fynediad at gymwysterau y tu allan i Gymru, yn enwedig ar gyfer pynciau prin eu defnydd. Dywedasant fod hyn yn anfantais i ddysgwyr Cymru.

Roedd rhai ymatebwyr am weld yr un cymwysterau ar gael i ddysgwyr Cymraeg sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg â thrwy gyfrwng y Saesneg; felly, roeddent yn cytuno â Chymwysterau Cymru y dylai'r holl gymwysterau gwneud-i-Gymru fod ar gael yn Gymraeg.

Roedd ymatebydd arall yn ofni na fyddai dysgwyr mewn ysgolion llai yn gallu cael yr un ystod o gymwysterau â'u cyfoedion mewn ysgolion mwy, gan nad oes gan ysgolion llai yr un nifer o staff arbenigol i ddarparu'r ystod lawn o gymwysterau.

"Rwy'n credu y bydd ysgolion llai o faint o dan anfantais sylweddol - a'r disgyblion ynddynt - os byddwch yn ehangu'r opsiynau'n ormodol, ni fyddant yn gallu cynnig ystodau eang o bynciau"
Gweithiwr addysg proffesiynol

10.1.9. Ystyried goblygiadau'r cynigion ar gyfer addysg ôl-16

Mae'n debyg nad yw'r cynigion wedi ystyried eu heffaith ar ailsefyll TGAU mewn mathemateg, Cymraeg na Saesneg, yn ôl un ymatebydd. Mynegwyd pryderon ganddynt ynghylch darparu ar gyfer ailsefyll o fewn amserlenni presennol sefydliadau addysg bellach, a theimlent, er mwyn darparu ar gyfer ailsefyll, y gallai fod angen iddynt gynnig cymwysterau eraill yn hytrach na TGAU.

"... maent fel arfer yn chwilio am ddilyniant i gyrsiau eraill ac efallai y byddai angen i AB edrych ar addasrwydd cyfres o gymwysterau SHC[71] fel y llwybr at gymwysterau L2 neu L3 yn hytrach na'r llwybr 1.5 TGAU"
Gweithiwr addysg proffesiynol

Roedd un ymatebydd a oedd yn gweithio mewn addysg ôl-16 yn pryderu am yr effaith y bydd ailstrwythuro TGAU yn ei chael ar Safon Uwch.

[71] SHC = Sgiliau Hanfodol Cymru. Cynigir cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru gan Gydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC), Agored Cymru, Pearson, a City and Guilds i asesu'r ystod o sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr ar gyfer dysgu, cyflogaeth a bywyd llwyddiannus. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma ar wefan CBAC.

10.2. Cwestiwn effaith 2

A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig nad ydym wedi'u nodi?

Ffigur 24: Cyfran yr ymatebwyr sy'n nodi effeithiau ychwanegol y cynigion ar y rhai â nodweddion gwarchodedig



Atebodd cyfanswm o 190 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd 8% yn credu bod effeithiau cadarnhaol ychwanegol, ac roedd 17% yn credu bod effeithiau negyddol ychwanegol. Dylid nodi y gallai ymatebwyr nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol. Dywedodd tri o bob pump (61%) nad oeddent yn siŵr a oedd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill, a dywedodd 17% arall nad oedd unrhyw effeithiau eraill.

Rhoddodd cyfanswm o 30 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Trafodir y prif themâu a amlinellir yn eu hadborth isod.

- Teimlai llawer o'r ymatebwyr y byddai'r cynigion yn rhoi dysgwyr llai galluog dan anfantais, a hynny ar ei amlycaf drwy ddiffyg cymwysterau lefel 1 neu lefel mynediad yn Saesneg, maint mwy rhai o'r cymwysterau arfaethedig, y bwriad i gyfuno TGAU mewn iaith a llenyddiaeth Gymraeg ac iaith a llenyddiaeth Saesneg, a chynigion yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg.
- Awgrymwyd y byddai dysgwyr â namau neu anableddau sy'n arwain at fwy o absenoldeb yn ei chael yn anos dal i fyny wrth astudio'r cymwysterau TGAU cyfunol. Dywedwyd y byddai dysgwyr llai galluog hefyd yn cael trafferth gyda chynnwys heriol y TGAU Cymraeg gyfunol.

- Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r cynigion yn helpu i ddiwallu anghenion dysgwyr llai galluog drwy gynnig cymwysterau sy'n cael eu hasesu ar-lein, dulliau sgiliau integredig, a mwy o ehangder dysgu a gynigir gan y newidiadau arfaethedig i gymwysterau yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg.
- Codwyd yr angen i sicrhau bod pob cymhwyster yn cynnig her briodol i ddysgwyr o bob gallu, gyda dymuniad i osgoi'r risg y gwelir bod rhai cymwysterau yn fwy *"academaidd"* nag eraill.
- Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr angen i sicrhau nad oedd y cynigion yn creu rhwystrau newydd nac yn methu â dileu'r rhwystrau presennol i ddysgwyr o gefndiroedd llai cyfoethog, yn enwedig mewn perthynas â chymwysterau mewn cemeg a ffiseg, a oedd yn tueddu i gael eu hastudio gan ddysgwyr o gefndiroedd mwy cyfoethog, dywedwyd.
- Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell i sicrhau y byddai cymwysterau yng Nghymru yn sicrhau newid cadarnhaol ac yn addas i ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd diwylliannol amrywiol.
- Fel y nodwyd mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, dywedwyd unwaith eto nad oedd gan TGAU Hanes gynrychiolaeth ehangach o safbwyntiau treftadaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME).

10.3. Cwestiwn effaith 3

A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nad ydym wedi'u nodi?

Ffigur 25: Cyfran yr ymatebwyr yn nodi effeithiau ychwanegol y cynigion ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg



Atebodd cyfanswm o 189 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Dywedodd 16% fod effeithiau negyddol eraill, a dywedodd 8% fod effeithiau cadarnhaol eraill. Dylid nodi y gallai ymatebwyr nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol. Dywedodd tua hanner (51%) nad oeddent yn siŵr a oedd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol a dywedodd tuag un o bob pedwar (27%) nad oedd unrhyw effeithiau eraill.

Rhoddodd 32 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod. Nid oedd rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ateb y cwestiwn yn uniongyrchol. Mae'r sylwadau hyn wedi'u hepgor o'r dadansoddiad; dim ond y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cwestiwn sydd wedi'u cynnwys.

- Teimlai rhai ymatebwyr y gallai dysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg fod dan anfantais oherwydd gorddibyniaeth Cymru ar gymwysterau a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr nad ydynt bob amser ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Awgrymwyd felly y dylai'r holl gymwysterau fod ar gael i'r un graddau yn Gymraeg a Saesneg yn ôl y gofyn.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr sut y gallai'r cynigion gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys trochi dysgwyr mewn llenyddiaeth Gymraeg i helpu gyda'u datblygiad cyffredinol; sicrhau bod y

Gymraeg yn cael ei hintegreiddio drwy'r cwricwlwm cyfan; a phwysleisio bod y cymwysterau arfaethedig wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer Cymru.

- Dywedodd rhai ymatebwyr y byddent yn croesawu cyflwyno cymhwyster Celfyddydau Mynegiannol integredig cyfrwng Cymraeg ynghyd â chyfres o gymwysterau Cymraeg bach ar gyfer dysgwyr ôl-16.
- Holodd un ymatebydd hefyd a fyddai sgiliau iaith newydd yn cynnwys cyfryngu a thrawsieithu.

10.4. Cwestiwn effaith 4

A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol nad ydym wedi'u nodi mewn perthynas â thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg?

Ffigur 26: Cyfran yr ymatebwyr sy'n nodi effeithiau ychwanegol y cynigion mewn perthynas â thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol



Atebodd cyfanswm o 191 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Nododd 7% effeithiau cadarnhaol ychwanegol a nododd 20% effeithiau negyddol ychwanegol. Dywedodd ychydig o dan hanner (46%) nad oeddent yn siŵr a oedd unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol a dywedodd 29% arall nad oedd unrhyw effeithiau eraill.

Rhoddodd 35 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod. Nid oedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a gafwyd yn ateb y cwestiwn yn uniongyrchol. Mae'r sylwadau hyn wedi'u hepgor o'r dadansoddiad; dim ond y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cwestiwn sydd wedi'u cynnwys.

- Nododd dau ymatebydd fod effeithiau cadarnhaol ychwanegol ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg. Dywedasant y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, ac yn sicrhau parch ati drwy sicrhau dewis cyfartal, cydlynol a dwyieithog o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed.
- Fel y nodwyd mewn perthynas â chynigion lluosog ac mewn mannau eraill yn yr ymatebion i gwestiynau effaith, roedd rhywfaint o deimlad y byddai gorddibyniaeth ar gymwysterau a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr yn rhoi dysgwyr dan anfantais mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

- Dylai cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac unrhyw adnoddau addysgu a dysgu ategol gael eu datblygu ochr yn ochr â'i gilydd a bod ar gael ar yr un pryd, yn ôl rhai ymatebwyr.
- Teimlai rhai ymatebwyr y gallai cynigion Cymraeg yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu arwain mwy o ddysgwyr yng Nghymru at ddewis addysg cyfrwng Saesneg dros ysgolion cyfrwng Cymraeg.

10.5. Cwestiwn effaith 5

A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill nad ydym wedi'u nodi?

Ffigur 27: Cyfran yr ymatebwyr sy'n nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill gan y cynigion



Atebodd cyfanswm o 188 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Nid oedd un o bob pedwar (26%) yn credu bod unrhyw effeithiau eraill. Nododd 5% effeithiau cadarnhaol eraill a nododd 15% effeithiau negyddol eraill. Roedd bron i dri o bob pump (58%) yn ansicr a oedd unrhyw effeithiau anhysbys.

Rhoddodd 24 o ymatebwyr sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Amlinellir y prif themâu a nodir yn eu hadborth isod.

Tynnodd un ymatebydd sylw at effeithiau cadarnhaol: mwy o gydweithio rhwng staff, rhannu arfer da, ac atgyfnerthu medrau allweddol i ddysgwyr. Amlygodd yr holl sylwadau eraill effeithiau negyddol, a grynhoir isod.

- Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd y cynigion yn cyd-fynd yn ddigon agos â'r Cwricwlwm i Gymru newydd. Roeddent yn pryderu na fydd addysg yng Nghymru yn gwella oni bai bod pob dysgwr yn gallu cael at gymwysterau a llwybrau addas sy'n gwireddu dibenion ac egwyddorion y Cwricwlwm newydd.
- Teimlai un ymatebydd y byddai'r cynigion yn achosi *"dysgu at brawf"* yn hytrach na dysgu ar gyfer mwynhad ac amrywiaeth cyd-destun, ac y byddent yn creu dewisiadau cul sy'n cyfyngu ar opsiynau'n rhy gynnar yn hytrach na meithrin dysgu eang. Dadleuodd yr ymatebydd hwn yn hytrach o blaid system asesu sy'n caniatáu disgrifiad o gyrhaeddiad ar draws ystod ehangach o sgiliau,

gwybodaeth a phrofiadau. Gellid cyflawni hyn drwy weithredu model mwy hyblyg, fel y Dystysgrif Her Sgiliau, sy'n caniatáu i ddysgwyr astudio ystod eang o bynciau gan allu datblygu diddordebau penodol yn fanylach ar yr un pryd, meddai.

- Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai cyfuno pynciau yn eu gwanhau ac yn peri iddynt golli eu hunaniaeth unigol.
- Dadleuodd rhai y byddai dileu cymwysterau TGAU yn y tair gwyddoniaeth ar wahân a'u disodli â'r TGAU Gwyddoniaeth arfaethedig yn atal dysgwyr rhag cyflawni TGAU uwch mewn un wyddoniaeth; yn cyfyngu ar opsiynau dysgwyr mewn gwyddoniaeth; yn arwain at golli staff; ac yn y pen draw llai o ymgysylltu â gwyddoniaeth.
- Roedd dyfodol y ddarpariaeth ddawns i ddysgwyr 14 oed a throsodd yn bryder penodol i un ymatebydd a dynnodd sylw at nifer o faterion mynediad a materion yn ymwneud â chydraddoldeb pe na bai dysgwyr yn gallu cael at ddawns yn yr ysgol: cyfyngu ar gyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg astudio dawns ôl-16; anfanteisio dysgwyr benywaidd a'r rhai sy'n ddifreintiedig yn economaidd; a ffafrio dysgwyr yn ne Cymru lle mae darpariaeth ddawns breifat yn fwy hygyrch nag yng ngogledd Cymru.
- Galwodd un ymatebydd hefyd am ystyried yn ofalus adolygu a diwygio cymwysterau TAG/lefel 3, yng ngoleuni'r newidiadau arfaethedig i gymwysterau TGAU, gan ddweud bod angen ystyried yn llawn effaith y cynigion ar y sector ôl-16.
- Beirniadodd ambell un hefyd y dull ymgynghori, gan ddweud nad oedd y cwestiynau ymgynghori yn caniatáu digon o ddadlau.
- Roedd un ymatebydd yn pryderu na fyddai ysgolion bach yn gallu cynnig yr ystod lawn o gymwysterau a gynigiwyd gan fod ganddynt lai o staff addysgu.
- Beirniadodd un ymatebydd y cynnig i sicrhau cymwysterau a wnaed ar gyfer Lloegr i Gymru mewn pynciau sy'n denu nifer isel o ddysgwyr, megis dawns, y Celfyddydau Mynegiannol amlddisgyblaethol, BSL, ac Iechyd a Lles. Dywedasant nad goblygiadau ariannol creu cymwysterau gwneud-i-Gymru yn y pynciau hyn ddylai fod y ffactor pwysicaf sy'n sbarduno eu datblygiad. Yn yr un modd, pwysleisiodd ymatebydd arall y byddai dysgwyr mewn ysgolion yng Nghymru dan anfantais oherwydd cymwysterau a wnaed ar gyfer Lloegr ac y byddent yn diystyru profiadau dysgu lleol.
- Cododd ymatebydd arall yr angen i sicrhau bod y cynigion yn arwain at gymwysterau sy'n diwallu anghenion pob dysgwr.
- Yn olaf, teimlai un ymatebydd y dylai ysgolion allu dylunio eu hasesiadau a'u cymwysterau lleol eu hunain, gan ddefnyddio arferion da cyfredol a blaenorol (e.e. Agored Cymru a'r Dystysgrif Addysg Uwchradd flaenorol [CSE]), a chynnwys cymunedau lleol, rhanddeiliaid ac arbenigwyr mewn dysgu.

Atodiad

Tabl o'r Ffigurau

Ffigur 1: Lefel y cytundeb â phob pwnc yng nghynnig 1 ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol 7
Ffigur 2: Lefel y cytundeb â chynnig 2 ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol 12
Ffigur 3: Lefel y cytundeb â chynnig 3 ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol 16
Ffigur 4: Lefel y cytundeb â chynnig 4 ym Maes y Celfyddydau Mynegiannol 21
Ffigur 5: Lefel y cytundeb â chynnig 1 yn y Maes Iechyd a Lles 25
Ffigur 6: Lefel y cytundeb â phob pwnc yng nghynnig 2 yn y Maes Iechyd a Lles 33
Ffigur 7: Lefel y cytundeb â phob pwnc o dan gynnig 1 ym Maes y Dyniaethau 41
Ffigur 8: Lefel y cytundeb â chynnig 2 ym Maes y Dyniaethau 51
Ffigur 9: Lefel y cytundeb â chynnig 3 ym Maes y Dyniaethau 56
Ffigur 10: Lefel y cytundeb â chynnig 1 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu 62
Ffigur 11: Lefel y cytundeb â chynnig 2 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu 68
Ffigur 12: Lefel y cytundeb â chynnig 3 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu 75
Ffigur 13: Lefel y cytundeb â chynnig 4 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu 80
Ffigur 14: Lefel y cytundeb â chynnig 5 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu .**Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 15: Lefel y cytundeb â chynnig 6 yn y Maes Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu 89
Ffigur 16: Lefel y cytundeb â chynnig 1 yn y Maes Mathemateg a Rhifedd 92
Ffigur 17: Lefel y cytundeb â chynnig 2 yn y Maes Mathemateg a Rhifedd 96
Ffigur 18: Lefel y cytundeb â chynnig 3 yn y Maes Mathemateg a Rhifedd 101
Ffigur 19: Lefel y cytundeb â phob pwnc yng nghynnig 1 yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg 104
Ffigur 20: Lefel y cytundeb â chynnig 2 yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg 110
Ffigur 21: Lefel y cytundeb â chynnig 3 yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg 116
Ffigur 22: Lefel y cytundeb â chynnig 4 yn y Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg 124
Ffigur 23: Lefel y cytundeb â'r cynnig Sgiliau Cyfannol 130
Ffigur 24: Cyfran yr ymatebwyr yn nodi effeithiau ychwanegol y cynigion ar y rhai â nodweddion gwarchodedig 139
Ffigur 25: Cyfran yr ymatebwyr yn nodi effeithiau ychwanegol y cynigion ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg 141
Ffigur 26: Cyfran yr ymatebwyr yn nodi effeithiau ychwanegol y cynigion mewn perthynas â thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol 143
Ffigur 27: Cyfran yr ymatebwyr sy'n nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill gan y cynigion 145